

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL: 93/2025

DYDDIAD CYHOEDDI: 30/09/2025

Y Warrant i Bobl Ifanc: gwerthusiad proses

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-445-2

Teitl : Y Warant i Bobl Ifanc

Isdeitl: gwerthusiad proses

Authors: Dr Duncan Holtom, gyda Rhodri Bowen ac Emma Preece

Adroddiad Ymchwil Llawn: Holtom, D. gyda Bowen, R. a Preece, E. (2025), Y Warant I Bobl Ifanc: gwerthusiad proses. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 93/2025.

Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/y-warant-i-bobl-ifanc-gwerthusiad-proses>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Dr Lydia Lewis

Adran: Sgiliau

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000 252828

E-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

Cydnabyddiaethau

Hoffai'r awduron ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i gefnogi'r gwerthusiad drwy weithdai, cyfweiliadau a thrwy ymateb i geisiadau am wybodaeth a data.

Diolch yn arbennig hefyd i Dr Lydia Lewis, Dr James Carey, Andrew Chapman, Joe Davies, David Heath, Sam Evans, Sam Huckle a Lowri Reed o Lywodraeth Cymru, Jon Coen o Gyrfa Cymru, a Dr Sarah Lloyd-Jones, Dr Leon Quinn, James Watt Rees, Tomas Jenkins ac Ann Churcher o Pobl a Gwaith neu sy'n gweithio gyda nhw, am eu syniadau, sylwadau, awgrymiadau a chymorth golygyddol ar yr adroddiad hwn.

Tabl cynnwys

1.	Cyflwyniad	8
2.	Cwestiynau gwerthuso	133
3.	Methodoleg	18
4.	Meddwl ac ymddygiad pobl ifanc 16 i 24 oed	41
5.	Y system o gymorth EET i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed	56
6.	Dyluniad y Warant a'r Fframwaith.....	72
7.	Gweithredu a chyflawni'r Warant	92
8.	Llunio'r system o gymorth EET i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed	128
9.	Profiadau pobl ifanc o bontio yn 16 a 18 oed.....	155
10.	Trafodaeth: cynnig cymorth i bob person ifanc?	188
11.	Trafodaeth: system syml i gael mynediad at gymorth a chyfleoedd i bobl ifanc?	198
12.	Casgliadau a myfyrdodau ar y Warant a'r Fframwaith	210
13.	Cyfeiriadau	226

Rhestr o dablau

Tabl 3.1. Data rhaglenni a ddarperir gan raglenni a gwasanaethau'r Warant 2021 i 2024	22
Tabl 3.2. Cyfveliadau â gwneuthurwyr polisi, rheolwyr ac ymarferwyr: samplu	24
Tabl 3.3. Nodweddion dethol y safleoedd awdurdod lleol a samplwyd	27
Tabl 3.5. Nodweddion pobl ifanc y cyfwelwyd â nhw o gymharu â'r targedau gwreiddiol.	35
Tabl 6.1. Cymhariaeth o'r Warant a'r Fframwaith	89
Tabl 7.1. Statws pobl ifanc 16 i 18 oed a 19 i 24 oed sy'n byw yng Nghymru ar adeg ymuno â Cymru'n Gweithio, wedi'i gyfrifo yn seiliedig ar gyfartaledd blynyddol dros ddwy flynedd ariannol (2022 i 2023 a 2023 i 2024)	106

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1.1. Enghreifftiau o'r systemau gwahanol sy'n llunio meddwl ac ymddygiad pobl ifanc yn 16 oed	11
Ffigur 3.1. Trosolwg o'r ffynonellau allweddol o ddata sylfaenol ac eilaidd	20
Ffigur 4.1. Y Fframwaith COM-B (Galluogrwydd, Cyfle, Cymhelliant – Ymddygiad)	42
Ffigur 4.2. Darlun o'r berthynas rhwng cyd-destun, galluoedd, cyfleoedd swyddi a chymhelliant.....	46
Ffigur 4.3. Enghraifft o ffactorau agosaf ac eithaf.....	47
Ffigur 4.4. Enghreifftiau o'r ffyrdd y mae'r cyd-destun cymdeithasol, gwleidyddol, economaidd a diwylliannol yn llunio galluoedd, cyfleoedd, cymhelliant ac ymddygiad Cenhedlaeth Z.....	51
Ffigur 4.5. Enghreifftiau o effaith ymatebion cymdeithasol, economaidd a pholisi i bandemig COVID-19 ar alluoedd, cyfleoedd, cymhellion ac ymddygiad pobl ifanc mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth	53
Ffigur 5.1. Y system gymorth EET ôl-16 yng Nghymru	58
Ffigur 5.2. Map Polisi Llywodraeth Cymru: cymorth i bobl ifanc ymgysylltu ag EET	61
Ffigur 6.1. Dyluniad Cam 1 y Warant	80
Ffigur 6.2. Cam 1 y Warant: cyfrannu at alluoedd a chymhelliant pobl ifanc a'u mynediad at gyfleoedd	83
Ffigur 6.3. Camau 2 a 3 o'r Warant: cyfrannu at alluoedd a chymhelliant pobl ifanc a'u mynediad at gyfleoedd.....	85
Ffigur 7.1. Cyfrifoldebau am wahanol elfennau'r Warant.....	93
Ffigur 7.2. Newidiadau yn nifer y cyfranogwyr (16+ oed) a ymgysylltodd â CfW+ yn y blynyddoedd ariannol 2018 i 2024 [Nodyn 1], a chan CfW ym mlynnyddoedd ariannol 2018 i 2023	116
Ffigur 8.1. Cynrychiolaeth wedi'i symleiddio o'r cylch llunio polisi	129
Ffigur 9.1. Y Cwrs Afon Ôl-16	186
Ffigur 10.1. Ymatebion Arolwg Omnibws Sgwrs Genedlaethol 2023 i'r cwestiwn 'a pha rai o'r rhaglenni/ ymyriadau canlynol, os o gwbl, sy'n gallu helpu i gefnogi pobl ifanc gyda'u haddysg, eu hyfforddiant neu eu cyflogaeth ydych chi wedi clywed amdanynt?'	190

Ffigur 10.2. Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru yn ôl oedran, cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ym mis Medi 2024	191
Ffigur 11.1. Ymatebion arolwg omnibws cenedlaethol 2023 i'r cwestiwn: 'Gan feddwl am addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, o ble rydych chi'n cael gwybodaeth a/neu gyngor ar hyn o bryd?'	203
Ffigur 11.2. Ymatebion Arolwg Omnibws Cenedlaethol 2023 i'r cwestiwn: Pa rai, os o gwbl, o'r datganiadau isod sy'n berthnasol i chi?.....	205
Ffigur 11.3. Enghraifft o sut y gallai person ifanc weld gwahanol lwybrau ar ddiwedd blwyddyn 11.....	207
Ffigur 11.4. Cyfranogiad pobl ifanc yng Nghymru mewn addysg amser llawn yn ôl lefel astudio ac oedran, 2018 a 2023.....	209
Ffigur 12.1. Cyfranogiad pobl ifanc 16 i 18 oed a 19 i 24 oed mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yng Nghymru, 2014 i 2023	217

Rhestr termau

ADHD	Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd
AIF	Y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
DDdY	Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol
AMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion
ABB	Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth
ASD	Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth
BC	Busnes Cymru
DG	Dull Galluedd
CAMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
AGC	Arolygiaeth Gofal Cymru
GGE	Gwerthusiad Gwrthffeithiol o Effaith
CFW	Cymunedau am Waith
CFW+	Cymunedau am Waith a Mwy
CLES	Y Ganolfan Strategaethau Economaidd Lleol
CoE	Cyngor Ewrop
CV	Curriculum Vitae
GC	Gyrfa Cymru
CWRE	Gyrfaoedd a Phrofiadau Byd Gwaith
CWVYS	Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol
DID	Gwahaniaeth mewn gwahaniaethau
DWP	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
AG	Asesiad Gwerthusadwydd
EEB	Biwroau Cyflogaeth a Menter
EET	Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant
EETSE	Addysg, Cyflogaeth, Hyfforddiant neu Hunangyflogaeth
LCA	Lwfans Cynhaliaeth Addysg
EPC	Cydlynnydd Ymgysylltiad a Chynnydd
ERDF	Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
LCC	Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
ESB	Bwrdd Cyflogadwydd a Sgiliau

CGE	Cronfa Gymdeithasol Ewrop
UE	Yr Undeb Ewropeaidd
AB	Addysg Bellach
SAB	Sefydliadau Addysg Bellach
FfBB	Ffederasiwn Busnesau Bach
GSR	Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth
AU	Addysg Uwch
CCAUC	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
HESA	Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch
AGIC	Arolygiaeth Iechyd Cymru
HMPPS	Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi
IAG	Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad
CDU	Cynllun Datblygu Unigol
ILO	Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol
JCP	Canolfan Byd Gwaith
JETS	Cymorth wedi'i Dargedu at gael Swydd
TSC+	Twf Swyddi Cymru a Mwy
JSA	Lwfans Ceisio Gwaith
KAS	Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
DPA	Dangosydd Perfformiad Allweddol
ALI	Awdurdod Lleol
AAD	Anawsterau a/neu Anableddau Dysgu
AALI	Awdurdod Addysg Lleol
LEO	Canlyniadau Addysgol Hydredol
BILI	Bwrdd Iechyd Lleol
LLWR	Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru
CDS	Cynllun Dysgu a Sgiliau
LFS	Arolwg o'r Llafurlu
LWI	Y Sefydliad Dysgu a Gwaith
GR	Gwybodaeth Reoli
NATCEN	Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol
NDC	Cyflyrau Niwroddatblygiadol
NEET	Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

ODPM	Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog
SYG	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
OoWS	Gwasanaeth Di-waith
PaCE	Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth
PfG	Y Rhaglen Lywodraethu
PLA	Cyfrif Dysgu Personol
CYBLD	Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion
PMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Sylfaenol
PSM	Paru Sgôr Tueddiad
QCA	Dadansoddiad Cymharol Ansoddol
RDD	Cynllun Atal Atchweliad
PSRh	Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
SCQF	Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban
SFR	Datganiad Ystadegol Cyntaf
SMD	Model Cymdeithasol o Anabledd
BBaCh	Busnesau Bach a Chanolig
SPF	Y Gronfa Ffyniant Gyffredin
TUC	Cyngres yr Undebau Llafur
TWE	Profiad Gwaith wedi'i Deilwra
CC	Credyd Cynhwysol
UCAS	Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau
WBFGA	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
DSW	Dysgu Seiliedig ar Waith
WEN	Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod
CLILC	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
CG	Cymru'n Gweithio
YEI	Y Fenter Cyflogaeth Ieuenctid
Y Fframwaith	Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid
Y Warrant	Y Warrant i Bobl Ifanc
YTS	Cynllun Hyfforddi Ieuenctid

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae'r Warant i Bobl Ifanc (y Warant) yn un o ymrwymadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, a lansiwyd gan Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi ar y pryd, ym mis Tachwedd 2021. Mae diben datganedig y Warant yn ddeublyg:
- 'darparu cymorth i bobl ifanc 16 i 24 oed yng Nghymru i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, neu gymorth i fynd i waith neu hunangyflogaeth'; a
 - 'sicrhau system fwy cydlynol, syml a hygyrch i (...) bobl ifanc gael mynediad i'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael iddynt' (Llywodraeth Cymru, 2022a, tt. 3-9).
- 1.2. Mae'r Warant wedi'i bwriadu i gyfrannu at 'ddarparu'r [Cynllun Sgiliau a Chyflogadwyedd](#), y Cynllun Gweithredu Economaidd a'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd leuenctid' (Llywodraeth Cymru, 2022a, t. 3).
- 1.3. Mae'r [Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd leuenctid](#) (y Fframwaith), a gyhoeddwyd gyntaf yn 2013 a'i adnewyddu yn 2022, yn ategu'r Warant ac mae'n ceisio cefnogi'r gwaith o fynd ati'n gynnar i 'adnabod y bobl ifanc 11 i 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) neu'n ddigartref, neu mewn perygl o fod yn hynny, i ddeall eu hanghenion, rhoi cymorth a/neu ddarpariaeth briodol ar waith a monitro eu cynnydd' (Llywodraeth Cymru, 2022b, t. 2).
- 1.4. Nod y Warant a'r Fframwaith yw cyfrannu at [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#) a'r [dangosyddion a'r cerrig milltir cenedlaethol](#) (a ddefnyddir i fesur cynnydd yn erbyn nodau llesiant), yn benodol:
- bydd o leiaf 90 y cant o'r rhai 16 i 24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050
 - dileu'r bwlch rhwng cyfradd gyflogaeth Cymru a chyfradd y DU erbyn 2050, gan ganolbwyntio ar waith teg a chynyddu nifer y bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n cyfranogi yn y farchnad lafur (Llywodraeth Cymru, 2022a, t. 4).

Cwmpas y Warant

- 1.5. Mae'r Warant yn cynnwys sawl rhan, ac mae diffinio ei ffiniau a'i chwmpas yn heriol. At ddibenion y gwerthusiad hwn, mae'r Warant wedi'i diffinio fel cynnig cymorth i ddod o hyd i le mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (EET), yn hytrach na chynnig swydd neu le penodol mewn addysg neu hyfforddiant. Mae prentisiaethau, sydd wedi'u cynnwys yn y Warant ac sy'n cynnig cymorth i bobl ifanc ennill y sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt i wneud cynnydd, yn eithriad rhannol i'r diffiniad hwn (Llywodraeth Cymru, 2023a). Mae cynnig cymorth y Warant yn cynnwys rhaglenni cymorth cyflogadwyedd, fel Twf Swyddi Cymru + (TSC+) a Cymunedau am Waith a Mwy (CfW+) sy'n cynnig addysg a hyfforddiant. Mae'r cynnig hefyd yn cwmpasu cymorth addysg a hyfforddiant a ddarperir mewn lleoliadau addysg a hyfforddiant, fel ysgolion a cholegau¹.

¹ Defnyddiwn y term 'college' i ddisgrifio'r 12 coleg sy'n darparu cyrsiau addysg bellach yng Nghymru: Coleg Pen-y-bont, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Gwent, Coleg Ceredigion, Coleg Sir Gâr, Coleg Y Cymoedd, Coleg Gŵyr, Abertawe, Grŵp Llandrillo Menai, Grŵp NPTC, Coleg Sir Benfro, Coleg Merthyr Tudful a Choleg Chweched Form Sant David.

Y prif raglenni a gwasanaethau sy'n darparu neu'n ategu cynnig cymorth y Warant i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant neu brentisiaeth, dod o hyd i swydd neu ddod yn hunangyflogedig²


- * Marchnata: Ymgyrch 'Bydd Bositif'.
- * Addysg: cyllid craidd chweched dosbarth, cyllid craidd addysg bellach, cyllid arloesi a phontio ychwanegol ar gyfer ysgolion a cholegau.
- * Dysgu seiliedig ar waith: prentisiaethau, Cyfrifon Dysgu Personol.
- * Nodi a chymorth cynnar: y Fframwaith.
- * Rhaglenni cyflogadwyedd: TSC+, CfW+, ReAct+, y Gwasanaeth Di-waith (OoWS), Cymru'n Gweithio.
- * Cymorth hunangyflogaeth: Busnes Cymru drwy wasanaeth Syniadau Mawr Cymru ar gyfer Pobl Ifanc, Biwroau Cyflogaeth a Menter a chymorth Hyrwyddwr Menter ym mhob Coleg yng Nghymru.
- * Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ynghylch gyrfaoedd a chyflogadwyedd: Gyrfa Cymru a Cymru'n Gweithio, Biwroau Cyflogaeth a Menter.
- * Ymgysylltu â chyflogwyr: Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Llywodraeth Cymru a Chynghorwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Busnes Cymru.
- * Cymorth ariannol; Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA), Cyllid Myfyrwyr Cymru a'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn Addysg Bellach.

1.6. Mae'r Warant wedi'i lleoli mewn cyd-destun ehangach – neu gyfres o systemau - sy'n effeithio ar y Warant ac y mae'r Warant yn effeithio arnynt. Fel y dengys ffigur 1.1., yn 16 oed, sef pwynt pontio allweddol, bydd meddwl ac ymddygiad person ifanc yn cael eu llunio gan lu o wahanol raglenni a pholisïau, y mae'r Warant yn un ohonynt yn unig.³

² Fel y nodwyd uchod, mae diffinio ffiniau a chwmpas y Warant at ddibenion y gwerthusiad hwn wedi bod yn heriol. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod y Warant yn 'strwythur ymbarél sydd uwchlaw'r holl raglenni i bobl ifanc' (Llywodraeth Cymru, 2022a, t. 2), gan ei wneud yn eang iawn o ran cwmpas. Yn ogystal, fel yr amlinellwn yn Adrannau 6 a 7, a manylion yn yr amserlen a gyflwynir yn Atodiad D, mae cynnig y Warant wedi esblygu dros amser.

³ Yn ogystal, weithiau mae'r Warant yn ffurfio rhan fach o'r systemau eraill hyn, megis cymorth ar gyfer pontio i bobl ifanc ym mlwyddyn ysgol 11 (sy'n rhan o'r system addysg yn ogystal â bod yn rhan o system gymorth EET ôl-16 y Warant).

Ffigur 1.1. Enghreifftiau o'r systemau gwahanol sy'n llunio meddwl ac ymddygiad pobl ifanc yn 16 oed



[Nodyn] Mae Medr hefyd yn cael ei adnabod fel y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER). Dechreuodd Medr reoleiddio'r sector ôl-16 ym mis Awst 2024. Cynhaliwyd hyn yn flaenorol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).

- 1.7. Er bod y gwerthusiad hwn yn canolbwyntio ar y Warant a'r Fframwaith, rydym yn ystyried sut y mae'r cyd-destun ehangach hwn wedi llunio'r Warant a meddwl ac ymddygiad pobl ifanc a goblygiadau hyn ar gyfer y Warant a'r Fframwaith.

Nodau ac amcanion y gwerthusiad proses

- 1.8. Nod y gwerthusiad proses yw 'adolygu cynllun, gweithredu, a darparu'r Warant yn erbyn ei bwriad strategol a'i chanlyniadau a fwriedir'. Yr amcanion yw 'archwilio'r hyn sy'n gweithio'n dda, a'r hyn y gellid ei wella, yn ystod gweithredu'r Warant a chyfnod cynnar cyflwyno'r fenter'. (Llywodraeth Cymru 2022c, t. 13.)

Yr adroddiad hwn

1.9. Yn dilyn yr adran ragarweiniol hon mae:

- Adran 2 yn amlinellu'r ymagwedd a'r dulliau;
- Adran 3 yn cynnwys cwestiynau gwerthuso;
- Adran 4 yn disgrifio'r cyd-destun, o ran nifer y bobl ifanc yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET);
- Adran 5 yn trafod y dirwedd cymorth ôl-16;
- Adran 6 yn trafod cynllun y Fframwaith a'r Warrant;
- Adran 7 yn trafod y broses o weithredu a chyflawni'r Warrant a'r Fframwaith;
- Adran 8 yn trafod sut y mae'r system gymorth wedi'i llunio yn genedlaethol ac yn rhanbarthol;
- Adran 9 yn trafod profiadau pobl ifanc o bontio;
- Adran 10 yn ystyried llwyddiant y Warrant wrth ddarparu cynnig cymorth i'r holl bobl ifanc;
- Adran 11 yn ystyried llwyddiant y Warrant wrth ddarparu llwybr syml a hygyrch i gymorth a chyfleoedd; ac
- Adran 12 yn amlinellu casgliadau a goblygiadau'r astudiaeth.

2. Cwestiynau gwerthuso

2.1. Mae'r adran hon yn amlinellu nod cyffredinol y gwerthusiad a chwestiynau'r gwerthusiad proses mewn dau faes allweddol:

- **polisi ac ymarfer:** sut y mae'r cynnig cymorth i bobl ifanc 16 i 24 oed yn newid (canlyniadau polisi⁴); ac
- **ymddygiad pobl ifanc:** sut y mae ymddygiad pobl ifanc 16 i 24 oed yn newid mewn ymateb i newidiadau yn y cynnig cymorth (canlyniadau ymddygiadol, fel ymgysylltu ag EET a rhaglenni cymorth EET).

Polisi ac ymarfer: nodau a chwestiynau'r gwerthusiad

2.2. **Nod:** nodi a wnaeth y Warant newid natur neu raddau cymorth i bobl ifanc (16 i 24 oed) gael lle mewn addysg neu hyfforddiant neu brentisiaeth, dod o hyd i swydd neu ddod yn hunangyflogedig ac os felly, sut a pham.

2.3. Mae cwestiynau'r ymchwil yn trafod beth weithiodd yn dda a pham a hefyd beth nad yw wedi gweithio mor dda a pham, a rolau rhanddeiliaid a'r gwahaniaethau rhyngddynt wrth gyflawni'r Warant.

Cwestiynau gwerthusiad proses am y Warant

1. Pa mor dda mae ymyriadau a disgwyliadau o'r Warant gan ei hysgogwyr wedi cael eu cyfleu i randdeiliaid eraill, fel cydweithwyr polisi a chyflawni Llywodraeth Cymru, yn enwedig y rhai sy'n arwain ar addysg, cyflogadwyedd, cymorth hunangyflogaeth, iechyd, nawdd Gyrfa Cymru/Cymru'n Gweithio, a darparwyr addysg a hyfforddiant, gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad (er enghraifft, Gyrfa Cymru) gwasanaethau cymorth cyflogaeth a hunangyflogaeth, awdurdodau lleol (yn enwedig Cydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd a gweithwyr ieuenctid) a chyrff strategol fel Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol?

⁴ Ystyried polisi ar bapur ac ymarfer (er enghraifft, ystyried darparu/gweithredu).

2. A oedd/a yw rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r cymorth a'r arweiniad a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r Warant ac a oedd y cymorth a'r arweiniad yn cael eu gwerthfawrogi/a ydynt yn cael eu gwerthfawrogi?
3. Beth oedd rôl rhanddeiliaid wrth bennu cyfeiriad a disgwyliadau'r Warant, gan gynnwys y rolau a chwaraewyd gan wahanol bartneriaid?
4. Pa mor dda wnaeth rhanddeiliaid weithio gyda'i gilydd i gyflawni'r Warant? Beth sy'n gweithio'n dda a beth fu'r heriau o ran ymgorffori ethos 'Tîm Cymru'⁵?
5. Pa gynnydd sydd wedi'i wneud tuag at weithredu'r Warant? Er enghraifft, a oedd unrhyw newidiadau a welwyd ym mholisi neu ddarpariaeth cymorth EET ar gyfer pobl ifanc?
6. I ba raddau wnaeth gweithredu'r Warant ymgorffori'r pum ffordd o weithio a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ('cynnwys'; 'integreiddio'; 'atal'; 'hirdymor'; 'cydweithio')?
7. Pa strategaethau a roddwyd ar waith i hyrwyddo'r Warant ac ymgysylltu â'r grwpiau targed o bobl ifanc?
8. A oedd unrhyw wahaniaethau o ran sut y gwnaeth y cynnig cymorth i bobl ifanc newid mewn ardaloedd daearyddol gwahanol (er enghraifft, rhanbarthau) neu ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl ifanc (er enghraifft, y rhai 16 i 18 oed, y rhai 19 oed a throsodd)?
9. Pa arfer da, dysgu allweddol (er enghraifft, rhwystrau/galluogwyr, beth weithiodd/na weithiodd) a meysydd ar gyfer datblygu pellach a nodwyd?

Cwestiynau gwerthusiad proses am y Fframwaith

10. A yw canllawiau newydd y Fframwaith⁶ wedi arwain at newidiadau o ran dealltwriaeth rhanddeiliaid o rolau, cyfrifoldebau a gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r Fframwaith?

⁵ Yn y fanyleb ar gyfer yr ymchwil hon, disgrifir hyn fel ymdeimlad o gyfrifoldeb ar y cyd i ddwyn ynghyd y cymorth sydd ar gael i bobl ifanc gael mynediad at gyfleoedd, rhaglenni'r llywodraeth, y byd academaidd a'r gymuned fusnes i gefnogi'r Warant er mwyn cyrraedd y garreg filltir genedlaethol, sef 90% o'n pobl ifanc mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2022c, t. 8). Mae'r ethos 'Cymru ar y Cyd' hefyd wedi'i ddisgrifio fel ymateb 'ar draws Llywodraeth Cymru, Cymru gyfan, amlasiantaethol' mewn 'cydweithrediad â'n partneriaid strategol allweddol' (Llywodraeth Cymru, 2023b, t. 1).

⁶ Mae hyn yn cynnwys y [Trosolwg o'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd a'r Llawlyfr](#) a gyhoeddwyd yn 2022 a'r [Canllawiau ar Adnabod yn Gynnar](#) a gyhoeddwyd yn 2023.

11. I ba raddau mae rhanddeiliaid yn deall yr hyn sy'n cyd-fynd rhwng y Fframwaith a'r Warrant? Pa rôl y mae'r Fframwaith wedi'i adnewyddu wedi'i chwarae o ran egluro rolau a chyfrifoldebau sefydliadau a chynyddu'r ddealltwriaeth o'r opsiynau sydd ar gael i gefnogi pobl ifanc 16 i 18 oed sy'n NEET, neu sydd mewn perygl o fod yn NEET?
12. Pa wybodaeth fonitro arall am bobl ifanc y bernir eu bod mewn perygl o fod yn NEET, neu sy'n NEET, sy'n cael ei chasglu ar lefel awdurdod lleol a pha mor effeithiol y mae hyn yn ysgogi penderfyniadau a gweithio mewn partneriaeth yn lleol?

Nod a chwestiynau arfaethedig y gwerthusiad ynghylch effeithiolrwydd y Warrant wrth newid ymddygiad pobl ifanc

- 2.4. **Nod cyffredinol:** nodi a yw newidiadau yn y cynnig cymorth i bobl ifanc 16 i 24 oed (gweler y cwestiynau am bolisi ac ymarfer) wedi cyfrannu at newid yn ymddygiad pobl ifanc mewn perthynas â:
- i. manteisio ar y cynnig cymorth addysg, cyflogaeth, hyfforddiant a/neu hunangyflogaeth (EETSE); a/neu
 - ii. eu cyfranogiad mewn EETSE⁷;
 - iii. ac, os felly, sut, pam ac ar gyfer pwy (hynny yw, pa grwpiau o bobl ifanc)?

⁷ Dylai'r rhain fod yn fesuradwy / meintiol a gallant ffurfio'r sail ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol (DPA). Nodwn, os yw'r Warrant yn llwyddiannus, bydd cyfran y bobl ifanc mewn EET yn cynyddu. Fodd bynnag, mae hefyd yn bosibl bod y Warrant yn cael effaith, ond nid yw'r effaith yn ddigon mawr i newid dangosyddion cenedlaethol; er enghraifft, os bydd dirywiad economaidd a chynnydd mewn diweithdra ac anweithgarwch economaidd (a nifer y bobl ifanc NEET) mae'n bosibl y byddai'r cynnydd yn nifer y bobl ifanc NEET yn fwy heb y Warrant. I'r gwrthwyneb, os oes twf economaidd cryf a gostyngiad mewn diweithdra ac anweithgarwch economaidd (a nifer y bobl ifanc NEET), mae'n bosibl y byddai'r gostyngiad yn nifer y bobl ifanc NEET yn llai heb y Warrant.

Cwestiynau gwerthusiad proses am y Warrant

13. Beth yw dealltwriaeth pobl ifanc o'r Warrant, gan gynnwys mewn perthynas â pha gymorth sydd ar gael a sut y ceir mynediad at gymorth, a pha mor hygyrch ydyw yn eu barn nhw?⁸
14. Beth yw disgwyliadau pobl ifanc o'r Warrant, gan gynnwys yr hyn maent ei eisiau o'r cynnig cymorth?
15. Beth yw profiadau pobl ifanc sy'n cael mynediad at y rhaglenni a'r gwasanaethau (Gyrfa Cymru/Cymru'n Gweithio yn bennaf) sy'n ffurfio'r Warrant?
16. Pa mor gadarn yw llwybrau gwahanol y Warrant drwy EETSE?
17. I ba raddau roedd pobl ifanc yn cymryd rhan wrth gynllunio a datblygu'r Warrant?⁹
18. I ba raddau y mae'r strategaethau sydd ar waith i hyrwyddo'r Warrant, ac ymgysylltu â'r grŵp targed o bobl ifanc, yn gweithio? Er enghraifft, a yw nifer y cyfranogwyr yn unol â'r targedau?
19. Pa mor effeithiol yw atgyfeiriadau i bobl ifanc sy'n wynebu'r risg fwyaf o ymddieithrio o EET?
20. A oes patrymau a thueddiadau o ran pa grwpiau o bobl ifanc sy'n ymgysylltu, neu nad ydynt yn ymgysylltu, â chynnig y Warrant?
21. Pam nad yw rhai pobl ifanc gymwys yn manteisio ar y cynnig cymorth neu'n rhoi'r gorau i'r broses cyn canlyniad cadarnhaol?
22. Pa gyfraniad y mae'r Warrant wedi'i wneud i adeiladu rhwydweithiau o gymorth cyflogaeth i bobl ifanc?
23. Beth sy'n gweithio'n dda a beth nad yw'n gweithio cystal (gan gynnwys y rhwystrau a'r hwyluswyr i bobl ifanc sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur sy'n mynd i mewn i EETSE drwy'r Warrant)?

⁸ Fel y nodwyd yn y fanyleb ar gyfer yr ymchwil hon, dylid rhoi ystyriaeth arbennig i hygyrchedd y Warrant i ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc nac ydynt mewn Addysg, Hyfforddiant na Chyflogaeth (NEET), y rhai sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur, pobl â Nodweddion Gwarchodedig a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol o ran cael mynediad at waith a'i gynnal (Llywodraeth Cymru, 2023h, tt 13 to 14).

⁹ Yn wreiddiol, y cwestiwn ymchwil hwn oedd 'I ba raddau mae pobl ifanc yn teimlo eu bod yn gallu lleisio eu barn wrth gynllunio gwasanaethau ac yn cael llais i herio'r system (yn enwedig grwpiau nas clywir yn aml)?' Fodd bynnag, gyda chytundeb Llywodraeth Cymru cafodd ei aileirio i adlewyrchu'n well y cwestiwn yr oedd y gwerthusiad yn gallu ei ateb.

24. Beth gellir ei ddysgu o'r Warant ynghylch 'beth sy'n gweithio i bwy a phryd' ar gyfer pobl ifanc sy'n ceisio camu ymlaen i EETSE?
25. A yw'r dull cyflwyno presennol yn addas, o ystyried nodau ac amcanion y Warant?

Cwestiynau gwerthusiad proses am y Fframwaith

26. Beth yw cyfraniad y Fframwaith at gynorthwyo pobl ifanc (11 i 18 oed) sydd mewn perygl o ymddieithrio o EET a manteisio ar gynnig cymorth y Warant?
27. Pa mor effeithiol yw'r Fframwaith wrth alluogi pontio didrafferth o addysg (cyn-16) i addysg bellach neu uwch, hyfforddiant neu gyflogaeth (ôl-16)?

3. Methodoleg

Cyflwyniad

- 3.1. Yn unol ag argymhellion yr Asesiad Gwerthusadwyedd o'r Warant (Llywodraeth Cymru, 2025a) (gweler y testun mewn blwch), defnyddiodd y gwerthusiad proses ddull sy'n seiliedig ar theori, gan ganolbwyntio ar ddeall yn gyntaf sut roedd disgwyl i'r Warant a'r Fframwaith weithio yn ymarferol (eu damcaniaethau newid), o ystyried:
- y cyd-destun y maent wedi'u gweithredu ynddo a'r her y maent yn ceisio mynd i'r afael â hi (a drafodir yn Adrannau 4 a 5);
 - y gwahanol elfennau o'r Warant, megis rhaglenni fel Twf Swyddi Cymru a Mwy (Twf Swyddi Cymru+), a'r Fframwaith, megis Gweithwyr Arweiniol (a drafodir yn Adrannau 5 a 6); ac
 - y dulliau: y ffyrdd y disgwylir i'r elfennau gwahanol hyn greu canlyniadau a fwriedir y Warant a'r Fframwaith drwy, er enghraifft, ymgysylltu â phobl ifanc a'u cynorthwyo (a drafodir yn Adran 5).
- 3.2. Roedd y damcaniaethau newid a ddatblygwyd fel rhan o'r Asesiad Gwerthusadwyedd (gweler Llywodraeth Cymru, 2025a, tt.13-53) yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith gwerthuso a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwerthusiad proses hwn. Mae'r gwerthusiad yn profi'r damcaniaethau newid, er mwyn archwilio i ba raddau y mae:
- cynllun neu ddyluniad y Warant a'r Fframwaith wedi'i roi ar waith, drwy ystyried y modd y gweithredwyd yr elfennau gwahanol (a drafodir yn Adran 7); ac
 - i ba raddau y mae dau ganlyniad craidd y Warant¹⁰ a amlinellir yn Adran 1 (darparu cynnig cymorth i'r holl bobl ifanc a system syml a hygyrch ar gyfer cael mynediad at gyfleoedd) wedi'u gwireddu (a drafodir yn Adrannau 9 a 10).

¹⁰ Fel y mae Adran 5 yn amlinellu, mae canlyniadau a fwriedir y Fframwaith yn gorgyffwrdd â'r rhain ac mae'r Fframwaith yn cyfrannu at y canlyniadau hyn i bobl ifanc 16 i 18 oed.

- 3.3. Defnyddiwyd y canfyddiadau sy'n ymwneud â'r ddau amcan hyn, yn eu tro, i nodi beth weithiodd yn dda a beth nad yw wedi gweithio mor dda (a drafodir yn Adran 11).

Asesiad gwerthusadwyedd y Warant

Mae Asesiad Gwerthusadwyedd y Warant yn nodi fframwaith i gynorthwyo'r gwaith o werthuso'r dull 'system gyfan' o gyflawni'r Warant' (Llywodraeth Cymru, 2022b, t. 11). Mae hyn yn adlewyrchu natur y Warant sydd, fel y mae Adran 5 yn amlinellu, yn 'strwythur ymbarél sydd uwchlaw'r holl raglenni i bobl ifanc' (Llywodraeth Cymru, 2022c, t. 3). Felly, mae deall sut y mae'r rhaglenni gwahanol hyn sy'n ffurfio'r Warant yn rhyngweithio â'i gilydd ac â phobl ifanc, a sut y maent wedi'u llunio gan y Warant, yn ganolog i werthuso'r gwaith o gyflawni'r Warant.


Mae'r fframwaith gwerthuso yn nodi'r ffordd orau o fesur:

- a yw'r Warant wedi'i gweithredu fel y cynlluniwyd;
- a yw'r Warant yn cael yr effaith a fwriedir (i bwy a pham);
- a oedd unrhyw ganlyniadau anfwriadol (cadarnhaol neu negyddol) o'r Warant; ac
- a yw'r Warant yn creu unrhyw 'ychwanegedd' o ran effeithiau polisïau eraill (er enghraifft drwy amcangyfrif y gwrthffeithiol, ac i ba raddau y byddai unrhyw newid a welir wedi digwydd beth bynnag, yn absenoldeb y fenter).

Ffynonellau data

- 3.4. Yn unol ag argymhellion yr Asesiad Gwerthusadwyedd, mae'r gwerthusiad proses yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau data. Dangosir hyn yn Ffigur 3.1 isod, sy'n dangos y ddau brif gwestiwn gwerthuso yr ymdrinnir â nhw mewn blychau coch gyda ffynonellau o ddata sylfaenol wedi'u dangos yn y cysgod tywyllach o las a ffynonellau data eilaidd mewn glas golau. Roedd y ffigurau yn yr adroddiad hwn yn gywir ar adeg ei ddrafftio.

Ffigur 3.1. Trosolwg o'r ffynonellau allweddol o ddata sylfaenol ac eilaidd



[Nodyn] Lanswyd y Sgwrs Genedlaethol ym mis Mai 2022 a'i nod yw rhoi llais i bobl ifanc am eu profiadau o EET ôl-16. Gweler [Sgwrs Genedlaethol Gwarant Pobl Ifanc: diweddariad i gyfranogwyr | LLYW.CYMRU](#)

- 3.5. Mae'r gwerthusiad i ystyried a yw polisi, ymarfer ac ymddygiad pobl ifanc wedi newid, a sut a pham mae hyn wedi digwydd, yn defnyddio'r data sylfaenol ac eilaidd a drafodir isod yn bennaf.

Adolygiad desg o ffynonellau eilaidd

- 3.6. Roedd yr adolygiad desg yn cynnwys:
- dogfennau sy'n gysylltiedig â pholisi gan gynnwys, er enghraifft, Asesiad o Effaith y Warant (Llywodraeth Cymru, 2022a) a'r Trosolwg o'r Fframwaith (Llywodraeth Cymru, 2022b);
 - data eilaidd, gan gynnwys ystadegau gwladol (a'r Datganiad Ystadegol Cyntaf ar bobl ifanc sy'n NEET), data gweinyddol, fel Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a data rhaglenni (fel data Gwybodaeth Reoli);
 - ymchwil a thystiolaeth sy'n ymwneud â ffocws y Warant a'r Fframwaith ar bobl ifanc NEET, neu sydd mewn perygl o fod yn NEET¹¹; a
 - gwerthusiadau o raglenni a gwasanaethau elfennau sy'n ffurfio'r Warant, fel Cymunedau am Waith a Mwy (CfW+), Twf Swyddi Cymru a Mwy (Twf Swyddi Cymru+), Cymru'n Gweithio, a'r Gwasanaeth Di-waith, a gwerthusiadau ac adolygiadau o'r Fframwaith.

Dadansoddiad o ddata rhaglenni

- 3.7. Gofynnodd y gwerthusiad am ddata rhaglenni gan bedair o'r prif raglenni a gwasanaethau sy'n cynorthwyo pobl ifanc fel rhan o'r Warant: CfW+, Cymru'n Gweithio, ReAct+ a'r Gwasanaeth Di-waith. Canolbwyntiodd ar nodi beth oedd yn hysbys am:
- nifer y bobl ifanc sy'n manteisio ar y cynnig cymorth (hynny yw, nifer y cyfranogwyr 16 i 24 oed sy'n cael mynediad at bob rhaglen neu wasanaeth); a
 - nifer y bobl ifanc a fanteisiodd ar y cynnig cymorth a gyflawnodd ganlyniadau cadarnhaol.

¹¹ Roedd hyn yn cynnwys yn benodol, yr [Adolygiadau Cyflym o'r Dystiolaeth o feddwl ac ymddygiad pobl ifanc](#) (Llywodraeth Cymru, 2024o, 2024t).

- 3.8. Lle bo hynny ar gael, cafodd y data hyn eu dadansoddi yn ôl grŵp oedran (16 i 18 oed ac 19 i 24 oed) ac yn ôl nodweddion pobl ifanc, fel eu rhyw neu rywedd, anabledd ac ethnigrwydd. Yn ogystal, adolygwyd data cyhoeddedig ar raglen Twf Swyddi Cymru+¹². Mae Tabl 3.1 yn crynhoi'r data a ddarperir gan bob rhaglen, neu wasanaeth yn achos Twf Swyddi Cymru+, a gyhoeddwyd ganddi.

Tabl 3.1. Data rhaglenni a ddarperir gan raglenni a gwasanaethau'r Warant 2021 i 2024

	Data sy'n cwmpasu blynyddoedd ariannol, academaidd neu galendr, 2021 i 2024	Ymgysylltu (pob person ifanc sy'n manteisio ar y cynnig)	Nodweddion pobl ifanc sy'n ymgysylltu â'r rhaglen neu wasanaeth	Canlyniadau cadarnhaol pobl ifanc sy'n ymgysylltu â'r rhaglen	Nodweddion pobl ifanc sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol
CG [Nodyn 1]	✓	✓	✓	✓	✓
Twf Swyddi Cymru+	✓	✓	✓	✓	✓
CfW+	✓	✓	✓ [Nodyn 2]	✓	✓ [Nodyn 2]
ReAct+				✓	
Gwasanaeth Di-waith		✓		✓	

[Nodyn 1] Mae data Cymru'n Gweithio yn cynnwys rhai cafeatau pwysig. Mae'r rhain yn cynnwys: y risg y bydd yr un person ifanc yn cael ei gyfrif mewn gwahanol grwpiau oedran dros amser; nifer bach o bobl ifanc a oedd yn 15 oed ar adeg eu

¹² Cyhoeddir gwybodaeth am raglenni dysgu Twf Swyddi Cymru+ a'r dysgwyr sydd wedi'u cofrestru arnynt yn rheolaidd yn [Ystadegau Twf Swyddi Cymru+ | LLYW. CYMRU](#).

rhyngweithio cyntaf pan gofnodir manylion ac felly maent wedi'u cynnwys yn y ffigurau; a gwahaniaethau o ran pryd y casglwyd data canlyniadau.

[Nodyn 2] Mae data sy'n benodol i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed dim ond ar gael ar gyfer mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024. Casglwyd data yn y blynyddoedd blaenorol, ond ni ellir echdynnu data am bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed.

Ymchwil sylfaenol gyda rhanddeiliaid sy'n ymwneud â datblygu a/neu weithredu polisi

- 3.9. Er mwyn archwilio datblygu a gweithredu'r Warant a'r Fframwaith, a'r ffyrdd y gwnaethant lunio'r system gymorth i bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed, cynhaliwyd cyfweiliadau â gwneuthurwyr polisi, rheolwyr ac ymarferwyr sy'n gweithio yn genedlaethol ac yn lleol yng Nghymru. Fel y mae Tabl 3.2 yn amlinellu, defnyddiwyd technegau samplu bwriadus â rhanddeiliaid (Palys, 2008) i ddewis cyfranogwyr perthnasol.

Tabl 3.2. Cyfweiliadau â gwneuthurwyr polisi, rheolwyr ac ymarferwyr: samplu

Grŵp rhanddeiliaid	Targed sampl	Sampl a gyflawnwyd
Gwneuthurwyr polisi yn nhimau'r Warant a'r Fframwaith	8-10	7 [Nodyn 1]
Arweinwyr a rheolwyr gweithredol mewn rhaglenni allweddol sy'n ffurfio'r neu gefnogi'r Warant	35-40	32
Rheolwyr ac ymarferwyr sy'n ymwneud â chynllunio a/neu gyflawni'r Fframwaith neu'r Warant mewn chwe ardal	10-12	26 [Nodyn 2]

[Nodyn 1] Mae'n debygol o fod yn agos at sampl cyfrifiad o'r holl rhanddeiliaid allweddol. Cafodd sawl un eu cyfweld fwy nag unwaith.

[Nodyn 2] Roedd y niferoedd yn uwch na'r disgwyl, er mwyn sicrhau sylw i wahanol raglenni sy'n ffurfio'r Warant.

Cyfweliadau â gwneuthurwyr polisi timau ac arweinwyr rhaglen y Warant a'r Fframwaith

- 3.10. Cynhaliwyd rownd gychwynnol o gyfweliadau â gwneuthurwyr polisi Llywodraeth Cymru timau ac arweinwyr rhaglen y Warant a'r Fframwaith ym mis Mai a mis Mehefin 2023. Dewiswyd y cyfweldigion hyn yn dilyn trafodaeth gyda thîm polisi'r Warant, a'u bwriad oedd sicrhau cynrychiolaeth y rhanddeiliaid allweddol. Defnyddiwyd y cyfweliadau, ochr yn ochr â mathau eraill o ddata, fel y rhai a gynhyrchwyd drwy adolygiad desg o ddogfennau, er mwyn:
- archwilio a mapio'r cyd-destun, gan gynnwys y dirwedd polisi a'r system gymorth i bobl ifanc;
 - asesu sut y cafodd y Warant ei datblygu; a
 - nodi disgwyliadau'r Warant.
- 3.11. Defnyddiwyd y data a gynhyrchwyd gan hyn i ddatblygu damcaniaeth newid ar gyfer y Warant (a amlinellir yn yr Asesiad Gwerthusadwyedd, Llywodraeth Cymru, 2025a), a drafodwyd a'i mireinio ymhellach drwy a chyfres o dri gweithdy gyda rhanddeiliaid ym mis Hydref 2023.
- 3.12. Daeth y gweithdai rhanddeiliaid ag amrywiaeth o staff at ei gilydd o bob rhan o Lywodraeth Cymru, gan gynnwys aelodau o dimau polisi'r Warant a'r Fframwaith a staff sydd â chyfrifoldebau mewn maes fel entrepreneuriaeth a Busnes Cymru, Gyrfa Cymru, cymorth cyflogaeth, cymorth cyflogadwyedd cysylltiedig ag iechyd, gwasanaethau gwybodaeth a dadansoddol, addysg ôl-16, hyfforddiant a sgiliau a staff o bartneriaid fel Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Trafodwyd y gwerthusiad hefyd gydag aelodau o Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Gwarant Pobl Ifanc ym mis Tachwedd 2023 a thrafodwyd y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg gyda'r Bwrdd Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau ym mis Tachwedd 2024, gan ddarparu cyfleoedd i rannu a 'gwirio' y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg.
- 3.13. Cynhaliwyd ail rownd grynodol o gyfweliadau â gwneuthurwyr polisi Llywodraeth Cymru yn nhimau'r Warant a'r Fframwaith ac arweinwyr

rhaglenni ym mis Ionawr a mis Chwefror 2025. Awgrymwyd y cyfweidigion hyn gan Lywodraeth Cymru o ystyried rôl y cyfwelai yn y gwaith o gynllunio a/neu gyflwyno'r Warant. Gwahoddwyd sylwadau ar yr adroddiad drafft gan arweinwyr polisi a rhaglenni Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025, gyda'r sylwadau hyn (ar ffurf anodedig, negeseuon e-bost a llafar) yn darparu data ansoddol ychwanegol.¹³ Cafwyd sylwadau hefyd gan aelodau o'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn Llywodraeth Cymru, Gyrfa Cymru a Medr ar yr adeg hon.

Cyfweliadau â rheolwyr rhaglenni gweithredol ac ymarferwyr sy'n ymwneud â chynllunio a/neu gyflawni'r Fframwaith a/neu'r Warant

- 3.14. Yn y cyfnod rhwng Medi 2024 a mis Ionawr 2025, cynhaliwyd cyfweliadau gyda 26 o bobl a oedd yn ymwneud â chynllunio a/neu gyflawni'r Warant a/neu'r Fframwaith mewn saith ardal awdurdod lleol, a amlinellir yn Nhabl 3.3. Dewiswyd yr ardaloedd yn fwriadol i gynrychioli ardaloedd â nodweddion gwahanol yng Nghymru. Roedd y cyfweliadau yn cynnwys staff o Busnes Cymru/Syniadau Mawr Cymru, Llywodraeth Cymru (fel staff Gyrfa Cymru), CfW+, colegau (gan gynnwys Biwroau Cyflogaeth a Menter), gwasanaethau cyflogaeth awdurdodau lleol, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, darparwyr hyfforddiant (gan gynnwys y rhai sy'n darparu TSC+ a'r Gwasanaeth Ieuenctid¹⁴), i ddarparu safbwynt lleol:
- ar gyflawni'r Warant a'r Fframwaith; a
 - y system o gymorth EET i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed, yn yr ardal benodol honno.

¹³ Er bod swyddogion Llywodraeth Cymru a roddodd sylwadau hefyd wedi cymryd rhan mewn cyfweliadau, er mwyn tryloywder, lle mae'r data a adroddwyd yn cyfeirio at yr hyn a ddarperir mewn sylwadau ar yr adroddiad yn hytrach na chyfweliad, cyfeirir at hyn fel data sy'n dod o 'hysbysydd' neu 'ymatebydd' yn hytrach na 'chyfwelai'.

¹⁴ Gwahoddwyd cyfweidigion o'r Gwasanaeth Di-waith hefyd i gymryd rhan ond gwnaethant ddewis peidio â gwneud hynny.

Tabl 3.3. Nodweddion dethol y safleoedd awdurdod lleol a samplwyd

ALI	Rhanbarth	Nodweddion
Conwy a Sir Ddinbych	Gogledd Cymru	Gwledig yn bennaf; mynediad at gyfleoedd EET yn debygol o fod yn her i rai pobl ifanc (er enghraifft, oherwydd trafndiaeth, opsiynau mwy cyfyngedig).
Gwynedd	Gogledd Cymru	Gwledig yn bennaf ac yn siarad Cymraeg; mynediad at gyfleoedd EET yn debygol o fod yn her i rai pobl ifanc (er enghraifft, oherwydd trafndiaeth, opsiynau mwy cyfyngedig); cyrhaeddiad uwch na'r cyfartaledd ar ddiwedd blwyddyn 11.
Caerdydd	De-ddwyrain Cymru	Dinas (trefol); amrywiaeth eang o gyfleoedd EET; poblogaeth amrywiol ac yn aml yn fyrhoedlog o bobl ifanc (gyda lefelau uchel o fudo i mewn i Gaerdydd ac allan ohoni) gan gynnwys nifer mawr o fyfyrwyr.
Powys	Canolbarth Cymru	Gwledig yn bennaf, mynediad at gyfleoedd EET yn debygol o fod yn her i rai pobl ifanc (er enghraifft, oherwydd trafndiaeth, opsiynau mwy cyfyngedig); cyrhaeddiad uwch na'r cyfartaledd ar ddiwedd blwyddyn 11.
Rhondda Cynon Taf	De-ddwyrain Cymru	Cymysgedd o gymunedau trefol a chymunedau mwy gwledig yn y cymoedd; mynediad at gyfleoedd EET yn debygol o fod yn her i rai pobl ifanc (er enghraifft, oherwydd trafndiaeth, opsiynau mwy cyfyngedig); cyfradd uwch na'r cyfartaledd o ddiweithdra (oedolion) ac anweithgarwch economaidd.
Abertawe	De-orllewin Cymru	Cymysgedd o ardaloedd trefol (dinas) a mwy gwledig; amrywiaeth cymedrol o gyfleoedd EET; poblogaeth amrywiol ac yn aml yn fyrhoedlog o bobl ifanc (gyda lefelau cymedrol o fudo i mewn ac allan o Abertawe) a nifer cymharol fawr o fyfyrwyr.

Ymchwil sylfaenol gyda phobl ifanc

- 3.15. Fel yr amlinellwyd uchod, nododd yr Asesiad Gwerthusadwyedd yr angen i sicrhau bod profiadau bywyd pobl ifanc o'r Warant yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwerthusiad. Roedd ehangder y Warant, ynghyd â'r amrywiaeth o werthusiadau lefel rhaglen naill ai ar waith neu wedi'u cwblhau (a drafodir ymhellach yn Adran 6) yn golygu nad oedd yn hyfyw nac yn ddymunol ceisio cofnodi profiadau pobl ifanc mewn perthynas â phob un o'r rhaglenni sy'n ffurfio'r Warant. Yn hytrach, canolbwyntiodd yr ymchwil sylfaenol ar archwilio profiadau pobl ifanc o bontio a'r cyd-destun (gan gynnwys y system gymorth) a'r meddwl a'r ymddygiad a ddiffiniodd eu cyfnodau pontio. Roedd hyn yn golygu bod y ffocws ar deithiau pobl ifanc yn hytrach na'u profiadau o unrhyw wasanaeth, lleoliad addysg neu ddarparwr hyfforddiant penodol.
- 3.16. O ystyried oedran y bobl ifanc, daeth y rhan fwyaf o'u profiadau o wneud neu baratoi ar gyfer pontio ar ôl i'r Warant gael ei chyflwyno yn 2021. Fodd bynnag, i rai o'r bobl ifanc hŷn (hynny yw, y rhai dros 20 oed) a gafodd eu cyfweld, bydd rhai o'u profiadau o wneud neu baratoi ar gyfer pontio pan oeddent yn iau, yn rhagflaenu'r Warant. Mae'n bwysig cofio hyn. Fodd bynnag, oherwydd mai nod y cyfweiliadau yn bennaf oedd archwilio a deall eu profiadau o wneud neu baratoi ar gyfer pontio EET ôl-16, yn hytrach na gwerthuso elfennau penodol o'r Warant, nid yw hyn yn golygu bod profiadau cyn y Warant yn amherthnasol. Er, fel gydag unrhyw adroddiad, wrth i'r cyfnod o amser sydd wedi mynd heibio ers i'r profiad sy'n cael ei ddisgrifio gynyddu, mae'r risg bod adroddiad unigolyn yn anghywir (er enghraifft, wrth i atgofion bylu), neu wedi dyddio (o ystyried newidiadau yn y cyd-destun dros y cyfnod hwnnw), yn cynyddu.
- 3.17. Mabwysiadwyd dull naratif at gyfweiliadau. Roedd hyn yn galluogi pobl ifanc i adrodd eu straeon eu hunain am eu pontio o'r ysgol i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, neu am eu hymddieithrio o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, ac i dynnu sylw at yr hyn yr oeddent yn teimlo oedd yn bwysig iddynt. Casglwyd data ychwanegol ar eu nodweddion drwy holiadur gwybodaeth i gyfranogwyr. Mae copi o hyn wedi'i gynnwys yn yr atodiadau. Er mwyn diolch am eu cyfranogiad, rhoddwyd taleb gwerth £20 i bobl ifanc.

Y sampl o bobl ifanc

3.18. Mae'r Asesiad Gwerthusadwyedd yn nodi pwysigrwydd sicrhau cynrychiolaeth pobl ifanc â nodweddion gwahanol mewn gwaith maes ansoddol ar gyfer y gwerthusiad proses (gweler isod). Yn hynny o beth, roedd y strategaeth samplu yn ymgorffori elfennau o samplu meini prawf (gan fod y ffocws ar unigolion â nodweddion penodol) a samplu amrywiad uchaf (gan mai'r nod oedd ceisio cwmparu amrywiaeth o brofiadau) (gweler Palys, 2008, am drafodaeth o strategaethau samplu bwriadus). Yn ogystal:

- fel y mae Adran 7 yn trafod, y gobaith oedd cynnwys nifer o bobl ifanc a oedd yn rhan o grŵp cynghori ieuenctid y Warant. Fodd bynnag, yn y digwyddiad, dim ond un person ifanc o grŵp cynghori ieuenctid y Warant a oedd yn bresennol ar ôl gwahoddiad i gymryd rhan, gan gyfyngu'r casgliadau y gellid dod iddynt am gyfranogiad pobl ifanc yn y Warant; ac
- fel y mae Adran 8 yn amlinellu, er nad oedd pobl ifanc sy'n derbyn addysg yn y cartref wedi'u nodi fel grŵp targed ar gyfer samplu, cafodd tri pherson ifanc a dderbyniodd addysg yn y cartref eu cyfweld, a phan ddadansoddwyd y data, daethant i'r amlwg fel grŵp allweddol, y mae eu profiadau o bontio ôl-16 yn eithaf gwahanol i brofiadau pobl ifanc eraill.

Sail resymegol dros nodweddion pobl ifanc i'w cynnwys yn y sampl

Rhyw (gwryw neu fenyw): mae gwahaniaethau ym mhrofiadau ac ymddygiad dynion a menywod ifanc; er enghraifft, mae menywod fel arfer yn cael llawer o'r cyfrifoldeb gofalu am blant ifanc ac maent yn fwy tebygol na dynion o fod yn economaidd anweithgar wrth iddynt ofalu am blant ifanc (Llywodraeth Cymru, 2024o).

Hunaniaeth rhywedd: traws neu anneuaidd: gall pobl ifanc drawsryweddol neu anneuaidd wynebu neu brofi gwahaniaethu mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16. Gallant hefyd brofi ffactorau risg eraill, fel iechyd meddwl gwael, ar gyfraddau uwch na'r bobl ifanc hynny y mae eu rhywedd yn cyfateb i'r rhywedd a nodwyd iddynt adeg eu geni neu'r rhai y mae eu rhywedd yn cyfateb i'r diffiniad o ddyn neu fenyw.

Oedran: 16 i 18 a 19 i 24: mae gwahaniaethau ym mhrofiadau ac ymddygiad pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed a 19 i 24 oed. Er enghraifft, mae'r rhai rhwng 16 a 18 oed yn

fwy tebygol o fod mewn addysg a hyfforddiant ôl-16, fel ysgol neu goleg (ac yn llai tebygol o fod yn NEET) na'r rhai rhwng 19 a 24 oed (ibid.).

Pobl ifanc anabl: mae gwahaniaethau ym mhrofiadau, ymddygiad ac amgylchiadau pobl ifanc anabl o'i gymharu â phobl ifanc nad ydynt yn anabl. Er enghraifft, mae pobl ifanc anabl yn fwy tebygol o fod yn NEET (ibid.).

Pobl ifanc ag angen dysgu ychwanegol (ADY): mae gwahaniaethau ym mhrofiadau, ymddygiad ac amgylchiadau pobl ifanc sydd ag ADY o'i gymharu â phobl ifanc nad oes ganddynt ADY. Er enghraifft, maent yn fwy tebygol o fod yn NEET (ibid.).

Pobl ifanc heb gymwysterau neu gymwysterau isel: mae gwahaniaethau ym mhrofiadau, ymddygiad ac amgylchiadau pobl ifanc sydd â chymwysterau isel neu heb gymwysterau o'i gymharu â phobl ifanc sydd â lefelau uwch o gymwysterau. Er enghraifft, maent yn fwy tebygol o fod yn NEET (ibid.).

Pobl ifanc sydd (neu a oedd) 'ar goll' neu 'heb benderfynu'; pobl ifanc ag anghenion cymhleth (fel digartrefedd a phroblemau iechyd meddwl): mae ymchwil yn awgrymu bod grwpiau gwahanol o bobl ifanc sy'n NEET, fel pobl ifanc sy'n:

- 'gylchol, yn pontio neu'n agored i ddysgu': 'sy'n debygol o ailymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a'r gweithlu yn y tymor byr, sy'n dueddol o feddu ar gyrhaeddiad uwch ac agwedd fwy cadarnhaol tuag at fanteisio ar gyfleoedd' na'r ddau grŵp arall a nodwyd ('anwadal' neu 'graidd') (Llywodraeth Cymru, 2013, t.7, a ddyfynnwyd yn Llywodraeth Cymru, 2024o.);

- sy'n 'anwadal', "yn wynebu risg" neu heb benderfynu: 'a all fod yn anfodlon ar y cyfleoedd sydd ar gael neu sydd fwyaf agored i niwed o ran dirywiad economaidd', gan gynnwys 'pobl ifanc sydd â diffyg cyfeiriad a/neu gymhelliant ac sy'n symud i mewn ac allan o'r grŵp NEET' (ibid.); a

- 'craidd neu barhaus': 'sy'n cael profiad o ymddieithrio tymor hwy rhag addysg, hyfforddiant a'r farchnad lafur, ac mae'n gysylltiedig â phatrwm ehangach o gyrhaeddiad a phrofiad gwael' (ibid.).

Pobl ifanc o grŵp Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol: gall pobl ifanc o grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol brofi gwahaniaethu, ac mae rhai grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y farchnad lafur, er bod, ar y cyfan, llai o bobl ifanc o grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn NEET o gymharu â phobl ifanc wyn Prydeinig/Cymreig/Seisnig. Mae tystiolaeth hefyd eu bod yn gwneud penderfyniadau

gwahanol am lwybrau addysg a hyfforddiant ôl-16; er enghraifft, mae pobl ifanc o grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn llai tebygol o ddewis cyrsiau dysgu seiliedig ar waith o gymharu â phobl o grwpiau Gwyn (Llywodraeth Cymru, 2024o).

Pobl ifanc sydd â chyfrifoldebau gofalu: Mae cyfrifoldebau gofalu yn cael eu nodi fel ffactor risg allweddol ar gyfer bod yn NEET (ibid.).

Pobl ifanc sy'n byw mewn ardal wledig: gall pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig wynebu amrywiaeth o rwystrau o ran cael mynediad at EET ôl-16, fel gwendid mewn seilwaith digidol, anawsterau wrth gael mynediad at EET ôl-16 (o ystyried, er enghraifft, pellter a gwendid mewn trafnidiaeth gyhoeddus) a gwendid mewn marchnadoedd llafur lleol (ibid.).

Pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal: mae profiadau o ofal yn cael eu nodi fel ffactor risg allweddol ar gyfer bod yn NEET (ibid.).

Pobl ifanc sy'n ystyried hunangyflogaeth: nid yw cymorth hunangyflogaeth i bobl ifanc (drwy'r Warrant) wedi'i werthuso. Mae tystiolaeth anecdotaidd y gall rhai pobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau i EET ddewis hunangyflogaeth er mwyn ceisio eu hosgoi.

Pobl ifanc â chofnod troseddol: Gall pobl ifanc â chofnod troseddol wynebu gwahaniaethu. Mae ymddygiad troseddol hefyd yn gysylltiedig ag amrywiaeth o ffactorau risg eraill sy'n gallu cynyddu'r tebygolrwydd y bydd person ifanc yn NEET (ibid.).

3.19. Nododd y gwerthusiad y byddai pennu targedau neu gwtâu ar gyfer samplu pobl ifanc wedi'u diffinio gan un nodwedd benodol, fel eu rhywedd neu ethnigrwydd, ychydig yn groes i'r cysyniad o groestoriadedd¹⁵. Felly, fel y mae Tabl 3.4 yn amlinellu, yn hytrach na phennu cwtâu, neu niferoedd targed, ar gyfer pobl ifanc â nodwedd benodol, a fyddai'n awgrymu y byddai recriwtio pobl â nodwedd benodol yn parhau nes bod y cwota yn cael ei gyflawni, nodwyd isafswm targedau. Roedd y dull hwn wedi'i fwriadu i ddarparu'r hyblygrwydd er mwyn helpu i sicrhau cynrychiolaeth pobl ifanc â nodweddion gwahanol a hefyd â setiau gwahanol o nodweddion, heb ei gwneud yn ofynnol

¹⁵ Mae croestoriadedd yn amlygu sut y gall nodweddion, profiadau a safleoedd gwahanol mewn cymdeithas groestorri a chreu setiau unigryw o fanteision ac anfanteision ar gyfer pobl wahanol. Trafodir croestoriadedd a'i berthnasedd i'r Warrant a'r Fframwaith ymhellach yn yr [Adolygiad o'r Dystiolaeth: cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant](#).

cael 'cwotâu cydgysylltiedig' (lle, er enghraifft, pennwyd targedau ar gyfer pobl ifanc sydd â nifer o wahanol nodweddion) (gweler, er enghraifft, Brown, et al, 2017). Galluogodd y dull hwn i berson ifanc â chyfuniadau gwahanol o nodweddion - er enghraifft, gallai person ifanc fod yn fenyw, o grŵp Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol ac yn ystyried hunangyflogaeth – gael eu cynnwys mewn targedau ar gyfer nodweddion gwahanol. Yn ogystal, nid oedd mabwysiadu'r dull hwn yn atal y tîm gwerthuso rhag cynnwys person ifanc dim ond oherwydd bod y targed ar gyfer nodwedd benodol yr oedd gan y person ifanc hwnnw wedi'i gyflawni eisoes.

Recriwtio pobl ifanc a chyfweld â nhw

- 3.20. Rhagwelwyd y byddai ymchwil gyda phobl ifanc ym mhob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yn cael ei gynnal gan aelodau o'r tîm gwerthuso ac ymchwilwyr cymunedol¹⁶. Y gobaith oedd y byddai ymchwilwyr cymunedol yn helpu i gefnogi ymgysylltu â grwpiau o bobl ifanc 'nas clywir yn aml' a gallai o bosibl ddarparu mwy o fewnwelediad o brofiad bywyd pobl ifanc na'r hyn y gallai rhywun o'r tu allan ei gyflawni. Yn ymarferol, roedd oedi cyn y gellid dechrau'r gwaith maes, wrth i drefniadau diogelu data a phreifatrwydd gael eu cytuno,¹⁷ a'r ystyriaethau sy'n gysylltiedig â diogelwch data¹⁸ a diogelu¹⁹ wedi cymhlethu'r recriwtio arfaethedig ac yn golygu ei bod dim ond yn bosibl recriwtio tîm bach o dri ymchwilydd cymunedol.
- 3.21. Rhagwelwyd y byddai pobl ifanc yn cael eu recriwtio drwy 'borthorion' - cyrff cyfryngol sy'n gweithio gyda nhw a allai rannu gwybodaeth am y gwerthusiad â phobl ifanc ac o bosibl annog pobl ifanc i gymryd rhan. Fodd bynnag, roedd oedi annisgwyl cyn y gallai'r gwaith maes ddechrau yn golygu nad oedd rhai grwpiau a oedd wedi mynegi diddordeb mewn cefnogi'r gwerthusiad yn gallu gwneud hynny. Ymddengys hefyd fod amharodrwydd ar ran rhai cyfryngwyr i rannu gwybodaeth am y gwerthusiad â phobl ifanc a/neu i annog pobl ifanc i gymryd rhan. O ganlyniad, er y cysylltwyd â thros 45 o gyrff cyfryngol yn y chwe ardal a gwnaeth y rhan fwyaf ohonynt gytuno i gefnogi'r ymchwil, roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc y cyfwelwyd â nhw yn dod o nifer llai o sefydliadau a gwasanaethau. Roedd y rhain yn cynnwys dau goleg, Cydlynwyr Ymgysylltu a Dilyniant (EPC)²⁰, clybiau a hybiau ieuenctid, a grwpiau sector gwirfoddol.

¹⁶ Mae ymchwilwyr cymunedol yn aelodau o gymuned sy'n cael hyfforddiant i ymgymryd ag ymchwil yn eu cymuned eu hunain ([CLES, 2014](#)).

¹⁷ Er enghraifft, oherwydd bod yr ymchwil yn cynnwys casglu gwybodaeth bersonol sensitif, cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data, ac oherwydd bod grwpiau gwahanol yn rhan o'r ymchwil, roedd nifer o fersiynau gwahanol o hysbysiadau preifatrwydd yn ofynnol.

¹⁸ Er enghraifft, bod gan yr holl offer TG a ddefnyddir gan Ymchwilwyr Cymunedol Ardystiad Cyber Essentials.

¹⁹ Er enghraifft, bod gan ymchwilwyr cymunedol wiriadau manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

²⁰ Disgrifir yr EPC fel 'swyddogaeth', yn hytrach na rôl. Fel yr eglura canllawiau'r Fframwaith Ymgysylltiad, 'Bydd swyddogaeth yr EPC yn parhau i chwarae rhan hanfodol a strategol, gan oruchwylio'r Fframwaith ar lefel awdurdod lleol'. Mae swyddogaeth yr EPC hefyd yn cynnwys broceru cytundebau i sicrhau argaeledd ac ansawdd gwasanaethau, gan gynnwys 'broceru gwasanaethau

- 3.22. Ystyriaeth bellach, o ran recriwtio pobl ifanc, oedd yr hyn a oedd eisoes yn hysbys am brofiadau gwahanol grwpiau. Fel yr amlinellwyd uchod, roedd amrywiaeth o werthusiadau lefel rhaglen naill ai'n mynd rhagddynt neu wedi'u cwblhau, a barnwyd ei bod yn debygol bod gwerth cyfyngedig o gynnal ymchwil bellach gyda grwpiau o bobl ifanc sy'n cael mynediad at raglenni fel CfW+, Twf Swyddi Cymru+ a'r Gwasanaeth Di-waith a werthuswyd yn ddiweddar²¹. O ganlyniad, roedd y sampl o bobl ifanc y cyfwelwyd â nhw yn cynnwys pobl ifanc ag amrywiaeth eang o brofiadau a chymorth. Fodd bynnag, bydd pobl ifanc sy'n cael mynediad at raglenni fel CfW+, Twf Swyddi Cymru+ a'r Gwasanaeth Di-waith heb gynrychiolaeth ddigonol, ac yn hytrach mae eu profiadau'n cael eu dehongli drwy werthusiadau'r rhaglenni hyn.
- 3.23. Mae Tabl 3.5 yn cyflwyno'r sampl o 81 o bobl ifanc a gyflawnwyd, o'i chymharu â'r targedau gwreiddiol.

cymorth ar gyfer grwpiau penodol y nodwyd bod angen cymorth pwrpasol arnynt'. Yn ogystal, mae'r EPC yn 'cydlynu a goruchwylio partneriaeth leol', yn adrodd i uwch arweinwyr yn yr awdurdod lleol ac yn rhoi 'diweddariadau i Lywodraeth Cymru' (Llywodraeth Cymru 2022a, t. 18).

²¹ Gweler, er enghraifft: [Gwerthusiad o Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy: nodweddion a phrofiadau'r cyfranogwyr](#) a'r Gwerthusiad Ffurfiannol o Twf Swyddi Cymru+ [Gwerthusiad o Twf Swyddi Cymru+ | LLYW.CYMRU](#).

Tabl 3.5. Nodweddion pobl ifanc y cyfwelwyd â nhw o gymharu â'r targedau gwreiddiol.

Nodweddion (gan gynnwys profiadau a sefyllfa mewn cymdeithas)	Targed (isafswm)	Sampl wirioneddol a gyflawnwyd
Rhyw: gwryw	40	44
Rhyw: benyw	40	35
Hunaniaeth rhywedd: traws neu anneuaidd	3	2
16 i 18 oed [Nodyn 1]	20	52
19 i 24 oed [Nodyn 1]	40	20
Pobl ifanc anabl	10	10
Pobl ifanc ag ADY	10	16
Pobl ifanc heb gymwysterau neu gymwysterau isel [Nodyn 2]	25	25
Pobl ifanc sydd (neu a oedd) 'ar goll' neu 'heb benderfynu'	20	8
Pobl ifanc ag anghenion cymhleth (fel digartrefedd a phroblemau iechyd meddwl)	5	12
Pobl ifanc o grŵp Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol	5	27
Pobl ifanc sydd â chyfrifoldebau gofalu	5	3
Pobl ifanc sy'n byw mewn ardal wledig	15	16
Pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal	5	6
Pobl ifanc sy'n ystyried hunangyflogaeth	10	1
Pobl ifanc â chofnod troseddol	(Dim targed)	3
Cyfanswm	100	81

[Nodyn 1] Nid yw oedran pob cyfranogwr yn hysbys ac felly mae nifer y cyfranogwyr yn y ddau gategori oedran yn gyfanswm o 72, nid yr 81 y cyfwelwyd â nhw mewn gwirionedd (fodd bynnag, roedd yr holl gyfranogwyr rhwng 16 a 24 oed).

[Nodyn 2] Nid oedd gan rai cyfranogwyr iau gymwysterau ar hyn o bryd ond roeddent yn disgwyl ennill cymwysterau yn y dyfodol. Os yw'r cyfranogwyr hyn yn

cael eu heithrio, byddai'r nifer sydd â chymwysterau isel neu ddim cymwysterau (hynny yw, cymwysterau o dan Lefel 2) yn 12.

3.24. Fel y dengys Tabl 3.5, mae'r sampl o 81 o bobl ifanc a gyflawnwyd yn cynnwys cynrychiolaeth o bobl ifanc ag amrywiaeth o nodweddion gwahanol ond nid yw'n cynrychioli'r holl grwpiau neu brofiadau allweddol yn llawn. At hynny, o ystyried y ffordd y cafodd pobl ifanc eu recriwtio drwy sefydliadau cyfryngol, mae'r sampl yn debygol o fod yn destun lefel uchel o ragfarn dethol gydag, er enghraifft, rhagfarn tuag at:

- pobl ifanc fwy hyderus gyda sgiliau cyfathrebu da, a oedd yn teimlo'n fwy cyfforddus yn cyflwyno eu hunain am gyfweiliad; a
- phobl ifanc a oedd yn ymgysylltu â chyrff cyfryngol, ac felly'n fwy tebygol o fod yn ymgysylltu ag EET neu'n mynd ati'n weithredol i ailymgysylltu ag EET, ac a allai fod yn fwy tebygol o ystyried bod yr ymchwil yn berthnasol, o gymharu â'r rhai a oedd yn economaidd anweithgar ac nad oeddent yn ymgysylltu â chyrff cyfryngol.²²

3.25. O gofio'r ystyriaethau hyn, mae'r canfyddiadau o gyfweiliadau â phobl ifanc (a drafodir yn Adrannau 4 a 9) yn cael eu hystyried yng nghyd-destun y canfyddiadau o gyfweiliadau â gwneuthurwyr polisi ac ymarferwyr ac ymchwil arall (a'u triongli â'r rhain), gan gynnwys yr hyn a ystyriwyd yn yr [Adolygiadau Cyflym o'r Dystiolaeth o feddwl ac ymddygiad pobl ifanc](#). Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth am grwpiau, fel pobl ifanc â chyfrifoldebau gofalu, pobl ifanc rhwng 19 a 24 oed, a'r rhai sy'n dilyn hunangyflogaeth, ac mae pob un ohonynt heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sampl. Ar gyfer y grŵp olaf hwn, cafodd rhai astudiaethau achos o bobl ifanc a oedd wedi derbyn y Grant Dechrau Busnes i Bobl Ifanc a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru hefyd wedi'u defnyddio i gael mewnwelediad o'r garfan hon o bobl ifanc.

²² Er enghraifft, efallai nad oedd mamau ifanc economaidd anweithgar â chyfrifoldebau gofalu sylweddol wedi ystyried bod y gwerthusiad yn berthnasol iddynt.

Dadansoddi data ansoddol

- 3.26. Cafodd cyfweiliadau eu recordio (yn amodol ar ganiatâd y cyfweldigion). Ar ôl y cyfweiliad, neilltuwyd cod cyfranogwr unigryw i bob cyfranogwyr i gael mynediad at holiadur nodweddion cyfranogwr (Atodiad F). Casglodd yr holiadur hwn wybodaeth ychwanegol nad oedd wedi'i chwmpasu yn ystod y cyfweiliadau a defnyddiwyd y data ar nodweddion cyfranogwyr i ddarparu proffil o'r sampl ac i lywio'r gwaith o ddehongli'r data.²³ Cafodd y recordiadau sain eu cadw a'u hailenwi gan ddefnyddio'r codau cyfranogwyr unigryw hyn er mwyn sicrhau y gellid cysylltu data nodweddion cyfranogwyr â'r trawsgrifiadau.
- 3.27. Cafodd y ffeiliau sain eu trawsgrifio drwy ddefnyddio meddalwedd trawsgrifio MAXQDA. Yna cafodd y trawsgrifiadau eu mewnfario i feddalwedd dadansoddi MAXQDA, a defnyddiwyd dull dadansoddi thematig anwythol i nodi themâu cychwynnol eang a ddaeth i'r amlwg o'r data mewn trawsgrifiadau. Yna cafodd y themâu eang hyn eu mireinio a'u hehangu (neu eu crynhoi) i themâu allweddol amrywiol mwy amlwg.
- 3.28. Er mwyn profi'r dull anwythol o godio, ac i geisio sicrhau nad oeddem yn colli'r ffordd yr oedd nodweddion penodol, fel rhywedd, yn llunio profiadau, defnyddiwyd dull mwy diddwythol hefyd. Er enghraifft, gwnaethom ystyried ymatebion grwpiau gwahanol er mwyn archwilio a oedd patrymau yn y data a oedd yn nodi gwahaniaethau systemig ym mhrofiadau gwahanol grwpiau. Roedd y rhain yn cynnwys:
- dynion ifanc, menywod ifanc, a phobl ifanc draws;
 - pobl ifanc anabl a phobl ifanc nad ydynt yn anabl; a
 - phobl ifanc 16 i 18 oed ac 19 i 24 oed.

²³ Er mwyn nodi gwybodaeth am nodweddion cyfranogwyr, defnyddiwyd y trawsgrifiadau o gyfweiliadau a data o'r holiadur nodweddion cyfranogwyr. Defnyddiwyd y codau cyfranogwyr unigryw i osgoi dyblygu (cyfrif ddwywaith).

- 3.29. Fel y mae Adran 8 yn amlinellu, nodwyd gwahaniaethau amlwg rhwng profiadau pobl ifanc 16 i 18 oed a'r rhai 19 i 24 oed, pobl ifanc anabl a phobl ifanc nad ydynt yn anabl, a grwpiau eraill fel pobl ifanc sy'n derbyn addysg yn y cartref. Fodd bynnag, gwnaethom hefyd nodi amrywiaeth sylweddol o brofiadau ym mhob grŵp, yn enwedig mewn perthynas â phobl ifanc a nododd eu bod yn anabl, ac, yn unol â'r ddamcaniaeth croestoriadedd, cafwyd ei bod yn brin iawn i un nodwedd ymddangos ei bod yn diffinio profiadau pobl ifanc.
- 3.30. Ni wnaethom nodi gwahaniaethau amlwg ym mhrofiadau dynion ifanc a menywod ifanc, ac roedd ein sampl o bobl ifanc draws yn rhy fach i ddod i gasgliadau ystyrlon ohoni. Mae ymchwil arall yn awgrymu bod gwahaniaethau ym mhrofiadau dynion ifanc, menywod ifanc, a phobl ifanc draws (gweler, er enghraifft, Llywodraeth Cymru 2024r). Daethom i'r casgliad ei bod yn debygol bod y rheswm na wnaethom hefyd nodi gwahaniaethau amlwg ym mhrofiadau dynion ifanc a menywod ifanc, yn adlewyrchu natur y sampl (a drafodwyd uchod). Yn ogystal, roedd yn ymddangos bod effaith croestoriadedd yn golygu bod ffactorau lluosog, gan gynnwys rhywedd ond heb fod yn gyfyngedig iddo, yn llunio profiadau pobl ifanc o bontio. Fodd bynnag, nid oedd y lens COM-B yn diystyru rhywedd. Er enghraifft, canolbwyntiodd sylw ar sut y gallai cyfrifoldebau gofalu, y mae menywod ifanc yn fwy tebygol o'u cael, ddal pobl ifanc yn ôl.
- 3.31. Ar ail gam dadansoddi data, defnyddiwyd y model COM-B o newid ymddygiad fel fframwaith i drefnu'r data. Defnyddiwyd themâu a dyfyniadau i ddadansoddi sut y mae nodweddion, profiadau, ysgogwyr a rhwystrau pobl ifanc yn effeithio ar alluoedd, cyfleoedd a chymhelliant pobl ifanc ac yn eu llunio, sydd yn eu tro yn llunio eu hymddygiad.

Moeseg ymchwil

- 3.32. Cafodd Rhestr Wirio Moeseg Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR, 2021) ei chwblhau a'i hadolygu gan reolwr contract Llywodraeth Cymru ac un o aelodau grŵp llywio'r prosiect. Yna cafodd y rhestr wirio ei hadolygu yn

ysbeidiol yn ystod y gwerthusiad mewn trafodaeth gyda'r rheolwr contract a grŵp llywio'r gwerthusiad.

3.33. Cafodd y gwerthusiad ei gynnal yn unol â'r chwe egwyddor a amlinellwyd gan ganllawiau moeseg GSR (ibid) er mwyn sicrhau bod:

- 'budd clir a diffiniedig i'r cyhoedd' i'r gwerthusiad (egwyddor 1). Cafodd yr angen am asesiad cadarn, systematig ac amserol o gynllun, gweithredu, canlyniadau ac effeithiolrwydd y Warrant, ei archwilio drwy'r Asesiad Gwerthusadwyedd (Llywodraeth Cymru, 2025a).
- y gwerthusiad yn 'seiliedig ar ddulliau ymchwil cadarn ac wedi'i amddiffyn yn erbyn rhagfarn wrth ddehongli canfyddiadau' (egwyddor 2). Fel yr amlinellir uchod, cafodd y cynllun a'r dull eu llywio gan Asesiad Gwerthusadwyedd cynhwysfawr, gyda phrotocol ymchwil manwl wedi'i ddatblygu a'i gytuno gyda grŵp llywio'r gwerthusiad, ac yna ei weithredu.
- y gwerthusiad yn 'dilyn rheoliadau diogelu data a thrin data personol yn ddiogel' (egwyddor 3). Cafodd y sail gyfreithiol ar gyfer casglu data personol (tasg gyhoeddus) ei nodi, drafftwyd hysbysiadau preifatrwydd a'u cyhoeddi, cafodd data personol eu storio'n ddiogel a'u dileu cyn gynted ag nad oedd eu hangen mwyach. Yn ogystal, cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data oherwydd bod rhywfaint o ddata 'categori arbennig' wedi'u casglu.
- cyfranogiad yn y gwerthusiad yn seiliedig ar 'gydsyniad penodol a gwybodus' (egwyddor 4). Rhoddwyd taflen wybodaeth a hysbysiad preifatrwydd (iaith glir) i gyfranogwyr cyn gofyn iddynt gydsynio i gymryd rhan. Yn ogystal, esboniwyd pwyntiau allweddol o'r daflen wybodaeth ar lafar i gyfranogwyr a chawsant eu gwahodd i ofyn cwestiynau cyn dewis a oeddent am gymryd rhan ai peidio.
- y gwerthusiad yn 'galluogi cyfranogiad y grwpiau y mae'n ceisio eu cynrychioli' (egwyddor 5). Cafodd y rhwystrau posibl y gallai cyfranogwyr eu hwynebu eu trafod a'u harchwilio gyda chyrff cyfryngol, lle y bo'n berthnasol, a chyfranogwyr, a chynigiwyd amrywiaeth o ffyrdd o gymryd rhan yn y gwerthusiad, gan gynnwys cyfweiliadau wyneb yn wyneb, fideo neu ffôn, grwpiau trafod neu holiaduron hunangwblhau.

- y gwerthusiad wedi'i 'gynnal mewn ffordd sy'n lleihau niwed personol a chymdeithasol' (egwyddor 6). Cafodd y tîm gwerthuso ei friffio, ac yn achos ymchwilwyr cymunedol, eu hyfforddi, i sicrhau eu bod yn mabwysiadu dull sensitif a pharchus a oedd yn gwahodd pobl ifanc i rannu cymaint neu gyn lleied am eu profiadau ag yr oeddent yn gyfforddus ag ef. Cafodd y tîm gwerthuso ei friffio hefyd ar ffynonellau posibl o gymorth ar ôl y cyfweiliad y gellid cyfeirio pobl ifanc a ddatgelodd anawsterau (er enghraifft, mewn meysydd fel iechyd meddwl) iddo a pharatowyd taflen wybodaeth 'ffynonellau cymorth', i'w darparu i gyfranogwyr os oedd angen.


4. Meddwl ac ymddygiad pobl ifanc 16 i 24 oed

Y rhesymeg dros ganolbwyntio ar feddwl ac ymddygiad pobl ifanc

- 4.1. Fel yr amlinellwyd yn Adran 1, nod y Warant yw cynyddu cyfran y bobl ifanc sydd mewn addysg neu hyfforddiant neu sy'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig. Un amod angenrheidiol ar gyfer hyn yw newid yn ymddygiad (rhai) pobl ifanc. Er mwyn archwilio hyn, mae'r gwerthusiad yn defnyddio'r model COM-B o newid ymddygiadol (Michie et al., 2011). Fel y dengys Ffigur 4.1 isod, mae'r model yn awgrymu bod ymddygiad person ifanc, fel chwilio am waith yn effeithiol a gwneud cais am swyddi, yn gofyn am y canlynol:
- y gallu - neu'r **galluogrwydd** - i gyflawni'r ymddygiad (er enghraifft, meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r hunaneffeithiolrwydd neu'r hunan-gred sy'n ofynnol);
 - y bwriad - neu'r **cymhelliant** - i gyflawni'r ymddygiad; ac
 - absenoldeb cyfyngiadau amgylcheddol (er enghraifft, peidio â wynebu rhwystrau fel diffyg gofal plant) neu, i'r gwrthwyneb, cael y Cyfle i gyflawni'r ymddygiad (Michie et al., 2011).
- 4.2. Fel y mae'r saethau un pen yn Ffigur 4.1 yn dangos, mae galluogrwydd a chyfle ill dau yn dylanwadu ar gymhelliant; er enghraifft:
- gall hyder yn eu gallu i gyflawni ymddygiad yn llwyddiannus, fel chwilio am waith, a'r cyfle i wneud hynny, gynyddu cymhelliant person ifanc i chwilio am waith;
 - i'r gwrthwyneb, gall galluogrwydd cyfyngedig (er enghraifft, oherwydd salwch neu brofiad a/neu ddealltwriaeth gyfyngedig o'r farchnad lafur) a/neu wynebu rhwystrau o ran cael mynediad at gyfleoedd (er enghraifft, oherwydd cyfrifoldebau gofalu neu allgáu digidol) danseilio cymhelliant.
- 4.3. Fel y mae'r saethau pen dwbl yn Ffigur 4.1 yn dangos, mae galluogrwydd, cymhelliant a chyfleoedd yn dylanwadu ar ymddygiad ac yn cael eu dylanwadu gan ymddygiad. Er enghraifft, gall ymddygiad, fel cymryd rhan mewn EET, gynyddu galluoedd (er enghraifft, os dysgir sgiliau newydd), gall gynyddu mynediad at gyfleoedd (er enghraifft, drwy ddarparu incwm i dalu am

drafnidiaeth) a gall gynyddu cymhelliant (er enghraifft, o ganlyniad i wireddu manteision ymgysylltu mewn EET, fel ennill sgiliau ac incwm).

Ffigur 4.1. Y fframwaith COM-B (Galluogrwydd, Cyfle, Cymhelliant – Ymddygiad)



Ffynhonnell: [Michie et al, 2011](#). Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr awdur.

- 4.4. Dylid nodi mai un o gryfderau'r model COM-B, ond un o'i wendidau posibl hefyd, yw ei ffocws ar yr unigolyn. Yn y model, mae 'galluoedd' yn ymwneud â galluoedd seicolegol a chorfforol unigol, yn yr ystyr o feddu ar y gallu i wneud rhywbeth, ac mae cyfleoedd yn dibynnu ar ffactorau amgylcheddol. Gellir cyferbynnu'r ddealltwriaeth o alluoedd yn y model COM-B â'r cysyniad o 'alluogrwydd' yn y Dull Galluoedd a ddatblygwyd gan Amartya Sen ac eraill. Mae'r Dull Galluoedd yn canolbwyntio ar alluoedd person yn yr ystyr o'i ryddid a'i allu i weithredu (hynny yw, ei gyfleoedd), o ystyried ei adnoddau a'i amgylchiadau unigol, fel ei iechyd, gwybodaeth a sgiliau, a ffactorau allanol fel amodau cymdeithasol ac amgylcheddol (Lewis, 2012). Mae'r ddau ddull damcaniaethol yn amlygu'r angen i ystyried cyfyngiadau amgylcheddol, neu rwystrau i gyfle.
- 4.5. Arweiniodd Dull Galluoedd Sen, ynghyd â data gan bobl ifanc, ni i ailgysyniadoli 'galluogrwydd' yn y model COM-B fel rhywbeth sy'n cael ei ddeall orau fel swyddogaeth:
- galluoedd seicolegol a chorfforol unigolyn (yr hyn y gallaf ei wneud ar fy mhyn i hun); a

- y cymorth y gall person ifanc unigol gael mynediad ato (yr hyn y gallaf ei wneud gyda chymorth eraill)²⁴.

4.6. Felly, byddai galluogrwydd person ifanc i, er enghraifft, chwilio am swydd, yn dibynnu ar:

- alluogrwydd y person ifanc unigol, fel ei lythrennedd digidol a'i wybodaeth am arferion a disgwyliadau recriwtio cyflogwyr; a
- y cymorth y gallai gael mynediad ato, fel cyngor ac arweiniad gan gynghorydd gyrfaedd neu hyfforddwr gwaith ar y ffordd orau o chwilio am waith, neu gymorth cymdeithasol, emosiynol a gwybodaeth gan weithiwr ieuenctid.

4.7. Mae'r (ail)gysyniadoli hwn o 'alluogrwydd' hefyd yn agor y drws i ystyried rôl asedau neu adnoddau fel cyfalaf cymdeithasol, teuluol ac economaidd wrth wella galluoedd person ifanc. Er enghraifft, gall cyfalaf economaidd a theuluol alluogi person ifanc â chyfrifoldeb gofalu am blentyn ifanc, i reoli ei gyfrifoldebau gofalu drwy gymysgedd o drefniadau gofal plant ffurfiol ac anffurfiol, gan gynyddu galluogrwydd. Neu, i'r gwrthwyneb, lle mae'r asedau hynny'n gyfyngedig, gallant gyfyngu ar eu galluoedd, er enghraifft, i gael mynediad at gyfleoedd EET.²⁵

²⁴ Yn yr achos hwn mae galluogrwydd yn cael ei deall mewn termau perthynol, yn hytrach na thermâu unigol yn unig (Edwards a Mackenzie, 2005).


²⁵ Mae gwahanol gysyniadau a diffiniadau o asedau cyfalaf (gweler, er enghraifft, Bourdieu, 1986; Coleman, 1988; Moser, 1988). At ddibenion y papur hwn, er mwyn cysoni â'r fframwaith COM-B, rydym yn diffinio 'asedau' fel adnoddau sy'n galluogi ymddygiad, hynny yw, maent yn galluogi unigolyn i wneud pethau – mewn gwirionedd maent yn darparu 'galluoedd'. Efallai fod hyn glir iaf mewn perthynas â 'chyfalaf dynol', sef y sgiliau a'r wybodaeth a'r iechyd corfforol a meddyliol sydd eu hangen i gyflawni ymddygiad penodol. Yn yr un modd, gall cael mynediad at gyfalaf 'economaidd', yr adnoddau ariannol y gall pobl gael mynediad atynt, fel cyflogau, budd-daliadau lles, cynilion a benthyciadau; 'cyfalaf ffisegol', pethau materol, fel tai, ceir neu nwyddau gwyn (er enghraifft, peiriannau golchi); a 'chyfalaf cymdeithasol', y rhwydweithiau a'r perthnasoedd sydd gennym gydag eraill, i gyd alluogi ymddygiad (hynny yw, gallant alluogi unigolyn i wneud pethau), a gall eu habsenoldeb gyfyngu ar alluoedd unigolyn. Er enghraifft, gall cael car (cyfalaf ffisegol) helpu pobl i deithio i gyfleoedd EET, a gall cael llety diogel (math arall o ased ffisegol) ddarparu'r ymdeimlad o ddiogelwch a sefydlogrwydd sydd ei angen i chwilio am gyfleoedd EET. Gall peidio â chael asedau o'r fath effeithio ar gymhelliant person ifanc i chwilio am gyfleoedd EET, gan ddangos y rhyng-gysylltiadau rhwng galluogrwydd a chymhelliant yn y fframwaith COM-B. Mae 'cyfalaf teuluol' yn gysyniad mwy newydd, sy'n adeiladu ar y cysyniad o 'gyfalaf cymdeithasol' i ddisgrifio'r adnoddau, gan gynnwys, er enghraifft, y cyfalaf cymdeithasol, economaidd a ffisegol, y gall teulu gael mynediad atynt (gweler, er enghraifft Zhao, et al, 2023).

- 4.8. Gwnaethom hefyd nodi pwysigrwydd trin galluogrwydd fel ffenomen wedi'i lleoli a chyd-destunol (Lewis, 2023, t. 18). Nid yw galluoedd yn nodwedd sefydlog sy'n bodoli mewn gwactod; yn lle hynny, maent yn cael eu deall orau yn y cyd-destun penodol y mae person ifanc yn cael ei hun ynddo ac mewn perthynas â thasg neu ymddygiad penodol (sy'n golygu eu bod yn ddibynnol ar y cyd-destun).²⁶ Er enghraifft, gall person ifanc fod yn 'alluog' iawn ac yn hyderus mewn amgylchedd cyfarwydd, ond gall deimlo'n llawer llai hyderus ac felly'n llai galluog mewn amgylchedd anghyfarwydd. At hynny, fel yr amlinellwn isod, mae galluoedd hefyd yn gynnyrch cyd-destun, ac, yn cael eu llunio gan brofiadau pobl ifanc mewn, er enghraifft, addysg ac yn y cartref.
- 4.9. Rydym yn parhau i drin cymhelliant fel priodoledd unigolyn, er ei bod yn un sy'n amlwg yn cael ei llunio gan gyd-destun. Fel y dengys Ffigur 4.1, bydd galluoedd a chyfleoedd (e.e. swyddi gwag yn y farchnad lafur leol) yn effeithio ar gymhelliant. Bydd hefyd yn cael ei effeithio gan ffactorau amgylcheddol eraill fel i ba raddau mae teulu, ffrindiau ac oedolion dibynadwy ym mywyd person ifanc yn annog ac yn cefnogi neu'n digalonni ac yn rhwystro ymddygiad penodol. Fel galluoedd, nid yw cymhellion yn briodoleddau sefydlog ond maent yn cael eu deall orau mewn perthynas ag ymddygiad penodol. Gall person ifanc, er enghraifft, fod yn llawn cymhelliant i gyflawni rhai ymddygiadau, ond yn wrthwynebus iawn i gyflawni eraill.
- 4.10. Rydym yn parhau i drin cyfle (neu absenoldeb cyfyngiad allanol) fel cynnyrch y cyd-destun y mae'r person ifanc ynddo (ac felly, drwy ddiffiniad, yn ddibynnol ar y cyd-destun). Nid yw hyn yn golygu bod person ifanc yn ddi-rym ac na all newid ei gyd-destun. Er enghraifft, drwy symud i ardal newydd (ymddygiad), neu gynyddu ei alluoedd, gall person ifanc newid y cyfleoedd a'r cyfyngiadau sy'n ei wynebu.

²⁶ Mae hyn hefyd yn debyg i'r model cymdeithasol o anabledd, lle mae anabledd yn cael ei achosi nid gan yr amhariad, ond gan rwystrau cymdeithasol i fynediad a chynhwysiant.

- 4.11. Felly, fel y mae Ffigur 4.2 yn dangos, dim ond mewn cyd-destun y gellir deall galluogrwydd a chymhelliant person ifanc a'i fynediad at gyfleoedd cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.


Ffigur 4.2. Darlun o'r berthynas rhwng cyd-destun, galluoedd, cyfleoedd swyddi a chymhelliant



Cyd-destun: ffactorau eithaf ac agosaf

Gall gwahaniaeth rhwng ffactorau agosaf ac eithaf fod yn ddefnyddiol i wahaniaethu rhwng elfennau o amgylchedd uniongyrchol a bywgraffiad person ifanc sy'n fwyaf cysylltiedig â'u galluoegrwydd, eu cyfleoedd a'u cymhellion, a ffactorau cyd-destunol mwy pell sy'n dylanwadu ar y rhain. Fel y mae Ffigur 4.3. yn dangos, gall trosiad winwnsyn fod yn ddefnyddiol yma, gyda'r ffactorau mwy agos yng nghanol y winwnsyn trosiadol a'r ffactorau mwy eithaf yn cynrychioli'r haenau allanol.

Ffigur 4.3. Enghraifft o ffactorau agosaf ac eithaf



[Nodyn] Er enghraifft, efallai fod ffactorau economaidd-gymdeithasol, fel tyfu i fyny mewn tlodi, wedi cyfrannu at brofiadau addysgol rhieni person ifanc. Efallai fod y ffactorau economaidd-gymdeithasol hyn wedi cyfrannu at drafferthion (eu rhieni) yn yr ysgol, trafferthion a oedd yn golygu eu bod nhw (y rhieni) wedi gadael addysg gyda chymwysterau isel neu ddim cymwysterau, ac wedi'u cyfyngu i waith â chyflog gwael, gan gyfyngu ar eu gallu i ddarparu amgylchedd dysgu cyfoethog i'w plentyn neu eu plant (Desforges ac Abouchaar, 2003).

Mae'r dull hwn yn darparu ffordd o feddwl am ffactorau strwythurol sylfaenol a'u cysylltu â'r galluoedd, y cymhelliant a'r cyfleoedd sydd ar gael i berson ifanc unigol.

Yn y cyd-destun hwn, mae ffactorau agosaf yn debyg i'r mecanwaith trosglwyddo sy'n cysylltu'r ffactorau strwythurol sylfaenol (eithaf) â galluedd, cymhelliant, cyfleoedd ac ymddygiad person ifanc. Pan gaiff ei ddefnyddio yn y modd hwn, mae'n ddefnyddiol ystyried lle mae gwahanol ffactorau yn eistedd ar y continwum o eithaf i agos (a gellir ystyried mwy nag un ffactor yn ffactor 'agos' neu 'eithaf'), yn hytrach na gweld y ffactorau mewn termau pendant yn unig fel naill ai 'agos' neu 'eithaf'. Mae hyn hefyd yn golygu y gall yr hyn sy'n cael ei ystyried yn ffactor 'agos' i 'eithaf' ddibynnu ar mor bell allan neu yn ôl y mae'r 'lens' wedi'i dynnu, i ddatgelu mwy a mwy o 'haenau' o'r winwnsyn, wrth i fwy a mwy o'r ffactorau strwythurol yn y cefndir sy'n llunio galluedd person ifanc, ei fynediad at gyfleoedd a'i gymhellion gael eu datgelu, neu ddod i'r golwg.

Y fframwaith COM-B a'r model cymdeithasol o anabledd

- 4.12. Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn ailfframio trawsnewidiol o'r ffordd rydym yn meddwl am anabledd. Wedi'i ddatblygu gan bobl anabl a'i fabwysiadu'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru yn 2002, mae'n awgrymu bod pobl ag 'amhariadau' wedi'u 'hanablu' gan rwystrau mewn cymdeithas, fel 'agweddau negyddol, a rhwystrau ffisegol a sefydliadol, a all atal pobl anabl rhag cael eu cynnwys a chymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd' (Llywodraeth Cymru 2023, t. 1). Felly, drwy weithio gyda phobl anabl a sefydliadau mewn cymdeithas fel cyflogwyr i nodi atebion (drwy ddileu rhwystrau), rydych yn dileu'r anabledd. Mewn cyferbyniad, mae'r model mwy traddodiadol, meddygol o anabledd yn awgrymu mai amhariad person yw'r 'peth sy'n ei anablu' (ibid., t.1).
- 4.13. Mae cymhwyso'r Model Cymdeithasol o Anabledd i'r fframwaith COM-B yn helpu i sicrhau dealltwriaeth gymhleth o ymddygiad o fewn ei gyd-destun amgylcheddol a chymdeithasol ac yn helpu i sicrhau nad yw'r ffocws ar 'ddiffygion' unigolyn yn unig. O'r safbwynt hwn, gellir deall amhariad fel cyfyngiad ar allu, ond mae ei effaith yn cael ei gyfyngu gan yr amgylchedd. Er enghraifft, mae'r angen am gadair olwyn (sy'n effeithio ar allu corfforol i gerdded) neu sensitifrwydd uwch i ysgogiadau allanol dim ond yn anablu mewn amgylchedd sy'n anhygyrch i gadeiriau olwyn neu sy'n creu gorlwytho

synhwyrdd i'r rhai sydd â gwahaniaethau prosesu synhwyrdd. Yn yr enghreifftiau hyn, yr amgylchedd sy'n effeithio ar fynediad pobl at gyfleoedd. Gall hefyd helpu i ddangos sut y mae profiadau o wahaniaethu, ac o fethiannau yn y gorffennol i wneud addasiadau rhesymol,²⁷ sydd â mynediad cyfyngedig at gyfleoedd yn gallu parhau i danseilio cymhelliant pobl, hyd yn oed pan fydd y rhwystrau hynny wedi'u dileu (os nad yw pobl anabl yn gweld bod cymdeithas wedi newid).


- 4.14. Fodd bynnag, mae cymhwyso'r fframwaith COM-B i'r Model Cymdeithasol o Anabledd hefyd yn dangos y risgiau os yw'r Model Cymdeithasol o Anabledd dim ond yn canolbwyntio ar gyfle a dileu'r rhwystrau mewn cymdeithas sy'n dal pobl anabl yn ôl. Mae hyn yn peryglu gwrthod unrhyw alluogedd unigol i bobl anabl wrth oresgyn rhwystrau mewn cymdeithas. Mae hefyd yn cynyddu'r risg bod materion sy'n gysylltiedig â galluogrwydd a/neu gymhelliant pobl anabl o ran cael mynediad at gyfleoedd EET, fel llythrennedd neu rifedd gwael, neu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol, a allai ddal pobl ifanc anabl yn ôl, hyd yn oed pan fydd rhwystrau cymdeithasol yn cael eu datgymalu, yn cael eu hanwybyddu. Yn hanfodol, efallai y bydd angen mynd i'r afael â ffactorau unigol (fel sgiliau neu hyder) a rhwystrau cymdeithasol/amgylcheddol er mwyn cynyddu'r gyfradd cyfranogiad mewn EET ar gyfer pobl ifanc anabl. Ond mae'n bwysig cydnabod bod y ffactorau hyn yn rhyngberthynol, oherwydd er enghraifft, bod 'hyder' personol yn ffenomen berthynol ac a gynhyrchir yn gymdeithasol. Byddai profiadau o fwlio neu wahaniaethu yn y gweithle, er enghraifft, yn effeithio'n negyddol arno, a byddai'n yn cael ei adeiladu drwy ddulliau cymorth cymdeithasol a phrofiadau cadarnhaol. Fel yr amlinellir uchod, felly, mae angen i alluogrwydd gael ei ddeall fel ffenomen wedi'i lleoli a chyd-destunol.

²⁷ 'Where someone meets the definition of a disabled person in the Equality Act 2010 (...) employers are required to make reasonable adjustments to any elements of the job which place a disabled person at a substantial disadvantage compared to non-disabled people.' (Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth, 2010, t. 2).

Galluedd pobl ifanc

- 4.15. Mae llawer o ffocws yr adran hon ar 'alluedd' pobl ifanc. Mae hyn wedi'i ddiffinio mewn ffyrdd gwahanol (gweler er enghraifft y drafodaeth yn Giddens, 1984) ac at ddibenion yr astudiaeth hon rydym yn ei ddefnyddio i ddisgrifio capasiti pobl ifanc i weithredu, gwneud dewisiadau a llunio'r byd o'u hamgylch. Yn unol â'r fframwaith COM-B, mae'r capasiti hwn i weithredu, yn dibynnu ar alluedd unigolyn a'r cyfle i weithredu (neu absenoldeb cyfyngiadau). Mae cymhelliant wedyn yn llunio sut y mae pobl ifanc yn dewis gweithredu – neu i ddefnyddio iaith COM-B, sut y maent yn ymddwyn.
- 4.16. Fel y dengys Ffigur 4.4., mae **galluogrwydd** pobl ifanc i lywio'r **cyfleoedd** a'r heriau a grëwyd gan y cyd-destun economaidd-gymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol, a'r dewisiadau a wnânt (o ystyried eu **cymhelliant**), ac felly yn y pen draw eu **hymddygiad** yn cael eu llunio gan amrywiaeth o wahanol ffactorau a grymoedd allanol.

Ffigur 4.4. Enghreifftiau o'r ffyrdd y mae'r cyd-destun cymdeithasol, gwleidyddol, economaidd a diwylliannol yn llunio galluoedd, cyfleoedd, cymhellion ac ymddygiad Cenhedlaeth Z



Ffynonellau: [Llywodraeth Cymru, 2024b](#); Golley Slater, 2023; McGuire, 2022; Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol 2022; [Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021](#); [Sefydliad Tegwch Iechyd, 2020](#); Lloyd-Jones, 2005.

[Nodyn 1] Roedd dirywiad mewn iechyd meddwl pobl ifanc yn rhagflaenu'r pandemig ond mae'n bosibl ei fod wedi'i gyflymu gan y pandemig ar gyfer rhai grwpiau (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021).

[Nodyn 2] Mae toriadau mewn cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymorth EET wedi'u rhagweld o ganlyniad i ddiwedd cyllid UE i Gymru a symud tuag at ffrydiau cyllido newydd fel y Gronfa Ffyniant Gyffredin (Ymchwil y Senedd, 2023).

[Nodyn 3] Mae newidiadau o ran nifer y swyddi a math neu gymeriad swyddi (er enghraifft, o ran cyflog, diogelwch, hyfforddiant a chyfleoedd dilyniant), yn ogystal â nifer a math y cyfleoedd addysg a hyfforddiant, i gyd yn ffactorau cyd-destunol pwysig.

[Nodyn 4] Mae'r rhain yn cael eu nodi fel 'penderfynyddion cymdeithasol iechyd' (Sefydliad Tegwch Iechyd, 2020).

4.17. Fel y mae'r Asesiad Gwerthusadwyedd (Llywodraeth Cymru, 2025a) yn casglu, gall dadansoddiad sy'n ystyried ffactorau a grymoedd allanol (cyd-destun), a'r ffyrdd y maent yn llunio ac yn rhyngweithio â galluedd pobl ifanc, eu mynediad at gyfleoedd, eu cymhelliant, a'u hymddygiad helpu i esbonio pam:

- mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn aros mewn EET, ond mae lleiafrif sylweddol yn ymddieithrio ac yn mynd yn NEET; ac
- mae rhai grwpiau, fel pobl ifanc anabl, y rhai â chyflyrau iechyd a'r rhai heb gymwysterau neu gymwysterau isel, yn agored i risg uwch o lawer o fod yn NEET na grwpiau eraill.


Pandemig COVID-19

4.18. Mewn sawl ffordd, roedd pandemig COVID-19 yn brofiad unigryw gyfer Cenhedlaeth Z (Cen Z)²⁸. Roedd y cyfnod yn wahanol i unrhyw gyfnod arall a

²⁸ Mae Cen-Z yn disgrifio'r garfan o bobl ifanc a anwyd rhwng canol y 1990au a dechrau'r 2010au. Maent yn dilyn carfannau cynharach fel Mileniaid, Cenhedlaeth X a chenhedlaeth y 'Baby Boomers'.

brofwyd gan bobl ifanc yn y cyfnod modern ac, fel y dengys Ffigur 4.5, effeithiodd yn sylweddol ar alluoedd a chymhellion pobl ifanc a'u mynediad at gyfleoedd ac felly eu haddysg, hyfforddiant a chyfnodau phontio i gyflogaeth, a'u gallu i gynnal cyflogaeth. Fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad, cafodd y Warant ei datblygu i ddechrau mewn ymateb i effaith ddisgwyliedig y pandemig ar ddiweithdra ymhlith pobl ifanc.

Ffigur 4.5. Enghreifftiau o effaith ymatebion cymdeithasol, economaidd a pholisi i bandemig COVID-19 ar alluoedd, cyfleoedd, cymhellion ac ymddygiad pobl ifanc mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth



[Nodyn] Pobl ifanc 18-24 oed oedd y grŵp oedran mwyaf tebygol o fod wedi profi cyfnodau estynedig o fod heb waith (gan gynnwys ffyrlo) yn ystod y pandemig (Murphy, 2022a). Nododd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru fod hyn yn cynnwys colli cyfleoedd cyflogaeth rhan-amser, a allai fod wedi helpu pobl ifanc i ehangu eu

sgiliau a'u profiad tra oeddent yn dal mewn addysg. Nododd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru hefyd fod y pandemig wedi tarfu ar leoliadau profiad gwaith i'r rhai yn yr ysgol.

4.19. Fodd bynnag, er bod agweddau ar y pandemig yn brofiad unigryw i bobl ifanc mewn llawer o ffyrdd, nid yw hyn yn wir am gynnydd mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc ar ôl crebachu cyfleoedd economaidd²⁹ ac mae hyn wedi'i brofi gan genedlaethau blaenorol. Efallai fod cenedlaeth y 'baby boomers' wedi ymuno â marchnad lafur fywiog yn y 1970au, pan oedd y rhan fwyaf o bobl ifanc a adawodd yr ysgol yn 16 oed yn dechrau gweithio. Fodd bynnag, mae profiadau cenedlaethau dilynol, Cen-X (y rhai a anwyd yn ail hanner y 1960au neu'r 1970au), Mileniaid (y rhai a anwyd yn y 1980au a chanol y 1990au), a Cen-Z (sy'n ganolbwynt i'r Wariant) wedi bod yn wahanol iawn; yn benodol, o'r 1980au ymlaen:

- roedd dad-ddiwydiannu wedi tarfu ar farchnadoedd llafur pobl ifanc;
- cafwyd cynnydd sydyn mewn pryder y llywodraeth ynghylch cynnydd mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc, a chymorth ac ymyriad i fynd i'r afael â hyn; a
- ehangwyd cyfleoedd addysg bellach ac uwch a pharhaodd nifer cynyddol o bobl ifanc mewn addysg bellach (AB) ac addysg uwch (AU) (Lloyd-Jones, 2005; McGuire, 2022; Roberts, 1995).

Y cyd-destun cymdeithasol ac economaidd ar gyfer Cen Z a'r Wariant

4.20. Mae'r newidiadau cymdeithasol ac economaidd ers y 1980au wedi creu amrywiaeth ehangach o gyfleoedd EET ond mwy o risgiau hefyd i bobl ifanc, sy'n gynyddol gyfrifol am lywio strwythur cymhleth o gyfleoedd a heriau (gweler Lloyd-Jones, 2005; Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, 2005; Roberts, 1995). Gellir cymharu'r economi a'r gymdeithas hyd at y 1980au fel model 'optio allan', a'r disgwyliad oedd y byddai'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn dilyn

²⁹ Mae pobl ifanc yn arbennig o agored i niwed o ran dirywiadau economaidd, a phan fydd llai o gyfleoedd cyflogaeth, mae rhai pobl ifanc na fyddent fel arall yn gwneud hynny yn dewis aros mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16. Ond mae'r rhai nad ydynt yn aros neu'n sy'n gadael addysg a hyfforddiant, neu'n cwblhau ac yna'n gadael addysg neu hyfforddiant ôl-16 yn fwy tebygol o fod yn NEET yn ystod dirwasgiad. (Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, 2015)

llwybrau cyflogaeth cul ac a oedd yn aml ar wahân ar gyfer y rhywiau ar ôl gadael yr ysgol. Ar gyfer dynion ifanc, roedd llwybrau i'r gwaith dur, y ffatri neu'r pwll glo, ac i fenywod ifanc, llwybrau i waith gweinyddol neu ysgrifenyddol, gwaith ffatri, arlwygo neu lanhau. Yn dilyn hynny, symudodd yr economi i fodel a oedd yn fwy tebyg i un 'optio i mewn', lle roedd llwybrau i gyflogaeth, ac i addysg a hyfforddiant ôl-16 yn hollti ac yn amlhau, gan ei gwneud yn ofynnol i bobl ifanc ddewis beth i'w wneud. O ganlyniad, fel yr ydym yn ei drafod ymhellach yn Adran 8, mae pwysigrwydd galluedd pobl ifanc eu hunain (ac felly eu galluedd, eu cymhellion a'u cyfleoedd unigol) wedi cynyddu.³⁰

- 4.21. Arweiniodd y newidiadau economaidd-gymdeithasol hyn, ynghyd â'r cynnydd mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc yn y 1980au, at sefydlu rhaglenni newydd i gynorthwyo cyfnodau pontio pobl ifanc i gyflogaeth, fel y Cynllun Hyfforddi Ieuencid (YTS), rhaglenni sydd, fel y mae'r Adran nesaf yn amlinellu, wedi parhau i ddatblygu hyd heddiw.
- 4.22. Mae'r newidiadau hyn mewn addysg a hyfforddiant ôl-16, y farchnad lafur a gwasanaethau cymorth yn croestorri â newidiadau o ran dyheadau pobl ifanc. Er enghraifft, mae chwyddiant (a'r argyfwng costau byw) a chynnydd mewn prisiau tai a rhentu wedi cynyddu dibyniaeth llawer o bobl ifanc ar gymorth rhieni a gadael llawer nad ydynt yn gallu byw'n annibynnol, gan oedi'r dimensiwn hwn o'u pontio i fyd oedolion (Murphy, 2022b). Mae'n bosibl bod hyn, yn ei dro, wedi gostwng dyheadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth (oherwydd, er enghraifft, bod y posibilrwydd o ddefnyddio cyflogaeth i gyflawni byw'n annibynnol yn mynd yn fwy anodd ei gyflawni).

³⁰ Cymharodd Roberts (1995) hyn â phobl ifanc mewn ardal benodol yn dal yr un trê (trosiadol) wrth bontio o'r ysgol i fyd gwaith, gan gyferbynnu hyn â'r sefyllfa yn y 1990au, pan oedd yn rhaid i bobl ifanc ddewis a gwneud eu teithiau unigol eu hunain o'r ysgol i fyd gwaith.

5. Y system o gymorth EET i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed

- 5.1. Fel y mae'r testun yn y blwch isod yn dangos, mae corff sylweddol o lenyddiaeth sy'n archwilio 'beth sy'n gweithio' mewn perthynas â chefnogi ymgysylltiad a chynnydd pobl ifanc ag EET. Awgrymodd y dystiolaeth a ystyriwyd ar gyfer yr [Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg, na hyfforddiant](#) fod polisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru wedi'u llywio gan dystiolaeth o 'beth sy'n gweithio' (a'u bod yn ymgorffori'r dystiolaeth hon). Fodd bynnag, nid oedd o fewn cwmplas yr adolygiad i werthuso'n gynhwysfawr i ba raddau yr oedd polisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru yn ymgorffori'r dystiolaeth o 'beth sy'n gweithio' (Llywodraeth Cymru 2024t).

Ymgysylltu a chefnogi ymgysylltiad a chynnydd pobl ifanc gydag EET: beth sy'n gweithio?

- Canolbwyntio ar bobl ifanc i gael gwell dealltwriaeth o'u cymhelliant, galluoedd a/neu eu mynediad at gyfleoedd. Mae'r ffocws hwn yn hanfodol oherwydd bod cymhellion a galluoedd pobl ifanc a/neu eu mynediad at gyfleoedd yn galluogi ymddygiad pobl ifanc ac yn cyfyngu arno, fel eu hymgysylltiad â:
 - gwasanaethau cymorth EET, fel TSC+ neu CfW+; a/neu
 - eu hymgysylltiad â chyfleoedd EET fel addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith neu gyfleoedd cyflogaeth.
- Canolbwyntio ar gyflogwyr ac ar ddarparwyr addysg neu hyfforddiant hefyd, er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'u disgwyliadau a'r cyfleoedd EET sy'n agored i bobl ifanc. Gall hyn helpu i sicrhau bod cymorth i bobl ifanc yn rhoi'r galluoedd, yr agweddau a'r ymddygiad iddynt y mae cyflogwyr neu ddarparwyr addysg a hyfforddiant yn eu disgwyl, y gall y rhai sy'n darparu cymorth froceru mynediad at gyfleoedd, a bod dyheadau pobl ifanc yn cydfynd â'u galluoedd a'r cyfleoedd EET y gallant gael mynediad atynt.
- Cynorthwyo pobl ifanc mewn ffordd hyblyg, ymatebol, sy'n canolbwyntio ar y person, drwy rolau deuol oedolyn y gellir ymddiried ynddo a gweithiwr proffesiynol arweiniol, a all ddarparu cymorth bugeiliol ac ymarferol eu

hunain a broceru mynediad at gyfleoedd EET a chymorth gan eraill (e.e. gwasanaethau iechyd a thai) lle bo angen.

- Gwneud hyn i gyd yn dda drwy, er enghraifft, sicrhau bod gan staff y cymhelliant a'r galluoedd a mynediad at gyfleoedd (fel cymorth gan bartneriaid) sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rolau a bod rhaglenni'n cael eu cyllido'n ddigonol a'u gwerthuso'n gadarn.


Fodd bynnag, mae'r sylfaen dystiolaeth hon wedi'i chyfyngu'n bennaf i 'beth sy'n gweithio' ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET (gan eu bod yn cael eu cynnwys mewn gwerthusiadau) ac mae llawer llai yn hysbys ynghylch 'beth sy'n gweithio' gyda'r rhai nad ydynt yn ymgysylltu (nad ydynt fel arfer yn cael eu cynnwys mewn gwerthusiadau).

Addaswyd o Lywodraeth Cymru, 2024t, t. 92.

5.2. Serch hynny, fel y dengys Ffigur 5.1., ar ddechrau 2020 (cyn y pandemig) roedd y system o gymorth EET ôl-16 yn dameidiog, yn cael ei darparu gan gyrff gwahanol ar wahanol raddfeydd neu ddaearyddiaethau. Mae wedi newid ymhellach ers 2020 oherwydd bod:

- rhaglenni ac ymyriadau newydd wedi'u datblygu mewn ymateb i'r pandemig (a nodir gan y dotiau sgwâr);
- Daeth darpariaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop (a nodir gan linellau toriad petryal trwchus) i ben yn 2023; a
- Cafodd darpariaeth y Gronfa Ffyniant Gyffredin (a nodir gan linellau toriad petryal trwchus a dotiau sgwâr) ei chyflwyno'n raddol o 2022 ymlaen.

Ffigur 5.1. Y system gymorth EET ôl-16 yng Nghymru



Acronymau: AIF – Y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol³¹; PaCE – Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth³².

[Nodyn 1] Daeth Kickstart i ben ym mis Rhagfyr 2021.

[Nodyn 2] Cafodd CfW ei ddarparu mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau a daeth i ben ym mis Mawrth 2023.

[Nodyn 3] Cafodd Syniadau Mawr Cymru ei gefnogi gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) i ddechrau rhwng 2007 a 2013 ac yna fel rhan o wasanaeth Busnes Cymru rhwng 2014 a mis Mehefin 2023. Caiff y cynllun hwn ei drafod ymhellach yn Adran 7.

- 5.3. Fel y mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith (LWI) yn nodi, er bod y gwasanaethau a ddatblygwyd mewn ymateb i'r pandemig yn cynnig ystod ehangach o gymorth i bobl ifanc, mae hefyd wedi creu tirwedd fwy cymhleth i'w llywio ac o bosibl llwybrau atgyfeirio mwy cymhleth i gymorth priodol ar gyfer pobl ifanc (LWI, 2021b, t. 5). Fel y mae Adran 8 yn amlinellu, nododd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru ac o raglenni sy'n ffurfio'r Warrant, fod diwedd rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn 2023 a dechrau cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y DU, sydd wedi'i ddyrannu i awdurdodau lleol ers mis Ebrill 2022, wedi gwneud y dirwedd yn fwy tameidiog.

Y cyd-destun polisi ehangach

- 5.4. Fel y dengys Ffigur 5.2, mae cyd-destun polisi'r Warrant yn ymestyn y tu hwnt i raglenni cyflogadwydd i gwmpasu polisi mewn meysydd fel addysg, iechyd a gofal plant. Mae'r meysydd polisi ehangach hyn yn aml yn ceisio mynd i'r afael â ffactorau mwy 'eithaf' fel lefelau isel o gyrhaeddiad addysgol neu iechyd gwael, sy'n cyfyngu ar alluoedd pobl ifanc, yn hytrach na'r ffactorau 'agosaf' fel mynediad at wasanaethau cymorth EET (Llywodraeth Cymru, 2024b).³³ Er enghraifft, mae [Fframwaith NYTH](#), a'r [Fframwaith ar sefydlu dull](#)


³¹ Cefnogodd Cronfa Cynhwysiant Gweithredol Cronfa Gymdeithasol Ewrop bobl a oedd yn bell o waith i ymgysylltu neu ailymgysylltu â'r farchnad lafur a daeth i ben ym mis Mawrth 2023.

³² Cefnogodd PaCE rieni neu warcheidwaid economaidd anweithgar, gan eu helpu i baratoi ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth a chael mynediad atynt.

³³ Nid yw hyn yn golygu, er enghraifft, mai polisi addysg neu iechyd yn unig sy'n gyfrifol am wella cyrhaeddiad addysgol neu iechyd meddwl, dim ond bod polisiau yn y meysydd hyn wedi'u bwriadu i chwarae rhan.

[ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol](#) Llywodraeth Cymru, gyda'u ffocws ar atal, cymorth cynnar ac ymyrraeth, yn rhan allweddol o ddull 'systemau cyfan' o gryfhau iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc.

Ffigur 5.2. Map polisi Llywodraeth Cymru: cymorth i bobl ifanc ymgysylltu ag EET



Ffynhonnell: addaswyd o [Llywodraeth Cymru, 2022f](#)

Llwybrau addysg a hyfforddiant, cyngor ac arweiniad

- 5.5. Bu pryderon hirsefydlog am lwybrau addysg a hyfforddiant i bobl ifanc yng Nghymru. Er enghraifft, nododd adolygiad Hazelkorn, ymhlith pethau eraill, fod 'diffyg llwybrau dysgu cydlynol a chyfleoedd addysgol i fyfyrwyr, o bob oedran, rhyw a thalent, o'r ysgol, i/drwy addysg bellach ac addysg uwch' (Llywodraeth Cymru, 2016a, t. 11). Yn yr un modd yn eu hadolygiad o addysg 16 i 19 oed yn 2022, nododd Estyn fod 'opsiynau dysgwr i barhau i ddysgu yn 16 oed yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar ble mae'n byw yng Nghymru, pa iaith y mae'n dymuno dysgu ynddi, a beth oedd ei gyrhaeddiad addysgol yn 16 oed' (Estyn, 2022a, t.12). Yn ogystal, fel y mae Estyn yn nodi, 'mae gormod o amrywiad o hyd yn ansawdd addysg gyrfaoedd ac addysg yn gysylltiedig â gwaith, a chyngor ac arweiniad diduedd i gynorthwyo'r holl ddysgwyr mewn ysgolion yn llawn wrth wneud dewisiadau am eu hopsiynau addysg a hyfforddiant yn y sector ôl-16.' (Estyn, 2022b, t. 14).
- 5.6. Mae'r feirniadaeth hon wedi'i chyfeirio'n bennaf at leoliadau addysgol, a gallai fod o fudd iddynt annog dysgwyr i barhau gyda nhw yn hytrach na symud i leoliad arall. Mae hyn yn golygu bod risg nad oes gan rai dysgwyr fynediad at gyngor cynhwysfawr neu ddigon diduedd ynghylch yr amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, mae Estyn yn nodi bod:
- 'sylw annigonol yn cael ei roi i lwybrau dysgu amgen heblaw aros ymlaen yn y chweched dosbarth, yn enwedig os disgwylir i ddysgwyr gyflawni'n dda yn eu cyrsiau TGAU'; a
 - 'bod dealltwriaeth gymysg o gymwysterau galwedigaethol, bod gan ddysgwyr ganfyddiadau gwahanol o werth addysg alwedigaethol, a bod dysgwyr yn credu bod dysgwyr mwy 'anacademaidd' yn cael eu hannog i ddilyn addysg alwedigaethol' (Estyn, 2022a., t. 32).
- 5.7. Adleisiwyd y pryder hwn gan gyfweleion o Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, fel y nododd un ohonynt:

Os oes gennych feddwl academaidd, byddwch yn gwneud yn dda; mae'r ysgol yn mynd i roi llawer o wybodaeth i chi am y chweched dosbarth ond nid am bethau eraill. Ac os nad ydych yn academaidd ac nad yw'r ysgol yn

meddwl ei fod yn addas i chi, mae'n debygol y byddant yn dweud wrthyh am y coleg. Yn y bôn, dyna sydd angen i ni ei newid.

- 5.8. Nododd Gyrfa Cymru eu bod wedi cyflwyno cynnig cyfweliad arweiniad gyrfaedd i bob person ifanc yn CA4 ym mis Medi 2024 mewn ymateb i'r pryderon hyn ac i geisio sicrhau bod pob person ifanc yn cael gwybod am ei opsiynau gan rywun diduedd. Er nad oedd tystiolaeth am yr effeithiolrwydd ar gael (gan fod hyn ar ddiwedd y cyfnod sy'n cael ei werthuso), mae Gyrfa Cymru yn nodi eu bod wedi gweld 83% o garfan CA4 rhwng mis Medi 2024 a mis Ebrill 2025. Fodd bynnag, gwnaethant nodi hefyd bod ysgolion yn gallu cyfyngu ar fynediad at rai pobl ifanc.
- 5.9. Mae pryderon penodol hefyd nad yw llwybrau cynnydd drwy gymwysterau galwedigaethol yn ddigon clir (Llywodraeth Cymru, 2024b). Mae hyn yn adlewyrchu pryderon am:
- sut y mae gwybodaeth am wahanol lwybrau yn cael ei chyfathrebu;
 - sut y mae darpar ddysgwyr yn cael eu cynghori am wahanol lwybrau (gan gynnwys yr enghreifftiau a amlinellwyd uchod); ac,
 - i raddau llai, saernïaeth llwybrau, a chodwyd pryderon, er enghraifft, am ddyblygu cynnwys ar wahanol lefelau.
- 5.10. Mewn ymateb, mae'r Adolygiad o'r Cymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru yn argymhell y dylai 'Cymwysterau Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i gynhyrchu 'mapiau ffordd' cymwysterau galwedigaethol i alluogi dysgwyr i nodi cyfleoedd cynnydd ym mhob sector' (pwyslais wedi'i hepgor, *ibid*, t. 88). Yn y cyd-destun hwn, awgrymodd un hysbysydd o Lywodraeth Cymru fod adnodd [Croeso i Lwybrau Caerffili](#) yn enghraifft dda o'r hyn y gellid ei wneud.
- 5.11. O ganlyniad i'r ffactorau cydgysylltiedig hyn, fel yr amlinellir isod, er bod y rhan fwyaf o bobl ifanc yn pontio i naill ai'r chweched dosbarth neu'r coleg pan fyddant yn 16 oed, mae pryderon bod gormod o bobl ifanc nad ydynt yn cyrraedd eu llwybr gorau posibl.³⁴ Mae hyn, yn ei dro, yn cyfrannu at y niferoedd sylweddol o bobl ifanc nad ydynt yn cynnal y llwybr hwnnw ac yn gadael (Estyn, 2022a).

³⁴ Er enghraifft, nododd Estyn nad oedd 'digon o ddysgwyr yn ymwybodol o gyfleoedd dysgu yn y gwaith, fel prentisiaethau' (Estyn, 2022b, t.1).

Cynnydd pobl ifanc

- 5.12. Mae dadansoddiad gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (Huxley a Davies, 2024)³⁵ yn amcangyfrif, flwyddyn ar ôl cwblhau blwyddyn 11, bod:
- 50% o bobl ifanc wedi cofrestru mewn AB (gan gynnwys dysgu seiliedig ar waith);
 - 44% o bobl ifanc wedi cofrestru mewn chweched dosbarth;
 - 10% o bobl ifanc wedi cofrestru yn y chweched dosbarth a'r coleg; ac
 - nid oedd 7% o bobl ifanc wedi cofrestru yn y chweched dosbarth na'r coleg (ac roeddent naill ai'n gyflogedig, yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar).
- 5.13. Mae hyn yn unol yn fras ag amcangyfrifon eraill (gweler er enghraifft Estyn, 2022a), gan amlygu sut, yn 16 oed, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn parhau i naill ai'r coleg neu'r chweched dosbarth.
- 5.14. Mae dadansoddiad Huxley a Davies (2024) hefyd yn nodi:
- gwahaniaethau amlwg yn y llwybrau y mae gwahanol grwpiau yn eu cymryd, gyda dysgwyr o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, sydd â salwch neu amhariad hirdymor a/neu AAA³⁶ yn debygol o ddewis llwybrau galwedigaethol a dysgu seiliedig ar waith; ac
 - graddfa gadael addysg yn cynnar (maent yn amcangyfrif bod 6% o ddysgwyr wedi tynnu'n ôl o'r holl weithgareddau y gwnaethant gofrestru ar eu cyfer yn ystod Blwyddyn 12 a bod 5% o ddysgwyr wedi tynnu'n ôl o'r holl weithgareddau y gwnaethant gofrestru ar eu cyfer yn ystod Blwyddyn 13).

³⁵ Mae hyn yn seiliedig ar ddadansoddiad hydredol 'gan edrych ar ddilyniant carfanau o addysg orfodol i addysg drydyddol ac ystyried nodweddion poblogaethau mewn gwahanol leoliadau trydyddol' (Huxley a Davies, 2024, t. 59).

³⁶ Mae awduron yr adroddiad yn cydnabod 'nad AAA yw'r derminoleg sy'n cael ei ffafrio mwyach a'i fod wedi cael ei ddisodli gan Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)' ond yn nodi eu bod yn 'parhau i ddefnyddio AAA yn yr adroddiad hwn i adlewyrchu'n gywir y data a ddefnyddiwyd, a gasglwyd cyn y newidiadau hyn' (Huxley a Davies, 2024, t.16.)

- 5.15. Mae'r Warant yn rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i'r her hon, ochr yn ochr â chreu Medr, sy'n ceisio creu system reoleiddio a chyllido unedig ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16.³⁷

Pontio i bobl ifanc ag ADY

- 5.16. Bu pryderon hirsefydlog am yr anawsterau y gall pobl ifanc ag ADY eu profi wrth bontio o addysg uwchradd (gweler, er enghraifft, Llywodraeth Cymru, 2016b). Yn wir, mae cyfran y bobl ifanc ag ADY sy'n gwneud ac yn cynnal pontio i addysg neu hyfforddiant ôl-16 yn llawer is na'r dysgwyr hynny heb ADY (Huxley a Davies, 2024).³⁸
- 5.17. Yn hanesyddol, mae dysgwyr ag ADY wedi profi amrywiaeth o anawsterau (sy'n mynd y tu hwnt i bontio). Nod Llywodraeth Cymru yw mynd i'r afael â llawer o'r anawsterau hyn drwy ei rhaglen diwygio ADY.³⁹ Mae'r diwygiadau'n cynnwys sefydlu 'system unedig' sy'n cwmpasu ysgolion a cholegau i gynorthwyo dysgwyr ag ADY 0 i 25 oed (Llywodraeth Cymru, 2021b). Mae'r diwygiadau ADY wedi'u cyflwyno'n raddol dros bedair blynedd ysgol (mis Medi 2021 i fis Awst 2025).
- 5.18. Mae [gwerthusiad o'r system ADY](#) yn mynd rhagddo ac mae gwerthuso effaith lawn y diwygiadau ymhell y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn. Mae'n debyg ei bod hefyd yn rhy gynnar i farnu. Er enghraifft, o ystyried ffocws yr adroddiad hwn ar y Warant, mae'n nodedig bod Estyn yn 2023 wedi nodi ei bod yn 'ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu' strategaethau awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth ôl-16, heb fawr o eglurder ynghylch sut y byddai'r system yn gweithio mewn colegau (Estyn, 2023a, t 23).

³⁷ Mae hyn yn cynnwys AB (colegau a chweched dosbarth ysgolion), AU, dysgu oedolion a'r gymuned, a phrentisiaethau a hyfforddiant.

³⁸ Mae'r adroddiad hwn yn archwilio cyfranogiad, cynnydd, a diffyg cynnydd mewn addysg drydyddol yng Nghymru rhwng 2011/12 a 2018/19. Mae'r adroddiad yn nodi wrth edrych ar y gwahanol ddosbarthiadau AAA, bod 'cyfran uwch o ddysgwyr Datganiad AAA (21%) a dysgwyr Gweithredu a Mwy (12%) heb symud ymlaen i'r Chweched Dosbarth neu Addysg Bellach. Dysgwyr AAA (rhwng 9% a 15%) oedd â'r cyfrannau isaf yn symud ymlaen i leoliadau Chweched Dosbarth. Roedd dysgwyr â diagnosis AAA yn cael eu canfod yn amlach mewn colegau AB (rhwng 66% a 73%) o'i gymharu â dysgwyr heb AAA (46%).' (Huxley a Davies, 2024, t. 19.)

³⁹ Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("y Ddeddf ADY") yn sefydlu'r fframwaith statudol ar gyfer cynorthwyo plant a phobl ifanc ag ADY yng Nghymru. Mae hyn yn cymryd lle'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu.

5.19. Serch hynny, amlygodd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru un effaith bwysig bosibl y diwygio: yn 2024, roedd nifer y dysgwyr mewn ysgolion wedi'u categoraiddio fel rhai ag ADY wedi gostwng 44% ers cyflwyno'r system newydd yn 2020 i 2021 (Ymchwil y Senedd, 2024). Nid oedd disgwyl effaith ar y raddfa hon oherwydd nad oedd y diffiniad o ADY⁴⁰ wedi newid yn sylweddol o'r diffiniad o AAA neu AAD (Estyn, 2023a). Mae hyn yn bwysig ar gyfer yr astudiaeth hon oherwydd, fel yr amlinellwn isod, mae'n effeithio ar y cymorth pontio y mae gan bobl ifanc hawl iddo.

⁴⁰ Yn ôl y [Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol](#): 'Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd (a) os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu (b) os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach' (Llywodraeth Cymru 2021b, t. 28). (Nodyn: nid yw'r iaith hon yn adlewyrchu'r Model Cymdeithasol o Anabledd y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddilyn.)

5.20. Nid yw'n glir pam mae nifer y dysgwyr sydd wedi'u categoraiddio fel rhai ag ADY wedi gostwng. Awgrymwyd i ddechrau gan Lywodraeth Cymru bod 'gormod o achosion wedi'u nodi' o ran pobl ifanc ag AAA o dan yr hen system (Ymchwil y Senedd, 2022a). Yn eu [hadolygiad o'r system anghenion dysgu ychwanegol newydd yn 2023](#), nododd Estyn 'Mae llawer o ffactorau sy'n debygol o fod wedi cyfrannu at ostyngiad cyffredinol yn nifer y plant ar gofrestrau ADY ysgolion' (Estyn, 2023a, t. 14). Mae'r rhain yn cynnwys:

- cyflwyno termau newydd 'sy'n disgrifio darpariaeth ddysgu fel: 'cyffredinol', 'targedig', 'arbenigol' ac 'ychwanegol'. Efallai fod hyn wedi newid y trothwyon oherwydd 'dim ond pan gaiff darpariaeth ei dosbarthu gan awdurdodau lleol ac/neu ysgolion yn 'ychwanegol', yr ystyrir bod gan ddisgyblion ADY.' (ibid, t. 16);⁴¹
- cam-gategoreiddio (o dan yr hen system) dysgwyr a gafodd ymyriadau dal i fyny tymor byr ar gyfer llythrennedd a/neu rifedd fel rhai sydd ag 'anhawster dysgu cyffredinol' (ac felly AAA);
- mwy o graffu ar gofrestrau ADY o dan y system newydd; a
- newidiadau mewn cyllid ar gyfer ysgolion (ibid).

5.21. Yn ogystal, fel y mae Estyn yn nodi, mae ysgolion yn nodi cymhlethdod cynyddol a/neu ddifrifoldeb o ran angen ymhlith pobl ifanc y nodwyd bod ganddynt ADY. Gall hyn helpu i esbonio pam y bu gostyngiadau llawer mwy sydyn yn nifer y dysgwyr a gynorthwyir â Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy rhwng 2020 a 2023, ochr yn ochr â chynnydd mawr yn nifer y cynlluniau statudol gan gynnwys datganiadau AAA a CDUau a gyhoeddwyd (ibid).⁴²

⁴¹ Fodd bynnag, dylid nodi bod y dehongliad hwn wedi'i herio hefyd. Er enghraifft, mae Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru wedi disgrifio'r cod ADY fel un sy'n ddeallusol heriol i'w ddeall (Senedd, 2024, t. 28). Nododd, er enghraifft, nad yw'r Cod yn diffinio beth yw darpariaeth 'gyffredinol', 'dargedig', neu 'arbenigol' a dim ond yn diffinio 'darpariaeth ddysgu ychwanegol' (sy'n ffurfio rhan o'r meini prawf ar gyfer penderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY). Mae hyn yn bwysig oherwydd, yn ei barn hi, os nad yw mathau o ddarpariaeth yn cael eu diffinio gan y Cod, ni ellir eu defnyddio i wrthod Cynllun Datblygu Unigol (CDU) i blentyn neu berson ifanc (Senedd, 2024, t. 34). Mae Estyn hefyd yn cydnabod hyn yn eu harolwg thematig diweddaraf o'r System ADY, gan nodi bod yna 'ddryswch eang a pharhaus ynglŷn â beth mae darpariaeth 'gyffredinol' yn ei olygu, sydd ar gael yn gyffredinol i bob disgybl o'r un oedran a beth yw darpariaeth ddysgu ychwanegol' (Estyn, 2024a, t.7).

⁴² O dan yr hen system AAA, gwnaed darpariaeth ar dair lefel: 'Gweithredu gan yr Ysgol', lle gallai'r ysgol ddarparu'r ddarpariaeth addysgol arbennig; Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, lle roedd cyngor neu

- 5.22. Mewn cyferbyniad, mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd wedi dod i'r casgliad mai'r 'prif reswm am y gostyngiad hwn yw nad oes gan ysgolion yr adnoddau i gynnig darpariaeth wedi'i thargedu ar gyfer pob plentyn sydd ag ADY' (Senedd, 2024, t. 5.).
- 5.23. O ystyried yr ansicrwydd ynghylch yr hyn sy'n ysgogi'r newidiadau, mae'r Gwerthusiad o'r System ADY wedi nodi bod archwilio'r rhesymau dros y newidiadau hyn yn 'drywydd ymchwilio allweddol' (Llywodraeth Cymru, 2023j, t. 73). Yn yr un modd, yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ei bod yn ceisio mynd at wraidd yr sy'n digwydd, a'i bod yn poeni'n fawr am y gostyngiad yn y niferoedd ADY a gofnodir (Senedd, 2024, t. 28).
- 5.24. Mae'r gostyngiad yn nifer y bobl ifanc a nodwyd (wedi'u categoraiddio) fel rhai sydd ag ADY yn golygu bod:
- llai o bobl ifanc yn derbyn cymorth pontio gan amrywiaeth o randdeiliaid oherwydd bod ganddynt ADY; ac
 - fel y nododd cyfwelai o Lywodraeth Cymru, os nad yw dysgwyr a fyddai wedi'u categoraiddio fel rhai sydd ag AAA o dan yr hen system yn cael eu categoraiddio fel rhai sydd ag ADY o dan y system newydd, efallai y bydd y dysgwyr hyn o dan anfantais pan fyddant yn symud i ddarpariaeth ôl-16, os yw'n golygu nad yw eu hanghenion dysgu yn cael eu cydnabod na'u diwallu gan leoliadau fel colegau.⁴³

gymorth allanol yn ofynnol i ddarparu'r ddarpariaeth addysgol arbennig; a datganiadau AAA, yn gyffredinol ar gyfer y rhai â'r anghenion mwyaf difrifol a chymhleth na allai'r ysgol eu diwallu. Dros y cyfnod 2020 i 2023, cafwyd gostyngiad o 56% yn nifer y dysgwyr a gynorthwywyd gan Gweithredu gan yr Ysgol, gostyngiad o 46% yn nifer y dysgwyr a oedd yn arfer bod ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ac, mewn cyferbyniad, cynnydd o 67% yn nifer y cynlluniau statudol, gan gynnwys datganiadau AAA a CDUau (Estyn, 2023a, t. 17). Fodd bynnag, dylid nodi bod gan bob plentyn neu berson ifanc sydd ag ADY hawl i CDU yn gyffredinol, beth bynnag yw difrifoldeb neu gymhlethdod ei anghenion, felly nid yw'r gymhariaeth rhwng datganiadau AAA a CDUau yn syml.

⁴³ Mae dau fater yma. Yn gyntaf, os nad yw ADY yn cael eu diwallu mewn ysgolion â darpariaeth ddysgu ychwanegol briodol, mae pobl ifanc yn wynebu risg o dangyflawni. Os bydd eu ADY yn parhau i beidio â chael eu diwallu drwy ddarpariaeth ddysgu ychwanegol briodol mewn addysg a hyfforddiant ôl-16, mae eu risg o dangyflawni yn parhau. Yn ail, mae unrhyw fethiant o ran cynllunio pontio, sy'n golygu nad yw darparwr addysg neu hyfforddiant ôl-16 yn ymwybodol bod gan berson ifanc CDU, yn golygu efallai na fyddant yn cael y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen arnynt. Serch hynny, fel y nododd cyfwelai arall o Lywodraeth Cymru, wrth gofrestru myfyrwyr, dylai fod cyfleoedd i bobl ifanc godi a oes ganddynt, neu a fu ganddynt, CDU. Mae hyn yn gyfle am drafodaeth rhwng y person ifanc a'r coleg am eu hanghenion a'r cymorth a allai fod ei angen ac i drafod unrhyw faterion ynghylch cydsyniad y person ifanc. Efallai y bydd lleoliadau ôl-16 hefyd yn nodi ADY na chafodd ei nodi'n flaenorol.

- 5.25. Mewn ymateb i'r gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n derbyn cymorth pontio oherwydd bod ganddynt ADY, er mis Medi 2024 mae Gyrfa Cymru wedi addasu eu cynnig cymorth i gynnwys pobl ifanc anabl yn eu cynnig wedi'i dargedu (gweler y testun mewn blwch am fanylion y gwahanol lefelau cymorth a gynigir gan Gyrfa Cymru). Mae hyn yn ceisio sicrhau bod Gyrfa Cymru yn cyrraedd pobl ifanc anabl yn gynharach yn ystod CA4. Cadarnhaodd Gyrfa Cymru hefyd eu bod yn parhau i gynorthwyo dros 90% o bobl ifanc ag ADY.

Cynnig cymorth Gyrfa Cymru

Mae gan bobl ifanc lefelau gwahanol o angen, ac mae cymorth Gyrfa Cymru yn adlewyrchu hyn. Er mwyn paru anghenion ag adnoddau orau, mae'r pedair lefel o gymorth a gynigir gan Gyrfa Cymru fel a ganlyn:

1. Cymorth cyffredinol – drwy sesiynau grŵp, y wefan (gan gynnwys gwe-sgwrs) a dros y ffôn.
2. Cymorth Gwirio Gyrfa – y rhai sy'n nodi angen am gyfarwyddyd a chymorth hyfforddi drwy arolwg Gwirio Gyrfa a ddarperir gan Gyrfa Cymru.
3. 'Cymorth wedi'i dargedu'⁴⁴ – wedi'i anelu at y bobl ifanc hynny sydd angen cymorth ychwanegol i drosglwyddo'n gadarnhaol i gyflogaeth, addysg a hyfforddiant.'
4. 'Anghenion dysgu ychwanegol (ADY) – cymorth i bobl ifanc ag ADY'.

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru, 2024, t. 20.

⁴⁴ Mae'r grŵp cymorth wedi'i dargedu yn cynnwys y rhai sydd â'r nodweddion unigol canlynol: prydau ysgol am ddim; plant sy'n derbyn gofal; addysg heblaw yn yr ysgol (uned cyfeirio disgyblion a chwricwlwm amgen); mewn perygl o ddod yn NEET; gofalcwyr ifanc; gweithredu gan yr ysgol a mwy; mynychwyr gwael; Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL); y rhai sy'n ymuno â'r farchnad lafur a phobl ifanc anabl.

- 5.26. Y cwestiwn hollbwysig, nad yw'n hysbys (ac na all y gwerthusiad hwn ei ateb), yw a yw nifer y bobl ifanc ag ADY wedi gostwng 44% ers 2020 i 2021 oherwydd:
- cam-gategoreiddio yn y gorffennol a/neu fwy o leoliadau addysgol yn dod yn fwy cynhwysol, sy'n golygu nad oes angen 'darpariaeth ddysgu ychwanegol'⁴⁵⁴⁶; a/neu
 - nid yw plant a phobl ifanc sy'n bodloni'r diffiniad o ADY (hynny yw, mae ganddynt 'fwy o anhawster yn dysgu na mwyafrif y dysgwyr eraill o'r un oedran (...) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol' (Estyn, 2023a, tt. 14 i 15), yn cael eu categoreiddio fel rhai sydd ag ADY, gan nad oes gan ysgolion ac awdurdodau lleol adnoddau digonol.
- 5.27. Os yw'n bennaf oherwydd y cyntaf (fel y mae Llywodraeth Cymru ac Estyn hefyd wedi awgrymu i ddechrau), mae'r gostyngiad yn nifer y bobl ifanc a nodwyd fel rhai sydd ag ADY yn golygu bod gan lai o bobl ifanc gynllun pontio a chymorth ehangach yn eu lle ac, o ganlyniad, y bydd cymorth ychwanegol y mae Gyrfa Cymru (ac eraill fel colegau) yn ei ddarparu yn cael ei dargedu'n well at y bobl ifanc y mae ei angen arnynt. Fodd bynnag, os yw'n bennaf oherwydd yr olaf (fel y casglodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd), nid yw pobl ifanc y byddai ganddynt hawl i gymorth ychwanegol ar gyfer cynllunio pontio o dan yr hen system, bellach â hawl i'r un lefel o gymorth, oherwydd 'nid oes gan ysgolion ac awdurdodau lleol ddigon o adnoddau i roi darpariaeth wedi'i thargedu ar waith ar gyfer pob plentyn sydd ag ADY' (Senedd, 2024, t. 33).⁴⁷

⁴⁵ Yn ôl y [Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol](#): 'Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i berson sy'n dair oed neu'n hŷn yw darpariaeth addysgol neu ddarpariaeth hyfforddiant sy'n ychwanegol at yr hyn, neu sy'n wahanol i'r hyn, a wneir yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran (a) mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru, (b) mewn sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach yng Nghymru, neu (c) mewn mannau yng Nghymru lle y darperir addysg feithrin.' (Llywodraeth Cymru, 2021b, t. 29).

⁴⁶ Mae hyn yn adlewyrchu newidiadau yn yr ymateb graddedig, o'r hen system AAA, yn seiliedig ar gamau Gweithredu gan yr Ysgol, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy a Datganiad AAA i ddarpariaeth 'gyffredinol', 'dargedig', 'arbenigol' ac 'ychwanegol' o dan y system ADY newydd (a drafodwyd uchod). Felly, er y gall plentyn neu berson ifanc gael 'mwy o anhawster yn dysgu na mwyafrif y dysgwyr eraill o'r un oedran', oherwydd nad yw hynny'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, nid oes ganddynt ADY (Estyn, 2023a, t.14).

⁴⁷ Yn ogystal, er ei fod y tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad hwn, os yw hyn yn golygu nad yw'r plant neu'r bobl ifanc hyn yn derbyn y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen arnynt pan fyddant yn yr ysgol (oherydd nad oes gan ysgolion adnoddau digonol, yn hytrach na chamgategoreiddio, er enghraifft), maent yn agored i risg uwch o gyrhaeddiad addysgol gwael, a allai rwystro eu pontio pan fyddant yn 16 oed ac ar ôl hynny.

5.28. Fodd bynnag, ystyriaeth bellach yw, er bod nifer y plant a'r bobl ifanc y mae ganddynt hawl i gymorth oherwydd eu bod wedi'u nodi gan ysgolion fel rhai sydd ag ADY wedi gostwng 44%, efallai fod hyn wedi cael ei wrthbwysu'n rhannol gan newidiadau i gymorth Gyrfa Cymru. Er enghraifft, fel y nodwyd uchod, ers mis Medi 2024 mae Gyrfa Cymru wedi ychwanegu pobl ifanc anabl at eu diffiniad o 'grŵp wedi'i dargedu'. Mae hyn yn ceisio sicrhau y bydd pobl ifanc anabl nad oes ganddynt ADY yn dal i dderbyn cymorth arweiniad gyrfaoedd ychwanegol gan Gyrfa Cymru. Mae'r 'cymorth wedi'i dargedu' hwn 'wedi'i anelu at y bobl ifanc hynny sydd angen cymorth ychwanegol i drosglwyddo'n gadarnhaol i gyflogaeth, addysg a hyfforddiant' (Gyrfa Cymru, 2024, t. 20).⁴⁸ Mae'n cynnig arweiniad a chymorth hyfforddi ond nid yw'n cynnig, er enghraifft, cynllunio pontio sydd wedi'i gynnwys yn y cynnig cymorth ADY (Gyrfa Cymru, 2022). At hynny, nododd un o hysbyswyr Llywodraeth Cymru:

- mae gan yr holl bobl ifanc mewn lleoliadau addysg a gynhelir hawl i gael mynediad at wybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd gan Gyrfa Cymru, a ddarperir wyneb yn wyneb, dros y ffôn, drwy fideo neu ddulliau digidol (fel y mae'r testun mewn blwch sy'n amlinellu cynnig Gyrfa Cymru yn dangos); ac
- mae'r rhaglen Trawsnewid ADY yn cynyddu nifer y cyfweiliadau a gynhelir gan Gyrfa Cymru, wrth i bwyslais gwaith Gyrfa Cymru symud o baratoi Cynlluniau Dysgu a Sgiliau a cheisiadau am gyllid i fwy o waith uniongyrchol gyda phobl ifanc.⁴⁹

⁴⁸ Y grwpiau targed yw 'y bobl ifanc hynny y gall eu nodweddion arwain at eu tangynrychioli mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ôl addysg statudol gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, Plant sy'n Derbyn Gofal, plant sy'n derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS); gofalcwyr ifanc, Gweithredu gan yr Ysgol a mynychwyr gwael.' (Huxley a Davies, 2023, t. 2).

⁴⁹ O dan yr hen system AAA, ar ran Llywodraeth Cymru, ar gyfer pobl ifanc â datganiadau AAA ac a oedd yn gadael yr ysgol i fynd i addysg bellach, roedd Gyrfa Cymru yn cynnal asesiadau (a elwir yn asesiadau adran 140). Roedd yr asesiadau hyn i nodi anghenion addysg a hyfforddiant person ifanc a'r ddarpariaeth angenrheidiol i ddiwallu'r anghenion hynny. Byddai'r asesiad hwn yn llywio Cynllun Dysgu a Sgiliau ac yn nodi a oedd angen lleoliad coleg arbenigol ar berson ifanc (Llywodraeth Cymru, 2020c). Ar gyfer blwyddyn academaidd 2024 i 2025, mae Gyrfa Cymru dim ond yn gyfrifol am gyflwyno ceisiadau am gyllid i unrhyw un yn mlwyddyn 14 neu unrhyw un dros 19 oed ond o dan 25 oed. Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am benderfynu a oes angen lleoliad coleg arbenigol ar berson ifanc (a elwir yn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol) i bobl ifanc ym mlwyddoedd 11 i 13 (neu'r rhai o oedran cyfatebol nad ydynt bellach yn yr ysgol). O fis Awst 2025, ni fydd gan Gyrfa Cymru ddyletswyddau mewn perthynas â chyllido lleoliadau coleg arbenigol i bobl ifanc o unrhyw oedran, ond gallant barhau i gynorthwyo pobl ifanc ac awdurdodau lleol neu leoliadau addysg. Darperir y diffiniad o sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yn y [Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol](#), t. 26.

6. Dyluniad y Warant a'r Fframwaith

- 6.1. Mae'r Fframwaith wedi'i adeiladu ar [Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru Cyfarwyddyd a Chanllawiau](#) (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002) a [Chynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc 2011](#) (Llywodraeth Cymru, 2011). Mewn ymateb i niferoedd 'ystyfnig o uchel' o bobl ifanc NEET (Llywodraeth Cymru, 2013), ceisiodd y Fframwaith systemu arfer da o bob rhan o Gymru a datblygu ymateb cydgysylltiedig (Llywodraeth Cymru, 2019a). Y nod oedd cynyddu cyfran y bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed sy'n pontio'n llwyddiannus o addysg orfodol i addysg bellach a hyfforddiant (ibid.).
- 6.2. Mae gan y Fframwaith chwe elfen graidd:
- 'nodi'n gynnar' y bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed sydd mewn perygl o fod yn NEET, sy'n NEET, a/neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref;
 - 'broceriaeth', cyflwyno pobl ifanc i gymorth priodol a'u cysylltu â'r cymorth hwn (gan gynnwys sicrhau bod gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd ac yn gallu ymateb i anghenion pobl ifanc);
 - 'monitro' a gwerthuso cymorth, darpariaeth, cynnydd a chanlyniadau i bobl ifanc;
 - harneisio darpariaeth briodol i gynorthwyo pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET, sy'n NEET a/neu (ers 2022) sydd mewn perygl o fod yn ddigartref⁵⁰;
 - mynediad at gyfleoedd cyflogadwyedd a chyflogaeth; a
 - "partneriaid yn rhannu cyfrifoldeb ac atebolrwydd am gyflawni'r Fframwaith' (Llywodraeth Cymru, 2022a, t. 8).
- 6.3. Fel yr amlinellwyd uchod, 'awdurdodau lleol sy'n darparu'r arweinyddiaeth strategol a gweithredol ar gyfer gweithredu'r Fframwaith [Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuencid], tra bod gan bartneriaethau lleol rôl hollbwysig i'w

⁵⁰ Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, addysg prif ffrwd ac amgen, AB, dysgu seiliedig ar waith a rhaglenni cyn-ymgysylltu, 'cymorth penodol i hybu iechyd meddwl, llesiant a hunan-barch unigolyn ifanc' ac 'ymyriadau i atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc' (Llywodraeth Cymru, 2022b, t. 8).

chwarae wrth gefnogi'r broses o'i gyflawni' (Llywodraeth Cymru, 2022b, t. 8). Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Fframwaith, mae Llywodraeth Cymru yn cyllido awdurdodau lleol drwy'r Grant Cymorth Ieuenctid ac mae cyflawni gweithgarwch atal NEET o dan y Fframwaith yn seiliedig ar ddwy brif rôl ar lefel awdurdod lleol:

- yr EPC, sy'n goruchwyllo'r gwaith o gyflawni'r Fframwaith; a
- gweithwyr arweiniol, sy'n dod o wahanol wasanaethau fel y Gwasanaeth Ieuenctid a Gyrfa Cymru, sy'n cefnogi pobl ifanc 'sydd angen cymorth parhaus' (Llywodraeth Cymru, 2022b, t. 9).

- 6.4. Yn ogystal, yn 2022, ychwanegwyd trydedd rôl, y Cydgysylltydd Digartrefedd ymysg Pobl Ifanc sy'n canolbwyntio ar atal digartrefedd ymysg pobl ifanc.
- 6.5. Erbyn 2020, fel y dywedodd un o'r cyfweldigion o Lywodraeth Cymru, er yr ystyriwyd bod y Fframwaith yn effeithiol, yn enwedig i'r rhai 11 i 18 oed, teimlwyd bod 'momentwm' wedi'i golli, a phenderfynwyd adnewyddu a chryfhau'r Fframwaith. Nododd digwyddiadau ymgynghori yn hanner cyntaf 2021 ar adnewyddu'r Fframwaith fod 'tystiolaeth o ymrwymiad cryf i nodau'r Fframwaith a dealltwriaeth ohonynt gan sefydliadau partner' (Y Sefydliad Dysgu a Gwaith, 2021a, t.12). Fodd bynnag, gwnaethant hefyd gadarnhau er bod y Fframwaith 'wedi ei ddatblygu'n dda' mewn perthynas â nodi a chefnogi pobl ifanc rhwng 11 a 18 oed, nad oedd 'wedi'i ddatblygu cystal ac nad yw mor effeithiol ar gyfer pobl ifanc ôl-18 oed' (ibid., t.13).⁵¹

⁵¹ Yn yr un modd, nododd y gwerthusiad o'r Fframwaith yn 2019 fod 'cynnydd mewn perthynas ag adnabod yn gynnar, broceriaeth ac olrhain wedi parhau'n gryf, yn arbennig yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed' ond yn wannach i'r rhai 19 i 24 oed (Llywodraeth Cymru, 2019a, t. 23).

Nododd yr adroddiad o'r ymgynghoriadau hefyd:

- 'fod bwlch cynyddol mewn perthynas â darpariaeth sy'n cefnogi pobl ifanc sydd ag anawsterau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol i ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant';
- 'cafwyd pryderon gan awdurdodau lleol fod pobl yn ystyried mai nhw oedd yn bennaf atebol am lefel y NEETs ac nad oedd hyn yn cael ei rannu'n briodol â sefydliadau partner eraill';
- 'mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos bod cymhlethdod y dirwedd polisi a darparwyr (yn cynnwys darpariaeth a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a chymorth a ariennir gan lywodraethau ac asiantaethau gwahanol) yn cyfrannu at ddiffyg atebolrwydd ar y cyd';
- roedd sefydliadau a rhaglenni gwahanol yn gweithio yn ôl dangosyddion perfformiad allweddol ac amcanion gwahanol, gwahanol raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn cystadlu â'i gilydd a chyni (toriadau i wasanaethau) i gyd yn rhwystro gweithredu ar y cyd ac atebolrwydd ar y cyd;
- roedd anawsterau o ran ymgysylltu â phobl ifanc hyn a'u holrhain, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â rhannu data ac 'effeithiolrwydd a phriodolrwydd tracio oedolion';
- mae anawsterau y mae pobl ifanc yn eu profi ar adegau pontio, fel y rhai yn 16 oed (er enghraifft, symud o'r ysgol i'r coleg) neu pan fyddant yn 18 oed (er enghraifft, symud i gyflogaeth) ac angen am gymorth ar yr adegau hynny; ac
- roedd angen am amrywiaeth ehangach o lwybrau mwy hyblyg, galwedigaethol a dysgu seiliedig ar waith ar gyfer pobl ifanc nad yw'r cynnig ysgol prif ffrwd yn addas iddynt a chynnig cymorth cryfach i'r rhai sy'n ystyried hunangyflogaeth (ibid., tt. 11-13).

6.6. Caiff yr heriau hyn, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig ag olrhain a chefnogi pobl ifanc 18 oed a throsodd, eu trafod ymhellach yn Adrannau 7 ac 8.

6.7. Nododd ymgynghori â phobl ifanc hefyd wahaniaeth yn eu profiadau o AB, fel coleg a hyfforddeiaethau. Nodwyd eu bod yn teimlo eu bod yn cael mwy o

gymorth ac yn gyffredinol roeddent yn teimlo'n 'llawer mwy hyddysg am eu hopsiynau' yn y lleoliadau hyn, o gymharu â'u profiadau o'r ysgol (ibid., t. 13).

- 6.8. O ystyried yr adborth o'r ymgynghoriad a'r newidiadau yn y dirwedd polisi ers i'r Fframwaith gael ei ddatblygu gyntaf, gan gynnwys cyhoeddi'r Warrant yn 2021, gwnaed y penderfyniad i ailganolbwyntio'r Fframwaith ar y rhai 11 i 18 oed.⁵² Fodd bynnag, nododd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru hefyd, er bod y canllawiau ar gyfer y Fframwaith dim ond yn cwmpasu pobl ifanc 11 i 18 oed, nid yw egwyddorion y Fframwaith yn dod i ben yn 18 oed a gall awdurdodau lleol barhau i gefnogi'r rhai 19 oed a throsodd, lle maent mewn cysylltiad â'r bobl ifanc hynny.
- 6.9. Mae'r Llawlyfr Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid wedi'i adnewyddu hefyd yn nodi bod 'angen ffocws cydweithredol, ar draws y system, i gael gwared ar y seilos o ran cyflawni sydd wedi datblygu ers cyhoeddi'r Fframwaith gyntaf' (Llywodraeth Cymru, 2022a, t. 7). Mae hefyd yn nodi y dylai'r partneriaethau lleol sy'n ymwneud â chyflawni gynnwys 'partneriaid sy'n darparu'r Warrant i Bobl Ifanc, gan gynnwys Cymru'n Gweithio, a'r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol, nad yw eu rôl o ran cyflawni'r Fframwaith wedi'i datblygu'n ddigonol hyd yma' (Llywodraeth Cymru, 2022b, t. 4). Mae'r cyfrifoldeb a rennir am gyflawni yn cynnwys gofyniad a rennir ar gyfer 'proses adolygu a myfyrio (...) er mwyn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o ba mor dda mae'r Fframwaith yn gweithio yn eu hardal, ei lwyddiannau, ac ymhle y gellir gwneud gwelliannau' (ibid.).

Y Warrant

- 6.10. Yn 2021, roedd pryder eang, fel y nododd y Sefydliad Dysgu a Gwaith (LWI) ac Ymddiriedolaeth y Tywysog:

The coronavirus pandemic has triggered a labour market crisis which is hitting young people hard. Young people are over-represented in

⁵² Yn ogystal, o ystyried y gydberthynas rhwng y ffactorau risg ar gyfer digartrefedd ymysg pobl ifanc a bod yn NEET, ychwanegwyd digartrefedd ymysg pobl ifanc yn 2022.

“shutdown” sectors that have been most affected by social distancing restrictions and more likely to have been furloughed. In addition to this, young people account for around two thirds of the total fall in employment since the start of the pandemic, and youth unemployment is almost four times higher than the rest of the working-age population. Whilst progress with the rollout of the Covid-19 vaccine programme presents an optimistic picture for the re-opening of the economy, there is a real risk that the pandemic will have a long-lasting impact on the labour market and on opportunities for young people for years to come. (LWI, 2021b, t. 6)

6.11. Roedd eu pryder yn ddeublyg. Yn gyntaf, effeithiau tymor byr cynnydd mewn diweithdra, oherwydd cau llawer o'r economi a'r newidiadau tymor canolig yn strwythur y farchnad lafur, gyda rhagolygon am newidiadau yn y galw ar draws sectorau gwahanol. Yn ail, bod pobl ifanc yn cael eu gor-gynrychioli yn y sectorau a'r galwedigaethau a fydd yn gweld adferiad arafach neu ddim adferiad o gwbl. (LWI, 2021b, t. 42)

6.12. Mewn ymateb, un o'r argymhellion i helpu pobl ifanc i bontio'n llwyddiannus mewn cyd-destun mwy heriol lle gallai fod angen iddynt, er enghraifft, newid sectorau, oedd:

y dylai'r Llywodraeth gyflwyno Gwarant leuenctid er mwyn atal diweithdra hirdymor ymhlith pobl ifanc. Byddai'r cynnig syml a chlir hwn yn sicrhau bod yr holl bobl ifanc sy'n ddi-waith ac nad ydynt mewn addysg yn gallu cael mynediad at swydd, prentisiaeth, neu le mewn addysg neu hyfforddiant (ibid., t. 44).

Yn nodedig, fodd bynnag (o ystyried y tueddiadau a drafodwyd yn Adran 4), nid yw'r adroddiad yn sôn am anweithgarwch economaidd.

6.13. Mewn ymateb i'r her hon, yng Nghymru, [cyhoeddwyd cynlluniau ar gyfer y Warrant ym mis Mehefin 2021](#) er mwyn helpu i sicrhau nad oedd 'cenhedlaeth goll' yn dilyn y pandemig (Llywodraeth Cymru, 2021, dim tudalen) a chawsant eu cynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu. Yr her, fel y nododd cyfwelai arall, oedd bod y Warrant, ar y cam hwn, yn 'ddatganiad nid strategaeth' ac, fel y dywedodd cyfwelai arall o Medr, 'roedd yn teimlo fel prosiect gweinidogol' a

gyhoeddwyd cyn datrys y manylion ynghylch sut y byddai'r Warant yn cael ei chyflawni.⁵³ Serch hynny, roedd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru yn glir bod angen camau gweithredu pendant o ystyried yr angen, fel y dywedodd un ohonynt, i geisio 'achub cenhedlaeth o bobl ifanc' rhag effeithiau creithio diweithdra. Cafodd y brys a'r awyrgylch (yn ystod y pandemig) eu cofnodi gan un cyfwelai o Lywodraeth Cymru a nododd 'nad oedd panig yn air rhy gryf' i ddisgrifio'r ofnau priodol ynghylch diweithdra ar raddfa fawr ymhlith pobl ifanc ar ôl y pandemig, gyda'r bygythiad o greithio rhagolygon cenhedlaeth am gyflogaeth o ganlyniad i hynny. Yn yr un modd, disgrifiodd cyfwelai arall o Lywodraeth Cymru hwn fel 'cyfnod gwyllt'.

6.14. O ystyried y brys, dywedodd cyfwelai arall o Lywodraeth Cymru fod y Warant wedi'i 'thynnu at ei gilydd yn gyflym iawn, iawn'. Fel y nododd cyfwelai arall, oherwydd cyflymder datblygu'r Warant, prin oedd y lle ar gyfer cydlunio'r Warant gan ei fod 'bron yn teimlo fel ein bod yn ei gynllunio wrth redeg'. Fodd bynnag, ac yn bwysig, nododd cyfweldigion Llywodraeth Cymru hefyd nad oedd y gwaith hwn o ddatblygu'r Warant yn gyflym wedi'i wneud o gychwyn stond. Er enghraifft:

- roedd lluo o raglenni cymorth yn bodoli eisoes y gallent eu defnyddio;
- roedd enghreifftiau o warantau pobl ifanc mewn mannau eraill, 'fel gwarantau'r Alban ac Ewrop' (sylw cyfwelai Llywodraeth Cymru) y gallent edrych arnynt a dysgu ohonynt; a
- gallent ddefnyddio 'seilwaith' grwpiau rhanddeiliaid fel y Tasglu Hawliau Pobl Anabl (a sefydlwyd yn 2021) a'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil.

6.15. Fel y trafodwn ymhellach yn Adran 8, cafodd rhanddeiliaid o bob rhan o'r llywodraeth, gan gynnwys addysg (er enghraifft, addysg bellach ac addysg uwch a phrentisiaethau), cyflogadwyedd, iechyd, gyrfaoedd, sgiliau a

⁵³ Er enghraifft, nodwyd (gan gyfweleion o Lywodraeth Cymru) y bu rhywfaint o ansicrwydd i ddechrau ynghylch a fyddai'r Warant yn darparu gwarant o swydd neu le mewn addysg neu hyfforddiant neu dim ond y cymorth i alluogi pobl ifanc i gael mynediad at le mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Fodd bynnag, yn weddol gynnar yn oes y Warant, penderfynwyd y byddai'n canolbwyntio ar gynnig cymorth (ac y gallai wneud hynny yn unig), gan nad oedd cynnig lle mewn cyflogaeth o fewn pŵer y llywodraeth.

gwasanaethau gwaith ieuenctid eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r Warant. Daeth yr hyn a ddaeth yn gynnig y Warant i'r amlwg o 'rwydwaith polisi' yn seiliedig ar strwythurau fel Bwrdd Rhaglen y Warant, grŵp rhanddeiliaid y Warant⁵⁴ a'r Bwrdd Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau ⁵⁵. Cafodd y lefel hon o gyfranogiad rhanddeiliaid traws-adrannol ac allanol ei chynorthwyo gan nifer o ffactorau, gan gynnwys:

- brys canfyddedig cymryd camau gweithredu (a amlinellwyd uchod), ynghyd â phwysigrwydd gwleidyddol y Warant fel un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu;
- y cyllid ychwanegol a helpodd i ddod â phobl at y bwrdd; a
- y symudiadau ar ôl y pandemig i gyfarfod ar-lein, a oedd yn gwneud cyfarfod traws-adrannol a chynnwys pobl o bob rhan o Gymru yn llawer haws ac yn cymryd llai o amser na, er enghraifft, gyrru am sawl awr i gyfarfod yng nghanolbarth Cymru.

6.16. Fel y dengys Ffigur 6.1, roedd dyluniad Cam 1 y Warant yn gymharol syml. Roedd ganddo ffocws cryf ar baratoi darpariaeth bresennol cyflogadwyedd a sgiliau. Er bod [yr ymgyrch 'Bydd Bositif'](#) (a drafodir ymhellach yn Adran 7⁵⁶) yn newydd, roedd llawer o'r cynllun, mewn gwirionedd, yn cynnwys ailfrandio darpariaeth a rhaglenni presennol. Esboniodd cyfweldigion Llywodraeth Cymru fod hyn yn adlewyrchu'r angen am weithredu ar frys a hefyd yr awydd i 'fanteisio ar gryfderau'r system a oedd gennym' a pheidio â tharfu ar y ddarpariaeth bresennol.

⁵⁴ Roedd aelodau'r grŵp rhanddeiliaid yn cynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau, TUC Cymru, Colegau Cymru; Gyrfa Cymru / Cymru'n Gweithio, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol – Cymru, Prifysgolion Cymru, HMPPS, Anabledd Dysgu Cymru, Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB), Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, CLILC, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol, Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Cydlynnydd Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid -Blaenau Gwent (AALI), Ysbrydoli Sgiliau, Clwb Ffermwyr Ifanc, GISDA, a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru.


⁵⁵ Mae gan y Bwrdd Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau gynrychiolaeth o'r sectorau cyhoeddus a phreifat ac mae'n cyfarfod bob chwarter. Mae'r aelodau'n cynnwys cyrff cynrychiolwyr cyflogwyr, cyflogwyr o amrywiaeth o sectorau, TUC Cymru, a swyddogion Llywodraeth Cymru.

⁵⁶ Datblygwyd ymgyrch Bydd Bositif 'i godi ymwybyddiaeth o'r Warant i Bobl Ifanc ac i annog pobl ifanc i fod yn hyderus ac i gael eu hysgogi gan eu rhagolygon ar gyfer y dyfodol' (Llywodraeth Cymru, 2021, dim tudalen.). Fe'i trafodir yn ddiweddarach yn yr adran hon.

- 6.17. Ochr yn ochr â'r ffocws ar baratoi darpariaeth bresennol, roedd awydd i wella integreiddio'r ddarpariaeth honno. Fel y nododd cyfweldigion Llywodraeth Cymru, yn 2021 ffurfiodd y ddarpariaeth 'system seilo iawn, [weithiau gyda rhaglenni, gwasanaethau neu ddarparwyr] yn cystadlu â'i gilydd⁵⁷ ac roedd bylchau hefyd yn y cymorth yr oedd angen eu llenwi. Eu gweledigaeth oedd i'r Warant fod fel 'ymbarél... i geisio chwalu rhywfaint o'r gystadleuaeth rhwng gwahanol ddarparwyr [a] gwahanol leoliadau'.
- 6.18. Cynlluniwyd buddsoddiad newydd, fel yr amlinellir isod, ar gyfer Camau 2 a 3 ym mlynnyddoedd ariannol 2022 i 2023 a 2023 i 2024 (Llywodraeth Cymru, 2022a). Fel y nododd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru, roedd y Warant 'yn golygu y gallem (...) edrych ar y bylchau hynny [mewn darpariaeth] am y tro cyntaf, ac roedd gennym y cyllid i wneud rhywbeth amdano a'r egni gwirioneddol ynghylch gwneud rhywbeth amdano'. Mae llinell amser sy'n amlinellu datblygiad y Warant yn fanylach wedi'i chynnwys yn yr atodiadau.

⁵⁷ Gallai hyn, er enghraifft, fod yn chweched dosbarth ysgolion a cholegau a allai gystadlu am fyfyrwyr yn 16 oed (gweler, er enghraifft, Estyn (2022a) neu raglenni cymorth cyflogadwyedd gwahanol, fel Cymunedau am Waith a CfW+, a allai deimlo eu bod mewn cystadleuaeth â rhaglenni eraill ar gyfer pobl ifanc (gweler, er enghraifft, Llywodraeth Cymru (2024i).

Ffigur 6.1. Dyluniad cam 1 y Warrant



Ffynhonnell: yn seiliedig ar [Llywodraeth Cymru, 2022e](#).

6.19. O dan y Warant, gellir atgyfeirio pobl ifanc drwy Cymru'n Gweithio i bum llwybr allweddol:

- addysg, gan gynnwys atgyfeiriadau i golegau, prifysgolion ac ar gyfer Cyfrifon Dysgu Personol;
- hyfforddiant, gan gynnwys atgyfeiriadau i TSC+, prentisiaethau a ReAct+;
- cymorth cyflogaeth, gan gynnwys cyngor ac arweiniad diduedd a hyfforddiant cyflogadwyedd Cymru'n Gweithio ac atgyfeiriadau i CfW+ a Chanolfan Byd Gwaith;
- cymorth hunangyflogaeth drwy atgyfeiriadau i Wasanaeth Syniadau Mawr Cymru Busnes Cymru; a
- ffynonellau eraill o gymorth, pan fydd person ifanc wedi cael ei asesu fel un nad yw'n barod i fanteisio ar y Warant (Llywodraeth Cymru, 2022c, t. 9).

Mynediad at y Warant


Lleolwyd Cymru'n Gweithio fel y porth i'r Warant i helpu i sicrhau bod gan bobl ifanc nad oeddent yn siŵr o'u cam nesaf o ran Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant fynediad at Wybodaeth, Cyngor a Chanllawiau gyrfaoedd diduedd, gan gryfhau hygyrchedd a thegwch o ran y cyfleoedd sydd ar gael (Llywodraeth Cymru, 2021a). Fel yr amlinellwn yn Adran 7, cynlluniwyd y lleoliad hwn o Gymru'n Gweithio ym marchnata'r Warant hefyd i helpu i sicrhau bod mynediad at gymorth y Warant yn syml i bobl ifanc. Fodd bynnag, dylid nodi bod Gwybodaeth, Cyngor a Chanllawiau a ddarperir gan staff mewn sefydliadau addysgol hefyd wedi helpu pobl ifanc i gael mynediad at y gefnogaeth y mae'r Warant yn ei chynnig. Yn ogystal, gellid cael mynediad uniongyrchol hefyd at y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth a drafodwyd yn Adran 7, a oedd yn ffurfio cynnig cymorth y Warant (gweler t.12 o'r adroddiad hwn a Llywodraeth Cymru 2021b) (hynny yw, nid oedd yn ofynnol i bobl ifanc ei gael trwy Gymru'n Gweithio).⁵⁸

⁵⁸ Yn ogystal, fel yr amlinellwn yn Adran 7 yng Nghyfnod 2, galluogiwyd hunangyfeirio a mynediad uniongyrchol i raglen ReAct+.

6.20. Mewn perthynas â'r model newid ymddygiadol, COM-B (Galluogrwydd, Cyfle, Cymhelliant-Ymddygiad) a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn (gweler Michie et al., 2011; Llywodraeth Cymru, 2025a), fel y dengys Ffigur 6.2, roedd ffocws y Warant yn bennaf ar wella'r canlynol ar gyfer pobl ifanc:

- y gallu i gael mynediad at EET ôl-16 a chynnal cyfranogiad ynddo drwy, er enghraifft, wella mynediad at raglenni fel TSC+ a CfW+ ac ymestyn cymorth ganddynt;
- cymhelliant drwy'r ymgyrch Bydd Bositif a mynediad at gyngor ac arweiniad diduedd Cymru'n Gweithio; a
- mynediad at gyfleoedd drwy, er enghraifft, fuddsoddi mewn prentisiaethau.

Ffigur 6.2. Cam 1 y Warant: cyfrannu at alluoedd a chymhelliant pobl ifanc a'u mynediad at gyfleoedd



6.21. Fel yr amlinellwyd uchod, datblygodd dyluniad y Warant yng nghamau 2 a 3. Cryfhawyd elfennau o'r dyluniad gwreiddiol, er enghraifft:

- cryfhawyd y cynnig craidd o raglenni cyflogadwyedd presennol fel CfW+ a hyfforddeiaethau gyda chyllid ychwanegol, a lansiwyd rhaglenni olynol newydd, fel TSC+ a ReAct+;
- cafodd y cymorth ar gyfer hunangyflogaeth ei gryfhau drwy fuddsoddi yn y Grant Dechrau Busnes i Bobl Ifanc a Biwroau Cyflogaeth a Menter, yn ogystal â chyflwyno Syniadau Mawr Cymru mewn ysgolion drwy Gyrfa Cymru;
- Recriwtiwyd tîm o Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl i hyrwyddo'r gwaith o recriwtio gweithwyr anabl a'r cymorth sydd ar gael⁵⁹, gyda chymorth Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Busnes Cymru⁶⁰, er mwyn darparu cyngor, gwybodaeth a chymorth i gyflogwyr ledled Cymru; a
- gwnaed buddsoddiad ychwanegol mewn prentisiaethau.

6.22. Ychwanegwyd elfennau newydd hefyd, gan gynnwys buddsoddiadau mewn:

- Colegau AB a phrentisiaethau i gefnogi iechyd meddwl pobl ifanc;
- cymorth pontio i bobl ifanc ym mlynnyddoedd 10 ac 11 ac mewn lleoliadau gwaith (trafodir hyn ymhellach yn Adran 7); a
- chymorth ariannol ychwanegol i ddysgwyr drwy, er enghraifft, y Lwfans Cynhaliaeth Addysg.


⁵⁹ Sefydlwyd rhwydwaith Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl yng Nghymru yn 2019 gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r [Fframwaith a'r Cynllun Gweithredu ar yr Hawl i Fyw'n Annibynnol](#). Nod y rhwydwaith hwn yw ymgysylltu â chyflogwyr i annog mwy o gyflogaeth pobl anabl. Maent yn canolbwyntio ar weithio gyda chyflogwyr mwy, cyrff cynrychioli cyflogwyr a chyrrff sector cyhoeddus ac yn rhoi 'cyngor ymarferol ar bob mater sy'n ymwneud â recriwtio a chadw gweithwyr anabl. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gymorth ariannol, cyngor ar weithredu addasiadau rhesymol, ac arweiniad ar sut i ddod yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd' (Busnes Cymru, 2025a, dim tudalen).

⁶⁰ Mae Cyngorwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Busnes Cymru yn 'darparu cyngor ac arweiniad ymarferol i fusnesau bach a chanolig a busnesau newydd ar recriwtio gweithwyr anabl'. Maent yn 'bwynt cyfeirio ar gyfer busnesau a chyflogwyr, gan helpu busnesau i lunio a mabwysiadu prosesau a pholisïau sy'n cydymffurfio â'r gyfraith i sicrhau eu bod yn denu, recriwtio a chadw pobl anabl yn eu busnes' (Busnes Cymru, 2025a, dim tudalen).

6.23. Ychwanegwyd yr elfennau newydd hyn mewn ymateb i anghenion newidiol pobl ifanc ond maent wedi cymhlethu'r dyluniad gwreiddiol a'i gwneud yn anoddach diffinio ffiniau'r Warant. Fel y sylwodd un cyfrannwr gweithdy, mae'r Warant yn 'bolisi dynamig' sydd wedi datblygu mewn amser real. Yn wir, nododd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru a chyfranwyr gweithdai (sy'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru a staff o sefydliadau partner) fod potensial y Warant i 'addasu' wrth i'r cyd-destun⁶¹, y cyfleoedd a'r heriau y mae'n eu hwynebu newid yn un o gryfderau'r dull.

Ffigur 6.3. Camau 2 a 3 o'r Warant: cyfrannu at alluoedd a chymhelliant pobl ifanc a'u mynediad at gyfleoedd

Mae'r newidiadau allweddol, o'i gymharu â dyluniad cam 1 (Ffigur 5.2) yn cael eu dangos mewn **testun trwm**.



⁶¹ Megis etifeddiaeth y pandemig; effaith bosibl Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) ar ddarpariaeth y Warant; a newidiadau yng nghyllideb Llywodraeth Cymru (ac felly cyllid ar gyfer rhaglenni sy'n ffurfio'r Warant).

Y berthynas rhwng y Warrant a'r Fframwaith

- 6.24. Nid oedd y berthynas rhwng y Fframwaith, a oedd yn y cyfnod 2021 i 2022 yn cwmpasu pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed a'r Warrant, a oedd yn cwmpasu pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed, wedi'i mynegi'n glir i ddechrau. Fodd bynnag, helpodd canllawiau'r Fframwaith wedi'u hadnewyddu a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022 i egluro'r berthynas. Mae hyn yn disgrifio sut 'mae'r Fframwaith hwn a'r Warrant i Bobl Ifanc ar y cyd yn darparu llwybr clir i gefnogi pobl ifanc trwy gydol eu taith addysg a thu hwnt, nes iddynt symud i gyflogaeth neu hunangyflogaeth' (Llywodraeth Cymru, 2022b, t. 6).
- 6.25. Mae gwreiddiau'r gorgyffwrdd rhwng y Warrant a'r Fframwaith yng nghynllun gweithredu gwreiddiol y Fframwaith a gyhoeddwyd yn 2013. Roedd hyn yn nodi her debyg i'r hyn y mae'r Warrant ceisio mynd i'r afael â hi: er bod pobl ifanc yn gallu cael mynediad at amrywiaeth o wasanaethau cymorth, gall y gwasanaethau hyn a'r cymorth y maent yn ei gynnig fod yn ddryslyd i bobl ifanc eu llywio ac yn aml mae diffyg cydlynu effeithiol (Llywodraeth Cymru, 2013). Mewn ymateb, mae 'broceriaeth' yn un o elfennau allweddol y Fframwaith, sy'n darparu 'mynediad at unigolyn' (gweithiwr arweiniol) i'r rhai 'sydd mewn perygl o ymddieithrio, neu sydd wedi ymddieithrio' (ibid., t. 25). Mae rôl y gweithiwr arweiniol yn cynnwys darparu 'cymorth cyson a helpu i gydlyn'r cymorth os yw person ifanc hefyd yn derbyn cymorth gan wasanaethau cymorth arbenigol eraill' (ibid.).

- 6.26. Roedd cynllun gweithredu 2013 ar gyfer y Fframwaith hefyd yn rhagflaenu cyflwyno Cymru'n Gweithio yn 2019⁶². Roedd rôl Cymru'n Gweithio gyda phobl ifanc 16 oed a throsodd yn cynnwys:
- nodi'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael mynediad at addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant; a
 - nodi'r 'cymorth mwyaf addas sydd ar gael i alluogi'r unigolyn i symud ymlaen cyn gynted â phosibl' (Llywodraeth Cymru, 2024e, t. 31).
- 6.27. Felly, pan gafodd ei gyflwyno gyntaf yn 2019, roedd rôl Cymru'n Gweithio o bosibl yn gorgyffwrdd â rôl broceriaeth y Fframwaith ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed (sydd, fel y nodwyd uchod, yn cynnwys nodi cymorth priodol iddynt). Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd uchod, mae Llawlyfr y Fframwaith wedi'i adnewyddu a gyhoeddwyd yn 2022 (a'i ddiweddarau yn 2024), sy'n darparu canllawiau manwl ar weithredu'r Fframwaith, yn nodi, pan fo pobl ifanc yn 'barod am waith', y dylid eu hatgyfeirio i Cymru'n Gweithio. Mae hefyd yn nodi y dylai Cymru'n Gweithio atgyfeirio pobl ifanc 16-18 oed nad ydynt yn barod am waith i EPC neu gymorth priodol haen 2⁶³ (Llywodraeth Cymru, 2022b, t. 74).
- 6.28. Mae llawlyfr y Fframwaith wedi'i adnewyddu, hefyd yn amlinellu bod 'Cymru'n Gweithio yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael mynediad rhwydd at y Warrant i Bobl Ifanc' (ibid., t. 16) ac yn awgrymu y gellir atgyfeirio pobl ifanc o'r Fframwaith i Cymru'n Gweithio er mwyn cael mynediad at y Warrant (Llywodraeth Cymru, 2024r). O ystyried hyn, mae'r canllawiau wedi'u

⁶² Cyflwynwyd Cymru'n Gweithio i ddarparu 'cyngor ac arweiniad am yrfaeodd a swyddi' (Llywodraeth Cymru, 2019b, t. 25) Mae'n wasanaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'i gynllunio i ddarparu cymorth cyflogadwyedd symlach ac effeithlon sy'n ymateb i anghenion unigolyn. Mae'r gwasanaeth yn darparu cyngor cyflogadwyedd a gyrfaeodd proffesiynol, diduedd am ddim ledled Cymru, a ddarperir ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Gyrfa Cymru. Mae Cymru'n Gweithio yn galluogi unigolion i siarad â chynghorwyr gyrfaeodd proffesiynol am gyflogaeth a sgiliau, eu nodau a'u dyheadau, ac unrhyw heriau y maent yn eu hwynebu wrth gael a chynnal gwaith, addysg neu hyfforddiant neu hybu eu gyrfa. Trafodir y gwasanaeth ymhellach yn Adran 7.

⁶³ Mae pobl ifanc yn Haen 2 yn 'Bobl ifanc sy'n hysbys i Gyrfa Cymru, sy'n NEET ac nad ydynt yn barod neu nad ydynt ar gael i geisio EET' oherwydd bod ganddynt 'rwystrau sylweddol neu luosog sy'n gofyn am gymorth personol dwys' (Llywodraeth Cymru, 2022b, t. 31).

hadnewyddu yn disgrifio sut, ar gyfer y grŵp oedran hwn, mae'r Fframwaith yn 'gweithredu ochr yn ochr' â'r Warrant a sut y mae'r Fframwaith a'r Warrant ar y cyd yn darparu 'rhwyd ddiogelwch i bobl ifanc yn ystod cyfnod pontio allweddol yn eu bywydau' (Llywodraeth Cymru, 2022b, t. 3). Esboniodd hysbyswyr o Lywodraeth Cymru y dylai hyn sicrhau bod y Fframwaith a'r Warrant yn ategu ei gilydd (yn hytrach na gorgyffwrdd). Trafodir hyn ymhellach yn yr adran nesaf, sydd hefyd yn ystyried i ba raddau mae pobl ifanc a gefnogir drwy'r Fframwaith yn debygol o fod wedi hunanatgyfeirio i Cymru'n Gweithio.

Cymharu dyluniadau'r Fframwaith a'r Warrant

- 6.29. Er eu bod yn rhannu nodau cyffredin ac mae'r ddau bolisi yn cyfrannu at y garreg filltir genedlaethol o sicrhau bod o leiaf 90 y cant o bobl ifanc 16 i 24 oed mewn addysg, cyflogaeth, neu hyfforddiant erbyn 2050, mae'r Fframwaith yn wahanol iawn i'r Warrant. Fel y nododd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru, mae'r 'Fframwaith yn ymwneud â cheisio helpu i nodi pobl ifanc, ac mae'r Warrant yn ymwneud yn fwy â chyflawni'r 'cynnig'. Fodd bynnag, fel y mae Tabl 6.1 yn amlinellu, dim ond un o lawer o wahaniaethau yw hyn.

Tabl 6.1. Cymhariaeth o'r Warant a'r Fframwaith

	Y Warant	Y Fframwaith
Ystod oedran	16 i 24 (2021 hyd heddiw)	11 i 24 (2013 i 2021) 11 i 18 (2022 hyd heddiw)
Buddiolwyr bwriadedig	Pobl ifanc sy'n pontio y mae angen cymorth arnynt	Pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio neu y bernir eu bod mewn perygl o ymddieithrio rhag EER (a dod yn NEET)
Ymgysylltu / mynediad a chynnig cymorth	Mynediad drwy Cymru'n Gweithio (y 'porth' i'r Warant) neu uniongyrchol; arweinir gan y galw (cymorth i'r rhai sy'n ceisio cael mynediad at gyfleoedd EET - model optio i mewn i bob pwrpas); rhywfaint o gymorth mewn EET yn cael ei gynnig gan rai rhaglenni (er enghraifft, CfW+)	Adnabod yn gynnar ac allgymorth gweithredol i bobl ifanc (model optio allan i bob pwrpas) - broceru mynediad at gymorth a darpariaeth a monitro cynnydd (gan gynnwys olrhain a chymorth mewn EET) Cymorth, i'r rhai y mae ei angen arnynt, gan oedolyn y gellir ymddiried ynddo sy'n gallu helpu person ifanc i oresgyn rhwystrau i ailymgysylltu. ⁶⁴
Sut y mae pobl ifanc yn cael eu helpu i lywio'r dirwedd ôl-16?	Cymru'n Gweithio, sef un drws blaen i gael mynediad at gymorth, ac sy'n gallu helpu i baru person ifanc â'r ddarpariaeth fwyaf priodol.	Darparu mynediad at weithiwr arweiniol sy'n gallu darparu cymorth cyson a helpu i gydlyn cymorth.

⁶⁴ Fel y nododd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru, 'nid oes dim byd tebyg i hyn yn y Warant'. Gall staff fel mentoriaid ieuencid ar raglenni fel CfW+ chwarae rôl oedolyn y gellir ymddiried ynddo. Ond, yn wahanol i un o weithwyr arweiniol y Fframwaith, mae eu cymorth wedi'i gysylltu â rhaglen benodol. Mewn cymhariaeth, gall gweithiwr arweiniol weithredu'n annibynnol ar y rhaglenni gwahanol a allai fod yn cynorthwyo person ifanc a gall barhau i gynorthwyo'r person ifanc hwnnw ar ôl iddo bontio (er, fel y mae Adran 7 yn amlinellu, efallai na fydd hyn bob amser yn digwydd yn ymarferol).

	Y Warrant	Y Fframwaith
Beth ydyw a sut y bydd yn newid y system?	Mae'r Warrant yn 'strwythur ymbarél sydd uwchlaw'r holl raglenni i bobl ifanc 16 i 24 oed, a'i nod yw defnyddio'r holl ymyraethau sy'n bodoli er mwyn creu taith syml i bobl ifanc beth bynnag fo'u hamgylchiadau a'u cefndir' (Llywodraeth Cymru, 2022e, t. 3).	Mae'r Fframwaith yn darparu 'glasbrint ar gydweithio i gydlynu adnoddau' ac yn 'feganwaith systematig i adnabod ac ymateb i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET, sydd yn NEET a/neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref' (Llywodraeth Cymru 2022b, tt. 3-6).
Darperir gan	Darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 a gwasanaethau cymorth. Yn ogystal, mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn darparu ffocws ar gyfer cydlynu a chynllunio.	Awdurdodau lleol, sy'n 'darparu'r arweinyddiaeth strategol a gweithredol ar gyfer gweithredu'r Fframwaith' ac mae 'partneriaethau lleol' ⁶⁵ yn cefnogi ei gyflawni (Llywodraeth Cymru, 2022b, t. 8). Mae cymorth i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET/sydd yn NEET yn cael ei gydlynu gan Gydlynwyr Ymgysylltu a Dilyniant a'i ddarparu gan Gyrfa Cymru, y Gwasanaeth Ieuenctid a phartneriaid eraill y Fframwaith fel sefydliadau'r trydydd sector a rhaglenni cyn-ymgysylltu awdurdodau lleol;

⁶⁵ Dylai partneriaid allweddol gynnwys yr awdurdod lleol, Gyrfu Cymru, Cymru'n Gweithio, ysgolion, colegau AB, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, rhaglenni cymorth EET fel CfW+ a TSC+ a'r sector gwirfoddol, gan gynnwys sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol (Llywodraeth Cymru, 2022b).

	Y Warrant	Y Fframwaith
Lle i gydweithredu	Yn rhanbarthol, drwy Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol	Yn lleol, drwy bartneriaethau arweinir gan yr awdurdod lleol

Ffynonellau: [Llywodraeth Cymru, 2022b](#), [2022e](#).


Canlyniadau a fwriedir: i'r ddau gyfrannu at gyflawni'r garreg filltir genedlaethol o gael 'o leiaf 90% o'r rhai 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050' (Llywodraeth Cymru, 2022a, t. 4).

7. Gweithredu a chyflawni'r Warant


Cyflwyniad

- 7.1. Fel yr amlinellir yn Adrannau 4 a 5 a hefyd yn Ffigur 7.1 ar y dudalen nesaf, mae'r Warant yn cynnwys nifer o wahanol elfennau, ac ers ei lansio ym mis Tachwedd 2021 mae wedi cynorthwyo dros 48,500 o bobl ifanc (Llywodraeth Cymru, 2025d). Mae'r adran hon yn ystyried gweithredu a chyflawni prif elfennau'r Warant yn erbyn ei bwriad strategol a'i chanlyniadau a fwriedir.
- 7.2. Fel y dengys Ffigur 7.1, mae'r cyfrifoldeb am weithredu a chyflawni'r gwahanol elfennau hyn yn dameidiog. Felly, mae angen i dîm y Warant arfer arweinyddiaeth systemau, gan lunio'r ffordd y mae eraill yn cynllunio, yn datblygu ac yn cyflawni'r gwahanol elfennau. Trafodir y rôl hon ymhellach yn Adran 8. Mae rhagor o fanylion am berfformiad rhaglenni a gwasanaethau allweddol wedi'u cynnwys yn yr Atodiadau.

Allwedd i Ffigur 7.1. Cyfrifoldebau



Ffigur 7.1. Cyfrifoldebau am wahanol elfennau'r Warant



[Nodyn] Nid yw'r Fframwaith yn rhan o'r Warant ond mae'n eistedd ochr yn ochr â'r Warant ac yn ei hategu.

Ysbrydoli ac ysgogi pobl ifanc

- 7.3. Gwnaeth llawer o gyfweleion o Lywodraeth Cymru fyfyririo ar effaith negyddol y pandemig ar feddwl pobl ifanc a'u gobeithion a'r gyfer y dyfodol. Er enghraifft, fel y dywedodd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru, 'nid oedd pobl ifanc ar y pryd yn credu bod ganddynt unrhyw ddyfodol o gwbl', 'felly roeddem am

gyflwyno rhywbeth a oedd yn gadarnhaol iawn, a oedd yn rhoi naws wirioneddol dda'. Mewn ymateb, ym mis Hydref 2021, lansiodd ymgyrch Bydd Bositif.⁶⁶

7.4. Ceisiodd yr ymgyrch gyrraedd pob person ifanc 16 i 24 oed, yn enwedig y rhai NEET neu mewn perygl o fod yn NEET a'u dylanwadrwyd (eu hathrawon, eu rhieni, a'u ffrindiau)' (Golley Slater, 2024b, t. 5, pwyslais wedi'i hepgor). Tynnodd sawl cyfweilai o Lywodraeth Cymru sylw at bwysigrwydd y grŵp targed eilaidd hwn. Fel y dywedodd un cyfweilai, roedd yn hanfodol cael dylanwad o ran 'at bwy y maent [y bobl ifanc] yn troi, eu rhwydweithiau cymorth, y bobl sy'n dylanwadu arnynt'.

7.5. Amcanion yr ymgyrch yn 2023 i 2024 oedd:

- cynyddu ymwybyddiaeth o'r Warant a'r ffaith ei bod yn cael ei chyflawni gan Lywodraeth Cymru;
- cynyddu ymgysylltu â Cymru'n Gweithio fel un pwynt mynediad at holl nodweddion y Warant;
- cynnydd o ran rhaglenni cymorth Llywodraeth Cymru a gynigir fel rhan o'r Warant (Golley Slater, 2024b, t. 4, pwyslais wedi'i hepgor).

7.6. Strategaeth yr ymgyrch oedd:

Cael: Pobl Ifanc NEET yng Nghymru sydd wedi rhoi'r gorau i'w nodau

I: Deimlo'n optimistaidd am eu dyfodol a cheisio cymorth gan y Warant

Drwy: Sicrhau cymorth eu ffrindiau a'u teulu i fod yn bositif (Golley Slater, 2024b, t. 5).

⁶⁶ Fel y nodwyd ar dudalen 76, roedd wedi'i bwriadu i 'godi ymwybyddiaeth o'r Warant i Bobl Ifanc ac i annog pobl ifanc i fod yn hyderus ac i gael eu hysgogi gan eu rhagolygon ar gyfer y dyfodol' (Llywodraeth Cymru, 2021a). Roedd wedi'i bwriadu i gael pobl ifanc i deimlo'n optimistaidd am eu dyfodol a chael mynediad at gymorth, cyngor, ac arweiniad drwy wasanaeth Cymru'n Gweithio (Golley Slater, 2024a).

7.7. Nodir, yn y cyfnod a ddaeth i ben ym mis Ionawr 2023, ymhlith pobl ifanc 16 i 24 oed:

roedd 1 o bob 5 yn ymwybodol o'r warant.

byddai 1 o bob 2 yn manteisio ar y warant drostynt eu hunain.

roedd 2 o bob 3 am ddysgu rhagor am yr hyn y gallai'r warant ei gynnig iddynt.

byddai 3 o bob 5 yn annog rhywun arall o dan 25 oed i fanteisio ar y cynnig neu ddysgu rhagor. (Golley Slater, 2024a)

7.8. Roedd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru yn gyson gadarnhaol am yr ymgyrch. Er enghraifft, fel y nododd un ohonynt, 'Rydym yn bendant wedi gweld cynnydd mewn galwadau ac apwyntiadau' yn dilyn ymgyrchoedd Bydd Bositif. Serch hynny, cydnabu cyfweldigion ei bod yn gynhenid anodd gwerthuso effaith ymgyrchoedd marchnata fel hyn. Er enghraifft, fel y nododd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru, 'Weithiau mae'r llwyddiant yn ymwneud â niferoedd pur' (a amlinellwyd uchod) - 'os oedd y niferoedd yn uchel o ran gwylwyr'. Fodd bynnag, fel yr esboniodd, 'mae olrhain tarddiad cymorth rhywun, lle clywsant amdano, yn un anodd'.

7.9. Roedd cyfweldigion Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai fod yn anodd troi cynnig haniaethol y Warant yn rhywbeth pendant i berson ifanc unigol.⁶⁷ Ond nodwyd yn gyson ganddynt bod symlrwydd neges Bydd Bositif yn gryfder allweddol. Disgrifiodd rhai hefyd sut roedd y Warant yn dibynnu ar Cymru'n Gweithio fel y porth i gymorth ac i droi (neu gyfathrebu) yr hyn roedd y cynnig hwnnw yn ei olygu i berson ifanc unigol (er enghraifft, pa raglen y gallent gael mynediad ati er mwyn cael cymorth a beth oedd eu hopsiynau). Fel y dywedodd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru (pan gafodd ei herio bod y Warant yn eithaf cymhleth):

⁶⁷ Mae hyn yn adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng y syniad syml o gynnig cymorth a'r cysyniad mwy cymhleth o'r hyn y mae'r cymorth hwnnw'n ei olygu mewn gwirionedd i berson ifanc unigol, o ystyried yr amrywiaeth o raglenni a chynigion sy'n dod o dan ymbarél y Warant (a amlinellir yn Adran 5).

Nid yw'n neges mor gymhleth mewn gwirionedd (...). Y neges yw, os ydych yn chwilio am gyngor ac arweiniad ac yn chwilio am gymorth, yn y bôn mae'r neges yn syml iawn (...): gallech wneud hyfforddiant, gallwch fynd ar raglen brentisiaeth, gallwch fynd i weithio, gallech barhau â'ch addysg.

Aeth ymlaen i esbonio mai 'Cymru'n Gweithio (...) fyddai'r math o ddrws blaen a fyddai'n eich tywys i'r amrywiaeth o wahanol raglenni. Nod yr ymgyrch yw ysgogi pobl i fynd i'r wefan neu i Cymru'n Gweithio'.

7.10. Fodd bynnag, nododd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru fod cyfyngiadau Llywodraeth Cymru ar y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, er bod hyn yn arloesol, wedi cyfyngu ar yr ymgyrch rywfaint a nododd sawl cyfwelai eu bod yn teimlo y gellid bod wedi cyflawni mwy gyda chyllideb fwy ar gyfer marchnata. Er enghraifft, roedd ymgyrchoedd yn cyd-fynd ag amseru canlyniadau TGAU a Safon Uwch, er mwyn targedu'r rhai a oedd yn ailystyried eu hopsiynau oherwydd eu bod naill ai wedi tanberfformio neu berfformio'n well na'r disgwyl o gymharu â'u disgwyliadau. Fodd bynnag, roedd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru yn cydnabod bod y rhan fwyaf o bobl ifanc eisoes wedi penderfynu erbyn hyn, sef mater yr ydym yn ei archwilio ymhellach yn Adran 8.

7.11. At hynny, nid yw ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc NEET neu sydd mewn perygl o fod yn NEET (y grŵp targed allweddol) yn cael ei mesur ac, fel yr amlinellir isod:

- mae ymgysylltu â Cymru'n Gweithio, yn enwedig ymhlith pobl ifanc NEET neu sydd mewn perygl o fod yn NEET, yn isel;
- ac eithrio CfW a CfW+, roedd ymgysylltu â rhaglenni cymorth eraill fel TSC+ a'r Gwasanaeth Di-waith yn is na'r targed er, fel yr amlinellwn isod, erbyn 2024 roedd ymgysylltu â TSC+ wedi cynyddu.⁶⁸

⁶⁸ Er bod perfformiad TSC+ wedi cynyddu yn haf 2023, credir bod hyn yn gysylltiedig â 'TSC+ yn dod yn fwy sefydledig fel rhaglen a'r addasiadau a wnaed' (Llywodraeth Cymru, 2024g, t. 41) ac ni wneir

Y system addysg a hyfforddiant cyn ac ôl-16

Lleoliadau gwaith i bobl ifanc 14-16 oed

- 7.12. Roedd yr adborth gan bobl ifanc yn y Sgwrs Genedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2023d, 2024l), cyfweldigion a chyfranwyr yn y gweithdai i gyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd lleoliadau gwaith wrth helpu pobl ifanc i ennill sgiliau a phrofiad sy'n gysylltiedig â gwaith. Nodwyd bod tynnu rôl Gyrfa Cymru o ran cydlynu lleoliadau gwaith yn ôl yn 2013 wedi cyfrannu at ostyngiad mewn lleoliadau (Senedd, 2018a).
- 7.13. Yn 2022, er mwyn mynd i'r afael ag effaith pandemig COVID-19 ar addysg a hyfforddiant, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Gyrfa Cymru gyflwyno prosiect Profiad Gwaith wedi'i Deilwra, er mwyn ailymgysylltu dysgwyr CA4 â'u hastudiaethau TGAU a chynorthwyo pontio ôl-16 cadarnhaol. Rhwng mis Medi 2022 a mis Mawrth 2024, cafodd Gyrfa Cymru £517,000 ychwanegol i weithio gyda dwy ysgol o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru i gynnig 500 o leoliadau profiad gwaith wedi'i deilwra. Erbyn diwedd mis Mawrth 2024 roedd 636 o bobl ifanc wedi cymryd rhan mewn lleoliad profiad gwaith wedi'i deilwra ac mae data hynt disgyblion yn dangos bod 380 o ddisgyblion wedi cwblhau eu lleoliad ar ddiwedd blwyddyn 11. O'r rhain, aeth 85% ymlaen i gyrchfan gadarnhaol (roedd 49% yn y coleg, 19% ar TSC+, 10% mewn cyflogaeth amser llawn neu ran-amser ac roedd 7% ar brentisiaethau). Ym mlwyddyn ariannol 2024/25, rhoddodd Llywodraeth Cymru £250,000 arall i Gyrfa Cymru i alluogi'r prosiect i barhau ar raddfa lai. Gofynnwyd i Gyrfa Cymru gynnig 250 o leoliadau, ar draws 12 o awdurdodau lleol. Cafodd dros 260 o bobl ifanc eu rhoi mewn profiad gwaith wedi'i deilwra. Ym mlwyddyn ariannol 2025/26 ni chafodd cyllid ychwanegol pellach ei nodi, a gofynnwyd i Gyrfa Cymru barhau i gynnig profiad gwaith wedi'i deilwra ar raddfa lai o fewn eu cyllid craidd.

unrhyw gyfeiriad at ymgyrch Bydd Bositif yn yr adroddiadau gwerthuso interim na therfynol. Yn wir, mae'r adroddiad terfynol yn nodi bod 35% o bobl ifanc (allan o sampl o 162 o ddysgwyr) wedi clywed am y rhaglen ar lafar, cafodd 33% eu hatgyfeirio gan sefydliad arall, a chlywodd 15% amdani drwy'r ysgol neu'r coleg. Mewn cyferbyniad, dim ond 4% a glywodd amdani drwy chwiliad ar-lein neu ar y rhyngwyd a dim ond 1% nododd iddynt glywed amdani drwy hysbyseb, poster neu hysbysfwrdd (Llywodraeth Cymru, 2025e, t. 69).

7.14. Mae cynnwys lleoliadau gwaith yn y Warant braidd yn anarferol, o ystyried ei ffocws ar bobl ifanc 14 i 16 oed. Serch hynny, mae'n dangos yr angen, a nodwyd gan nifer o gyfweleion o Lywodraeth Cymru, am ymyriad cynharach (hynny yw, gyda phobl sy'n iau na 16 oed) er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn barod am waith neu yrfa, os yw'r garreg filltir ar gyfer 'o leiaf 90% o'r rhai 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050' (Llywodraeth Cymru, 2022a, t. 4) i'w chyflawni. Roedd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru o'r farn bod y lleoliadau'n llwyddiannus a nodir bod tua 85% o bobl ifanc a fanteisiodd ar y lleoliadau wedi sicrhau canlyniad cadarnhaol⁶⁹ (Gyrfa Cymru, 2025).

Llwybrau ôl-16, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad

7.15. Fel yr amlinellir yn Adran 4, bu gwendidau hirsefydlog o ran gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a ddarperir gan leoliadau addysg a hyfforddiant ynghylch opsiynau amgen i'r rhai a gynigir yn y lleoliadau hyn a phryder nad oes digon o ddysgwyr yn gwybod am lwybrau galwedigaethol, neu heb ystyried y rhain yn iawn. Nododd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru fod y Warant wedi mynd i'r afael â hyn, yn bennaf drwy:

- ymgyrch Bydd Bositif (a drafodwyd uchod), sy'n annog pobl ifanc i gael mynediad at gyngor ac arweiniad diduedd, drwy Cymru'n Gweithio; ac
- Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru, sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o addysg a hyfforddiant galwedigaethol a llwybrau gyrfa drwy gystadlaethau sgiliau.

7.16. Fodd bynnag, fel yr amlinellir yn Adran 5, er bod y Warant wedi helpu i ganolbwyntio ar gymorth ôl-16 a darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 (gan gynnwys yr IAG y mae Gyrfa Cymru a lleoliadau addysg a hyfforddiant yn ei gynnig), roedd y rhan fwyaf o ffocws y newid ar raglenni a gwasanaethau cymorth ôl-16. Roedd y rhai a gyfwelwyd o Lywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhagor o waith i'w wneud ynghylch ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o lwybrau gwahanol, gyda llawer yn adleisio canfyddiadau Estyn ac eraill a

⁶⁹ Diffinnir fel cyrchfan ôl-16 gadarnhaol, fel mynd i'r coleg, dechrau prentisiaeth, ymuno â TSC+ neu fynd i gyflogaeth.

amlinellir yn Adran 4. Gwnaethant hefyd gydnabod bod llawer o'r Warant wedi canolbwyntio ar bobl ifanc NEET, yn hytrach na'r rhai mewn EET, a allai fod ar lwybr is-optimadd. Yn y cyd-destun hwn, wrth edrych ymlaen, nododd un o hysbyswyr Llywodraeth Cymru fod 'cynnig newydd Gyrfa Cymru o gyfweliad arweiniad gyrfa diduedd i'r holl bobl ifanc cyn iddynt adael blwyddyn 11 wedi mynd yn fyw ar ddechrau mis Medi 2024 a'i fod wedi'i groesawu gan ddysgwyr, ysgolion a rhieni'.

Cymorth pontio i fyfyrwyr AB

- 7.17. Yn 2023/24, derbyniodd 13 o ddarparwyr AB gyfran o gyllid £900,000⁷⁰ i gynorthwyo pobl ifanc mewn perygl o fod yn NEET ac i helpu i fynd i'r afael â'r bylchau mewn cymorth a grëwyd gan ddiwedd Cronfa Gymdeithasol Ewrop, a oedd wedi galluogi amrywiaeth o gymorth i fyfyrwyr. Nid oes gwerthusiad allanol o'r cyllid hwn wedi'i gynnal. Fodd bynnag, nododd adolygiad mewnol heb ei gyhoeddi fod y cyllid wedi'i groesawu gan ddarparwyr AB ac mai prif ddefnydd y cyllid oedd 'sicrhau bod staff ar gael i roi mwy o amser i ddysgwyr mewn perygl, ar adeg dyngedfennol, gan sicrhau nad oedd dysgwyr risg uchel yn mynd yn NEET' (Llywodraeth Cymru, d.d.). Roedd hyn yn cynnwys cymorth i fynd i'r afael â rhwystrau i AB a rhwystrau i barhau mewn AB. Nodwyd bod y cyllid yn rhoi mwy o amser i staff ddod i adnabod dysgwyr, gan eu galluogi i ddeall yn well a nodi'r anawsterau yr oedd dysgwyr yn eu hwynebu a rhoi cymorth i leihau eu risg o ymddieithrio. Fodd bynnag, roedd rhwystredigaeth hefyd bod y cyllid yn gyfyngedig o ran amser.

*Biwroau Cyflogaeth a Menter*⁷¹

- 7.18. Cymorth i ddysgwyr mewn AB oedd un o'r bylchau a nodwyd gan randdeiliaid sy'n datblygu'r Warant (gweler Adran 5) a sefydlwyd Biwroau Cyflogaeth a Menter i sicrhau, fel y nododd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru, bod 'lle clir i fyfyrwyr fynd iddo i feddwl am eu dewis nesaf' ym mhob coleg. Er bod data

⁷⁰ Roedd y swm a dderbyniodd pob darparwr yn amrywio o £15,000 i £130,000.

⁷¹ Mae'r Biwroau Cyflogaeth a Menter wedi'u bwriadu i gynnig 'pecyn o gyfleoedd i fyfyrwyr llawn-amser a rhan-amser i feithrin sgiliau cyflogadwydd a menter hanfodol' (Busnes Cymru, 2025b, dim tudalen).

wedi'u darparu gan golegau, nid oedd yn bosibl defnyddio hyn, er enghraifft i nodi faint o fyfyrwyr a oedd wedi cael cymorth⁷² a nododd cyfwelai o Medr fod:

‘mae'r colegau wedi cymryd y cyllid a gwneud rhywbeth ychydig yn wahanol gydag ef. Rwy'n credu bod rhai cryfderau gwirioneddol ar draws y sector, y pethau arloesol sy'n digwydd, ond nid wyf yn glir ynghylch faint o hynny roeddent yn ei wneud beth bynnag’.

Mewn ymateb, mae gwerthusiad o Fiwroau Cyflogaeth a Menter wedi'i gomisiynu.

Prentisiaethau

- 7.19. Mae prentisiaethau'n cyfuno hyfforddiant ymarferol mewn swydd ag astudio sy'n arwain at gymhwyster cydnabyddedig. Ar hyn o bryd mae pedair lefel wahanol o brentisiaeth yn cael eu cynnig yng Nghymru: Sylfaen (Lefel 2), Prentisiaethau (Lefel 3), Prentisiaethau Lefel Uwch (Lefel 4 ac uwch) a Phrentisiaethau Lefel Gradd (Lefel 6) (Llywodraeth Cymru 2024m). Fel yr amlinellir yn Adran 4, mae cynnwys prentisiaethau yn y Warant braidd yn anarferol. Nododd cyfweildigion o Lywodraeth Cymru, er bod Llywodraeth Cymru yn cyllido prentisiaethau, mae'n dibynnu ar gyflogwyr i'w creu, ac nid yw mathau eraill o addysg neu hyfforddiant ôl-16 wedi'u cynnwys yn y Warant.

⁷² Yn ogystal, hyd yma nid yw'r wybodaeth hon wedi ymddangos mewn gwerthusiadau o Grŵp Llandrillo Menai yn 2024 na Choleg Cambria yn 2023 (ni nodir unrhyw arolygiadau eraill gan Estyn o golegau AB yn y cyfnod 2023-2025).

7.20. Nododd un o adolygiadau'r Senedd yn 2018 fod y nifer a oedd yn manteisio ar brentisiaethau ymhlith rhai grwpiau, fel pobl anabl, yn rhy isel ac roedd gwahaniaeth rhwng y rhywiau yn parhau'n her (Senedd, 2018a). Er bod cynnydd wedi'i wneud ers hynny o ran cynyddu amrywiaeth prentisiaid, mae rhwystrau yn parhau i rai grwpiau o bobl ifanc (Llywodraeth Cymru, 2024n). Fel yr amlinellwn yn yr atodiadau, nid yw'r darlun yn syml. Er enghraifft, ymhlith y rhai 16 i 24 oed:

- Ar y cyfan, roedd mwy o brentisiaid dynion na menywod yn dechrau yn 2023/24, ac mae gwahaniaethau amlwg o hyd ar draws sectorau, gyda niferoedd anghymesur o ddynion neu fenywod ar gyrsiau mewn rhai meysydd (Llywodraeth Cymru, 2025a).
- Cynyddodd canran y prentisiaid Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol o 2% yn dechrau yn 2018/19 i 4% yn dechrau yn 2023/24 (Llywodraeth Cymru 2025b). Fodd bynnag, mae hyn yn sylweddol is na'r ganran o fewn y boblogaeth oedran gweithio (Llywodraeth Cymru, 2022h).
- Yn yr un modd, cynyddodd canran y prentisiaid ag 'anabledd a/neu anhawster dysgu'⁷³ o 11% yn dechrau yn 2019/20 i 13% yn dechrau yn 2023/24 (Llywodraeth Cymru 2025c). Fodd bynnag, mae hyn yn is na chanran y bobl anabl 16 i 24 oed ym mhoblogaeth Cymru (y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2023).

7.21. Yn ogystal, effeithiodd y pandemig ar nifer y bobl ifanc a ddechreuodd a chwblhau prentisiaethau. Roedd nifer y bobl ifanc 20 i 24 oed a ddechreuodd brentisiaethau wedi gostwng yn eithaf sydyn yn 2019/20, a gostwng eto yn 2023/24. Yn ogystal, gostyngodd nifer y bobl ifanc 18 i 19 oed a ddechreuodd brentisiaeth yn 2019/20 a 2020/21 Fodd bynnag, er eu bod yn is na'r lefelau a welwyd cyn y pandemig, mae'r niferoedd wedi adfer rhywfaint o 2021/22 ymlaen. Yn yr un modd, yn dilyn gostyngiad mewn cyfraddau llwyddiant prentisiaethau yn 2021/22, bu cynnydd cyson yn y gyfradd llwyddiant (yn 2022/23 a 2023/24), er ei bod yn parhau i fod yn is na'r lefelau cyn y pandemig (76% yn 2023/24, o gymharu ag 81% yn 2018/19) (Medr, 2025).

⁷³ Nid yw'r iaith hon yn adlewyrchu'r model cymdeithasol o anabledd y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddilyn.

- 7.22. Mae adroddiad blynyddol diweddaraf Estyn (2023-2024) yn nodi ‘ar draws y sector, roedd gan ddarparwyr a’u hisgontractwyr ystod gynhwysfawr o weithdrefnau a phrotocolau gofal, cymorth ac arweiniad. Roedd y gefnogaeth a oedd ar gael i ddysgwyr yn eang ac roedd lles dysgwyr yn ffocws cyson’ (Estyn 2025, t. 3). Fodd bynnag, yn eu hadroddiad blynyddol blaenorol (2022-23) mae Estyn hefyd yn nodi bod cyfraddau peidio â chwblhau yn uchel mewn rhai meysydd cwrs, fel iechyd a gofal cymdeithasol (Estyn, 2024c, t. 3). Fodd bynnag, nododd un o’r ymatebwyr o Lywodraeth Cymru fod ‘y rhesymau y tu ôl i hyn yn gymhleth ac mae llawer ohonynt y deillio o realiti economaidd y farchnad lafur yn y sector hwn yn arwain at lawer o bobl yn gadael y proffesiwn ar gyfer swyddi llai medrus eraill a allai fod â chyflog ac amodau gwell’. Mae’r ystadegau diweddaraf yn nodi bod cyfradd llwyddiant gyffredinol prentisiaethau yn 2022/23 yn 72%. Er bod hwn yn gynnydd o 5 pwynt canran o gymharu â 2021/22, mae’n parhau i fod yn is na’r lefelau a welwyd cyn y pandemig (Llywodraeth Cymru, 2024v).

Addysg Uwch

- 7.23. Er bod cymorth i gael mynediad at AU a chymorth mewn AU yn rhan ffurfiol o’r Warant, anaml y trafodwyd AU gan gyfweleion a, phan gafodd ei thrafod, roedd hyn er mwyn cydnabod nad oedd hyn wedi bod yn ffocws y Warant. Er enghraifft, fel y dywedodd un cyfwelai o Medr (CCAUC gynt) ‘nid oedd y Warant ar ein radar [CCAUC]’.

Y system gymorth ôl-16: y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid

- 7.24. Fel yr amlinellir yn Adran 5, nododd gwerthusiad o’r Fframwaith ar ddiwedd y 2010au fod cynnydd da yn parhau i gael ei wneud wrth ddatblygu adnabod yn gynnar, broceriaeth ac olrhain ar gyfer pobl ifanc 11 i 18 oed (Llywodraeth Cymru, 2019c). Fodd bynnag, nododd hefyd fod hyn yn sylweddol wannach i’r rhai 19 i 24 oed. Canfu’r gwerthusiad fod y Fframwaith yn golygu bod ‘cynnydd wedi bod mewn cyfathrebu a chydgyssylltu rhwng rhanddeiliaid’, a oedd yn golygu bod ganddynt ddealltwriaeth well o ran pwy oedd y bobl ifanc hynny mewn perygl o ymddieithrio (ibid., t. 24).

7.25. Mae adolygiad Estyn o weithwyr arweiniol y Fframwaith yn 2023 a 2024 yn amlygu gwerth y rôl, gan nodi

ym mywyd person ifanc, y gweithiwr arweiniol yn aml oedd yr unig bresenoldeb cyson a dibynadwy. Roedd yn chwarae rôl ganolog yn darparu cymorth personoledig ar gyfer pobl ifanc o ran eu sefyllfa bresennol, ac elwa ar gyfleoedd cynnydd. (Estyn, 2024b, t. 1)

7.26. Fodd bynnag, nododd Estyn hefyd, er bod pobl ifanc a oedd yn pontio yn 16 oed o'r ysgol i'r coleg neu i ddysgu seiliedig ar waith yn cael cymorth da ar y cyfan, 'roedd y cydweithio rhwng ddarparwyr ôl-16 a gweithwyr arweiniol yn aml yn ddiffygiol wedi i berson ifanc gofrestru', ac nid oedd llawer o ddarparwyr hyfforddiant yn ymwybodol o rôl y gweithiwr arweiniol a'i manteision (ibid.).⁷⁴ At hynny, mae adolygiad Estyn yn nodi bod 'cymorth effeithiol gan weithiwr arweiniol yn dibynnu ar gydweithio â phob un o'r rhanddeiliaid' (ibid., t. 24) ac roedd cryfder y cydweithio, mynediad at ddarpariaeth a chymorth, a gwybodaeth a dealltwriaeth gweithwyr arweiniol o gymorth a chyfleoedd, yn amrywio⁷⁵ (ibid., t. 33).

7.27. Felly, er bod yr adolygiad yn nodi bod rôl y gweithiwr arweiniol yn ategu'r Warrant, gan fod pobl ifanc yr ystyrir eu bod yn NEET, neu sydd mewn perygl o fod yn NEET yn 'annhebygol o fanteisio ar y gwasanaethau a'r wybodaeth sydd ar gael [drwy'r Warrant] heb gymorth gan weithiwr arweiniol sy'n deall anghenion y person ifanc, a'r rhwystrau sy'n eu hwynebu' (ibid., t. 8), mae hefyd yn nodi bod 'llawer o ddarparwyr dysgu yn y gwaith a Twf Swyddi

⁷⁴ Mae'r adroddiad yn nodi oherwydd bod gan y rhan fwyaf o golegau seilwaith cymorth a lles cadarn ar waith, yn aml, roedd pobl ifanc yn cael eu 'trosglwyddo' wedi iddynt gofrestru yn y ddarpariaeth hon. Fel arfer, nid oedd gan ddarparwyr hyfforddiant llai yr un lefel hon o adnoddau. (Estyn, 2024b, t. 29.)

⁷⁵ Mae'r adroddiad yn nodi bod 'gormod o weithwyr arweiniol yn cefnogi pobl ifanc yn haenau 2 a 3 yn meddu ar wybodaeth annigonol am lwybrau ôl-16 sydd ar gael y tu allan i opsiynau ysgol a choleg traddodiadol. Roedd hyn yn creu heriau â chodi ymwybyddiaeth mewn ysgolion am lwybrau amgen fel prentisiaethau, Twf Swyddi Cymru+, a'r sector gwirfoddol' (Estyn 2024a, t. 28). Mae model ymgysylltu pum haen Gyrfa Cymru (ar gyfer y sector ôl-16) a dyrannu gweithwyr arweiniol, wedi'i amlinellu isod a'i gyflwyno ar dudalennau 5 i 7 o adroddiad Estyn uchod.

Cymru+ [sy'n elfennau allweddol o'r Warant] yn cael ymgysylltiad cyfyngedig iawn â gweithwyr arweiniol,' (ibid., t. 29).

Y system gymorth ôl-16: Cymru'n Gweithio

- 7.28. Mae gwasanaeth Cymru'n Gweithio ar agor i bawb 16 oed a throsodd sy'n byw yng Nghymru, gan gynnwys y rhai yn ystad y carchardai diogel a'r rhai sy'n ceisio noddfa. Mae Cymru'n Gweithio yn darparu amrywiaeth o gymorth, gan gynnwys cymorth gyda chael mynediad at hyfforddiant, uwchsgilio, cyllid, ysgrifennu CV a thechnegau cyfweiliad. Fel gwasanaeth mynediad agored i bob oed, nododd cyfweledigion o Lywodraeth Cymru y gallai gynorthwyo person ifanc a'i rieni, gan roi safle 'unigryw' iddo yn y dirwedd cymorth. Nododd un hysbysydd o Lywodraeth Cymru hefyd mai ei 'natur unigryw' oedd 'didueddrwydd' Gyrfa Cymru, fel 'gwasanaeth sy'n cadw'r person ifanc yn y canol', sydd 'heb agenda gudd' ac 'fel gwasanaeth cymwysedig proffesiynol'⁷⁶ (...) bydd yn gweithio gyda phob person ifanc unigol i'w rymuso i ddewis y llwybr gorau ar yr adeg honno'.
- 7.29. Fel yr amlinellir yn Adran 6, rhagwelwyd mai Cymru'n Gweithio fyddai'r porth i'r Warant ar gyfer pobl ifanc, o ystyried ei rôl o ran darparu cyngor, arweiniad a hyfforddiant gyrfaoedd a chyflogadwyedd diduedd, wedi'u personoli am ddim, i helpu pobl ifanc i ddewis o'r amrywiaeth o lwybrau sydd ar gael iddynt. Serch hynny, nid oedd gofyniad i bobl ifanc gael mynediad at ddarpariaeth y Warant drwy wasanaeth Cymru'n Gweithio, ac fel y trafodwn isod, er enghraifft yn haf 2022, cafodd proses atgyfeirio TSC+ ei newid i alluogi pobl ifanc 16 i 18 oed atgyfeirio eu hunain yn uniongyrchol i'r rhaglen heb ymgysylltu â Cymru'n Gweithio i gael eu hasesu ar gyfer mynediad i TSC+.⁷⁷
- 7.30. Nodwyd hefyd gan gyfweleion o Lywodraeth Cymru, er ei bod yn hanfodol o safbwynt cyfathrebu (a'r ymgyrch Bydd Bositif) cael un porth neu 'ddrws blaen' y gellid cyfeirio pobl ifanc ato, yn ymarferol cyhyd â bod pobl ifanc yn

⁷⁶ Mae cynghorwyr gyrfaoedd yn gymwysedig i lefel 6 a gallant ddarparu arweiniad proffesiynol. Mewn cyferbyniad, nid yw'r rhai â chymwysterau is yn gallu darparu arweiniad gyrfaoedd proffesiynol.

⁷⁷ Gwnaed hyn 'i wella mynediad i TSC+ ar gyfer y bobl ifanc hynny oedd 'anoddaf eu cyrraedd' ac nad oeddent yn ymgysylltu drwy wasanaeth Cymru'n Gweithio' (Llywodraeth Cymru, 2024f, t. 32) ac mae hyn yn cael ei drafod ymhellach isod.

cael mynediad at y cymorth cywir, nid oedd ots a oeddent yn mynd drwy wasanaeth Cymru'n Gweithio ai peidio. Fodd bynnag, roedd cyfweldigion eraill o Lywodraeth Cymru yn fwy gofalus, gan nodi y gallai hunanatgyfeirio neu atgyfeirio uniongyrchol i raglenni olygu nad oedd pobl ifanc o reidrwydd yn cael mynediad at y ddarpariaeth fwyaf priodol iddynt, o ystyried cymhlethdod y dirwedd cymorth.

7.31. Mae gwerthusiad 2024 o wasanaeth Cymru'n Gweithio yn nodi ei fod yn 'borth effeithiol ar gyfer cymorth cyflogadwyedd ledled Cymru' am fod 'llinellau cyfathrebu clir ac effeithiol yn eu lle rhwng staff Cymru'n Gweithio a phartneriaid eraill' (Llywodraeth Cymru, 2024e, t. 71). Fodd bynnag, mae hefyd yn nodi 'dywedodd staff y gall ymgysylltu â phobl ifanc fod yn heriol' a'i bod yn 'anodd ymgysylltu â phobl ifanc agored i niwed a phobl ifanc NEET am nad ydynt fel arfer yn ymgysylltu ag allgymorth Cymru'n Gweithio a'u bod wedi'u hynysu'n fwy yn gymdeithasol na grwpiau eraill', sy'n golygu ei fod yn llai effeithiol gyda'r grwpiau hyn (Llywodraeth Cymru, 2024e, t. 52).

7.32. Yr un modd, fel y mae Adran 6 yn amlinellu, yng nghyd-destun y Fframwaith, a phobl ifanc 16 i 18 oed (yn wahanol i'r rhai 19 i 24 oed), nododd hysbysydd o Lywodraeth Cymru er bod gan Gyrfa Cymru/Cymru'n Gweithio gyfrifoldeb am bobl ifanc yn Haen 3 (pobl ifanc sy'n 'NEET neu sydd wrthi'n ceisio EET, ond sy'n hysbys i Gyrfa Cymru'), nid oedd pobl ifanc yn haen 2 ('pobl ifanc sy'n hysbys i Gyrfa Cymru, sy'n NEET ac nad ydynt yn barod neu nad ydynt ar gael i geisio EET') yn grŵp targed i Cymru'n Gweithio.⁷⁸ Fodd bynnag, gwnaethant hefyd esbonio, y bydd Cymru'n Gweithio 'yn eu cynorthwyo pan fydd hynny'n briodol', fel arfer pan fydd y sefydliad arweiniol sy'n cynorthwyo'r person ifanc hwnnw, fel y gwasanaeth ieuenctid wedi eu hatgyfeirio i Cymru'n Gweithio.

⁷⁸ Mae gan Gyrfa Cymru fodel ymgysylltu 5 haen i bobl ifanc 16 i 18 oed, gyda Haen 5 yn atgyfeirio i'r rhai sy'n ymgysylltu ag EET, Haen 1 y rhai nad ydynt yn hysbys i Gyrfa Cymru, a'r haenau rhyngddynt yn gategorïau i bobl ifanc y mae angen lefelau amrywiol o gymorth arnynt. Gweler tudalennau 30 i 31 yn [Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid: Llawlyfr](#) i gael rhagor o fanylion (Llywodraeth Cymru, 2024r).

7.33. Mae tabl 7.1 yn cyflwyno statws pobl ifanc 16 i 24 oed wrth ymuno â Cymru'n Gweithio. Mae'n dangos, dros y ddwy flynedd ddiwethaf (2022 i 2024), bod 30% o'r rhai 16 i 18 oed a 58% o'r rhai 19 i 24 oed yn ddi-waith, ac roedd 6% arall o'r rhai 16 i 18 oed a 3% o'r rhai 19 i 24 oed yn economaidd anweithgar.

Tabl 7.1. Statws pobl ifanc 16 i 18 oed a 19 i 24 oed sy'n byw yng Nghymru ar adeg ymuno â Cymru'n Gweithio, wedi'i gyfrifo yn seiliedig ar gyfartaledd blynyddol dros ddwy flynedd ariannol (2022 i 2023 a 2023 i 2024) [Nodyn 1]

Pobl ifanc 16 i 18 oed

Statws wrth atgyfeirio	(nifer)	(%)
Di-waith	1,968.5	30
Addysg bellach amser llawn	1,895.5	29
Addysg blynyddoedd 10 ac 11	1,087.5	16
Rhaglen gyflogadwyedd neu sgiliau arall LIC	501.5	8
Economaidd anweithgar	391.5	6
Cyflogedig yn amser llawn	288.5	4
Cyflogedig yn rhan-amser	275.0	4
Ddim ar gael ar gyfer EET	107.0	2
Addysg bellach ran-amser	47.5	1
Addysg uwch	33.0	0
Statws annilys [Nodyn 2]	30	0
Yn byw y tu allan i Gymru [Nodyn 3]	14.5	0
Hunangyflogedig	6.5	0
Heb ei gofnodi [Nodyn 2]	0.5	0
Cyfanswm	6,647	100

Pobl ifanc 19 i 24 oed

Statws wrth atgyfeirio	(nifer)	(%)
Di-waith	3,560.0	58
Cyflogedig yn amser llawn	671.5	11
Addysg bellach amser llawn	621.5	10
Cyflogedig yn rhan-amser	447.0	7
Ddim ar gael ar gyfer EET	246.5	4
Economaidd anweithgar	190.5	3
Addysg uwch	190.0	3
Arall [Nodyn 2]	135.0	2
Addysg bellach ran-amser	43.0	1
Hunangyflogedig	33.0	1
Statws annilys [Nodyn 2]	12.0	0
Yn byw y tu allan i Gymru [Nodyn 3]	5.5	0
Heb ei gofnodi [Nodyn 2]	2.5	0
Addysg blynyddoedd 10 ac 11	0.5	0
Cyfanswm	6,158.5	100

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru: gwybodaeth reoli fewnol

[Nodyn 1] Mae'r data yn seiliedig ar gyfartaledd dros ddwy flynedd ac yn cael eu cyflwyno i un lle degol.

[Nodyn 2] Nodwyd gan Gyrfa Cymru y bydd cwsmeriaid mewn rhai achosion yn ymuno â Gyrfa Cymru heb 'statws dilys', er enghraifft, os byddant yn cael eu hatgyfeirio i Cymru'n Gweithio o sefydliad partner, ac nid yw eu statws yn hysbys ar y pwynt hwn. Gall hyn naill ai olygu nad oes gan Gyrfa Cymru unrhyw wybodaeth am eu statws, 'nid yw wedi'i gofnodi' neu lle mae'r cwsmer eisoes yn hysbys i Gyrfa Cymru, mae ei statws hysbys diwethaf wedi'i gofnodi.

[Nodyn 3] Nododd Gyrfa Cymru fod rhai pobl ifanc sydd â'r statws 'yn byw y tu allan i Gymru' wedi'u cynnwys, er bod y rhai a ymunodd â chod post nad yw'n mapio i leoliad yng Nghymru wedi'u heithrio. Yn gyffredinol, dyma lle mae Cymru'n Gweithio wedi diweddarau cyfeiriad a data cyswllt ar yr adeg mae'r cwsmer yn cael ei atgyfeirio

i Cymru'n Gweithio (felly mae eu cod post yng Nghymru wrth ymuno) ond nid yw Cymru'n Gweithio wedi cadarnhau statws newydd eto.

7.34. Er bod y dystiolaeth yn awgrymu bod Cymru'n Gweithio yn borth effeithiol i'r Warant i'r bobl ifanc hynny sy'n cael mynediad ato, o ystyried nifer y bobl ifanc yr amcangyfrifir eu bod yn NEET,⁷⁹ ymddengys mai dim ond lleiafrif o bobl ifanc y mae'n debygol y bydd angen cymorth, neu a fyddai'n cael budd o gymorth (oherwydd eu bod yn NEET) sy'n cael mynediad at Cymru'n Gweithio. Fel y nodwyd uchod, nid yw pobl ifanc 16 i 18 oed yn haen 2, sy'n NEET, ond nad ydynt yn barod neu nad ydynt ar gael i geisio EET, yn gynulleidfa darged ar gyfer Cymru'n Gweithio. Mae hyn yn adlewyrchu gwahanol gyfrifoldebau Cymru'n Gweithio/Gyrfa Cymru, y gwasanaeth ieuencid a'r EPC o dan y Fframwaith, a ddisgrifir yn Adran 6. Fel y nododd un hysbysydd o Lywodraeth Cymru, mae hyn wedi'i fwriadu i sicrhau bod pobl ifanc yn 'cael eu cynorthwyo gan y sefydliad cywir' ar yr adeg gywir. Dyma un rheswm pam, fel y nododd y gwerthusiad o Cymru'n Gweithio, dim ond nifer cymharol fach o bobl ifanc 'sydd mewn perygl o ymddieithrio, neu sydd wedi ymddieithrio', sy'n ymgysylltu â Cymru'n Gweithio (Llywodraeth Cymru, 2024e).

7.35. Serch hynny, ers i'r Fframwaith gael ei adnewyddu yn 2022 a'i ailganolbwyntio ar bobl ifanc 11 i 18 oed, mae hyn o bosibl yn gadael bwlch mewn perthynas ag ymgysylltu â phobl ifanc 19 i 24 oed nad ydynt yn barod i ymgysylltu â chyfleoedd EET, oherwydd y rhwystrau sylweddol y maent yn eu hwynebu. Rydym yn trafod hyn ymhellach yn Adran 10. Yn ogystal, fel y mae Adran 6 yn amlinellu, nid oes gofyniad bod pobl ifanc yn cael mynediad at y Warant drwy Cymru'n Gweithio. Nodwyd hefyd gan gyfweleion o Lywodraeth Cymru nad oedd gan Cymru'n Gweithio gapasiti i gynorthwyo pob person ifanc sy'n cael mynediad at y Warant. Serch hynny, os nad yw pobl ifanc 19 i 24 oed yn ymgysylltu â Cymru'n Gweithio, nid ydynt yn cael budd o'r cyngor proffesiynol diduedd ar gyflogadwyedd a gyrfaedd y mae'n ei gynnig. Mae hyn yn bwysig

⁷⁹ Amcangyfrifir bod hyn yn 11,000 o bobl ifanc 16 i 18 oed a 35,100 o bobl ifanc 19 i 24 oed yn 2023 (Llywodraeth Cymru, 2025g).

oherwydd y dirwedd cymorth gymhleth sy'n ffurfio'r Warant. Rydym yn trafod hyn ymhellach yn Adran 11.

7.36. Yn 2021 cafodd Cymru'n Gweithio gyllid ychwanegol i benodi tîm olrhain data. Eu rôl oedd gwneud gwaith dilynol gyda phobl ifanc a oedd wedi cael mynediad at y Warant drwy wasanaeth Cymru'n Gweithio er mwyn (fel yr esboniodd hysbysydd o Lywodraeth Cymru):

- nodi canlyniadau pobl ifanc ar ôl tri a naw mis; a
- galluogi Cymru'n Gweithio i olrhain cynnydd pobl ifanc, fel y gellid cynnig cymorth os oedd angen (er enghraifft, os oeddent wedi ymddieithrio ar ôl ailymgysylltu â chymorth darpariaeth y Warant).

7.37. Fodd bynnag, gan mai dim ond nifer cyfyngedig o bobl ifanc oedd yn cael mynediad at weithgarwch y Warant drwy Cymru'n Gweithio, nid oedd y set ddata hon yn darparu darlun cynhwysfawr o gynnydd pobl ifanc. Yn sgil cyllid cyfyngedig, daeth y gwaith o olrhain pobl ifanc a oedd yn cael mynediad at y Warant drwy Cymru'n Gweithio i ben ar 31 Mawrth 2024. Er bod Cymru'n Gweithio wedi parhau i gasglu data ar bobl ifanc sy'n cael mynediad at eu gwasanaeth ac atgyfeiriadau, nid oes ganddynt y capasiti i gynnal gwaith olrhain ar ôl tri a naws mis bellach.

Y system gymorth ôl-16: rhaglenni cyflogadwyedd: TSC+, CfW+, ReAct+ a'r Gwasanaeth Di-waith

TSC+

7.38. Mae TSC+ yn 'rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer pobl ifanc 16 i 19 oed sy'n awyddus i symud ymlaen i addysg bellach neu gyflogaeth'. Mae'n cynnig tair lefel o gymorth:

- 'ymgysylltu', i'r bobl ifanc hynny nad ydynt yn siŵr pa lwybr gyrfa y maent am ei ddilyn;
- 'datblygu' i'r bobl ifanc hynny sy'n gwybod beth maent eisiau ei wneud ond mae angen iddynt ennill sgiliau a chymwysterau; a
- 'chyflogaeth', i'r bobl ifanc hynny sy'n gwybod beth maent am ei wneud ac sy'n mynd ati i chwilio am waith ac yn barod i ddechrau gweithio (Llywodraeth Cymru, 2024f).

7.39. Mae'r gwerthusiad cenedlaethol o TSC+ yn gadarnhaol iawn, o ystyried yr adborth cadarnhaol gan staff darparu, rhanddeiliaid ehangach a chyfranogwyr ar fodel darparu gwasanaeth TSC+ (Llywodraeth Cymru, 2025e, 2024g).

Amlygodd cyfweldigion ar gyfer yr astudiaeth hon o Lywodraeth Cymru werth 'hyblygrwydd' y model TSC+, sydd hefyd yn cael ei amlygu gan y gwerthusiad. Cafodd perfformiad cryf TSC+ mewn perthynas ag ymgysylltu â phobl ifanc ag 'anabledd a/neu anhawster dysgu',⁸⁰ sydd (fel yr amlinellir yn Atodiad B) yn ffurfio chwarter o gyfranogwyr TSC+ ei amlygu hefyd. At hynny, ystyriwyd bod gweithgarwch marchnata a hyrwyddo sy'n gysylltiedig â'r rhaglen yn llwyddiannus i raddau helaeth. Mae arolygiadau Estyn o TSC+ yr un mor gadarnhaol. Maent yn nodi bod 'darparwyr yn cyflwyno rhaglenni'n dda' a bod 'y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn manteisio ar gymorth personol cryf gan eu tiwtoriaid' (Estyn, 2024c, t. 135). Fodd bynnag, mae Estyn hefyd yn nodi 'nid oedd cyfranogwyr yn manteisio ar gyfleoedd profiad gwaith ystyrllon' (ibid.).

⁸⁰ Nid yw'r iaith hon yn adlewyrchu'r model cymdeithasol o anabledd y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddilyn.

- 7.40. Mae'r gwerthusiad o TSC+ yn nodi, yn enwedig yn 15 mis cyntaf y rhaglen, bod TSC+ wedi tanberfformio o'i gymharu â disgwyliadau o ran ymgysylltu â phobl ifanc. Mae'r gwerthusiad yn priodoli ei berfformiad cychwynnol gwannach na'r disgwyl yn bennaf i effeithiau'r pandemig, yr argyfwng costau byw dilynol a'r heriau ychwanegol a roddwyd ar bobl ifanc. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad hefyd yn nodi ei bod yn ymddangos bod yr ymateb i'r perfformiad hwn a oedd yn wannach na'r disgwyl, gan gynnwys 'gwella ar y gweithgareddau cyn-ymgysylltu mewn ymateb i rwystrau sy'n gysylltiedig â phryder, iechyd meddwl, a rhyngweithio cymdeithasol wedi bod yn hynod lwyddiannus' (Llywodraeth Cymru, 2024g, t. 95). O ganlyniad i'r gwelliannau o ran ymgysylltu, amcangyfrifodd yr adroddiad terfynol fod TSC+ 'yn cefnogi 30 i 40% o bobl ifanc NEET yn 2022' (Llywodraeth Cymru, 2025e, t. 69) ac yn 2024 nododd cyfweldigion Llywodraeth Cymru fod gormod wedi tanysgrifio i'r rhaglen. Mae'r gor-danysgrifio hwn yn cael ei gadarnhau gan y gwerthusiad sy'n nodi bod contractwyr TSC+ sy'n darparu'r rhaglen yn gorfod rheoli'r lefelau uchel o alw yn ofalus er mwyn osgoi rhedeg allan o gyllid (ibid.).
- 7.41. Mae'r niferoedd uwch na'r disgwyl o bobl ifanc sy'n cael mynediad at y rhaglen a oedd ag anawsterau fel problemau iechyd meddwl ac nad oeddent yn 'barod am swyddi' yn awgrymu bod rhaglen TSC+ yn cyrraedd nifer cynyddol o bobl ifanc sydd ag anghenion mwy cymhleth (ibid.).⁸¹ Fodd bynnag, mae hefyd yn cynyddu'r risg y gallai pobl ifanc ar y rhaglen gael trafferth symud ymlaen i EET (gan eu bod ymhellach o EET). Fel y nododd un cyfwelai o'r rhaglen, 'nid yw contractwyr TSC+ yn ymarferwyr iechyd meddwl', ac 'mae angen cydweithio cryfach a chysylltiad ag iechyd; rhaid i iechyd fod yn rhan o hyn'. Ond roedd y cyfranogwr hwn o'r farn bod y pwysau ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn rhwystro hyn. Mynegodd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru bryderon hefyd y gallai ymestyn

⁸¹ Er enghraifft, mae'r gwerthusiad o TSC+ yn nodi bod 'dros dri chwarter y cyfranogwyr yn mynd i llinyn Ymgysylltu' y rhaglen (wedi'i fwriadu i'r rhai nad ydynt yn siŵr pa lwybr gyrfa yr hoffent ei ddilyn ac y mae angen rhagor o gymorth arnynt i'w helpu i ymgysylltu â chyfleoedd EET). Mae'r gwerthusiad hefyd yn nodi, ar gyfer rhai cyfranogwyr, y teimlir bod y llinyn ymgysylltu yn 'rhy anodd i rai cyfranogwyr, a theimlwyd bod angen defnydd ehangach o'r cynnig cyn-ymgysylltu ('Bydd Barod/Get Ready' ar hyn o bryd) neu rywbeth tebyg'. (Llywodraeth Cymru, 2025e, t. 117.)

y rhaglen i gwmpasu pobl ifanc 16 i 19 oed greu oedi o ran cyfnod pontio person ifanc allan o hyfforddiant (os oedd yn golygu eu bod yn gadael y rhaglen yn 19 oed heb ganlyniad cadarnhaol, yn hytrach na gadael yn 18 oed).

- 7.42. Yng nghyd-destun y Warrant, mae'n bwysig cofio (fel y nodwyd uchod) pan gafodd ei lansio'n wreiddiol ym mis Ebrill 2022, y llwybr atgyfeirio i TSC+ oedd drwy Cymru'n Gweithio. Fel y mae'r gwerthusiad o Cymru'n Gweithio yn nodi:

Y rhesymeg y tu ôl i'r model atgyfeirio oedd ei fod yn galluogi darpar gyfranogwyr i siarad â chynghorwyr gyrfa hyfforddedig ynghylch cyflogaeth a sgiliau, eu nodau a'u dyheadau, ac unrhyw heriau y maent yn eu hwynebu rhag cael gwaith neu fynd i addysg neu hyfforddiant ac aros ynddynt (Llywodraeth Cymru, 2024f, t. 31).

- 7.43. Fodd bynnag, yn haf 2022, cafodd atgyfeirio uniongyrchol i gontractwyr ei gyflwyno fel llwybr amgen i gael mynediad at TSC+. ⁸² Mae'r gwerthusiad o Cymru'n Gweithio yn nodi bod y newid wedi'i wneud i 'wella mynediad i TSC+ ar gyfer y bobl ifanc hynny oedd 'anoddaf eu cyrraedd' ac nad oeddent yn ymgysylltu drwy wasanaeth Cymru'n Gweithio' (ibid., t. 32). Mae arolygiadau Estyn yn nodi oherwydd bod atgyfeiriadau gan Cymru'n Gweithio i TSC+ yn llawer is na'r disgwyl, 'roedd darparwyr wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb o recriwtio'n uniongyrchol er mwyn sicrhau hyfywedd y rhaglen' (Estyn, 2024c, t. 135).

- 7.44. Yn yr un modd, pwysleisiodd hysbysydd o Lywodraeth Cymru fod Cymru'n Gweithio yn ddiuedd a byddai'n atgyfeirio pobl ifanc i'r ddarpariaeth neu'r cyfleoedd mwyaf priodol, gan nodi yn y cyfnod ar ôl i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio yn 2021, fod y farchnad lafur yn tyfu (sy'n golygu y gallai pobl

⁸² Roedd hyn yn golygu bod contractwyr TSC+, yn hytrach na Cymru'n Gweithio, yn cymryd cyfrifoldeb am asesu addasrwydd a chymhwysedd person ifanc ar gyfer TSC+ a nodi pa haen o TSC+ fyddai'n fwyaf addas, o ystyried anghenion dysgu a/neu ddatblygiadol y person ifanc ac unrhyw rwystrau yr oedd yn eu hwynebu (Llywodraeth Cymru, 2024f). Mae hyn hefyd yn codi cwestiynau am y ffordd orau o ymgysylltu â phobl ifanc nad ydynt yn barod i ailymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET prif ffrwd fel TSC+.

ifanc fod wedi dewis cyflogaeth yn hytrach na TSC+). Yn ogystal, fel y nodwyd uchod, mae'n nodedig bod y gwerthusiad o TSC+ yn nodi bod cyfran lawer llai na'r disgwyl o bobl ifanc yn 'barod am waith' yn dilyn y pandemig⁸³ (Llywodraeth Cymru, 2025e). Felly, gall hyn hefyd helpu i esbonio'r niferoedd is sy'n dod o Cymru'n Gweithio, oherwydd fel y nodwyd uchod, nid yw pobl ifanc yn haen 2, sy'n NEET ond nad ydynt eto yn barod nac ar gael i geisio EET, yn gynulleidfa darged ar gyfer Cymru'n Gweithio.

- 7.45. Mae'r gwerthusiad o TSC+ yn nodi bod y newid (caniatáu atgyfeirio uniongyrchol i gontractwyr) wedi'i groesawu gan y mwyafrif o randdeiliaid (Llywodraeth Cymru, 2024f, 2025e). Roedd contractwyr yn teimlo 'bod hyn wedi cynyddu'n sylweddol nifer y bobl ifanc sy'n dod at y gwasanaeth' ac awgrymodd rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru ei fod yn:

... rhoi llwybr symlach a chyflymach i ddarpar gyfranogwyr i'r rhaglen, gan leihau'r risg o ymddieithrio'n gynnar. I'r gwrthwyneb, teimlwyd bod diffyg llwybr atgyfeirio uniongyrchol ar y dechrau un o bosibl wedi creu rhwystr i ddarpar ddysgwyr oherwydd bod yn rhaid iddynt gael eu hailgyfeirio i Cymru'n Gweithio cyn cael mynd at TSC+ (Llywodraeth Cymru, 2024f, t. 64).

- 7.46. Fodd bynnag, mae hefyd yn nodi bod rhai rhanddeiliaid wedi dweud bod 'y bobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio i'r rhaglen drwy Cymru'n Gweithio yn elwa o dderbyn cyngor ac arweiniad diduedd er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch pa wasanaeth i'w ddefnyddio' (ibid., t. 63). Ymhellach, mae'n nodi y gallai atgyfeiriadau uniongyrchol (yn hytrach nag atgyfeirio drwy Cymru'n Gweithio) olygu nad oedd pobl ifanc yn deall eu hopsiynau yn llawn a gallai olygu bod llai o wybodaeth am anghenion person ifanc ar gael (ibid. t. 65). Nododd hysbysydd o Lywodraeth Cymru

⁸³ Er enghraifft, mae'r gwerthusiad o TSC+ yn nodi: 'Teimlwyd fod gan ymgeiswyr anghenion a rhwystrau llawer mwy cymhleth nag a ragwelwyd, a'r Contractwyr a Chydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd yn cytuno bod hyn o ganlyniad uniongyrchol i'r effeithiau andwyol ar bobl ifanc yn sgil cyfyngiadau symud COVID-19 yn ogystal â'u mynediad cyfyngedig i leoliadau addysgol ffurfiol yn ystod y cyfnodau hynny' (Llywodraeth Cymru, 2025e, t. 39).

hefyd mai cylch gwaith Cymru'n Gweithio yw darparu cyngor arbenigol diduedd a byddent yn atgyfeirio pobl ifanc i'r ddarpariaeth fwyaf priodol, na fyddai o reidrwydd yn TSC+.

- 7.47. Mewn perthynas â'r Fframwaith, mae'r gwerthusiad o Cymru'n Cymru hefyd yn nodi, ar ôl i'r newid gael ei wneud, bod atgyfeiriadau uniongyrchol i TSC+ yn 28% o'r holl gofrestriadau ym mlwyddyn ariannol Ebrill 2022 tan fis Mawrth 2023, ac roedd atgyfeiriadau gan EPC dim ond yn un y cant o'r holl atgyfeiriadau dros yr un cyfnod o amser. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad hefyd yn nodi bod hwn yn debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel, oherwydd bod atgyfeiriadau gan EPC weithiau'n cael eu cofnodi fel 'atgyfeiriadau uniongyrchol' gan contractwyr, 2024f, t. 42). Cafodd hyn ei gadarnhau gan gyfweleion o Lywodraeth Cymru a nododd fod cysylltiadau rhwng y Fframwaith a TSC+ yn aml y wael, heb fawr o atgyfeiriadau.⁸⁴ Fodd bynnag, nododd y cyfweleigion hyn hefyd fod gwaith rhwng y Fframwaith a thimau polisi TSC+ ac EPC wedi mynd i'r afael â hyn. Serch hynny, mae'r adroddiad gwerthuso terfynol ar TSC+ yn nodi bod: 'Parhau i fod yn amrywiol ledled Cymru y mae rôl y Cydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd (EPC) yn y broses atgyfeirio, fel y nodwyd yn y cam interim' (Llywodraeth Cymru 2025e, t. 72).

Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy

- 7.48. Roedd Cymunedau am Waith (CfW) yn rhaglen gyflogaeth ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau gyda chymorth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a ddechreuodd yn 2015 ac a weithredodd tan fis Mawrth 2023. Roedd y rhaglen yn cynnig cymorth cynghori cyflogaeth a mentora. Roedd ei gweithrediadau yn cynnwys cymorth i bobl ifanc⁸⁵ a oedd yn NEET ac yn byw mewn 52 o ardaloedd a oedd yn arfer bod yn glystyrau Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru. Datblygwyd Cymunedau am Waith a Mwy (CfW+) i ddechrau yn 2018 er mwyn ymestyn cymorth i'r rhai (gan gynnwys pobl ifanc)

⁸⁴ Yn ddiddorol, mae'r gwerthusiad o TSC+ yn nodi: 'Dywedodd un Contractwr nad oedd wedi derbyn unrhyw atgyfeiriadau drwy'r Cydlynwyr, ac awgrymodd fod hyn oherwydd bod y Cydlynwyr yn gweithio gyda phobl sy'n arbennig o 'anodd eu cyrraedd' ac, felly, yn llai tebygol o ymgysylltu â TSC+' (Llywodraeth Cymru, 2024f, t. 63).

⁸⁵ Roedd gweithrediadau Blaenoriaeth 1 yn cefnogi'r rhai 25 oed a throsodd a oedd yn ddi-waith yn yr hirdymor neu'n economaidd anweithgar.

nad oeddent yn gymwys ar gyfer naill ai CfW na rhaglenni rhanbarthol eraill Cronfa Gymdeithasol Ewrop ac a oedd mewn tlodi, neu mewn perygl o dlodi (Llywodraeth Cymru, 2023b). Yn 2024, cafodd meini prawf cymhwysra CfW+ mewn perthynas ag oedran defnyddwyr gwasanaethau a chymhlethdod eu hanghenion eu codi.⁸⁶

- 7.49. Nododd y gwerthusiadau o CfW a CfW+ fod y ddwy raglen yn perfformio'n well na'r disgwyliadau o ran ymgysylltu â phobl ifanc a'u cefnogi i gyflogaeth, er gwaethaf yr heriau a grëwyd gan y pandemig (Llywodraeth Cymru, 2024h). Dangosir perfformiad cryf CfW+, yn enwedig yn dilyn ehangu'r rhaglen yn 2021 - 2022 wedi'i alluogi gan gyllid ychwanegol y Warant, gan Ffigur 7.2. Fel y dangosir hefyd gan Ffigur 7.2, mae hyn wedi cyd-fynd â 'dirwyn i ben' CfW.
- 7.50. Nododd y gwerthusiad o CfW a CfW+ hefyd fod 58% o gyfranogwyr CfW a 65% o gyfranogwyr CfW+ wedi clywed am y rhaglen drwy'r Ganolfan Byd Gwaith, a'r Ganolfan Byd Gwaith oedd y brif ffrwd atgyfeirio. Yng nghydestun y Warant, mae'n nodedig na chafodd Cymru'n Gweithio ei nodi gan bobl ifanc fel y ffynhonnell wybodaeth am CfW neu CfW+, er bod 4% o gyfranogwyr CfW a 2% o gyfranogwyr CfW+ wedi dweud eu bod wedi clywed am y rhaglen gan un o gynghorwyr Gyrfa Cymru⁸⁷ (Llywodraeth Cymru, 2024b).⁸⁸ Yn rhannol, fel y nododd hysbysydd o Lywodraeth Cymru, mae hyn yn adlewyrchu gwahaniaethau yn y gynulleidfa darged ar gyfer Cymru'n Gweithio a fyddai, fel y nodwyd uchod, yn gyffredinol yn gweithio gyda'r rhai sy'n barod i ailymgysylltu ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ôl-16 a CfW a CfW+ a oedd wedi'u targedu'n fwy at y rhai nad oeddent eto'n barod i ailymgysylltu ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ôl-16.⁸⁹ Fodd bynnag, mae hyn wedyn yn codi cwestiynau am leoliad Cymru'n Gweithio gan

⁸⁶ Yn 2024, codwyd yr oedran lle gallai pobl ddod yn gymwys o 16 i 20 ac erbyn hyn ni ddylent fod 'mewn addysg, gwaith na hyfforddiant, a bod â rhwystr cymhleth i gyflogaeth' (yn hytrach na bod mewn perygl o dlodi).

⁸⁷ Mae Cymru'n Gweithio yn cael ei ddarparu gan gynghorwyr Gyrfa Cymru.

⁸⁸ Mae hyn yn berthnasol i'r holl gyfranogwyr ac felly mae'n cynnwys y rhai 25 oed a throsodd ac, yn anffodus, nid oes dadansoddiad ar wahân o lwybrau atgyfeirio ar gael i'r rhai 16 i 24 oed.

⁸⁹ Er bod meini prawf cymhwysra CfW+ yn ehangach na CfW a gallai, er enghraifft, weithio gyda'r rhai mewn cyflogaeth, ond a oedd yn dal mewn perygl o brofi tlodi.

Lywodraeth Cymru fel 'y porth' i'r Warant, yr ydym yn ei drafod ymhellach yn Adran 10.

Ffigur 7.2. Newidiadau yn nifer y cyfranogwyr (16+ oed) a ymgysylltodd â CfW+ yn y blynyddoedd ariannol 2018-19 i 2023-24 [Nodiadau 1 a 2], a chan CfW ym mlynyddoedd ariannol 2018 i 2023 [Nodyn 3]



Ffynonellau: Llywodraeth Cymru: Gwybodaeth reoli fewnol CfW+; [Llywodraeth Cymru, 2024i](#)

[Nodyn 1] Nid oes dadansoddiad oedran o ddata ar gael ar gyfer y blynyddoedd cyn 2023 i 2024.

[Nodyn 2] Darparwyd cyllid ychwanegol y Warant ar gyfer CfW+ yn 2022-23 a 23-24.

[Nodyn 3] Cafodd CfW ei ddirwyn i ben ar ôl mis Ebrill 2023.

7.51. Yn y gwerthusiad o CfW a CfW+, nododd cyfweiliadau â chyfranogwyr ddau grŵp eang o bobl ifanc a gynorthwywyd gan y rhaglen: 'y rhai a oedd braidd yn ddigysfeiriad, ond yn ymddangos fel y gallent fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth, ac a oedd felly'n fwy tebygol o ail-ymgysylltu [â chyflogaeth], a'r rhai a oedd yn wynebu rhwystrau dyfnach, a oedd yn ymddangos yn llawer llai tebygol o ailymgysylltu heb gymorth gan CaW neu CaW+' (Llywodraeth Cymru, 2024i, t. 53). Roedd y grŵp olaf yn cynnwys y rhai a oedd yn wynebu

rhwystrau cymhleth i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ac a oedd yn ymddangos yn annhebygol o'u goresgyn heb gymorth y prosiect. I'r rhan fwyaf, roedd hyn yn gysylltiedig ag 'anawsterau iechyd meddwl a/neu anableddau'⁹⁰, megis cyflyrau niwroddatblygiadol, a oedd yn cyfyngu ar eu gallu yn ogystal ag amharu ar eu cymhelliant i chwilio am waith' (ibid., t. 58).

- 7.52. Myfyriodd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru ar hyn ac, fel y rhai a oedd yn ymwneud â'r gwerthusiad o TSC+, rhoddwyd sylwadau penodol ar heriau ar gyfer y rhaglen yn gysylltiedig â nifer cynyddol y bobl ifanc sy'n cael cymorth gan y rhaglen sy'n profi problemau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl.⁹¹ Er enghraifft, fel y dywedodd un cyfwelai o raglen CFW+, 'ar ôl COVID, nid yw llawer o'r problemau'n ymwneud yn [uniongyrchol] â chyflogadwyedd'. Er gwaethaf yr heriau yr oedd rhai cyfranogwyr yn eu hwynebu, nododd y gwerthusiad o CfW a CfW+ hefyd fod y rhaglenni'n effeithiol wrth gynorthwyo pobl i gyflogaeth.
- 7.53. Nododd y gwerthusiad o CfW a CfW+ hefyd fod profiadau pobl ifanc o weithio a'r gweithle yn aml yn anodd: 'roeddent yn cynnwys adroddiadau o oriau hir a/neu anghymdeithasol, cyflog gwael a thriniaeth wael, gan gynnwys bwlio' ac, fel y dywedodd un cyfwelai yn gryno, 'swyddi cachu', a oedd yn golygu bod rhai 'pobl ifanc wedi mynd i mewn ac allan o swyddi' (Llywodraeth Cymru, 2024i, t. 68). Roedd yr arolwg o gyfranogwyr a gynhaliwyd ar gyfer y gwerthusiad hefyd yn awgrymu bod 'llawer o'r rhai sy'n cael gwaith yn cael gwaith mwy ansicr, ar gyflog is, lle nad oes angen llawer o sgiliau' (ibid.).⁹²
- 7.54. Daeth CfW i ben ym mis Mawrth 2023 (wrth i raglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop ddod i ben yng Nghymru) ac fel y nodwyd uchod, arweiniodd y toriad

⁹⁰ Nid yw'r iaith hon yn adlewyrchu'r model cymdeithasol o anabledd y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddilyn.

⁹¹ Er bod y sylw yn ymwneud yn benodol â'r rhaglen, roedd yn ymddangos bod y cyfwelai'n teimlo bod hyn yn adlewyrchu tuedd gymdeithasol ehangach (hynny yw, wrth i fwy o bobl ifanc brofi problemau iechyd meddwl, roedd nifer y bobl ifanc sy'n cael mynediad at CfW+ sy'n profi problemau iechyd meddwl wedi cynyddu).

⁹² Byddai is yn y cyd-destun hwn yn golygu is na'r cyflog canolrif ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.

mewn cyllid ar gyfer CfW+ yn 2024 at godi'r oedran cymhwysra i 20. Bydd hyn yn lleihau nifer y bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed a gefnogir gan CfW+, er y gall hyn gael ei wrthbwysio gan nifer uwch o bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed sy'n ymgysylltu â TSC+.

ReAct+

- 7.55. Disodlodd ReAct+, a lansiwyd ym mis Mehefin 2022, ReAct3 a'i raglenni rhagflaenol. Ar hyn o bryd (ym mis Ebrill 2025) mae ReAct+ yn cynnig cymorth wedi'i deilwra i'r rhai sy'n 20 oed a throsodd sy'n ceisio ailymuno â'r farchnad lafur sydd naill ai wedi cael eu diswyddo yn ystod y chwe mis diwethaf, sydd o dan rybudd ffurfiol o ddiswyddo, neu sy'n gyn-droseddwr neu droseddwr sy'n bwrw dedfrydau cymunedol.⁹³ Nod y cymorth yw mynd i'r afael â rhwystrau ac mae'n darparu cyllid ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol, costau teithio a llety a gofal (gan gynnwys gofal plant) sy'n gysylltiedig â hyfforddiant (Llywodraeth Cymru, 2024j). O fis Mehefin 2022 ymlaen, gwnaed 'codiad' i gymhorthdal cyflog ReAct+ ar gael i gyflogwyr a recriwtiodd berson ifanc rhwng 18 a 24 oed. O fis Ebrill 2024 ymlaen, cafodd y cymhorthdal cyflog ei ddileu ac eithrio i gyflogwyr a recriwtiodd berson anabl.
- 7.56. Yn hanesyddol, mae rhaglenni cymorth diswyddo Llywodraeth Cymru wedi cynnwys cymhorthdal cyflog i gyflogwyr gyflogi recriwtiaid newydd cymwys. Ym mis Mehefin 2022 rhoddwyd 'cynydd' i gymhorthdal cyflog ReAct+ i gyflogwyr a recriwtiodd berson ifanc rhwng 18 a 24 oed. Fodd bynnag, o fis Ebrill 2024 ymlaen, roedd y cymhwysra ar gyfer cymhorthdal cyflog ReAct+ wedi'i gyfyngu i gyflogwyr sy'n recriwtio person anabl 20 oed neu drosodd sydd mewn perygl o gael ei ddiswyddo, wedi cael ei ddiswyddo'n ddiweddar neu a oedd yn gyn-droseddwr neu'n droseddwr sy'n bwrw ei ddedfryd yn y gymuned.⁹⁴

⁹³ Roedd ReAct+ ar gael i bobl 18 oed a throsodd (ac roedd gan raglenni blaenorol derfyn oedran is o 16). Fodd bynnag, o fis Ebrill 2024, cynyddwyd y terfyn oedran is i 20. Cynghorodd un hysbysydd o Lywodraeth Cymru mai'r rhesymau am hyn oedd lefelau isel o alw gan y rhai 18 a 19 oed ac i gysoni'n well â rhaglenni cymorth cyflogadwyedd eraill Llywodraeth Cymru.

⁹⁴ Mae rhagor o fanylion am y cymorth a'r meini prawf cymhwysra ar gael yn [ReAct Plws](#).

- 7.57. Nid oes unrhyw werthusiad o ReAct+ ar gael, ac mae'r data perfformiad a ddarperir hyd yma yn gyfyngedig, gan gyfyngu'r casgliadau y gellir dod iddynt. Fodd bynnag, gan edrych i'r dyfodol, mae disgwyl i werthusiad o'r rhaglen ddechrau yn 2025.

Y Gwasanaeth Di-waith

- 7.58. Mae'r Gwasanaeth Di-waith yn cynnig cymorth cyfannol gan fentoriaid cymheiriaid i bobl ifanc 16 i 24 oed sy'n NEET a'r rhai sy'n 25 oed a throsodd sy'n ddi-waith yn yr hirdymor neu'n economaidd anweithgar ac sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl neu 'anhwylderau deuol' (a ddiffinnir fel camddefnyddio sylweddau ar y cyd â phroblemau iechyd meddwl).⁹⁵ Yn wahanol i'r rhaglenni eraill a drafodwyd yn yr adran hon, ariannwyd y Gwasanaeth Di-waith i ddechrau gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru gyda chyfraniadau gan y Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau. Daeth cyfraniadau'r Bwrdd Cynllunio Ardal i ben yn 2021-22. Mae'r Gwasanaeth Di-waith olynol a ddechreuodd ym mis Hydref 2022 yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru yn unig.
- 7.59. Mae'r gwerthusiad o'r Gwasanaeth Di-waith yn nodi bod 'cyfranogwyr wedi cael eu denu at y Gwasanaeth Di-waith yn y lle cyntaf i gael cymorth â heriau iechyd a lles, ac roedd cael cyflogaeth a hyfforddiant yn gysylltiedig â gwaith yn rheswm llai cyffredin dros ymuno â'r rhaglen' (Llywodraeth Cymru, 2023c, t. 46). Y llwybr atgyfeirio mwyaf cyffredin oedd drwy asiantaethau allanol, y Ganolfan Waith fel arfer (Llywodraeth Cymru, 2023c, t. 46).⁹⁶
- 7.60. Mae'r gwerthusiad diweddaraf o'r Gwasanaeth Di-waith, sy'n cwmpasu'r cyfnod 2020 i 2022, yn nodi bod y rhaglen wedi perfformio'n dda, gan ddod yn

⁹⁵ Gan fod y gwerthusiad o'r Gwasanaeth Di-waith yn cwmpasu'r rhai rhwng 16 a 24 oed a'r rhai 25 oed a throsodd, a dim ond tua chwarter y llwyth achosion yw pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed, mae'n bosibl nad yw rhai o ganfyddiadau'r gwerthusiad yn berthnasol i bobl ifanc yn y categori oedran 16 i 24.

⁹⁶ Mae'r gwerthusiad yn nodi bod llawer o atgyfeiriadau yn 'amhriodol oherwydd bod anghenion lefel uchel gan y cyfranogwyr ac roedd ganddynt broblemau iechyd meddwl cymhleth, a'u bod, felly, ymhell o fod yn gallu mynd i mewn i gyflogaeth' (Llywodraeth Cymru, 2023c, t. 47). Mae hefyd yn nodi y gallai amharodrwydd y rhaglen i droi pobl i ffwrdd hefyd fod wedi cyfrannu at y canlyniadau is na'r disgwyl (ibid.).

agos at gyflawni targedau recriwtio ar gyfer cyfranogwyr economaidd anweithgar a di-waith, er gwaethaf yr heriau a grëwyd gan y pandemig. Fodd bynnag, roedd perfformiad mewn perthynas â thargedau canlyniadau ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yn gymysg, wedi'i gysylltu'n rhannol â chyfraddau gadael uchel. Mae'r gwerthusiad hefyd yn nodi rhai problemau gyda gweithredu, yn fwyaf arbennig anawsterau wrth recriwtio a chadw mentoriaid cymheiriaid yn ystod y pandemig (Llywodraeth Cymru, 2023c, t. 35).⁹⁷

Gwasanaeth Syniadau Mawr Cymru Busnes Cymru

- 7.61. Mae Busnes Cymru yn cynnig amrywiaeth o gymorth i bobl ifanc o dan 25 oed drwy wasanaeth pwrpasol Syniadau Mawr Cymru, sy'n cynnwys:
- ymgysylltu cyfnod cynnar mewn menter mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion;
 - cymorth i adeiladu gwybodaeth am fusnes, gydag offer, gwybodaeth a chymorth i'r rhai sydd am ddechrau busnes; a
 - grantiau ariannol.
- 7.62. Mae Busnes Cymru hefyd yn cefnogi busnesau a chyflogwyr i wella eu potensial twf a'u cynaliadwyedd. Mae rhywfaint o hyn yn cynnwys arferion cyflogaeth sy'n gysylltiedig â gweithio'n dda gyda phobl ifanc, gan gynnwys gwaith Cyngorwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Busnes Cymru (a drafodir yn Adran 4).
- 7.63. Adroddodd cyfweldigion o Fusnes Cymru, er bod gwasanaeth Syniadau Mawr Cymru i bobl ifanc yn rhagflaenu'r Warant, ei fod wedi derbyn cyllid gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a ddaeth i ben yn 2022. O ganlyniad, roedd cyllid y Warant a gyflwynwyd yn 2022 yn caniatáu i Busnes

⁹⁷ Adroddwyd gan swyddog polisi o Lywodraeth Cymru fod yr anawsterau'n gysylltiedig 'â'r heriau a brofwyd yn ystod cyfyngiadau Covid ac o ganlyniad i'r heriau a gafodd Mentoriaid Cymheiriaid gyda'u hiechyd meddwl eu hunain (ailwaelu) yn ystod y pandemig. Roedd gan y Mentoriaid Cymheiriaid eu hunain brofiadau bywyd o broblemau iechyd meddwl ac roedd COVID a'r cyfyngiadau symud yn gyfnod anodd iawn iddyn nhw'. Mae'r gwerthusiad yn nodi mai 'effaith problemau recriwtio a chadw fu llwythi achosion uchel, anghysondeb yn y cymorth a diffyg mentoriaid cymheiriaid profiadol' (Llywodraeth Cymru, 2023c, t. 48).

Cymru gynyddu nifer y bobl ifanc a oedd yn cael mynediad at hunangyflogaeth ac i ddarparu grant ariannol i'w cynorthwyo.

- 7.64. Roedd Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid 2016 i 2022 yn cwmpasu elfennau o gynnig Busnes Cymru i bobl ifanc fel rhan o'r Warrant, fel Ymgych Syniadau Mawr Cymru a Hyrwyddwyr Entrepreneuriaeth mewn AB ac AU, ac fe'i gwerthuswyd yn 2022 (Llywodraeth Cymru, 2022f). Nododd y gwerthusiad fod ymgysylltu, yn enwedig mewn ysgolion, yn gryf ond bod 'cyrhaeddiad a chwmpas yr ymgysylltu hwn yn llai cyson ar lefel AB ac AU' (ibid., t. 5). Nododd hefyd fod y gefnogaeth i 'ymbaratoi' pobl ifanc i 'gymryd camau a gwneud penderfyniadau gwybodus am entrepreneuriaeth' yn ehangu ond, o'i gymharu ag entrepreneuriaid hŷn, bod angen mwy o amser ar bobl ifanc fel arfer i symud ymlaen i ddechrau busnes (ibid.). Roedd y canfyddiadau ar effeithiolrwydd gwaith galluogi⁹⁸ mewn AB ac AU yn fwy cymysg (ibid.).
- 7.65. Adroddodd cyfweldigion o Fusnes Cymru fod cael brand pwrpasol i bobl ifanc (Syniadau Mawr Cymru) wedi gwella'r broses o farchnata cymorth i bobl ifanc. Gwnaethant hefyd adrodd bod gwaith ymgysylltu cyfnod cynnar mewn, er enghraifft, lleoliadau addysg, yn bwysig wrth ysgogi diddordeb a meithrin sgiliau pobl ifanc. Fodd bynnag, o ystyried yr anawsterau wrth gael mynediad at gyfrifon banc a chredyd, adroddwyd bod hunangyflogaeth yn gyffredinol yn opsiwn i bobl ifanc 18 oed a throsodd yn unig. Adroddodd cyfweldigion o Busnes Cymru hefyd y byddai pobl ifanc a oedd â diddordeb gweithredol mewn hunangyflogaeth yn cael eu hatgyfeirio gan gyrff fel Cymru Gweithio i Fusnes Cymru. Fodd bynnag, roedd pryderon y gallai pobl ifanc nad oeddent wedi ystyried hunangyflogaeth fel opsiwn gael eu colli, pe na bai'n cael ei awgrymu iddynt fel opsiwn. Awgrymwyd y gallai fod mwy o 'sgyrsiau (...) yn annog pobl ifanc nad ydynt wedi meddwl amdano neu wedi ei fynegi [hunangyflogaeth] yn y termau hynny'. Yn yr un modd, fel y nododd hysbysydd arall o Busnes Cymru: 'Mae partneriaid yn yr ecosystem entrepreneuriaidd yn allweddol i ymhelaethu'r negeseuon ynghylch

⁹⁸ Canolbwyntiodd gwaith galluogi ar 'gysylltu'r ecosystem a meithrin gallu ymhlith partneriaid a grymuso eraill i gyflawni entrepreneuriaeth' (Llywodraeth Cymru, 2022f, t. 10).

hunangyflogaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i gynyddu cyrhaeddiad gwasanaeth Syniadau Mawr Cymru'.

- 7.66. Dywedodd y rhai a gyfwelwyd o Busnes Cymru a rhaglenni cymorth eraill y gall hunangyflogaeth fod yn arbennig o bwysig mewn rhai rhannau o Gymru fel Powys ac i rai grwpiau, fel pobl ifanc niwrowahanol a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd, sy'n gallu ei chael yn anodd cael mynediad at gyflogaeth. Er enghraifft, dywedodd cyfwelai ar gyfer un o'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol eu bod wedi nodi

... carfan fawr o bobl ifanc sy'n grewyr, maen nhw'n creu pethau, beth bynnag maent yn ei wneud, ond nid ydynt yn cymryd y cam nesaf. Wyddoch chi, maent yn parhau ar fudd-daliadau neu beth bynnag maent yn ei wneud. Dim ond cael y math yna o fusnes bach, ond maent yn teimlo nad oes ganddynt y cymorth i gymryd y cam nesaf. Felly, mae lle yno, yn enwedig yng nghanolbarth Cymru, mae diwylliant entrepreneuriaeth go iawn yng nghanolbarth Cymru.

- 7.67. Fodd bynnag, dywedodd cyfweldigion o Busnes Cymru a rhaglenni cymorth eraill eu bod hefyd wedi nodi bod hunangyflogaeth yn 'gig anodd', yn enwedig i bobl ifanc a allai gael trafferth codi cyllid, i greu digon o incwm i gynnal eu hunain, a/neu sydd efallai heb yr hyder a'r sgiliau a all ddod gydag oedran a phrofiad. O ystyried yr heriau hyn, nododd y cyfweldigion hyn hefyd efallai na fydd hunangyflogaeth yn hyfyw i bobl ifanc sy'n wynebu anawsterau eraill yn eu bywydau.
- 7.68. Myfyriodd cyfweldigion Busnes Cymru, fel gwasanaethau cymorth eraill, hefyd ar effaith y pandemig ar bobl ifanc. Er enghraifft, fel y nododd un ohonynt:

Os edrychwch ar y bobl ifanc hynny sy'n astudio yn ystod y pandemig, mae gen i lawer nad ydynt erioed wedi gorffen eu cymwysterau mewn gwirionedd. Efallai eu bod wedi cael y cymwysterau, ond mae'r holl bethau hynny sy'n diffinio diwedd y cwrs a'r wybodaeth sy'n dod gyda

hynny (...) sy'n sicr yn mynd i effeithio ar y ffordd y byddent yn mynd ati i ddechrau busnes. Wyddoch chi, gallu dod â rhywbeth gasgliad a deall pwysigrwydd cwblhau tasgau.

- 7.69. Nododd cyfweldigion eraill o Busnes Cymru sut roedd y pandemig hefyd wedi effeithio ar iechyd meddwl a sgiliau cyfathrebu pobl ifanc. Fel yr esboniodd un o gyfweleion Busnes Cymru:

Nid oedd llawer o fy nghleientiaid wedi gwneud profiad gwaith mewn ysgolion oherwydd aeth popeth ar-lein. Mae llawer o fy nghleientiaid wedi cael trafferth cyfathrebu â chwsmeriaid, wyddoch chi, wel maent yn eithaf swil a nerfus nawr, felly rwy'n credu bod llawer o hynny. Ond ar yr ochr arall, mae'r elfennau digidol wedi gwella oherwydd eu bod bellach yn defnyddio Teams ar gyfer cyfarfodydd a phethau felly.

- 7.70. Mae'r Grant Dechrau Busnes i Bobl Ifanc o hyd at £2,000 yn ceisio cynorthwyo 'pobl ifanc sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i ddechrau eu busnes eu hunain, creu menter gymdeithasol, dod yn hunangyflogedig, yn weithiwr llawrydd neu'n entrepreneur cymdeithasol yng Nghymru' (Llywodraeth Cymru, 2024k). Disgrifiodd cyfweldigion o Busnes Cymru yr anawsterau y gallai pobl ifanc, nad oes ganddynt hanes credyd neu fancio cryf, ac a allai ei chael yn anodd cynilo arian, eu hwynebu wrth gael mynediad at y cyllid angenrheidiol i ddechrau busnes. Tynnodd cyfweldigion Busnes Cymru sylw hefyd at bwysigrwydd (yn eu profiad nhw) y grant i ddenu diddordeb a sylw pobl ifanc, a oedd yn eu galluogi i ddarparu cyngor a chefnogaeth hefyd. Adroddwyd y gallai'r cyngor a'r gefnogaeth hon helpu pobl ifanc, sydd yn aml heb brofiad o hunangyflogaeth, i asesu a oedd eu cynlluniau yn 'hyfyw' a gallent eu helpu i osgoi camgymeriadau, yn amrywio o'r pethau bach i'r pethau a allai fod yn 'drychinebus'.

Profiadau pobl ifanc o wasanaeth Syniadau Mawr Cymru Busnes Cymru

Fel yr amlinellir yn Adran 3, er bod pobl ifanc sy'n dilyn hunangyflogaeth wedi'u tangynrychioli yn ein sampl cyfweiliad, mae astudiaethau achos a ddarparwyd gan Syniadau Mawr Cymru yn rhoi mewnwelediad i brofiadau pobl ifanc, er bod hynny ar gyfer y rhai sydd wedi llwyddo. Ymhlith pethau eraill, maent yn amlygu:

- pwysigrwydd cynllun nad yw'n gysylltiedig ag unrhyw leoliad; er enghraifft, fel y nododd un person ifanc 'roeddwn eisoes wedi graddio [ac felly wedi gadael y brifysgol] ac roedd yn syndod i mi bod y cynllun hwn ar gael'.
- gwerth y cyngor a'r gefnogaeth arbenigol ynghylch entrepreneuriaeth, gan gynnwys, er enghraifft, datblygu cynllun busnes, cynnal ymchwil cystadleuwyr, nodi cleientiaid posibl, a phenderfynu ar brisiau a chost. Er enghraifft, fel y disgrifiodd Ellen: 'Er bod gen i ddwy flynedd' o brofiad mewn tyfu a chynhyrchu blodau, nid oedd gennyf syniad sut i redeg busnes. Roedd gennyf gymaint o gwestiynau, nid oeddwn yn gwybod gwybod ble i ddechrau. Roedd fy nghyfarfodydd wythnosol, rhithwir gyda Niamh [ei chynghorydd Busnes Cymru] yn hanfodol wrth fy helpu i droi Firth Flock Flowers o hobi therapiwtig i fusnes go iawn'.

Y cynigion hunangyflogaeth posibl i'r rhai sy'n cael trafferth dod o hyd i gyflogaeth neu ei chynnal oherwydd cyfrifoldebau gofalu, anabledd a/neu broblemau iechyd meddwl. Er enghraifft, disgrifiodd un astudiaeth achos: 'Canfu Leon, sydd wedi llywio sawl gyrfa dros y naw mlynedd diwethaf, nad oedd gan lawer o gyflogwyr yr ymwybyddiaeth i weithredu mesurau i gefnogi pobl fel ef mewn gweithle traddodiadol, ac yn aml cafodd ei wthio i sefyllfaoedd cymdeithasol dwys a achosodd lawer o bryder iddo. Gan deimlo nad oedd yn cael ei glywed yn y gweithle, penderfynodd adeiladu busnes a oedd yn cefnogi ei anghenion cyflogaeth unigol.'

Mae astudiaeth achos arall yn disgrifio sut adroddodd Caitlyn, 'Ar ôl dod yn fam, roeddwn eisiau mwy o reolaeth dros fy amser a'm hamserlen. Roeddwn eisiau bod gartref gyda fy mhiant, ond rwy'n llawn cymhelliant hefyd. Nid oeddwn eisiau rhoi'r gorau i'm gwaith yn llwyr.'

Addasiad o Astudiaethau Achos a ddarparwyd gan Busnes Cymru

Atgyfeiriadau i bartneriaid nad ydynt yn y Warant

- 7.71. Mae EPC, Cymru'n Gweithio a rhaglenni cyflogadwyedd fel TSC+ a CfW+ yn nodi eu bod yn atgyfeirio pobl ifanc i amrywiaeth o ddarpariaeth nad yw'n rhan o'r Warant. Nodir bod hyn yn hanfodol wrth fynd i'r afael ag anghenion ehangach pobl ifanc mewn meysydd fel tai neu iechyd ac fe'i trafodir ymhellach yn Adran 7. Fodd bynnag, adroddir hefyd yn gyson, ar ôl degawd o gyni a galw cynyddol, bod llawer o'r gwasanaethau y maent yn atgyfeirio pobl iddynt, yn wynebu galw mawr. Mae trothwyon uchel ar gyfer mynediad at wasanaethau arbenigol fel CAMHS a gwasanaethau iechyd meddwl oedolion (AMHS) a gwendidau mewn gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol (PMHS) yn golygu mai prin yw'r opsiynau ar gyfer cymorth i lawer o bobl ifanc (gweler, er enghraifft, AGIC, Estyn ac AGC, 2024; Senedd, 2018b, 2020).
- 7.72. Mae'r perthnasoedd gwaith agos rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau/y Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru/Cymru'n Gweithio yn cael eu hystyried gan gyfweleion o'r Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru fel llwyddiant allweddol,⁹⁹ er bod hyn yn rhagflaenu'r Warant. Disgrifiodd un o'r cyfwelai o'r Adran Gwaith a Phensiynau y berthynas fel un 'wych' ac esboniodd cyfwelai o Lywodraeth Cymru 'rydym wedi sefydlu systemau sy'n galluogi croes-atgyfeiriadau rhwng y Ganolfan Byd Gwaith a Cymru'n Gweithio ac mae gennym bresenoldeb mawr mewn Canolfannau Gwaith ledled Cymru'. Yn yr un modd, fel y dywedodd cyfwelai o'r Adran Gwaith a Phensiynau, mae cynghorwyr Cymru'n Gweithio 'yn rhan o osodiadau a dodrefn' swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith. O ganlyniad, daw tua thraean o atgyfeiriadau Cymru'n Gweithio gan y Ganolfan Byd Gwaith. Fodd bynnag, nododd un o gyfweleion yr Adran Gwaith a Phensiynau hefyd fod cymhlethdod y Warant yn creu heriau i hyfforddwyr gwaith,¹⁰⁰ gan y gallai

⁹⁹ Amlygir hyn hefyd fel astudiaeth achos o waith partneriaeth effeithiol yn [y Papur Gwyn, Get Britain Working](#) (Llywodraeth y DU, 2024a).

¹⁰⁰ Hyfforddwyr Gwaith yw'r prif bwynt cyswllt i bobl sy'n cael mynediad at y Ganolfan Byd Gwaith. Eu prif rôl yw helpu unigolion i ddod o hyd i gyflogaeth addas a chynaliadwy. Fodd bynnag, fel y nododd un cyfwelai o'r Adran Gwaith a Phensiynau, prin iawn yw'r amser mae hyfforddwyr gwaith yn ei gael gyda gyda chleientiaid, ac mae'n 'rôl heriol ac mae trosiant eithaf uchel o ran hyfforddwyr gwaith'. Yn hanfodol, nodwyd bod 'y wybodaeth y mae hawlwr yn mynd i'w derbyn yn mynd i fod cystal â'r wybodaeth sydd gan yr hyfforddwr gwaith hwnnw'.

cyfranogiad mewn rhai rhaglenni cymorth Llywodraeth Cymru effeithio ar hawl i fudd-daliadau. Roeddent yn teimlo ei bod yn bwysig, ond hefyd yn anodd, i hyfforddwyr gwaith gadw i fyny â'r dirwedd cymorth ôl-16 sy'n newid. Trafodir y mater hwn ymhellach yn Adran 8.

- 7.73. Adroddodd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau welliannau mewn rhannu data rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a Cymru'n Gweithio, yn enwedig o ran pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed, i gefnogi'r Fframwaith. Er enghraifft, fel yr esboniodd un a gyfwelwyd o'r Adran Gwaith a Phensiynau, mae troshaenu gwybodaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau ar wybodaeth Gyrfa Cymru 'yn galluogi Gyrfa Cymru i adnabod y bobl ifanc hynny nad ydynt yn ymgysylltu'n weithredol â nhw, y maent bellach yn gwybod eu bod ar fudd-daliadau'. Awgrymodd cyfweldigion Llywodraeth Cymru fod hyn yn dangos y potensial ar gyfer datblygu hyb deallusrwydd data, er mwyn gallu olrhain a deall pontio a llwybrau pobl ifanc yn 18 oed a throsodd yn well (gweler Llywodraeth Cymru, 2022j am ragor o fanylion).
- 7.74. Adroddwyd gan hysbysydd o Lywodraeth Cymru, pan fo'n briodol, bydd Cymru'n Weithio yn atgyfeirio pobl ifanc i'r Adran Gwaith a Phensiynau/y Ganolfan Byd Gwaith. Serch hynny, adroddwyd bod y llif o atgyfeiriadau a gwybodaeth gan yr hysbysydd hwn yn un ffordd, o hyfforddwyr gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau/y Ganolfan Byd Gwaith i Gyrfa Cymru/Cymru'n Gweithio. Mae hyn yn bryder posibl, oherwydd er gwaethaf ei gwendidau, a drafodir ymhellach yn yr Adran nesaf (8), mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn un o'r darparwyr pwysicaf o gymorth cyflogaeth i bobl ifanc (Wilson, 2021). Mae annog pobl ifanc i fanteisio ar gymorth yr Adran Gwaith a Phensiynau felly yn bwysig. Er enghraifft, nododd un hysbysydd o Gyrfa Cymru fod Cynghorwyr Cymru'n Gweithio wedi'u hachredu gan y Gwasanaeth Arian a Phensiwn a dylent atgyfeirio i sefydliadau cymorth cynhwysiant ariannol, gan gynnwys y Ganolfan Byd Gwaith, lle bo angen.

- 7.75. Fodd bynnag, fel y nododd un hysbysydd o Lywodraeth Cymru, roedd yn debygol bod llawer o'r bobl ifanc 18 oed a throsodd,¹⁰¹ nad oeddent yn ymgysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau/y Ganolfan Byd Gwaith nad oeddent yn ymgysylltu â Cymru'n Gweithio hefyd. Mae hyn yn sicr yn gredadwy iawn, a gallai esbonio pam fod cyn lleied o atgyfeiriadau gan Cymru'n Gweithio i'r Adran Gwaith a Phensiynau/y Ganolfan Byd Gwaith. Nododd yr hysbysydd hefyd y gallai fod cyfyngiadau cyfreithiol ar rannu'r data hyn â'r Adran Gwaith a Phensiynau.
- 7.76. Fel y mae Adran 8 yn amlinellu, credir mai'r prif reswm nad yw pobl ifanc yn manteisio ar gymorth yr Adran Gwaith a Phensiynau yw oherwydd ei fod yn dod ag amodau (ymrwymadau¹⁰²hawlwr) (er y gall hyn olygu eu bod yn dal i ymgysylltu â Cymru'n Gweithio, oherwydd nad oes ganddo'r amodoldeb hwn). Mae amcangyfrifon yn yr [Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg, na hyfforddiant](#) (Llywodraeth Cymru 2024t) yn nodi mai dim ond tua hanner y bobl ifanc 18 i 24 oed sy'n NEET ac yn gymwys i gael budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth sy'n manteisio ar y rhain. Mae hyn yn bwysig oherwydd, fel yr esboniodd un cyfrannwr i weithdai rhanddeiliaid, os yw person ifanc yn optio allan o'r system fudd-daliadau, y risg yw nad yw'n gyfrifoldeb ar unrhyw un i adnabod a chefnogi ac, os yw'n briodol, eu herio i ailymgysylltu. Yn fwy cyffredinol, mae'r ffaith bod cynifer o bobl ifanc rhwng 19 a 24 oed sy'n NEET yn ymddangos nad ydynt yn ymgysylltu â Chymru Gweithio na'r Ganolfan Byd Gwaith (ac nad ydynt bellach yn cael eu cynnwys gan yr YEP), yn dangos yr her o ymgysylltu â'r grŵp hwn o bobl ifanc na fyddant yn cael budd o gynnig cymorth y Warant os nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth fel Cymru'n Gweithio.

¹⁰¹ Prin iawn yw'r bobl ifanc 16 neu 17 oed sy'n gymwys i hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth.

¹⁰² Gan adrodd ar y Prosiect Amodoldeb Lles (2018), mae Stewart a Wright (2018, t. 1) yn nodi, mewn perthynas ag oedolion di-waith (yn hytrach na phobl ifanc yn benodol), nad oedd amodoldeb lles yn gyffredinol (ar ffurf cosbau budd-daliadau ac apwyntiadau gorfodol yn y Ganolfan Byd Gwaith ac asiantaethau dychwelyd i'r gwaith ar gontract allanol) yn annog 'newid ymddygiad'. Yn lle hynny, arweiniodd cosbau budd-daliadau, a'r bygythiad ohonynt, at ganlyniadau negyddol yn bennaf. Adroddodd llawer o gyfranogwyr fod ofn cosb yn wrthgynhyrchol a bod hynny'n blaenoriaethu cydymffurfio â gweithgareddau diystyr a oedd yn aneffeithiol ar gyfer dod o hyd i waith.

8. Llunio'r system o gymorth EET i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed

Cyflwyniad

- 8.1. Fel y mae Adran 6 yn amlinellu, er mwyn cyflawni ei dau nod o ddarparu cynnig cymorth i'r holl bobl ifanc a system syml i gael mynediad at gyfleoedd, roedd angen i'r Warant baratoi a chryfhau'r ddarpariaeth bresennol a chynyddu'r cydweithredu rhwng darparwyr i gynorthwyo pobl ifanc fel rhan o'r Warant.
- 8.2. Fel y mae Adrannau 6 a 7 yn amlinellu, mae'r Warant yn bolisi traws-adrannol cymhleth. Mae'r adran hon yn amlinellu sut y cafodd cyflawni, ac felly'r hyn a ddaeth yn gynnig y Warant, ei ysgogi nid o'r canol mewn ffyrdd hierarchaidd o'r brig i lawr, ond gan benderfyniadau nifer o wahanol swyddogion polisi mewn gwahanol dimau ac adrannau. Rydym yn nodweddu hyn fel 'rhwydwaith polisi'¹⁰³ y gellir ei ddeall orau fel 'system'¹⁰⁴ lle mae gweithredoedd aelodau gwahanol o'r system, a'r perthnasoedd rhyngddynt, mewn gwirionedd wedi creu'r Warant yn ymarferol. Mewn geiriau eraill, mae'r Warant a welwn wedi 'dod i'r amlwg' o'r system hon.

Ymddangosiad y Warant

- 8.3. Fel y mae Adran 6 yn nodi, ni chafodd y Warant yn ymarferol - y casgliad o raglenni, gwasanaethau a pholisïau sydd gyda'i gilydd yn ffurfio cynnig y Warant a welwn heddiw (a ddisgrifir yn Adran 7) - ei chreu drwy broses hollol linol a 'rhesymegol' o wneud penderfyniadau, a ddangosir gan Ffigur 8.1.


¹⁰³ Mae rhwydwaith polisi yn grŵp o weithredwyr sy'n rhyngweithio ac yn cydweithio i ddylanwadu ar ddatblygu a/neu weithredu polisïau cyhoeddus ar fater penodol (Sutton, 1999).

¹⁰⁴ Mae 'system' yn ymgorffori'r syniad o set o elfennau gwahanol wedi'u cysylltu â'i gilydd i ffurfio cyfanrwydd, gyda'i phriodweddau wedi'u creu gan weithrediad y system gyfan, yn hytrach na'r rhannau unigol yn unig (Checkland, 1981, t. 3).

Fodd bynnag, mae ganddi elfennau o hyn yn sicr, fel:

- nodi problemau – y pryderon am gynnydd enfawr a ragwelir mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc, a drafodir yn Adrannau 4 a 5;
- llunio polisi – datblygu cynlluniau ar gyfer y Warrant, wrth i ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu gael ei droi yn gynlluniau gweithredu, a drafodir yn Adran 6;
- gweithredu polisi, a drafodir yn Adran 7; a
- gwerthuso ac adolygu – ffocws yr adroddiad hwn.

Ffigur 8.1. Cynrychiolaeth wedi'i symleiddio o'r cylch llunio polisi



8.4. Fodd bynnag, mewn ffyrdd pwysig roedd ymarfer yn gwyro oddi wrth y model delfrydol hwn. Er enghraifft, fel yr amlinellir yn Adran 6:

- roedd camau a oedd yn gorgyffwrdd a/neu aflinol, fel cyhoeddi'r polisi cyn paratoi'r manylion.
- roedd cylch llunio polisi byrrach, o ystyried pryderon eang am y rhagolygon o ddiweithdra enfawr ymhlith pobl ifanc (gyda'r risg o 'greithio' cenhedlaeth o bobl ifanc o ganlyniad i hynny), ynghyd â brys gweithredu, o ystyried y newidiadau cyflym yn y rhagolwg economaidd ar ôl cyflwyno'r cyfyngiadau symud COVID-19 cyntaf.
- mae gan y Warrant ddiffyg diffiniad; fel yr amlinellir yn y testun mewn blwch isod, prin iawn yw'r targedau sydd ganddi, heblaw am ei chyfraniad at gerrig milltir 2050¹⁰⁵ a phrin yw'r dogfennau llywodraethu (fel yr amlinellir isod, nid oes unrhyw ddogfen bolisi gyffredinol, dim canllawiau i'r rhai sy'n gyfrifol am gyflawni). O ganlyniad, roedd curo'r terfynau a cheisio sefydlu'r hyn sy'n rhan o'r Warrant a'r hyn nad yw'n rhan o'r Warrant yn her allweddol ar gyfer yr Asesiad Gwerthusadwyedd (Llywodraeth Cymru, 2025a).
- mae'r Warrant wedi bod yn bolisi 'dynamig' ac mae hyn yn parhau i fod yn wir ac mae'n parhau i addasu a datblygu mewn ymateb i ffactorau allanol (fel y cynnydd mewn anweithgarwch economaidd yn hytrach na diweithdra ymhlith pobl ifanc, a amlinellir yn Adran 4) a datblygiadau polisi mewn mannau eraill, er enghraifft, o ganlyniad i benderfyniadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a thimau eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys datblygu'r Fframwaith, a'r pwysau cyllidebol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u hwynebu.
- gweithredwyd drwy fodel gwasgaredig o gyflawni,¹⁰⁶ yn dibynnu ar gamau gweithredu rhanddeiliaid lluosog yn gweithio mewn gwahanol adrannau a

¹⁰⁵ Yn fwyaf nodedig y garreg filltir y bydd o leiaf 90% o'r rhai 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050.

¹⁰⁶ Er enghraifft, fel y dywedodd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru, 'gallech ddweud bod y model mewn ffordd yn dod â'r llinynnau hynny at ei gilydd ar lefel uchel o gyfarwyddwyr y rhaglenni gwahanol, (...) ac yna eu cyfrifoldeb nhw yw ysgogi hynny drwy eu sefydliadau eu hunain'.

thimau (er enghraifft, addysg Llywodraeth Cymru, cyflogadwyedd, iechyd, sgiliau) ar lefelau gwahanol (cenedlaethol – rhanbarthol – lleol).¹⁰⁷

Targedau'r Warant

Un o nodweddion trawiadol y Warant fel rhaglen yw, ac eithrio'r cyfraniad at y cerrig milltir cenedlaethol sy'n ymwneud â 2050, nid oes ganddi unrhyw dargedau meintiol penodol na mesurau perfformiad. At hynny, er bod dogfennau sy'n disgrifio bwriad y Warant (gweler, er enghraifft, Llywodraeth Cymru, 2022a) ac yn darparu rhywfaint o fanylion am ei gwahanol elfennau a sut y disgwylir iddynt ategu ei gilydd, nid oes cynllun manwl.

Felly, fel y gofynnodd un cyfrannwr mewn gweithdy: 'Beth yw Cynllun y Warant (...) dyma sut mae'n mynd i ddigwydd, dyma beth fyddwn yn ei wneud, dyma'r mesurau perfformiad, dyma sut y byddwn yn cyflawni?' Yn yr un modd, nododd cyfranwyr yn y gweithdai fod diffyg glasbrint manwl wedi darparu rhywfaint o hyblygrwydd wrth gyflawni'r Warant. Mae hyn wedi bod yn werthfawr, yn enwedig wrth i effeithiau'r pandemig ddatblygu mewn ffyrdd annisgwyl, yn fwyaf nodedig y cynnydd mewn anweithgarwch economaidd yn hytrach na diweithdra ymhlith pobl ifanc.

Nododd cyfranwyr yn y gweithdai (yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru a staff o sefydliadau partner) hefyd fod darnio o ran data ar draws sawl rhaglen yn ei gwneud yn anodd deall sut roedd y Warant yn ei chyfanrwydd yn perfformio. Mewn ymateb, mae'r Asesiad Gwerthusadwyedd ar gyfer y Warant yn cynnig cyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (Llywodraeth Cymru, 2025a).

- 8.5. Fel yr amlinellir yn Adran 6, roedd y rhai sy'n gyfrifol am ddatblygu'r Warant yn cydnabod bod y gwahanol dimau ac adrannau a oedd yn gyfrifol am ddarparu gwahanol elfennau o'r systemau cymorth ôl-16 ac addysg a hyfforddiant ôl-16

¹⁰⁷ Fel y mae Lipsky (1980) ac eraill wedi nodi, mae llawer o bolisi yn cael ei wneud gan y rhai sy'n gyfrifol am weithredu'r polisi, yn hytrach na'r rhai a ddyfeisiodd neu a ysgrifennodd y polisi.

yn gweithio mewn seilos. At hynny, roedd llawer o'r seilos hynny y tu allan i'r Is-adran Cyflogadwyedd a Sgiliau sy'n gyfrifol am gyflawni, sy'n golygu nad oedd gan dîm canolog y Warant unrhyw awdurdod llinell drostynt. Fel y disgrifiodd un cyfwelai o Medr (a oedd yn arfer gweithio ar addysg drydyddol yn Llywodraeth Cymru), nhw yw 'ochr arall y tŷ' ac fel y gofynnodd cyfwelai arall o Lywodraeth Cymru yn rhethregol 'a yw un adran yn gwybod beth mae un arall yn ei wneud?'

8.6. Yn y cyd-destun hwn, adroddodd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru yn gyson fod y Warant wedi annog mwy o gydweithredu rhwng gwahanol dimau polisi â chyfrifoldeb mewn meysydd fel cyflogadwyedd, gwaith ieuenctid (a'r Fframwaith), addysg a hyfforddiant ôl-16 a hunangyflogaeth o amgylch agenda a rennir. Er enghraifft, fel y nododd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru: 'Yn y gorffennol mae llawer mwy y gallem fod wedi'i wneud i weithio'n agosach. Ac rwy'n credu bod y Warant wedi dod â hynny i ffocws.' Nododd un arall: 'Roedd yr heriau a wynebodd pobl ifanc yn parhau i newid, wrth i ni symud o gyfyngiadau symud y pandemig, trwy'r argyfwng iechyd meddwl a chostau byw, ac roedd y Warant yn darparu ffocws a strwythur ar gyfer ymateb i'r rhain' - ffocws cydgysylltiedig ar bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed nad oedd yn bodoli o'r blaen.

8.7. Felly, rhoddodd y Warant ffocws ar gyfer trafodaeth yn Llywodraeth Cymru, gan helpu i chwalu'r seilos sy'n gwahanu:

- y meysydd Cyflogadwyedd a Sgiliau ac Addysg Drydyddol;
- y seilos o fewn y meysydd gwaith adrannol hyn, a
- y rhai sy'n gwahanu Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol, o amgylch pobl ifanc NEET.

8.8. O ganlyniad, fel y disgrifiodd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru, yn wahanol i rai meysydd polisi, roedd y Warant yn cael ei 'defnyddio fel cyfrwng [dilys] ar gyfer cyflawni ymrwymiad [Rhaglen Lywodraethu] yn drawslywodraethol'.

- 8.9. Fodd bynnag, roedd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru a Medr hefyd yn glir y gallai timau ac is-adrannau unigol wneud eu penderfyniadau eu hunain o hyd, ac roedd y penderfyniadau hyn yn llunio'r Warant. Nodwyd, er enghraifft, bod rhai penderfyniadau ynghylch cyllid ar gyfer elfennau o'r Warant a ddarperir gan is-adrannau addysg ac iechyd yn dal i gael eu gwneud yn unochrog ac yna yn cael eu 'hadrodd yn ôl' i Fwrdd y Warant (yn hytrach, er enghraifft, na chael eu gwneud drwy drafodaethau'r Bwrdd).

Ariannu a symleiddio'r system

Mae cyllid ychwanegol ar gyfer y Warant fel arfer wedi gwella'r ddarpariaeth bresennol, megis CfW+, Syniadau Mawr Cymru a phrentisiaethau ac wedi helpu i wneud iawn am y toriadau mewn cyllid yn dilyn diwedd Cronfa Gymdeithasol Ewrop yng Nghymru. Disgrifiwyd yr olaf gan un cyfwelai o Lywodraeth Cymru fel 'mannau cyfyng' posibl, a allai fod wedi tarfu ar gymorth i bobl ifanc neu danseilio'r cymorth hwnnw. Fodd bynnag, roedd y ffocws hwn ar gynyddu'r ddarpariaeth bresennol, yn enwedig yng nghanam 1 y Warant, yn golygu mai prin oedd y dystiolaeth o symleiddio'r system drwy, er enghraifft, ddatgomisiynu neu uno gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'n debyg bod y toriadau yng nghyllid y Warant yn 2024 wedi helpu i symleiddio'r system gymorth i bobl ifanc 16 i 19 oed, gan nad ydynt bellach yn gymwys i gael cymorth gan CfW+.

- 8.10. Nid yw hyn i ddweud nad oedd tîm y Warant yn gallu defnyddio dulliau fel cyllid ac ymchwil i ddylanwadu ar weithredoedd gweithredwyr eraill, a gwnaeth rhai cyfweldigion o Lywodraeth Cymru y pwynt yn gryf bod y Warant, fel un o ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu, yn llunio penderfyniadau cyllido adrannol (ac nid oes dadl ynghylch hyn).¹⁰⁸ Serch hynny, mae'r data a gasglwyd ar gyfer y gwerthusiad yn dangos bod y Warant a welwn heddiw, ac sy'n cael ei phrofi gan bobl ifanc, yn gynnwys penderfyniadau amrywiaeth o

¹⁰⁸ Er enghraifft, fel y nododd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru, roedd yr Warant yn un o flaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu ac roedd hynny'n ei gwneud yn 'glir' i adrannau eraill mai 'dyma'r flaenoriaeth' ac yn golygu bod arian yn llifo i hyn.

randdeiliaid sydd â nodau a diddordebau gwahanol weithiau, yn hytrach na chynnyrch penderfyniadau a chyfarwydddebau gan dîm canolog y Warant.¹⁰⁹

Yn y rhwydwaith polisi hwn, roedd y pŵer i lunio'r Warant yn dibynnu ar nifer o wahanol ffactorau, gan gynnwys:

- lefel y staff a'r awdurdod i reoli a chyfarwyddo sut y byddai cyfalaf ariannol yn cael ei ddefnyddio a sut y byddai rhaglenni'n cael eu cyflwyno;
- y gallu i gynnull (ac ymestyn ar draws seilos) a gweithio'n effeithiol gydag eraill, a'u darbwyllo¹¹⁰;
- arbenigedd a chysylltiadau neu rwydweithiau (gyda rhai rhanddeiliaid yn ymddangos i gael dylanwad a oedd yn fwy nag y byddai eu lefel yn awgrymu, o ystyried eu harbenigedd a'u cyfalaf cymdeithasol); a
- chyfalaf gwleidyddol (er enghraifft, fel y nodwyd, ystyriwyd yn bwysig bod y Warant yn un o ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu).

Lens ar draws systemau

8.11. Mae ehangder y Warant yn creu heriau mewn meysydd fel dylunio, gweithredu a gwerthuso polisi, ond hefyd yn creu cyfleoedd. Yn benodol, disgrifiodd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru sut roedd y lens ar draws systemau a ddarparwyd gan y Warant yn eu helpu i:

- nodi bylchau mewn darpariaeth; ac
- ehangu eu lens i edrych y tu hwnt i'w ffocws ar gymorth ôl-16 i rannau eraill o'r system, megis addysg a hyfforddiant ôl-16 (yn fwyaf nodedig, chweched dosbarth ysgolion a cholegau).

Fel y nododd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru, roedd eu safbwynt a'u cyfranogiad yn y Warant yn golygu: 'Roeddwn yn deall sut roedd yr holl wahanol elfennau eisoes yn gweithio gyda'i gilydd neu beidio'.

¹⁰⁹ Yn yr un modd, fel yr amlinellir isod, mae'n bwysig cydnabod bod rhai o'r newidiadau polisi a ddilynodd cyflwyno'r Warant, wedi digwydd yn anuniongyrchol, yn hytrach nag o ganlyniad uniongyrchol i waith tîm y Warant.

¹¹⁰ Er enghraifft, fel y dywedodd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru, roedd yn ymwneud â 'chreu rhwydweithiau' a dod â phobl at ei gilydd o amgylch agenda a rennir ac archwilio sut y gallent gefnogi ei gilydd. Fel yr aethant ymlaen i ddweud: 'Fyddwn i ddim yn meiddio dweud wrth bobl eraill sut i redeg eu rhaglenni'.

- 8.12. Roedd y ffocws hwn ar draws systemau yn cefnogi datblygiadau newydd, megis ehangu a datblygu Biwroau Cyflogaeth a Menter mewn colegau AB (a drafodir yn Adran 6). Serch hynny, fel y nododd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru, roedd y rhan fwyaf o'r ffocws o ran newid ar gymorth ôl-16 tra, i'r gwrthwyneb, roedd y rhan fwyaf o'r arian (a gyfrannodd at y Warant) yn dod o'r gyllideb addysg a hyfforddiant ôl-16.

Cyfathrebu

- 8.13. Fel y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi, mae 'mynegi bwriad clir ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus sy'n ysbrydoli ac yn grymuso pobl i gydweithio â'i gilydd' yn hanfodol ar gyfer mentrau traws-adrannol fel y Warant (Swyddfa Archwilio Cymru, 2019, t. 6). Mae'r Fframwaith a'r Warant yn darparu'r diben clir hwn ac fel yr ydym yn trafod ymhellach isod, maent wedi ysbrydoli a grymuso pobl i weithio gyda'i gilydd yn genedlaethol, yn rhanbarthol a/neu ar lefel awdurdodau lleol.
- 8.14. Mae cyfweiliadau a thrafodaethau gyda'r rhai sy'n ymwneud â dylunio a chyflwyno'r rhaglen yn awgrymu bod cynnig canolog y Warant, o gymorth i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed, wedi'i fynegi a'i ddeall yn glir. Yn gyffredinol, teimlwyd ei bod yn bennaf ar gyfer pobl ifanc NEET, neu sydd mewn perygl o ddod yn NEET, yn hytrach na bod yn gynnig cyffredinol. Fodd bynnag, roedd datblygiad dyluniad y Warant, a amlinellir yn Adran 5, ynghyd â diffyg glasbrint neu ddogfen lywodraethu (fel yr amlinellir uchod ac mewn cyferbyniad llwyr â'r canllawiau manwl sy'n sail i'r Fframwaith), yn golygu bod llawer o gyfweleion yn cael trafferth diffinio'r Warant y tu hwnt i'r cynnig craidd o gymorth.¹¹¹ Cydnabuwyd gan gyfweleion o bob rhan o Lywodraeth Cymru ac mewn asiantaethau partner bod esbonio beth oedd y Warant, y tu hwnt i linell uchaf syml cynnig 'help a chefnogaeth i bobl ifanc gael lle mewn addysg neu hyfforddiant ac i gael gwaith neu hunangyflogaeth' (Llywodraeth Cymru, 2025b) yn gymhleth.

¹¹¹ Er enghraifft, fel y dywedodd un o gyfranogwyr Llywodraeth Cymru mewn gweithdy, 'Mae'n gymhleth' ac fel y nododd un arall, 'Un o'r problemau yw nad yw'r Warant yn endid ond mae'n cynnwys llawer iawn o elfennau'.

- 8.15. Mae'n bosibl bod y diffyg manylion wedi gwanhau'r ymdeimlad o ddiben y bwriedir i'r Warant ei ddarparu ac yn rhwystro monitro a gwerthuso'r cynnydd a wneir. Mae hyn yn cysylltu â her ehangach ynghylch y gwendidau a'r bylchau mewn data, y mae'r Asesiad Gwerthusadwyedd yn ceisio mynd i'r afael â nhw¹¹² (Llywodraeth Cymru, 2025a), a'r perygl nad yw un gwasanaeth yn gyfrifol am darged, fel lleihau nifer y bobl ifanc NEET, na ellir ei gyflawni gan unrhyw un gwasanaeth.
- 8.16. Roedd y model gwasgaredig o ddatblygu a chyflawni, a amlinellwyd uchod, yn golygu nad oedd llawer o'r gwaith yn cyfathrebu beth oedd y Warant a'r hyn yr oedd yn ei olygu i'r gwahanol raglenni a oedd gyda'i gilydd yn ffurfio'r Warant, yn gyfrifoldeb tîm canolog y Warant, ond yn gyfrifoldeb y rhai sy'n arwain ac yn rheoli'r gwahanol raglenni. Fel y nododd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru, roedd angen 'cael y newyddion diweddaraf' a 'chyfathrebu'n barhaus' â'u timau, wrth i'r Warant barhau i ddatblygu, a gallai fod yn 'her wirioneddol' cadw i fyny â'r newidiadau. Yn yr un modd, fel y nododd cyfwelai o'r Adran Gwaith a Phensiynau, mae deall y gwahanol raglenni sy'n ffurfio'r Warant yn un o'r 'pethau anoddaf i fy nghydweithwyr gweithredol gael eu pennau o gwmpas'. Esboniodd nad oedd yn ddigon i hyfforddwyr gwaith wybod mai Cymru'n Gweithio oedd y 'porth' i'r Warant a pheidio â phoeni am y rhaglen sydd y tu ôl iddi, gan y gallai cyfranogiad pobl ifanc mewn gwahanol raglenni 'effeithio ar eu hymrwymiad'¹¹³ hawlydd a'u cymhwysra i gael budd-daliadau gwahanol'.

¹¹² Mae'r Asesiad Gwerthusadwyedd yn ceisio mynd i'r afael â hyn drwy wahaniaethu rhwng mesurau lefel system, fel canran y bobl ifanc NEET, y mae gwasanaethau yn atebol amdanynt ar y cyd, a mesurau perfformiad y mae gwasanaethau unigol yn atebol amdanynt (Llywodraeth Cymru, 2025).

¹¹³ I'r rhai sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, mae Hyfforddwyr Gwaith yn gweithio gyda nhw i greu a chytuno ar 'Ymrwymiad Hawlydd', sy'n amlinellu'r camau penodol y bydd yr unigolyn yn eu cymryd i baratoi ar gyfer gwaith a dod o hyd i waith.

Datblygiad gwahanol elfennau'r Warrant

8.17. Roedd prif effaith y Warrant, a nodwyd gan gyfweleion ar raglenni, yn gysylltiedig â chyllid ar gyfer rhaglenni presennol neu newydd (a drafodwyd yn Adran 6). Roedd hyn gliriaf mewn perthynas â:

- CfW+, lle nododd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru fod cyllid y Warrant wedi 'atal y cyllid rhag disgyn oddi ar glogwyn ar ddiwedd yr ymrwymiad COVID-19'.¹¹⁴ Dangosir effaith hyn yn Adran 6, sy'n dangos sut y cynyddodd CfW+ nifer y bobl y bu'n gweithio gyda nhw, wrth i Cymunedau am Waith ddirwyn i ben. Nodwyd hefyd gan gyfweleion o Lywodraeth Cymru fod y cyllid ychwanegol yn eu galluogi i 'arbrofi gyda dulliau newydd' o ymgysylltu â phobl ifanc a'u cynorthwyo; a
- Busnes Cymru, lle disgrifiodd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru sut roedd cyllid y Warrant wedi helpu i gymryd lle cyllid ERDF, a ddaeth i ben yn 2022. Nodwyd bod hyn yn 'allweddol i gynnal eu ffocws ar bobl ifanc', ac roeddent o'r farn y byddai hyn yn 'debygol o gael ei golli' heb y buddsoddiad hwn. Nododd y cyfweldigion hyn hefyd fod eu rôl yn y Warrant yn 'sail i gymryd mwy o ran mewn sgysiau o fewn Llywodraeth [Cymru]' am rôl Busnes Cymru wrth gefnogi pobl ifanc. Nodwyd bod hyn, yn ei dro, wedi cael 'effaith fawr' ar sut roedd hunangyflogaeth yn cael ei hystyried o fewn gwahanol dimau Llywodraeth Cymru.

Mewn cyferbyniad, roedd cyfweldigion o raglenni neu feysydd polisi nad oeddent wedi derbyn cyllid ychwanegol ar gyfer y Warrant, neu nad oeddent wedi cyd-ariannu gweithgarwch y Warrant, yn llawer llai tebygol o nodi unrhyw effaith uniongyrchol y Warrant ar eu maes gwaith. Yn hytrach, roeddent yn tueddu i ddisgrifio eu rhaglen fel cefnogi cyflawni'r Warrant, er fel yr amlinellwyd uchod, gwelwyd hefyd bod y Warrant, ac i raddau llai y Fframwaith, yn darparu 'cyfiawnhad' dros y rhaglenni hyn, er enghraifft pan oeddent yn gwneud yr achos dros gyllid.

8.18. Ymhlith y cyfweldigion hynny o Lywodraeth Cymru a fu'n ymwneud fwyaf â datblygiad y Warrant, roedd cydnabyddiaeth hefyd o ba mor bwysig a

¹¹⁴ Derbyniodd CfW+ gyllid ychwanegol i gefnogi ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig.

gwerthfawr roedd eu cyfranogiad yn natblygiad y Warrant wrth lunio'r rhaglenni penodol yr oeddent yn gyfrifol amdanynt. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig wrth benderfynu ar y berthynas rhwng y Warrant a'r Fframwaith, mewn perthynas â chymorth i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed. Myfyriodd rhanddeiliaid eraill ar sut, er enghraifft, roedd mewnwelediadau o'r Sgwrs Genedlaethol a grwpiau rhanddeiliaid pobl ifanc wedi helpu i ddatblygu 'dealltwriaeth gyfoethog' o'r materion. Er enghraifft, fel y dywedodd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru: 'mae bwrw ati i weithio' bob amser wedi bod ar ein agenda, 'ond yn benodol, rhoddodd [y Sgwrs Genedlaethol] yr hawl honno i ni. Dyma beth ddywedodd y Warrant wrthym. Dyma beth mae pobl eraill wedi'i ddweud. Mae pobl ifanc wedi dweud bod angen i ni wneud rhywbeth', gan roi'r llwyfan iddynt godi a thrafod y materion gyda Trafnidiaeth Cymru.

- 8.19. Mae cyfweiliadau â'r rhai sy'n ymwneud â chyflwyno rhaglenni yn awgrymu, fel y gellid disgwyl, eu bod yn gyffredinol yn canolbwyntio'n bennaf ar y rhaglenni a gyflwynwyd ganddynt yn hytrach na'r system ehangach.¹¹⁵ Y prif eithriadau i hyn oedd pryderon am bartneriaid atgyfeirio a'r hyn a ystyriwyd fel cystadleuwyr posibl (rhaglenni eraill a allai hefyd ymgysylltu â phobl ifanc yr oedd staff gweithredol yn ceisio eu targedu).¹¹⁶

Yr Adran Gwaith a Phensiynau

- 8.20. Mae gan yr Adran Gwaith a Phensiynau gyfrifoldeb cyffredinol am gyflawni amrywiaeth o fudd-daliadau oedran gweithio, anabledd a salwch yn y DU. Fel yr amlinellwyd yn Adran 6, yr Adran Gwaith a Phensiynau yw un o'r darparwyr cymorth cyflogaeth pwysicaf yng Nghymru (Wilson, 2021) (a'r DU). Ei nod yw darparu cymorth cyflogaeth cynhwysfawr i helpu pobl o oedran gweithio i gael mynediad at gyflogaeth a gwneud cynnydd mewn cyflogaeth. Mae'n cynnig cymorth gan hyfforddwyr gwaith mewn Canolfannau Gwaith a thrwy raglenni

¹¹⁵ Mae'r ffocws hwn ar raglenni yn hytrach na'r system ehangach hefyd yn cael ei adlewyrchu mewn adroddiadau gwerthuso sy'n cwmpasu rhaglenni unigol, sy'n anaml yn sôn am y Warrant. Lle mae sôn amdani, cyfeirir ati fel arfer mewn trafodaeth am y cyd-destun polisi, yn hytrach nag wrth drafod cyflwyno rhaglenni.

¹¹⁶ Er enghraifft, nododd cyfwelai o Lywodraeth Cymru, pan fo pobl yn cael eu cyfeirio o un rhaglen (fel Cymru'n Gweithio) i'r llall, y dylai 'fod trosglwyddiad cynnes, nid dim ond galwad ffôn' neu roi 'rhestr o rifau ffôn neu wefannau' i rywun a dibynnu arnynt i wneud y gwaith dilynol a chysylltu.

wedi'u targedu fel [Mynediad at Waith](#), sy'n darparu cymorth ychwanegol i bobl anabl a'r rhai sydd â chyflwr iechyd.

8.21. Fodd bynnag, mae'r [Papur Gwyn, Get Britain Working](#), yn nodi nifer o wendidau yn y system cymorth cyflogaeth bresennol (yr Adran Gwaith a Phensiynau), a ddisgrifir fel adran a sefydlwyd i ymdrin â phroblemau'r gorffennol, nid heriau heddiw na chyfleoedd y dyfodol, oherwydd ei bod yn:

- 'too narrowly focused on unemployment, with too little support in particular for disabled people and people who have health conditions, and young people who are too often written off before their careers have even begun
- too centralised and siloed, both across central government and in the relationships between national and local government [and]
- too focused on benefits and compliance, which can push people away from support at the expense of real help that meets their needs'¹¹⁷ (Llywodraeth y DU, 2024a, t. 7).

Felly, mae diwygiadau i'r system, gan gynnwys amrywiaeth o gamau gweithredu i gynorthwyo pobl ifanc, fel sefydlu rhaglenni arloesol¹¹⁸ a hybiau ieuencid¹¹⁹ (ac yn Lloegr, datblygu Gwarant Ieuencid¹²⁰) naill ai wedi'u cynllunio neu'n cael eu datblygu ymhellach. Nod y diwygiadau hyn yw mynd i'r afael â'r cynnydd mewn diweithdra ymhlith ieuencid ers 2022 a'r cynnydd tymor hwy yng nghyfran y bobl ifanc sy'n economaidd anweithgar oherwydd

¹¹⁷ Nododd sawl hysbysydd o Lywodraeth Cymru y pwynt hwn yn benodol, gan nodi sut roedd ymrwymadau hawlwr sy'n ymwneud â budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn gallu atal pobl ifanc rhag ymgysylltu â darpariaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau, sef her a drafodir ymhellach yn Adran 7 yr adroddiad hwn.

¹¹⁸ Bydd rhaglenni arloesol sy'n seiliedig ar leoedd yn cael eu sefydlu mewn wyth ardal yng Nghymru a Lloegr i'w cynnal yn ystod 2025/2026. Bydd y rhaglenni arloesol hyn ar flaen y gad o ran cynllunio sut y bydd model o gymorth gwaith, iechyd a sgiliau wedi'i gydgyssylltu'n lleol yn gweithio yn ymarferol (Llywodraeth y DU, 2024a, paragraff 73).

¹¹⁹ Mae Cynnig Ieuencid estynedig yr Adran Gwaith a Phensiynau yn darparu mynediad i'r Rhaglen Cyflogadwyedd Ieuencid, Hyfforddwyr Cyflogadwyedd Ieuencid, a Hybiau Ieuencid a ddarperir gyda sefydliadau partner, lle mae hyfforddwyr gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau yn darparu cymorth ochr yn ochr â gwasanaethau eraill (Llywodraeth y DU, 2024a).

¹²⁰ Mae hyn ceisio dod â hawliau a darpariaeth bresennol ynghyd ar gyfer pobl ifanc 18 i 21 oed yn Lloegr (ibid., t 46.).

cyflyrau iechyd ac anabledau yn y DU (ibid., t. 41).¹²¹ Bydd system cymorth cyflogaeth newydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cwmpasu'r DU gyfan, ond mae wedi'i bwriadu i fod yn hyblyg, gan weithredu'n wahanol mewn ardaloedd gwahanol er mwyn adlewyrchu systemau ac anghenion lleol gan gynnwys datganoli cyfrifoldebau mewn meysydd fel sgiliau, iechyd a gyrfaedd yng Nghymru (a'r Alban hefyd (ibid. t. 55).

Cyfranogiad yr Adran Gwaith a Phensiynau wrth gynllunio a chyflawni'r Warrant

- 8.22. O ystyried pwysigrwydd yr Adran Gwaith a Phensiynau fel darparwr cymorth cyflogaeth i bobl ifanc, mae'n hanfodol bwysig bod polisi Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn 'gydlynol' ac yn 'gyfatebol' (Wilson, 2021). Fel y mae Adran 5 yn amlinellu, ceir enghreifftiau o bartneriaethau effeithiol wrth gynllunio a chyflawni rhaglenni fel Cymunedau am Waith, ac yn y berthynas weithredol rhwng Gyrfa Cymru, Cymru'n Gweithio a'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith. Serch hynny, fel y mae Adran 5 yn amlinellu, roedd y tarfu a achoswyd gan y pandemig a'r ymdrech ddilynol yn Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i ymateb wedi creu tirwedd fwy cymhleth lle collwyd rhywfaint o gydlyniaeth a chyfatebolrwydd. Er enghraifft, cafodd rhaglenni'r Adran Gwaith a Phensiynau fel AilGychwyn eu cyflwyno gan yr Adran Gwaith a Phensiynau heb gydlynw nac ymgynghori digonol â Llywodraeth Cymru, gan arwain at rywfaint o ddyblygu a chystadlu â rhaglenni cymorth presennol Llywodraeth Cymru fel CfW a CfW+ (Llywodraeth Cymru 2024j). I'r gwrthwyneb, nododd cyfweldigion o'r Adran Gwaith a Phensiynau fod rhaglenni Llywodraeth Cymru fel TSC+ wedi'u cynllunio heb gydlynw nac ymgynghori digonol â'r Adran Gwaith a Phensiynau, a oedd yn golygu y gallai lwfansau hyfforddi TSC+ effeithio'n negyddol ar fudd-daliadau cyfranogwyr.
- 8.23. Fodd bynnag, nodwyd hefyd gan gyfweleion o Lywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau ar ôl y tarfu cychwynnol a achoswyd gan y pandemig, bod y perthnasodd gwaith rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a

¹²¹ Mae tueddiadau mewn diweithdra ac anweithgarwch economaidd ymhlith pobl ifanc yng Nghymru yn cael eu trafod yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn.

Llywodraeth Cymru wedi cryfhau, er eu bod yn cydnabod bod hyn wedi 'cymryd amser i'w ailsefydlu'. Gan edrych ymlaen, fel yr amlinellwyd uchod, [mae'r Papur Gwyn ar Ddiwygio Lles, Getting Britain Working](#) (Llywodraeth y DU, 2024a) a'r ymrwymiad i weithio gyda phartneriaid fel Llywodraeth Cymru, yn darparu cyfleoedd i gryfhau'r berthynas hon ymhellach, tra hefyd yn tynnu sylw at ei phwysigrwydd i sicrhau cydlyniaeth a chyfatebolrwydd polisiau'r Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru.

Cydweithredu rhanbarthol

- 8.24. Fel yr amlinellwyd yn Adran 5, yn lleol, mae gan awdurdodau lleol ac EPC rôl allweddol wrth gydlyn cymorth i'r rhai 11 i 18 oed drwy'r Fframwaith, ac mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wedi cael y cyfrifoldeb am helpu i gydlynu'r Warant yn rhanbarthol.

Effaith diwedd Cronfa Gymdeithasol Ewrop a dechrau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gydweithio

- 8.25. Roedd siom eang ymhlith y rhai a gafodd eu cyfweld bod lefel y cyllid drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael eu hystyried yn is na'r hyn a ddarparwyd drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Roedd rhwystredigaeth hefyd ynghylch disodoli'r hyn a ystyriwyd yn brosiectau rhanbarthol mwy strategol â darpariaeth fwy lleol, a oedd yn anodd i Lywodraeth Cymru ddylanwadu arnynt ac yn cynyddu'r risg o ddyblygu. O ganlyniad, fel y nododd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru:

Rwy'n cofio ein bod yn ceisio rheoli hynny [pa rai o brosiectau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a ariannwyd] y gorau y gallem (...) ond roedd mor gymhleth (...) oherwydd bod yr amserlenni ar gyfer cymeradwyo yn newid (...). Roedd rhaid i ni gymryd cam yn ôl ac a bod yn onest, nid wyf yn siŵr fy mod yn deall yn iawn pa ddarpariaeth y Gronfa Ffyniant Gyffredin sydd yno.

- 8.26. Yn yr un modd, nododd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru fod diwedd Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi rhoi mwy o hyblygrwydd i raglenni, ac roedd hyn wedi helpu rhaglenni fel TSC+ newid i heriau newydd. Ym marn un cyfwelai o

Lywodraeth Cymru, roedd wedi bod yn 'chwerthinllyd' na ellid cynorthwyo pobl ifanc gan ddau (neu ragor) o brosiectau a ariennir gan Ewrop ar yr un pryd, yn enwedig pan allai fod ganddynt anghenion cymhleth ac angen cymorth gan wasanaethau gwahanol. Gwnaethant hefyd gydnabod bod lle i raglenni lleol sy'n canolbwyntio ar anghenion lleol, fel cymorth ar gyfer grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yng Nghaerdydd

- 8.27. Mae datblygiad darpariaeth leol newydd hefyd wedi'i ysgogi gan anghenion pobl ifanc sy'n datblygu ar ôl y pandemig, a drafodir yn Adran 4 (a hefyd, anghenion grwpiau oedran hŷn, fel oedolion 25 oed a throsodd, gan y gall pobl ifanc gael eu cynorthwyo gan wasanaethau i oedolion, yn hytrach na gwasanaethau penodol i bobl ifanc). Er enghraifft, mae ffocws ar gymorth i'r rhai nad ydynt yn barod i ymgysylltu â chynnig cymorth EET y Warrant drwy raglenni prif ffrwd fel TSC+ a CfW+. Mae ffocws hefyd ar adeiladu hyder pobl ifanc a gwella mynediad at gymorth ieuchyd meddwl.¹²² Mae'r cynnig cymorth ehangach hwn, sydd hefyd yn cwmpasu cymorth cymdeithasol mewn meysydd fel hunaniaeth rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol a digartrefedd, weithiau yn cael ei ddarparu gan y sector gwirfoddol. Fodd bynnag, fel y nododd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru, er y dylai hyn olygu 'mewn egwyddor' bod 'amrywiaeth ehangach o ddarpariaeth erbyn hyn', nid oeddent yn gwybod digon amdano i asesu a oedd yn ychwanegu gwerth at ddarpariaeth y Warrant.

Awdurdodau lleol

- 8.28. Fel yr amlinellwyd yn Adran 5, nododd ymgynghoriad i lywio adnewyddu'r Fframwaith bryderon gan awdurdodau lleol eu bod yn cael eu hystyried yn bennaf atebol am lefel y NEET ac nad oedd hyn yn cael ei rannu'n briodol â sefydliadau partner eraill. Bwriad canllawiau'r Fframwaith wedi'u hadnewyddu oedd adfywio'r cydlyn ar lefel awdurdod lleol. Awgrymodd cyfweiliadau â staff o raglenni bod awdurdodau lleol yn canolbwyntio'n gryf ar ddau faes: y Fframwaith ac addysg ac ar gymorth i bobl heb waith o bob oed. Oherwydd fel

¹²² Mae hyn yn adlewyrchu'r anawsterau y pobl ifanc yn eu profi wrth gael mynediad at gymorth gan wasanaethau ieuchyd, fel PMHS, CAMHS ac AMHS (gweler, er enghraifft, AGIC, Estyn a Gyrfa Cymru, 2024).

yr amlinellwyd yn Adran 4, cymharol brin yw'r bobl ifanc 16 i 18 oed sy'n mynd i gyflogaeth, felly prin yw'r gorgyffwrdd rhwng y ddwy system.

- 8.29. Mae datblygiad gwasanaethau cyflogadwyedd pob oed wedi'i adlewyrchu yn natblygiad amrywiaeth o wasanaethau cyflogadwyedd fel [I Mewn i Waith Caerdydd](#), [Gweithio Abertawe](#) a [Gwaith Gwynedd](#) yn cyflwyno darpariaeth Llywodraeth Cymru fel CfW+, ond hefyd yn cyflwyno prosiectau wedi'u cyllido'n rhannol gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Fel y nododd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru, yn aml felly nid oedd yn bosibl gwahanu pa gymorth a ariannwyd gan y Warant a pha gymorth a ariannwyd gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Cydweithredu rhanbarthol

- 8.30. Yn rhanbarthol yn 2021, fel rhan o'r Warant, cafodd Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol eu comisiynu i gynnal ymchwil i osod y dirwedd ar draws pob rhanbarth o ran rhwydweithiau rhanddeiliaid a chyflogwyr, gan bennu cwmplas y cymorth a'r ddarpariaeth bresennol ym maes addysg, cyflogaeth, hyfforddiant a llesiant. Roedd disgwyl i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol weithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys pobl ifanc a chyflogwyr 'i annog cydweithio ar draws y rhanbarth i gefnogi pobl ifanc fel rhan o'r warant' (Llywodraeth Cymru, 2022a, t. 5). Roedd hyn hefyd wedi'i fwriadu i roi 'cyfle i wella gwybodaeth a gedwir gan Cymru'n Gweithio o dan ei ganfyddwr cymorth a gwasanaethau canfod cymorth lleol, gan wella'r arlwy i bobl ifanc' (ibid., tt. 5-6). Mae hefyd yn nodedig, er efallai nad yw'n syndod, o ystyried y gwahaniaethau mewn graddfa,¹²³ mai prin iawn fu'r sôn am y Fframwaith yn ystod cyfweiliadau â chynrychiolwyr o Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer y gwerthusiad hwn, wrth drafod rôl cydweithredu rhanbarthol o amgylch y Warant.

- 8.31. Mae cyfweiliadau a thrafodaethau gyda'r rhai sy'n ymwneud â chynllunio a chyflawni'r Warant wedi awgrymu bod y Warant wedi helpu i feithrin

¹²³ Mae gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol rôl allweddol wrth gydlynw'r ddarpariaeth, ac ar lefel awdurdod lleol, mae gan Gydlynwyr Ymgysylltu a Dilyniant rôl arweiniol wrth gydlynw'r ddarpariaeth ar gyfer y rhai rhwng 16 a 18 oed.

ymdeimlad o genhadaeth a rennir ac annog y rhai sy'n gweithio'n rhanbarthol i feddwl am eu rhan yn y system ehangach, a'u cyfraniad ati. Fodd bynnag, yn unol â chylch gwaith y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ysgogi buddsoddiad mewn sgiliau, maent yn tueddu i ganolbwyntio'n fwy ar y system addysg a sgiliau ôl-16 (hynny yw, lleoliadau addysg a darparwyr hyfforddiant) yn hytrach na'r system gymorth ôl-16 oed (gan gynnwys y Warrant, ond hefyd, er enghraifft y Fframwaith a darpariaeth awdurdodau lleol a'r trydydd sector) a drafodir yn Adran 5. Gydag eithriad rhannol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, cymharol fach yw'r dystiolaeth o Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (yng Nghanolbarth Cymru, De-orllewin Cymru a Gogledd Cymru) yn symud y tu hwnt i rannu gwybodaeth o amgylch sectorau a chyfleoedd i gefnogi'n weithredol neu hwyluso'r gwaith o lunio cynnig cymorth rhanbarthol ôl-16 y Warrant . Mae'r heriau a'r cyfleoedd a grëwyd gan fodel datganoledig cyflwyno'r Warrant, a drafodwyd uchod mewn perthynas ag arweinyddiaeth genedlaethol, yn berthnasol yn yr un modd yn rhanbarthol.¹²⁴ At hynny:

- Sefydlwyd Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol fel cyrff cynghori, yn hytrach na chyrff sy'n gwneud penderfyniadau, gyda dylanwad (yn seiliedig ar ansawdd y dystiolaeth) yn hytrach na rheolaeth¹²⁵ (Busnes Cymru, 2019, t. 25);
- fel y mae Estyn (2024c) yn nodi, mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn amrywio o ran aeddfedrwydd¹²⁶, sy'n golygu bod eu capasiti i ymgymryd â'r rôl hon yn wahanol.

Gwaith teg ac ymgysylltu â chyflogwyr

- 8.32. Fel yr amlinellwyd yn Adran 1, nodwyd y byddai'r Warrant yn cyfrannu at y Garreg Filltir Genedlaethol: i 'ddileu'r bwlch rhwng cyfradd gyflogaeth Cymru a chyfradd y DU erbyn 2050, gan ganolbwyntio ar waith teg a chynyddu nifer y bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n cyfranogi yn y farchnad lafur (Llywodraeth Cymru, 2022a, t. 4).

¹²⁴ Fel yr amlinellir yn Adran 5, mae gwahanol elfennau o'r Warrant yn cael eu rheoli a'u cyflawni gan wahanol staff/gwasanaethau sy'n gweithredu ar wahanol raddfeydd, ac nid yw pob un ohonynt yn cael eu cynrychioli ar Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ac nid oes gan unrhyw un awdurdod cyffredinol i gyfarwyddo newid.

¹²⁵ Er enghraifft, fel y dywedodd un cyfwelai o Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, 'Nid ydym yn cyflawni unrhyw beth ar lawr gwlad. Rydym yn fwy o gorff cydlynu'.

¹²⁶ Sefydlwyd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yng Nghanolbarth Cymru yn hwyrach na'r lleill.

8.33. Fel y nododd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru: 'Mae llawer o drafodaeth wedi bod yn Llywodraeth Cymru ynglŷn â pha ddulliau sydd gan Lywodraeth Cymru i annog cyflogwyr i weithredu argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg, i dalu'r cyflog byw gwirioneddol ac i hyrwyddo cyflogaeth i bobl ifanc anabl'. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys ymgysylltu â chyflogwyr, defnyddio dylanwad Llywodraeth Cymru dros y sector cyhoeddus, ei phŵer i gynnull, a dulliau ariannol (Senedd, 2022). Fodd bynnag, fel y nododd un hysbysydd ar gyfer yr astudiaeth hon (o Lywodraeth Cymru), mae pŵer deddfwriaethol Llywodraeth Cymru (mewn perthynas â gwaith teg) yn gyfyngedig¹²⁷ ac mae ei ffocws yn bennaf ar hyrwyddo, annog a chodi ymwybyddiaeth.

8.34. Yng nghyd-destun y Warrant, mae'n ymddangos bod y strategaeth i hyrwyddo gwaith teg wedi'i datblygu yn bennaf drwy:

- deddfwriaeth (fel y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus; gweler, er enghraifft, Ymchwil y Senedd, 2023);
- Cyfarwyddiaeth Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg Llywodraeth Cymru (sydd â chyfrifoldeb am fwrw ymlaen ag argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg), ac sydd, fel yr amlinellir isod, er enghraifft, wedi ymgysylltu â rhaglenni cyflogadwyedd fel TSC+; a
- gwaith gwahanol gyrff a grwpiau sy'n cyflawni'r Warrant (a oedd yn ffocws y gwerthusiad hwn), fel:
 - Busnes Cymru (y trafodir ei rôl uchod);
 - Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Llywodraeth Cymru (eu rôl yw gweithio gyda chyflogwyr i hyrwyddo arferion recriwtio a chadw cynhwysol);
 - Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (sy'n canolbwyntio ar gyflogwyr ac addysg a hyfforddiant ôl-16); a
 - y rhaglenni TSC+ a CfW+ sydd â swyddogion cyswllt cyflogwyr.

¹²⁷ Er enghraifft, mae'r dyletswyddau gwaith teg yn [Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus \(Cymru\) 2023](#) yn berthnasol i sefydliadau'r sector cyhoeddus yn unig (ac nid i gyrff sector preifat neu wirfoddol).

- 8.35. Fodd bynnag, teimlwyd bod gallu'r gwahanol gyrff a'r grwpiau hyn i fwrw ymlaen â'r agenda gwaith teg yn aml yn gyfyngedig. Er enghraifft, dim ond pum Hyrwyddwr Cyflogaeth Pobl Anabl sydd ac fel y nododd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru byddai'n dda i ni gael 'byddin ohonynt'. Roedd hefyd yn nodedig, yn wahanol i'r Garreg Filltir Genedlaethol arall sy'n canolbwyntio ar gynyddu cyfran y bobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant y mae'r Warant yn cyfrannu ati,¹²⁸ anaml y cododd cyfweldigion yr ail Garreg Filltir Genedlaethol, sy'n canolbwyntio ar waith teg a chynyddu cyfranogiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol¹²⁹ wrth drafod y Warant.
- 8.36. Dywedodd rhai cyfweldigion o Lywodraeth Cymru hefyd eu bod yn teimlo nad oedd y tîm Gwaith Teg wedi'i gynnwys yn llawn yn natblygiad y Warant, sy'n golygu bod cyfleoedd i ymgorffori gwaith teg yn llawn yn y Warant wedi'u colli. Mae hyn yn wendid posibl o ystyried pwysigrwydd gwaith teg wrth ysgogi pobl ifanc i chwilio am waith, ac fel yr ydym yn trafod yn Adran 8, roedd y canfyddiad nad oedd cyfleoedd gwaith yn deg yn digalonni rhai pobl ifanc.
- 8.37. Fodd bynnag, heriwyd yr asesiad hwn gan hysbysydd o Lywodraeth Cymru, a nododd, yn ogystal â'u gwaith ehangach wrth ddatblygu a hyrwyddo adnoddau gwaith teg, megis [Canllaw i Waith Teg](#), roedd yr Is-adran Gwaith Teg:
- wedi'i chynrychioli ar lefel Dirprwy Gyfarwyddwr ar Fwrdd y Warant ac roedd Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl, sy'n eistedd o fewn yr Is-adran Gwaith Teg, hefyd yn aelodau o Fwrdd y Warant;
 - wedi llunio papur polisi yn amlinellu'r cyfleoedd ar gyfer cysoni rhwng polisi gwaith teg a'r Warant, a gyflwynwyd i Fwrdd y Warant;
 - wedi adolygu manyleb ac adnoddau'r rhaglen ar gyfer TSC+ i sicrhau eu bod yn ymgorffori egwyddorion gwaith teg ac yn ymgysylltu â'r rhai sy'n arwain ar brosiect CfW+ i ddylanwadu ar newidiadau i'r rhaglen; a

¹²⁸ Y garreg filltir y bydd o leiaf 90% o'r rhai 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050.

¹²⁹ Y garreg filltir i 'ddileu'r bwlch rhwng cyfradd gyflogaeth Cymru a chyfradd y DU erbyn 2050, gan ganolbwyntio ar waith teg a chynyddu nifer y bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n cyfranogi yn y farchnad lafur' (Llywodraeth Cymru, 2022a, t. 4).

- lluniodd ganllawiau gwaith teg pwrpasol ar gyfer Biwroau Cyflogaeth Addysg Bellach.

Ymgysylltu â chyflogwyr

- 8.38. Un o amcanion y Warrant yw sicrhau bod 'cyflogwyr â'r hyder a'r gefnogaeth i recriwtio pobl ifanc 16 i 24 oed i gael swyddi a phrentisiaethau o safon' (ibid, t. 9). Mewn gweithdai gyda staff Llywodraeth Cymru a staff o asiantaethau partner (a drafodwyd yn Adran 3), codwyd pryderon am y berthynas rhwng cyflogwyr a phobl ifanc. Dywedwyd bod cyflogwyr yn adrodd nad yw pobl ifanc yn barod am swyddi a'u bod yn dal i gwyno nad ydynt yn gallu 'cael y bobl iawn', pobl sy'n 'troi i fyny ar amser, yn aros ar ôl y diwrnod cyntaf, yn cadw i fynd'. Dywedodd rhai cyfranwyr yn y gweithdai fod 'rhywbeth wedi mynd o'i le o ran agweddau pobl ifanc'. Nododd eraill fod 'pobl ifanc yn llai aeddfed o ganlyniad i'r pandemig (...) - diffyg hunanreoleiddio, nid ydynt wedi datblygu cymaint yn gymdeithasol', a oedd yn ei gwneud yn anodd iddynt ffynnu yn y gweithle.
- 8.39. Yn rhannol, mae'r heriau a drafodwyd mewn gweithdai yn adlewyrchu pryderon (a godwyd yn ystod cyfweiliadau):
- nad oedd lleoliadau addysg yn gwneud digon i baratoi pobl ifanc ar gyfer pontio i gyflogaeth. Fel y dywedodd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru, mae angen 'enfawr' i ddatblygu 'parodrwydd gyrfa' pobl ifanc a sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu 'paratoi'n well' ar gyfer byd gwaith - er y gobeithiwyd hefyd y byddai'r Cwricwlwm newydd i Gymru, sy'n cydnabod gwerth Gyrfaoedd a Phrofiadau Byd Gwaith, yn helpu; ac
 - i ba raddau y gall rhaglenni cymorth cyflogadwyedd, fel TSC+ a CfW+, sy'n rhan o'r Warrant (ac a drafodir yn Adran 6) sicrhau bod pobl ifanc yn 'barod am waith'.
- 8.40. Er bod y rhai sy'n ymwneud â chyflwyno rhaglenni yn aml o'r farn bod sicrhau bod pobl ifanc yn barod am waith neu yrfa yn rhan o'u rôl, gwnaeth cyfweldigion o Lywodraeth Cymru a rhaglenni hefyd fyfyrion ar y farn bod angen i gyflogwyr o bosibl, wrth i gymdeithas newid (thema a drafodir yn

Adran 4), newid eu disgwyliadau o bobl ifanc. Er enghraifft, fel y dywedodd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru:

Efallai mai'r hyn rydym yn meddwl amdano yw bod llawer o bwyslais ar sicrhau bod gennym bobl ifanc greadigol, mwy cyflogadwy sydd â sgiliau, agweddau da ac ati, ond mae dadl hefyd efallai fod gwaith i'w wneud gyda chyflogwyr hefyd am eu disgwyliadau o bobl ifanc sut y gallai cyflogwyr fod yn fwy hyblyg, cymwynasgar neu addasiadau y gellid eu gwneud ar gyfer pobl ifanc a allai, er enghraifft, fod ag anawsterau iechyd meddwl neu beth bynnag ydyw.

8.41. Gwnaeth rhai cyfweledigion o Lywodraeth Cymru gysylltu hyn â gwaith o amgylch hyrwyddo addasiadau rhesymol i bobl ifanc anabl. Gwnaethant gydnabod, fodd bynnag, er y gallai'r egwyddor fod yn debyg, roedd gwahaniaethau wrth gwrs rhwng addasiadau rhesymol sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ac addasiadau eraill y gallai cyflogwyr eu gwneud ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn anabl a allai wynebu rhwystrau i gael mynediad at gyflogaeth a/neu gynnal cyflogaeth. Er enghraifft, fel y nododd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru, y nod oedd 'cael cyflogwr i feddwl yn wahanol', er enghraifft, edrych ar amseroedd dechrau, os hoffech, gwaith shift (...). Os ydych yn dweud 8.15 yn hytrach nag 8:00, mae bws a allai ollwng pawb, y math yna o beth'.

8.42. Awgrymodd un cyfwelai o Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol hefyd y gallai fod er budd cyflogwyr i wneud addasiadau; gwnaethant nodi'r canlynol:

Mae prinder sgiliau ac mae rhywfaint o addysgu i'w wneud gyda chyflogwyr ynghylch cynhwysiant cyflogaeth ac ehangu'r amrywiaeth o bobl y byddant yn cyfweld â nhw ac yn eu cyflogi felly rydym yn edrych ar wneud rhywbeth o bosibl (...), cynnal nifer o ddigwyddiadau am recriwtio cynhwysol, ynghylch rhywedd, cyflogi pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, a'r cymorth sydd gan gyflogwyr ynghylch cyflogi person ifanc a allai fod ag ychydig o rwystrau. Rydym hefyd yn cynnal digwyddiad ymgysylltu â busnesau ym mis Mawrth, sy'n ymwneud â chyflogi pobl a

phobl ifanc sydd wedi bod drwy'r system cyfiawnder troseddol. Rydym yn gofyn i gyflogwyr ehangu eu gorwelion: "Nid oes gennych ddigon o bobl yn gwneud cais am swyddi. Ond mae pobl yno. Mae angen i chi agor eich llygaid a rhoi cyfle i rywun". Felly, o'n safbwynt ni, mae gennym rywfaint o addysgu i'w wneud yno gyda chyflogwyr hefyd.

8.43. Gwnaeth hyn yn ei dro godi cwestiynau (heb eu hateb) ynghylch sut y gellid newid disgwyliadau cyflogwyr o bobl ifanc, yn enwedig mewn sectorau fel adeiladu lle roedd recriwtio yn heriol, a sut y gellid cryfhau cymorth yn y gwaith. Awgrymodd un o gyfweleion Llywodraeth Cymru, wrth i gymorth i bobl ifanc o raglenni 'leihau'n raddol', fod 'angen i hyn gael ei gyfateb gan fwy o gymorth gan y cyflogwr'.

8.44. O ystyried hyn, myfyriodd nifer o gyfweleion o Lywodraeth Cymru ar y ffaith nad oedd llinyn ymgysylltu â chyflogwyr y Warrant wedi'i ddatblygu'n llawn. Fel y crynhodd un cyfwelai, 'mae angen i ni wneud mwy', i 'fynd allan i eirioli dros bobl ifanc' gyda chyflogwyr, rhywbeth a allai hefyd helpu i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo gwaith teg (a drafodwyd uchod). Yr un modd, tynnodd eraill sylw at yr heriau a grëwyd gan strwythur cyflogwyr yng Nghymru a gweithio gyda busnesau bach a chanolig (BBaChau) efallai nad oes ganddynt, er enghraifft, staff neu adrannau adnoddau dynol.¹³⁰

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Fel y mae'r testun mewn bwlch isod yn amlinellu, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi pum ffordd o weithio sy'n angenrheidiol i 'gyrff cyhoeddus' penodedig fel Llywodraeth Cymru gymhwyso'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' (Llywodraeth Cymru, 2015, t. 4).

¹³⁰ Mae mwyafrif y mentrau gweithredol yng Nghymru yn BBaChau a oedd yn cyfrif am 99% o'r holl fentrau yng Nghymru yn 2023, ac roedd micro fentrau (gyda 0 i 9 cyflogai) yn cyfrif am bron 95% o gyfanswm y mentrau yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2023f).

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Y Pum Ffordd o Weithio

- 'Cydwethio': 'gallai cydwethredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant';
- 'Integreiddio': 'ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.' [hynny yw, meddwl drwy systemau a meddwl am yr holl nodau llesiant];
- 'Cynnwys': 'pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu';
- 'Hirdymor': 'pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd'; ac
- 'Atal': 'sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion' (Llywodraeth Cymru, 2015 t. 5).

Cydwethio, integreiddio a chynnwys

- 8.45. Ar lefel weithredol, mae'n hawdd eirioli dros waith partneriaeth, yn enwedig rhwng gwasanaethau sydd â diwylliannau ac arferion gwaith gwahanol iawn, fel gwasanaethau cymorth EET a gwasanaethau iechyd meddwl, ond mae'n anodd gweithredu hyn yn ymarferol (gweler, er enghraifft, Pwyllgor Gwaith a Phensiynau Tŷ'r Cyffredin, 2024; Comisiwn Llwybrau at Waith, 2024).¹³¹ Mae'r gwahaniaethau a'r ffrithiannau sylfaenol hyn wedi'u gwaethygu gan y pwysau y mae gwasanaethau yn ei wynebu o ganlyniad i'r galw cynyddol ochr yn ochr â thoriadau mewn cyllid oherwydd cyni, sy'n golygu bod gwasanaethau CAMHS, AMHS a PMHS yn fwyfwy anodd i bobl ifanc gael mynediad atynt (AGIC, Estyn ac AGC, 2024; Senedd, 2020, 2018a).¹³²

¹³¹ Er ei bod yn bosibl bod y materion penodol a'u maint yn wahanol heddiw, nid heriau newydd yw'r rhain yn y bôn ac, fel y nododd strategaeth CAMHS Busnes Pawb yn 2001, dros ugain mlynedd yn ôl, cydwethio da yw Greal Sanctaidd pob ymdrech i wella darpariaeth gwasanaethau iechyd, addysg a chymdeithasol. Mae'n hawdd gweld pwys hanfodol hynny, ond bu'n anodd iawn ei gyflawni (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2001, t. 23).

¹³² Cafodd CfW+ a TSC+ eu cynllunio i fynd i'r afael â diffygion yng ngalluoedd pobl ifanc, fel eu 'gallu' (sgiliau a hyder), a/neu rwystrau sy'n gysylltiedig â mynediad at gyfleoedd, fel rhwystrau sefyllfaol fel gofal plant. Fodd bynnag, nid oeddent wedi'u cynllunio i gefnogi pobl ifanc ag anghenion cymhleth

8.46. Fel yr amlinellwyd uchod, roedd cydweithio, cynnwys ac integreiddio i gyd yn ganolog i ddatblygu a chyflawni'r Warant, ac adroddwyd yn gyffredinol eu bod yn gryf ar lefel strategol, er y cydnabuwyd nad oedd 'seilos' wedi cael eu chwalu eto. Ar lefel weithredol, fel yr amlinellir yn Adran 6, nododd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau fod cysylltiadau cryf rhwng Cymru'n Gweithio, darpariaeth leol a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Nodwyd hefyd bod ymddiriedaeth wedi'i feithrin rhwng Cydlynwyr Ymgysylltu a Dilyniant y Fframwaith a darparwyr TSC+, a bod nifer yr atgyfeiriadau uniongyrchol o'r Cydlynwyr i ddarparwyr TSC+ wedi cynyddu o ganlyniad i hynny. Serch hynny, nododd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru fod angen cysylltiadau cryfach rhwng awdurdodau lleol, sydd, fel y nodwyd, wedi tueddu i ganolbwyntio ar y Fframwaith (sy'n cwmpasu pobl ifanc 11 i 18 oed) a gwasanaethau cyflogadwyedd i'r rhai 16 oed a throsodd, a'r Warant (sy'n darparu cynnig cymorth i bobl ifanc 16 i 24 oed).

sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, yn wahanol, er enghraifft i'r Gwasanaeth Di-waith. Er y nodir bod capasiti rhaglenni craidd y Warant i weithio gyda'r grwpiau hyn wedi cynyddu, maent yn dal i fod yn ddibynnol iawn ar bartneriaid allanol (gan gynnwys gwasanaethau'r sector cyhoeddus a gwirfoddol) i ddarparu cymorth iechyd meddwl i gyfranogwyr y rhaglen.

8.47. O ganlyniad, er gwaethaf y cynnydd, nododd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru y gallai fod seilos o hyd yn lleol, yn enwedig rhwng gwasanaethau sy'n gweithio gyda phobl ifanc ac ar eu cyfer, ac yn enwedig y rhai 16 i 18 oed, a'r rhai a ystyrir weithiau (yn anghywir) fel rhai ar gyfer oedolion hŷn (hynny yw, y rhai 25 oed a throsodd), fel CfW+. Gall hyn fod yn arwydd o her ehangach i gydweithio ac integreiddio, oherwydd ymddengys fod is-systemau gwahanol sydd weithiau'n gorgyffwrdd sy'n dod â grwpiau gwahanol o gydweithwyr o'u cwmpas, er enghraifft:

- addysg a chymorth i bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed sy'n NEET, neu sydd mewn perygl o ddod yn NEET, yn canolbwyntio ar y Fframwaith ar lefel awdurdod lleol;
- cymorth i bobl ifanc 16 oed a throsodd, mewn addysg neu hyfforddiant, a ddarperir gan leoliadau addysg a darparwyr hyfforddiant;
- cymorth i bobl ifanc 18 i 19 oed a throsodd, sy'n NEET, yn canolbwyntio ar ddarpariaeth Llywodraeth Cymru (fel CfW+) a darpariaeth awdurdodau lleol a ariennir gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin; a
- chymorth cyflogadwyedd i bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed sy'n hawlio budd-daliadau yn canolbwyntio ar yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith.

Cyfranogiad pobl ifanc

8.48. O ran i ba raddau yr oedd pobl ifanc yn rhan o gynllunio a datblygu'r Warrant (cwestiwn ymchwil 17), roedd y cyfranogiad hwn wedi'i strwythuro mewn tair prif ffordd:

- cyfranogiad uniongyrchol mewn trafodaethau, drwy'r Grŵp Cynghori i Bobl Ifanc, a hwyluswyd gan Blant yng Nghymru ac a sefydlwyd i ddarparu arweiniad a chynghor i Lywodraeth Cymru ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o dan y Warrant;
- ymgynghoriad drwy'r Sgwrs Genedlaethol (Llywodraeth Cymru 2023d, 2024l); a
- chymryd rhan yn y gwahanol raglenni sydd naill ai'n rhan o'r Warrant neu'n ategu'r Warrant. Er enghraifft, roedd yr ymgynghoriad ar adnewyddu'r Fframwaith yn cynnwys 'grwpiau ffocws wedi'u hwyluso, cyfweiliadau un i

un a phorth ymgynghoriad ar-lein' (LWI 2021a, t. 8) ac roedd gwerthusiadau o raglenni fel CfW+ a TSC+ yn cynnwys ymchwil gyda phobl ifanc.

- 8.49. At hynny, fel yr amlinellir yn Adran 7, llywiwyd y Warant gan wybodaeth sefydliadol swyddogion polisi, wedi'i hadeiladu drwy amrywiaeth eang o raglenni a pholisïau sydd wedi cefnogi cyfnodau pontio pobl ifanc.
- 8.50. Fel yr amlinellwyd uchod, nododd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru fod y Grŵp Cynghori i Bobl Ifanc a'r Sgwrs Genedlaethol yn cael effaith bwysig ar ddatblygu polisi a rhaglenni. Er enghraifft, roedd y gweithgareddau hyn yn tynnu sylw at faterion fel trafnidiaeth wael ac yn rhoi sicrwydd bod ymgyrchoedd fel Bydd Bositif yn briodol i'w cynulleidfaoedd targed. Yn yr un modd, nodwyd bod yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid a lywiodd y gwaith o ddiwygio'r Fframwaith yn werthfawr. Fel y dywedodd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru, roedd peth o'r adborth gan bobl ifanc yn 'agoriad llygad go iawn', a arweiniodd atynt yn ailystyried eu sefyllfa ac yn dangos 'pwysigrwydd holi pobl ifanc yn uniongyrchol'.
- 8.51. Fodd bynnag, wrth edrych yn benodol ar y Grŵp Cynghori, mae'n bwysig cofio hefyd bod y grŵp o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed sy'n mynychu'r Grŵp yn rheolaidd yn fach (dywedir ai fod yn cynnwys pedwar i chwech o bobl) ac ni all eu profiadau bywyd gynrychioli profiadau pob person ifanc yng Nghymru. Felly, fel y nododd un aelod o'r Grŵp, 'mae'n debyg nad yw'n rhoi darlun cywir i chi'. Nid yw hyn i gwestiynu gwerth y Grŵp – ac roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn amlwg yn ei werthfawrogi – dim ond i gydnabod ei gyfyngiadau a phwysigrwydd ystyried adborth gan y Grŵp Cynghori ochr yn ochr â thystiolaeth arall, fel y dystiolaeth a gasglwyd gan y Sgwrs Genedlaethol a gwerthusiadau o raglenni sy'n ffurfio'r Warant.

Atal a ffocws hirdymor

- 8.52. Fel y mae Adrannau 5 a 6 yn dangos, mae gan y Warant a'r Fframwaith ffocws cryf ar geisio atal yr effeithiau creithio sy'n gysylltiedig ag ymddieithrio o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Fodd bynnag, un feirniadaeth neu

bryder a godwyd am y Warant yw a yw ymyrryd yn 16 oed yn rhy hwyr. Er enghraifft, fel y nododd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru, 'y Warant yw bron y cyfle olaf, ond i rai pobl ifanc mae'n rhy hwyr'.

- 8.53. Fel y mae Adran 6 yn amlinellu, mae ffocws y Warant ar y cerrig milltir cenedlaethol yn awgrymu ffocws hirdymor. Fodd bynnag, fel y mae Adrannau 5 a 7 yn dangos, er nad yw diweithdra neu anweithgarwch economaidd ymhlith pobl ifanc yn broblem newydd, gellid dadlau hefyd bod y Warant wedi'i datblygu mewn ymateb i'r hyn a oedd yn argyfwng tymor canolig (y pandemig) yn hytrach na thueddiadau a heriau hirdymor. Cymerodd amser hefyd i gynllunio hirdymor nodi'r newid sydd ei angen i gyrraedd carreg filltir 2050 i ddechrau. Mewn gweithdai yn 2024, roedd yn amlwg nad oedd rhanddeiliaid yn glir sut y byddai'r garreg filltir yn cael ei gwireddu. Fodd bynnag, fel rhan o swyddogaeth y Bwrdd Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau, mae gwaith wedi dechrau archwilio map ffordd tuag at y garreg filltir genedlaethol ar gyfer 'o leiaf 90% o'r rhai 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant erbyn 2050'.

Casgliad

- 8.54. Fel y mae'r Adran hon, ynghyd ag Adrannau 6 a 7, yn dangos, mae'r Warant wedi llunio'r system o gymorth EET ôl-16 i bobl ifanc. Er mewn llawer o achosion, helpodd y Warant i gynnal neu ehangu'r ddarpariaeth bresennol, fel TSC+ a CfW+ a oedd yn ffurfio'r system, yn hytrach na'i thrawsnewid. Oherwydd bod cynnig y Warant, fel y mae'n cael ei brofi gan bobl ifanc, yn cael ei ddarparu gan amrywiaeth eang o raglenni, nid oedd y llunio hwn o'r system yn cael ei ysgogi o'r canol mewn ffyrdd hierarchaidd o'r brig i lawr. Yn hytrach, mae'r newidiadau wedi 'dod i'r amlwg' o ganlyniad i benderfyniadau nifer o wahanol swyddogion polisi mewn gwahanol dimau ac adrannau, a oedd yn rhyngweithio â'i gilydd drwy rwydwaith polisi yr oedd y Warant wedi helpu i'w ffurfio a'i gryfhau. Helpodd hyn yn ei dro i sicrhau bod y Warant yn hyrwyddo integreiddio a chydweithredu (yn unol â dwy o ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

9. Profiadau pobl ifanc o bontio yn 16 a 18 oed

Cyflwyniad

- 9.1. Fel yr amlinellir yn Adran 4, mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc (tua 90% o bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed a thua 85% o bobl ifanc rhwng 19 a 24 oed) yn pontio'n llwyddiannus ac mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Fel y mae'r adran hon yn amlinellu, efallai nad yw'r systemau addysg a hyfforddiant a chymorth ôl-16 yn berffaith, ond maent yn gweithio i'r bobl ifanc hyn. Mae hyn yn cael ei nodi gan werthusiadau o raglenni fel TSC+ a CfW+ (Llywodraeth Cymru 2025e a 2024i) sy'n tynnu sylw at brofiadau cadarnhaol pobl ifanc o gymorth ar y cyfan.
- 9.2. Fel y mae Adran 3 yn amlinellu, er nad oedd y sampl o 81 o bobl ifanc a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn ceisio cynnwys pobl ifanc sy'n ymwneud â rhaglenni fel TSC+ a CfW+ (lle roedd gwerthuso'r rhaglenni yn awgrymu bod profiadau yn gadarnhaol iawn ar y cyfan¹³³), roedd yn cynnwys pobl ifanc ag amrywiaeth o brofiadau cymorth. Er enghraifft, dywedodd Emily a oedd yn paratoi ar gyfer pontio o'r ysgol i'r chweched dosbarth:
- le, mae gen i gynghorydd arweiniad y gallaf siarad ag ef. Mae gen i lawer o athrawon y gallaf ymddiried ynddynt y gallaf siarad â nhw hefyd. Rwy'n teimlo bod fy ysgol yn bendant yn gefnogol iawn o ran y math hwnnw o beth [cymorth i wneud penderfyniadau]. Mae fy athrawon i gyd yn agored i, yn agored i gwestiynau a phethau, ac mae fy mhennaeth blwyddyn yn siarad am [opsiynau ar ôl TGAU] llawer.
- 9.3. Disgrifiodd eraill fel Jack, a nododd fel niwrowahanol, bwysigrwydd mwy o gymorth ychwanegol gan yr hyn a elwid yn 'fentor' wrth gefnogi eu cyfnodau pontio:

¹³³ Er enghraifft, mae'r Gwerthusiad o TSC+ yn nodi 'adroddodd dysgwyr am ystod eang o ganlyniadau cadarnhaol a buddion o ganlyniad i gymryd rhan yn rhaglen TSC+' (Llywodraeth Cymru, 2025e, t. 98).

Dydw i ddim [yn gwybod] ar ba bwynt y cwrddais â'r mentor [awtistiaeth] (...) [ond] fe wnes i gadw mewn cysylltiad â nhw o hynny hyd nes i mi ddechrau yn y coleg. Ac yna ar ôl i mi ddechrau yn y coleg, roedden nhw yno i helpu llawer. Felly, cawsom y diwrnod agored, ac yna (...) os oes gennych ddiddordeb mewn cwrs, maent yn cynnal diwrnod blasu lle gallwch chi fynd a phrofi diwrnod yn y cwrs hwnnw, ac roedd hi yno gyda mi. Daeth hi i'r dosbarth gyda mi ac eistedd gyda mi. Ac felly roedd hi yno i'm cefnogi ar y diwrnod blasu, a dwi'n meddwl bod hynny'n ddefnyddiol iawn oherwydd nad oeddwn i'n siarad â neb ond hi. Ie, byddwn i wedi teimlo'n unig iawn hebdi hi.

- 9.4. Fel y mae adroddiad Adrian yn dangos, pan ofynnwyd iddynt am effaith gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr mewn addysg bellach, roeddent yn teimlo y gallai'r effaith fod yn ddwys:

[Roedd yr effaith] yn fawr iawn, oherwydd pe na bai gen i gymorth ganddyn nhw, ni fyddwn yn cael cwnsela, ni fyddwn yn gallu agor i fyny mwy. Pe na bawn i'n cael eu cymorth, ni fyddwn yn gallu chwilio am swyddi. Fyddwn i ddim hyd yn oed yn gwybod bod prentisiaeth ar gael. Byddwn i'n meddwl mai fy unig opsiwn sydd ar gael yw theori lefel tri, ac nid yw hynny i mi. (...) [Felly, fyddwn i ddim yn hoffi dod ymlaen [i'r brentisiaeth] oni bai am y cymorth hwn. A bod yn onest, ni fyddai hyd yn oed gennyf fy nghariad, fy ffrindiau nac unrhyw un mewn gwirionedd. [Byddai gennyf] fy athrawon, ond byddwn yn oer iawn ac yn gaeedig fy meddwl ac yn unig ac yn drist oherwydd bod yn rhaid i mi fod gyda fy nheulu. Ac fe wnes i agor i fyny am [hynny] yn y coleg, ac fe wnaethon nhw fy helpu gyda hynny - cwnsela a phopeth, a fy ffrindiau a fy nghariad, llawer iawn, iawn.

- 9.5. Serch hynny, er gwaethaf y llwyddiannau hyn, fel y mae Adran 5 yn amlinellu, bu pryderon hirsefydlog am yr anawsterau y mae lleiafrif o bobl ifanc yn eu profi mewn cyfnodau pontio addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ôl-16. Fel y mae Adran 5 hefyd yn amlinellu, bu pryderon bod rhai pobl ifanc yn mynd ar lwybrau is-optimaidd ac efallai y byddant yn cael trafferth symud ymlaen i

'waith teg'. Fel y mae Adran 6 yn amlinellu, nod y Warrant yw mynd i'r afael â hyn drwy sicrhau bod gan bob person ifanc gynnig cymorth a system syml y gallant ei defnyddio i gael mynediad at yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael iddynt.

9.6. Er mwyn archwilio'r heriau hyn ymhellach, mae gweddill yr adran hon yn trafod profiadau'r bobl ifanc a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth hon a sut y gall eu hanesion am eu galluoedd, eu cymhellion a'u mynediad at gyfleoedd ein helpu i ddeall eu cyfnodau pontio addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ôl-16, gan ganolbwyntio ar yr heriau a'r anawsterau a wynebwyd ganddynt. Mae dadansoddiad o ymchwil ehangach (a amlinellir yn Adran 4 a 5) a chyfweliadau â phobl ifanc yn pwyntio at ddau gyfnod penodol o bontio.

Rydym yn canolbwyntio ar y ddau gyfnod hyn yn yr adran hon:

- y pontio yn 16 oed ar ddiwedd blwyddyn 11; a
- y pontio yn 18 oed ar ddiwedd blwyddyn 13 ar gyfer y mwyafrif o bobl ifanc sy'n parhau yn yr ysgol neu'r chweched dosbarth.¹³⁴

9.7. Darperir rhagor o wybodaeth am y ffactorau a nodwyd gan bobl ifanc fel rhai sy'n llunio eu galluoedd, eu cymhellion a'u mynediad at gyfleoedd yn Atodiad C.

Y cyfnod pontio yn 16 oed ac afon ddiog addysg

9.8. Mae'r data (a drafodir yn Adran 5 ac Atodiad A) yn awgrymu bod dros 90% o bobl ifanc yng Nghymru yn parhau mewn addysg naill ai yn chweched dosbarth yr ysgol neu yn y coleg. Mae'r cyfweliadau â phobl ifanc (a drafodir yn yr adran hon) yn awgrymu bod, i'r rhan fwyaf o bobl ifanc, y cyfnod pontio hwn yn 16 oed yn cael ei ddeall orau nid fel canlyniad dewis (neu alluogedd) gweithredol ar ran y person ifanc, ond yn fwy fel dewis diofyn. Mae hyn yn annhebygol o fod yn ffenomen newydd, ond efallai ei fod wedi cael ei bwysleisio gan effaith y pandemig ar bobl ifanc. Yn benodol, tynnodd llawer o'r bobl ifanc a gafodd eu cyfweld sylw at effaith y pandemig ar eu hyder wrth

¹³⁴ Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y bobl ifanc hynny mewn lleoliadau prif ffrwd. Bydd amseriad pontio i bobl ifanc mewn ysgolion arbennig (sydd fel arfer yn pontio yn 19 oed) yn wahanol.

fynd i mewn i leoliad anghyfarwydd, fel coleg. Er enghraifft, fel y dywedodd Catherine, wrth ddisgrifio pam y dewisodd aros yn y chweched dosbarth:

Rwy'n credu ei fod yn fwy fel cynefindra. Cynefindra o ran bod yno, ac rwy'n credu bod llawer o fy ffrindiau yn aros yno i astudio Safon Uwch. Rwy'n cofio nad oedd llawer o bobl yn fy mlwyddyn wedi mynd i'r coleg oherwydd y ffaith ein bod ni newydd fynd drwy gyfnod COVID. Nid oedd llawer o bobl eisiau gadael a cheisio gwneud ffrindiau newydd oherwydd ein bod wedi eu cael am saith mlynedd yn yr ysgol. Felly nid oedd llawer o bobl eisiau gadael. Felly, rwy'n credu fy mod i dim ond wedi dilyn y dorf beth bynnag.

- 9.9. Rydym yn defnyddio'r trosiad “afon ddiog”¹³⁵ i ddangos ac archwilio pam mae hwn yn ddewis diofyn. Rydym yn disgrifio sut mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc rhwng 14 ac 16 oed yn cael eu cario â'r llif yn yr ysgol, ac yna ar ddiwedd blwyddyn 11, maent yn mynd i mewn i drobwll ysgafn ac yna'n cael eu cario gan y cerrynt i lawr un neu'r llall o ddwy brif sianel: y chweched dosbarth neu'r coleg, gyda niferoedd bach yn cymryd sianel dysgu seiliedig ar waith, mynd i mewn i gyflogaeth, neu'n gadael addysg a dod yn NEET. Y pryder yma, fel y nododd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru yw mai'r ‘realiti yw (...) os ydych yn mynd ar goll o'r system, mae'n anodd iawn eich cael yn ôl’. Mae hyn yn adlewyrchu'r effeithiau ‘creithio’ sy'n gysylltiedig ag ymddieithrio o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, effeithiau sy'n tueddu i galcheiddio'n fwy po hiraf yw'r cyfnod ymddieithrio (Llywodraeth Cymru, 2024o).

¹³⁵ Mae'r trosiad hwn yn wahanol i iaith ‘llwybrau’ a ddefnyddir yng nghyd-destun y Warrant ond fe'i defnyddir gan ei fod yn rhoi darlun cliriach o'r materion. Mae gan y trosiad debygrwydd i drosiad Roberts (1995) o sut roedd gwahanol grwpiau o bobl ifanc yn arfer dal ‘trên’ gyda'i gilydd yn 16 oed i, er enghraifft, chweched dosbarth neu weithio yn y pwll glo neu'r gwaith dur.

Cael anhawster yn yr ysgol

Nid yw'r disgrifiad o'r rhan fwyaf o bobl ifanc rhwng 14 ac 16 oed yn cael eu cario gan y llif yn yr ysgol yn golygu bod y cyfan yn hwylio llyfn. Mae llawer o'r bobl ifanc a gafodd eu cyfwelwyd gennym yn disgrifio profiadau anodd yn yr ysgol, sy'n gysylltiedig â phrofiadau andwyol yn ystod plentyndod fel bwlio neu fod mewn gofal, yr hyn yr oeddent yn teimlo oedd yn anghenion dysgu ychwanegol heb eu diwallu, a/neu anawsterau iechyd corfforol a meddyliol. Er enghraifft, fel y disgrifiodd Max, person ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal:

Nid oeddwn yn dda iawn yn yr ysgol beth bynnag. Cyn gynted ag y cyrhaeddais yr ysgol uwchradd fe wnes i 159ym o ai dreulio fy holl amser yn ynysu neu'n gorfod aros ar ôl ysgol. Ni fyddai neb byth yn rhoi unrhyw 159ymorth i mi gydag unrhyw beth o gwbl. Nid oedd wedi helpu fy mod mewn gofal maeth hefyd pan es i i flwyddyn 7, felly roedd yn dipyn o amser gwael mewn gwirionedd.

Codwyd yn aml hefyd y tarfu ar eu haddysg a achoswyd gan y pandemig ac ymatebion polisi fel y cyfyngiadau symud. Er enghraifft, fel y disgrifiodd Jack:

Roedd yr ysgol yn wirioneddol wael, hynny yw ar ôl COVID oherwydd roedd yn newid mor dreisgar. Pan ailagorodd yr ysgol ar ôl COVID, roedd popeth yn wahanol iawn. Ac roeddwn i wir yn teimlo'r newid, ond nid oedd yn ymddangos fel pe bai unrhyw un arall yn teimlo hynny. Ac nid oedd neb oedd wir yn deall nac eisiau helpu gyda sut roeddwn yn teimlo. Felly, fe wnes i roi'r gorau i'r ysgol ar ôl COVID ac es i yn ôl dim ond er mwyn sefyll fy arholiadau TGAU. Ac ni chefais addysg yn ystod dwy flynedd olaf yr ysgol uwchradd.

O ganlyniad, roedd rhai pobl ifanc yn optio allan o'r ysgol drwy driwantiaeth ac roedd llond llaw o'r rhai a gafodd eu cyfweld gennym yn derbyn addysg yn y cartref. Roedd gan y rhai a oedd yn derbyn addysg yn y cartref brofiadau eithaf gwahanol o addysg (yr ydym yn eu trafod isod), o'i gymharu â'r bobl ifanc eraill a gafodd eu cyfwelwyd. Fodd bynnag, dyma'r eithriadau, yn hytrach na'r rheol, ac roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc a gyfwelwyd gennym yn yr ysgol rhwng 14 ac 16 oed ac yna'n parhau, neu'n bwriadu parhau, â'u haddysg yn y chweched dosbarth neu'r coleg.

Rôl oedolion y gellir ymddiried ynddynt

- 9.10. Gan barhau â'r trosiad o'r afon ddiog, rydym yn cymharu oedolion y gellir ymddiried ynddynt ym mywydau pobl ifanc, fel athrawon, rhieni a chynghorwyr gyrfaoedd, ag "achubwyr bywyd" sy'n helpu i gyfarwyddo a gwneud yn siŵr bod pobl ifanc yn y trobwll hwnnw ar ddiwedd blwyddyn 11, yn mynd i mewn i'r sianel gywir ac yn parhau â'u taith; er enghraifft, disgrifiodd Malik pam ei fod wedi dewis y chweched dosbarth:

Gwnaeth yr ysgol chwarae rhan yn fy mhenderfyniad i aros, wrth gwrs, nid oeddent wedi siarad am golegau eraill. Gwnaethant ddweud mai'r pethau cadarnhaol ynghylch aros yn y chweched dosbarth yw, eich bod yn adnabod yr athrawon yna, rydych yn gwybod sut mae'r ysgol yn cael ei rhedeg. Byddech yn fwy cyfforddus yn y lle rydych eisoes wedi aros ynddo am nifer penodol o flynyddoedd. Felly i'r gwrthwyneb, os byddwch yn mynd i'r coleg, ni fyddwch yn adnabod unrhyw un yno, ac mae'r amgylchedd yn gwbl newydd. Ni fydddech yn cynnal cymaint o gyswllt ag y bydddech efallai gyda'r bobl rydych eisoes wedi meithrin perthynas â nhw.

- 9.11. Yn yr un modd, esboniodd Dominic sut roedd athro wedi ei arwain i'r coleg:

Roedd fy athro a mi bob amser yn cael sgysiau am yr hyn roeddwn yn dda ynddo. Ac awgrymodd fod y coleg bendant yn ddewis gwell i mi na'r chweched dosbarth oherwydd, a bod yn onest, nid oeddwn yn fyfyrwr da yn yr ysgol. Roedd y system yn rhy llym. Mae'n well gen i'r coleg am ei fod yn llawer mwy hamddenol, ac mae'n gwneud mwy o synnwyr i mi. Gallaf ddysgu mewn ffyrdd gwahanol yn y coleg nag y gwnes yn yr ysgol.

- 9.12. Siaradodd sawl person ifanc am ddylanwad eu rhieni dros eu dewisiadau. Er enghraifft, fel y disgrifiodd Rebekkah:

Cefais lawer o help gan fy mam a dylanwadodd ar fy nghyfeiriad, dylanwadu ar y cyfeiriad yr oeddwn am fynd iddo. Helpodd fi i sylweddoli bod mynd i'r coleg yn llawer mwy trugarog, ac y byddai'n llawer mwy defnyddiol i'm hanabledd hefyd oherwydd eu bod yn derbyn yr holl bethau

felly. Ac roeddwn am wneud un cwrs ac un cwrs yn unig. Felly, sylweddolais mai dyna oedd y dewis iawn i mi.

- 9.13. Mewn hanesion rhai pobl ifanc, roedd yn ymddangos bod rôl achubwyr bywyd yn hanfodol. Er enghraifft, fel yr esboniodd Lydia:

Roeddwn am fynd i edrych ar Goleg [enw wedi'i hepgor], wythnos diwethaf, dydd lau rwy'n credu yn syth ar ôl bod yma. A siaradais â llawer o'r staff yno ac roeddent yn neis iawn ac yn dweud y gallent fy nghael ar y rhaglen hon ac mae'n rhaid i ti wneud hyn, a gelli di wneud hyn fel bod modd i ti gael dy dderbyn i'r coleg, oherwydd nid oes gennyf unrhyw gymwysterau TGAU. Ie, dw i ddim yn mynd i gael unrhyw gymwysterau TGAU. Felly, dywedon nhw na, na gallwn ni roi ti drwy hyn a gelli di ennill cymwysterau cyfatebol ac ie, byddi di'n iawn. Ac roeddwn yn diolch i Dduw. Roeddwn i wir dan straen. Ac yna gwnaethom hefyd siarad â'r cynghorydd anghenion arbennig yno hefyd. Ac roedd hi'n gefnogol iawn ac yn neis. A gofynnodd am fy rhif ffôn. A chytunais i hynny. Felly, mae wedi anfon negeseuon testun rheolaidd ataf dros y diwrnodau diwethaf, ydy, sy'n gysur i mi ei bod yn poeni digon fel ei bod yn llenwi fy ffôn â negeseuon.

- 9.14. Fodd bynnag, roedd yna hefyd ddigon o enghreifftiau o bobl ifanc na chawsant unrhyw gyngor nac arweiniad gan achubwyr bywyd. Er enghraifft, fel yr esboniodd Omar:

Wel, i mi yn benodol ar lefel TGAU, fel y dywedais, ni chefais gyfarfod â chynghorydd gyrfaoedd. Ni ddaeth unrhyw athrawon i siarad am fy opsiynau. Ond roedd pawb arall yn cael hynny; roedd pawb arall yn cael pobl yn dod atynt, ond ni ddaeth neb ataf i. A phan es i atyn nhw, roedd yr ymateb yn fwy o 'o ie, fe wnawn ni hynny'. Ond ni chafodd ei wneud. (...) Gwnaeth i mi fod yn fwy ymwybodol, os ydw i'n un o nifer o fyfyrwyr sy'n dod i'r ysgol hon, pwy arall sydd ychydig yn ddryslyd am eu gyrfa, ac eto maent yn rhy ofnus neu'n rhy bryderus i gamu ymlaen a cheisio'r cyngor hwnnw? Gallwn yn hawdd fod wedi allan o'm ffordd i ddweud, edrychwch,

rydw i eisiau ychydig o help. Mae wir angen yr help hwn arnaf, mae'n gyfarfod gyrfa, ond fel y dywedais, nid oeddwn yn poeni gormod oherwydd bod gen i syniad mewn golwg eisoes. Felly, mae'n gwneud mi feddwl am y bobl nad oes ganddynt syniad mewn golwg, ac mae llawer o bobl fel hynny. Beth ddigwyddodd iddyn nhw? Pwy sy'n dod atyn nhw?

- 9.15. Gwnaeth sawl person ifanc hefyd ddisgrifio anawsterau o ran cael mynediad at gymorth. Er enghraifft, mae Gwen yn dweud:

Mae'n anodd iawn i mi oherwydd roedd gennyh, chi'n gwybod, gynghorwyr gyrfaedd nad oeddent byth yn ateb eich negeseuon e-bost neu nid oedd fy ysgol uwchradd yn darparu [cyngor gyrfaedd]. Ac roedd yn anodd cael mynediad at unrhyw beth a chael yr help hwnnw.

- 9.16. Disgrifiodd cyfwelai arall sut roedd newidiadau yn y ffordd y cafodd Busnes Cymru ei gyllido a'i gefnogi yn golygu ei fod yn teimlo eu yn llawer llai hygyrch bellach, gan nad oedd stondinau dros dro bellach mewn safleoedd prifysgol y gallent ymweld â nhw, ac yn lle hynny, roedd yn rhaid iddynt gael mynediad at y gwasanaeth dros y ffôn neu drwy neges e-bost. Adlewyrchodd hyn y gwahaniaethau a ddarganfuom o ran dewisiadau pobl ifanc ynghylch sut i gael mynediad at gymorth ac mae'n dangos y pwynt nad oedd yn well gan bob person ifanc gyswllt ar-lein.

Profiadau o'r coleg

- 9.17. Ar gyfer y bobl ifanc hynny a bontiodd i'r coleg, nodwyd yn aml bod hyn yn anodd ar y dechrau ond eu bod wedi tyfu o ganlyniad i hynny. Er enghraifft, fel yr esboniodd Georgia:

Rwy'n credu ei fod yn bendant wedi bod yn anodd. Byddwn yn dweud celwydd pe bawn yn dweud ei fod yn hawdd. Rwy'n credu fy mod wedi dod yn llawer gwell am reoli gwaith gartref nag oeddwn pan oeddwn yn yr ysgol uwchradd, oherwydd pan ddes i yn ôl o COVID yn yr ysgol uwchradd, roedd fel ceisio chwarae gêm o ddal i fyny drwy'r amser. Pan fyddwch yn dod i'r coleg mae'n fath o lechen ffres, a does dim rhaid i mi

boeni am yr hyn a ddigwyddodd yn ystod COVID oherwydd nid yw'n effeithio arno nawr, oherwydd nid wyf wedi colli unrhyw un o'm gwersi coleg oherwydd rhywbeth.

- 9.18. Yn yr un modd, pan ofynnwyd, o'i gymharu â'r ysgol, 'pa mor wahanol oedd amgylchedd y coleg i chi?' dywedodd Rhiannon wrthym:

[Maen nhw] yn ein trin ni fel oedolion. Roedd yr ysgol yn honni ei bod yn ein trin ni fel oedolion, ond mewn gwirionedd, jyst, fel, byddent yn ein trin ni fel pe baem yn yr ysgol gynradd.

- 9.19. Disgrifiodd rhai pobl ifanc sut y rhoddodd y lleoliad newydd gyfleoedd newydd i bobl ifanc a oedd yn eu galluogi i gryfhau eu galluoedd drwy ddysgu sgiliau newydd (gan gynnwys hunanhyder), a thrwy hynny gryfhau eu gallu i lywio'r cyfnod pontio nesaf ar ddiwedd blwyddyn 13 yn fwy llwyddiannus. Er enghraifft, dywedodd Catherine:

Rwy'n meddwl yn bendant, eich yn cael eich trin mwy fel oedolyn [yn y coleg]. Nid ydych yn adnabod unrhyw un yno. Felly, rhaid i chi ddysgu sgiliau newydd fel cwrdd â phobl newydd.

- 9.20. Roedd hanesion pobl ifanc am gymorth yn y coleg yn gymysg. Roedd y mwyafrif, fel adroddiad Adrian (a drafodwyd ym mharagraff 9.4), yn gadarnhaol, gan ddisgrifio sut roedd y cymorth yn y coleg wedi bod yn 'ddibynadwy iawn ac yn fedrus iawn' ac felly'n 'ddefnyddiol iawn' o ran eu helpu i bontio o'r ysgol i'r coleg. Fel yr amlinellir yn Adran 5, mae hyn yn gyson yn fras â thystiolaeth arall. Er enghraifft: fel y disgrifiodd Francesca sydd mewn darpariaeth AB: 'Mae yna berson llesiant yno felly os ydw i'n cael fy llethu neu rwy'n cael diwrnod gwael gallaf fynd i'w swyddfa a siarad â hi am y peth'. Serch hynny, roedd yna hefyd rai a nododd brofiadau negyddol; er enghraifft, fel yr esboniodd Eleri:

Roedd y cymorth, yn enwedig gyda'r coleg, os nad oeddech yn gwneud yn dda iawn neu, os oeddech i mewn iddo. Os oeddech yn gwneud yn

dda iawn, ni fyddent yn rhoi cymorth i chi. Ond os oeddech yn gwneud yn wael iawn, byddent yn rhoi cymorth i chi. Felly, pobl a oedd yn iawn, ond yr oedd angen y gwthio ychwanegol hwnnw arnynt nid oeddent wir yn cael y cymorth hwnnw. Ac yn enwedig gyda fy nghwrs gofal anifeiliaid, roedd hynny'n wir i mi oherwydd nid oeddwn yn gwneud yn anhygoel, ond nid oeddwn yn wael iawn. Nid chefais lawer o sesiynau dal i fyny, sesiynau sgwrsio gyda'r tiwtoriaid ac ati.

- 9.21. Disgrifiodd un person ifanc hefyd yr hyn yr oeddent yn ei ddisgrifio fel profiadau 'trawmatig' o leoliadau gwaith (fel rhan o'u cwrs coleg), lle nad oedd llawer o gymorth gan staff y coleg (gan eu bod ar leoliad gyda busnes, yn hytrach nag yn y coleg).

Cymorth i bobl ifanc sy'n wynebu anawsterau ar ôl pontio yn 16 oed

- 9.22. Fel yr amlinellwyd uchod, er bod y rhan fwyaf o bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed yn mynd i sianel y coleg neu'r chweched dosbarth yn yr ysgol, bydd rhai pobl ifanc yn cael anhawster neu'n wynebu trafferthion. O ystyried y cymorth mewn lleoliadau addysg a darparwyr hyfforddiant, mae siawns dda y bydd achubwr bywyd yn nodi hyn ac yn estyn allan i'w helpu. Os ydynt yn ffodus, gall yr achubwr bywyd hwnnw eu helpu i ddal ati, neu hyd yn oed newid sianeli, felly hyd yn oed os nad ydynt yn nofiwr cryf, gallant ddal ati. Er enghraifft, fel y disgrifiodd Jack:

Roedd y diwrnod cyntaf [yn y coleg] yn anodd oherwydd, wyddoch chi, nid wyf yn ffan mawr o newid. A, wyddoch chi, roeddwn i'n mynd i mewn i'r hyn a oedd yn teimlo fel byd hollol newydd. Ac, wyddoch chi, nid oeddwn yn adnabod unrhyw un. Nid oeddwn wir yn cyd-dynnu ag unrhyw un yn yr ysgol. Felly, fe wnes i dorri cysylltiad â nhw i gyd ar ôl yr ysgol. Felly, roeddwn yn mynd i'r coleg yn ddall. Nid oeddwn yn adnabod unrhyw un, nid oeddwn yn gwybod beth oeddwn yn ei wneud. Ac roeddwn yn teimlo llawer mwy o gysur a chroeso oherwydd y cymorth. A hebdo, dwi ddim yn meddwl y byddwn wedi para yno'n hir iawn. Ie, rwy'n teimlo fel pe bawn i wedi derbyn yr help yn fy mlwyddyn gyntaf. Yn yr ail flwyddyn, roeddwn yn ymdopi ychydig yn well, felly fe wnes i roi'r gorau i gael mynediad i'r

help mor aml. A nawr rydw i yn fy nhrydedd flwyddyn. Rwy'n cael trafferth cael mynediad i'r help eto oherwydd fy mod wedi cefnu arno ac rwy'n cael trafferth mynd yn ôl i mewn oherwydd fy mod wedi ei gael o'r blaen. Felly, rwy'n cael trafferth cael mynediad i'r help eto nawr.

- 9.23. Serch hynny, fel y mae'r enghraifft uchod hefyd yn dangos, hyd yn oed gyda chymorth, bydd rhai pobl ifanc yn cael trafferth. I rai, hyd yn oed gyda chymorth yr achubwr bywyd, efallai y byddant yn gadael a dod yn NEET. Esboniodd Max, person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, sut digwyddodd hyn iddo:

Fe wnes i flwyddyn yn y coleg ond ar ôl hynny fe wnes i roi'r gorau iddo a mynd i wneud pethau eraill.

[Cyfwelydd yn gofyn: Beth nad oedd yn addas i chi gyda'r coleg?]

Roedd yn addas i mi, ond at ei gilydd roedd yn amser braidd yn anodd oherwydd roedd popeth yn newid drwy'r amser gyda gofal a phethau eraill. Symudais i ffwrdd o ble roeddwn yn byw i fynd i fyw gyda fy nhad.

Nofio gyda'r cerrynt ac yn erbyn y cerrynt

- 9.24. Oherwydd eu bod yn cael eu cario gan y cerrynt, nid oedd angen i bobl ifanc a gafodd eu cyfweld gennym a oedd yn fodlon mynd gyda'r llif ar ddiwedd blwyddyn 11 fod yn nofwyr cryf. Er enghraifft, disgrifiodd Emily pam ei fod wedi dewis y chweched dosbarth:

Rwy'n teimlo y byddaf yn cael mwy o gymorth [yn y chweched dosbarth] oherwydd rwy'n adnabod yr holl athrawon. Bydd gen i ffrindiau felly mae gen i bobl yno rydw i'n eu hadnabod eisoes, felly does dim rhaid i mi boeni am fynd i le newydd ac addasu i'r lle hwnnw.

- 9.25. Fodd bynnag, roedd cryfder y cerrynt yr oedd pobl ifanc ynddo a'r cyfarwyddyd (cyngor ac arweiniad) gan achubwyr bywyd yn golygu bod pobl ifanc nad oeddent eisiau derbyn y dewis diofyn, ac yn hytrach eisiau gwneud dewis gweithredol, yn gorfod nofio yn erbyn y cerrynt ac o bosibl herio'r

achubwyr bywyd. I wneud hyn (neu gyflawni'r ymddygiad hwn, a gwneud pontio gwahanol) roedd angen y canlynol arnynt:

- y cymhelliant i wneud hyn;
- y gallu i wneud hyn (yn ein trosiad roedd angen y cryfder arnynt i nofio yn erbyn y llif a/neu'r hyder i herio'r achubwyr bywyd); a
- y cyfle i wneud hyn; er enghraifft, roedd angen iddynt beidio â cholli dechrau cwrs (neu, yn ein trosiad, i beidio â darganfod bod y sianel yr oeddent am nofio ynddi bellach ar gau).

9.26. Fel y disgrifiodd Helen, wrth ystyried y dewis rhwng y chweched dosbarth a'r coleg, yr oeddent yn teimlo y byddai'n fwy addas iddynt yn academiaidd:

Mynd i'r coleg, nid oes unrhyw un o'm ffrindiau agos yn mynd i'r coleg felly ni fyddwn, wyddoch chi, yn symud i fyny gyda nhw, byddent yn aros yn y chweched dosbarth. (...) Felly, mae ychydig yn frawychus, ni fyddwn yn adnabod unrhyw un yn y coleg, a byddwn yn symud i fyny ar fy mhen fy hun.

9.27. Mewn cyferbyniad, roedd y dewis yn haws i'r rhai a aeth i'r coleg gyda ffrindiau. Er enghraifft, fel y disgrifiodd Josh: 'Pan mae gennych ffrindiau, nid yw fel amgylchedd newydd' ac fel y dywedodd person ifanc arall, Samir:

Nid yw pontio o'r ysgol i'r coleg mor anodd â hynny oherwydd bod y rhan fwyaf o'r bobl yn fy ngholeg o'r ysgol roeddwn yn arfer mynd iddi, mae'n braf. Felly, mae gen i ffrindiau o hyd.

9.28. Dim ond llond llaw o'r bobl ifanc a gyfwelwyd gennym oedd wedi nofio yn erbyn y cerrynt a/neu herio cyngor achubwyr bywyd. Roedd More wedi ei ystyried, ond fel y mae adroddiad Malik yn dangos, nid oeddent wedi teimlo'n ddigon galluog a/neu nid oedd ganddynt ddigon o gymhelliant i wneud hynny ar y pryd:

Felly, o ran prentisiaethau, wrth gwrs fe wnaeth [yr ymgynghorydd gyrfaoedd] yr opsiwn ar gael i ni. Fodd bynnag, rwy'n adnabod llawer o bobl, gan gynnwys fy hun, efallai ar y pryd a oedd yn credu ei fod yn rhwystr eithaf uchel i fynediad, math o lwybr. Felly yn feddyliol byddech yn meddwl nad oes pwynt hyd yn oed yn rhoi cynnig arni oherwydd byddech yn gwastraffu eich amser a'ch ymdrech.

- 9.29. O ganlyniad, weithiau roedd pobl ifanc yn edrych yn ôl gydag edifeirwch ar y sianeli nad oeddent wedi'u cymryd. Er enghraifft, esboniodd Tyler:

Ar y pryd nid oeddwn yn meddwl y gallwn fynd i gyflogaeth, felly dewisais y cwrs cyntaf a ddaliodd fy llygad.

[Cyfwelydd yn gofyn, a ydych yn edrych yn ôl nawr ac yn meddwl pe baech yn gwybod y gallech fod wedi mynd yn syth i gyflogaeth a fydddech wedi gwneud hynny yn hytrach na mynd i'r coleg?]

Byddwn, yn sicr.

Mynd i'r sianel anghywir

- 9.30. Fel yr amlinellwyd uchod, roedd rhai pobl ifanc yn teimlo eu bod wedi cymryd y sianel anghywir yn 16 oed, neu nad oedd pethau wedi gweithio allan fel yr oeddent yn ei ddisgwyl ac roeddent bellach yn bryderus ac yn ansicr ynghylch beth i'w wneud nesaf. Er enghraifft, fel yr esboniodd Josh:

Nid wyf yn gwybod beth i'w wneud, mewn gwirionedd. Ymunais â'r cwrs dim ond oherwydd fy mod yn gwybod y gallwn gael y lleoliad. Felly nawr rydw i heb leoliad. Nid wyf yn gwybod a fyddaf yn aros ar y cwrs ai peidio. Ie, ond os na fyddaf, ni fydd gennyf unrhyw incwm eto, ac nid yw hynny'n wych oherwydd fy mod yn cael trafferth dod o hyd i arian ar hyn o bryd. A, wyddoch chi, maen nhw wedi fy ngadael mewn lle gwael.

Drifftio allan o addysg

- 9.31. Fel yr amlinellwyd uchod, er bod y rhan fwyaf o bobl ifanc yn cael eu cario gan y cerrynt i'r chweched dosbarth neu'r coleg, roedd niferoedd bach yn drifftio allan o'r prif gerrynt ac yn gadael addysg ar ddiwedd blwyddyn 11. Dywed Ffion:

Nid oeddwn yn ddrwg yn yr ysgol, ond oherwydd nad oeddwn yn mwynhau'r ysgol, roeddwn yn meddwl y byddwn yn union yr un peth yn y coleg. Felly, roeddwn yn meddwl y byddai'n well gen i jyst... Ac nid oedd unrhyw beth yn y coleg o ddiddordeb i mi ar wahân i, yn amlwg, gofal anifeiliaid. Felly, roeddwn yn meddwl nid wyf wir eisiau dechrau gwneud rhywbeth yn y coleg pan nad yw o ddiddordeb i mi o gwbl yna i'r canlyniad fod fel, nid wyf am wneud hyn beth bynnag. Ie, roeddwn jyst eisiau dechrau gwaith, ennill ychydig o arian i mi fy hun ac yna gweld ble mae'r llwybr hwnnw'n fy arwain. Fel, yn amlwg gyda gofal anifeiliaid, rydw i wedi ceisio gwneud cais, neu fe wnes i hefyd gais gyda [enw'r gweithiwr ieuenctid wedi'i hepgor], i fod yn nani hefyd. Felly, rydw i wedi ceisio gwneud gofal anifeiliaid, ond gyda'r ysgol roeddwn yn teimlo fel bod gennym berson Gyrfa Cymru yn yr ysgol hefyd, ac roedd yn ein helpu i wneud cais am y coleg, bla bla bla. A siaradodd â ni ychydig o weithiau am y peth, ond roedd yn bennaf am eich opsiynau ar gyfer y coleg, beth allwch chi ei wneud. A dywedais wrthi, dwi ddim yn meddwl fy mod i'n mynd i wneud cais amdano oherwydd nid oes unrhyw beth o ddiddordeb i mi.

- 9.32. Ymddengys fod ymddieithrio o'r ysgol yn cynyddu'r risgiau y bydd pobl ifanc yn mynd ar goll ac yn drifftio. Er enghraifft, fel y disgrifiodd Jack:

Gwnaethom siarad â rhywun o Gyrfa Cymru unwaith tua mis neu ddau cyn i'r TGAU ddechrau. Ond hyd at hynny, nid oeddwn hyd yn oed yn gwybod ei fod yn bodoli. Felly, nid oedd gennyf gynllun. Nid oedd gennyf syniad beth oeddwn yn ei wneud. Nid oeddwn yn mynd i'r ysgol. Ie, roeddwn i jyst ar goll yn llwyr, mewn gwirionedd.

- 9.33. Cafodd rhai o'r bobl ifanc a gyfwelwyd a oedd wedi ymddieithrio o addysg yn 16 oed eu denu yn ôl i addysg gyda (yr hyn a oedd yn ymddangos fel) cymorth y Fframwaith. Er enghraifft, fel yr esboniodd Megan:

Felly, rwy'n meddwl fy mod i, rwy'n meddwl pan ddes i allan o'r system ysgol, rwy'n credu bod fy enw, mewn ffordd, jyst wedi mynd i ryw gofnodion. Felly, rhaid bod ganddynt fynediad at fy manylion yn y ffordd honno, ac, rwy'n credu eu bod yn cefnogi o 16 i 25 ped, felly, ie, daethant at fy nrws. Rwy'n meddwl fy mod i, pa mor hen oeddwn i? 17, 18, dwi'n meddwl. Felly, ie. Felly, fe wnaethon nhw ofyn, wyddoch chi, gallwn ddarparu cymorth os oes unrhyw beth rydych chi ei eisiau, unrhyw beth sydd ei angen arnoch. Ac roeddwn yn demtasiwn mawr i mi ddweud na. Chi'n gwybod, roeddwn i wedi bod yn un oedd yn hoff o'i chartref, rhywun nad oedd yn gadael y tŷ llawer mewn gwirionedd. Mae hynny ychydig yn drist, mewn gwirionedd. Felly, roeddwn yn demtasiwn mawr dweud na, ond yna roeddwn i fel, mae rhywbeth ynof fi sydd wedi cael llond bol o hyn, rydw i eisiau gwneud rhywbeth. Felly, dywedais, iawn. A gwnaethom ddechrau cwrdd yn wythnosol yn y llyfrgell leol, fi a fy ngweithiwr. Ac weithiau byddem yn mynd am dro bach, cael sgwrs am bethau fel iechyd meddwl, pethau fel dyheadau. Gwnaed rhywfaint o waith papur, ond, fel, efallai siarad am, fel, fy nodau, lle rydw i arni mewn gwahanol ffyrdd, fel iechyd meddwl, [sut] mae pethau o safbwynt iechyd meddwl, sut mae pethau o ran addysg, pethau fel hynny. Ac rwy'n cofio ei fod wedi dweud llawer wrthyf am y pum ffordd at lesiant. Felly, byddai hynny, ie. Felly roedd hynny'n eithaf da, mewn gwirionedd. Ac, roedd bob amser yn cynnig os oeddent yn gwneud gweithgareddau a phethau. Aethom i ddringo creigiau. Fe wnaethon ni brosiect celf bach. Felly, llwyddais i gwrdd â chwpl o bobl, hefyd. Ac roedd yn braf gallu jyst, cael rhywbeth i'w hoffi, ei wneud a rhoi cynnig ar wahanol bethau. Ie, rwy'n credu ein bod ni wedi beicio hefyd. Roedd hynny'n hwyl. Beicio mynydd. Felly, ie, roedd yn gymorth braf iawn. Ac fe wnaeth fy helpu i gysylltu â'r coleg. Helpodd fi, fel, chwilio am gwrs. Felly, edrychodd o gwmpas am beth oedd ar gael yn y coleg lleol a sut y gallwn gael fy TGAU. Ie. Do, gwnaeth lawer i roi cymorth i mi. Roedd yn dda iawn, mewn gwirionedd.

9.34. Mae Megan yn mynd ymlaen i esbonio:

Cefais gnoc ar y drws gan leuenctid Gwynedd. Felly mae hynny fel sefydliad, wyddoch chi, yn fy sir i, sy'n cadw llygad ar bobl, pobl ifanc sydd efallai yn cael trafferth gydag addysg, allan o addysg, y mathau hynny o bethau. Felly, roeddwn yn cael ychydig o gymorth ganddyn nhw, chi'n gwybod, cael sgysiau gyda nhw, efallai mynd allan ar deithiau diwrnod bach a phethau. Ac fe wnes i sôn sut, wyddoch chi, roeddwn yn derbyn addysg gartref, ac nid oeddwn wedi cael unrhyw gymwysterau neu TGAU. Felly, soniais fy mod i o leiaf eisiau cael fy Saesneg a mathemateg. Ac awgrymodd fy ngweithiwr ar y pryd y dylwn fynd i'r coleg oherwydd lle rwy'n byw, nid oes gennym unrhyw chweched dosbarth mewn ysgolion. Rhaid i chi fynd i'r coleg ar gyfer unrhyw addysg 16 oed a throsodd. Felly, argymhellodd wneud blwyddyn yn y coleg. Felly, fe wnes i wneud cwrs, cwrs cynalwedigaethol. Roedd yn un eithaf syml. Maen nhw'n gadael i chi roi cynnig ar bynciau gwahanol. Lefel un. Ac ie, fe wnes i ddefnyddio'r math hwnnw o beth i ailaddasu fy hun yn ôl i addysg. Ailaddasu, wyddoch chi, bod yn fwy egnïol ar ôl bod yn sâl am gymaint o amser. Ac yna cefais fy TGAU Saesneg a Mathemateg. Felly, fe wnes i flwyddyn o hynny. Ac yna ar ôl hynny roeddwn i eisiau astudio'r peth rydw i'n ei wneud, sef cerddoriaeth. Felly, rydw i wedi gwneud cwrs lefel tri, am yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Felly, ie, symudais o hynny i'r hyn rydw i'n ei wneud nawr, sef cerddoriaeth.

Pobl ifanc sydd â chyfrifoldebau gofalu

Amcangyfrifir bod gan oddeutu un o bob pump o bobl ifanc gyfrifoldebau gofalu* ac amlygwyd hyn fel ffactor risg sy'n gysylltiedig â bod yn NEET, yn enwedig i famau ifanc, mewn llawer o'r astudiaethau a gynhwyswyd yn yr [Adolygiadau Cyflym o'r Dystiolaeth o feddwl ac ymddygiad pobl ifanc](#). Mae rhai pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed hefyd yn gofalu am ffrind neu aelod o'r teulu sydd â salwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu gaethiwed.

Mae ymchwil yn nodi bod gan ofalwyr ifanc risg uwch o ganlyniadau gwael, gan gynnwys bod yn NEET a phrofi problemau iechyd meddwl eu hunain. O ganlyniad, efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt i gael mynediad at gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ôl-16 a gwneud cynnydd ynddynt (Ymddiriedolaeth Gofalwyr, 2024; Ymddiriedolaeth Gofalwyr a NIACE, 2015; UCAS, 2024). Yn anffodus, fel yr amlinellir yn Adran 3, roedd pobl ifanc â chyfrifoldebau gofalu yn un o'r grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli yn ein sampl, ac felly efallai y bydd eu profiadau penodol o bontio a cheisio cymorth hefyd yn cael eu tangynrychioli.

Fel yr amlinellir yn Adran 4, bu gostyngiad parhaus yn nifer y menywod ifanc sy'n economaidd anweithgar oherwydd cyfrifoldebau gofalu. Mae ymchwil yn awgrymu bod y tebygolrwydd o fod yn fam ifanc yn croestorri â lefelau addysg. Mae menywod ifanc rhwng 16 a 24 oed gyda lefelau is o addysg, yn fwy tebygol o ddechrau teulu yn iau, na menywod ifanc rhwng 16 a 24 oed sydd â lefelau uwch o addysg. Felly, mae menywod ifanc rhwng 16 a 24 oed â lefelau is o addysg, yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar am gyfnod o amser pan fyddant yn gofalu am blant ifanc, o'i gymharu â menywod ifanc rhwng 16 a 24 oed sydd â lefelau uwch o addysg (Holmes et al., 2021). Mae dadansoddiad o ddata Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth a'r Arolwg o'r Llafurlu yn awgrymu nad yw'r mwyafrif o rieni economaidd anweithgar (o bob oedran) eisiau gweithio. Fodd bynnag, i'r rhai sydd am ailymgysylltu ag EET, gall cyfrifoldebau gofal plant eu dal yn ôl a gall cymorth i'w helpu i nodi sut i drefnu gofal plant anffurfiol a/neu ffurfiol (â thâl) eu helpu i ailymgysylltu (Llywodraeth Cymru, 2023g).

* Mae hyn yn seiliedig ar ddata Arolwg Cenedlaethol Cymru sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, a drafodwyd yn Llywodraeth Cymru (2024o).

Profiadau o addysg yn y cartref

- 9.35. Roedd y bobl ifanc hynny y buom yn siarad â nhw a dderbyniodd addysg yn y cartref yn ymddangos eu bod mewn perygl arbennig o adael addysg yn 16 oed. Roeddent y tu allan i'r prif sianeli (a drafodwyd uchod), ac, fel y disgrifiodd Megan, gallai ceisio mynd yn ôl i'r sianel yr oedd y rhan fwyaf o bobl ifanc ynddi (yr ysgol neu'r coleg) fod yn anodd iawn:

Cefais fy addysg yn y cartref drwy gydol fy mlynyddoedd ysgol uwchradd ac, ar y pryd, pan oeddwn tua 16 oed, sef pan fydd y rhan fwyaf o bobl, wyddoch chi, yn gorffen yn yr ysgol, yn mynd i addysg bellach, roeddwn wedi mynd yn eithaf sâl. Felly, ni wnes i unrhyw beth mewn gwirionedd ar yr adeg honno. Felly, ie, am tua dwy flynedd, roeddwn yn sâl iawn, iawn. Ac nid oeddwn yn siŵr beth i'w wneud. Nid oeddwn yn gwybod llawer am addysg bellach, a bod yn onest. Rwy'n byw mewn ardal eithaf gwledig, felly, wyddoch chi, mae gwybodaeth ychydig yn brin, yn enwedig os nad ydych yn y system ysgol.

- 9.36. Aeth ymlaen i ddweud:

Roeddwn yn chwilio'r rhynggrwyd ac yn gofyn beth ydw i'n mynd i'w wneud? Roeddwn yn darllen fforymau rhieni, ar addysg yn y cartref a sut gwnaethant gael eu harholiadau? Ac ni ymddangosodd y coleg am ryw reswm. Nid wyf yn gwybod os oeddwn yn ddrwg am chwilio, ond ie, rwy'n dymuno bod yna, oherwydd pan fyddwch gartref, fel yr oeddwn i ac, a bod yn onest, nid yw fy rhieni'n gyfoes iawn ynghylch pethau, ac nid nhw yw'r mwyaf... Rwy'n credu pan ges i fy nghymryd allan o'r ysgol, roeddwn yn blentyn myfyrgar iawn. Felly, roedd fel, ie, gadewch hon i wneud ei pheth ei hun. Ie, cefais fy ngadael ar fy mhen fy hun mewn ffordd a, wyddoch chi, nid oedd hynny'n syniad gwych. Ie. Ac mae gen i bedwar o frodyr a chwiorydd iau. Felly, maent yn rhy brysur yn ceisio gofalu amdanynt. Felly, wyddoch chi, roeddwn yn cael fy ngadael ar fy mhen fy hun, mewn gwirionedd. Felly, nid oeddwn yn gwybod sut mae'r byd yn gweithio. Nid wyf yn gwybod sut mae unrhyw beth yn gweithio. Sut ydw i'n gwneud unrhyw beth? Felly ie, ni allaf. Ie, efallai. Efallai pe bai gennym lythyrâu

neu rywbeth drwy'r drws. Nid wyf yn gwybod, ond, ond, wyddoch chi, nid yw pobl fod i adael addysg a ddim yn gwybod unrhyw beth. Felly, wyddoch chi, nid dyma sut mae'r ardal hon wedi'i hadeiladu. Mae pobl yn mynd i'r ysgol, maent yn mynd i'r coleg, ac rydych yn gwybod amdano. Ond i rywun fel fi a gafodd fy nhynnu allan o'r cyfan mewn ffordd, nid wyf yn gallu, nid oes gennyf ffordd o ddod o hyd i bethau.

Pontio ar ddiwedd blwyddyn 13

9.37. Ar ddiwedd blwyddyn 13, mae'r cerrynt trosiadol yn dechrau cyflymu, ac mae pobl ifanc yn canfod eu hunain mewn trobwll llawer cyflymach, gyda llawer mwy o allanfeydd neu sianeli y gallant eu cymryd. I rai, bydd y cerrynt (neu'r llif) yn dal i'w cario ymlaen, ac efallai y byddant, er enghraifft, yn mynd i'r brifysgol, ynghyd â'u ffrindiau, mewn gwirionedd fel yr opsiwn diodyn. Fodd bynnag, bydd eraill yn cael eu dal yn y trobwll ac yn cael eu gorfodi i wneud dewis gweithredol. Fel o'r blaen, i wneud dewis gweithredol, mae angen y canlynol arnynt:

- y cymhelliant;
- y galluogrwydd, y cryfder i nofio yn erbyn y llif a dianc o'r trobwll; a
- y cyfle, er enghraifft, efallai y bydd angen iddynt allu teithio, a chael y modd i wneud hynny (neu yn ein trosiad, i allu cyrraedd y sianel y maent am nofio i lawr iddi).

9.38. Oherwydd bod y cerrynt yn gryfach ac yn fwy anrhagweladwy ar y cam hwn o'r afon (yn yr ystyr nad yw bellach yn cario'r rhan fwyaf o bobl ifanc i'r chweched dosbarth neu'r coleg), mae angen i bobl ifanc arfer mwy o alluogedd ar y pwynt hwn. Yn ein trosiad mae angen iddynt bellach fod yn nofwyr cryfach, gan na allant ddibynnu ar gael eu cario gan y cerrynt. Felly, bydd unrhyw ffactorau sy'n cyfyngu ar eu galluoedd, fel y rhai sy'n ymwneud â phroblemau iechyd meddwl, sgiliau llythrennedd a rhifedd gwael, neu ADY, yn cael mwy o effaith nag y gwnaethant o'r blaen. Er enghraifft, fel y disgrifiodd Eleri:

Yn ystod y blynyddoedd ysgol, cefais gryn drafferthion gyda fy iechyd meddwl, ac felly cafodd hynny effaith fawr ar fy TGAU, ac yna roeddwn i'n

cael trafferth cael cymwysterau a graddau. Roedd angen i mi symud ymlaen, mewn gwirionedd. Gadawais yr ysgol ar ôl blwyddyn 11, ac roedd fy rhieni yn dweud wrthyf i fynd i'r coleg i geisio cael crefft y tu ôl i mi neu i wneud rhywbeth roeddwn i eisiau ei wneud. Felly, dechreuais fynd i [enw'r coleg wedi'i hepgor] ac astudio gofal anifeiliaid oherwydd roeddwn i eisiau bod yn nyrs filfeddygol. Ie. Ond wedyn siaradais fy hun allan o hynny mewn ffordd, gan feddwl na fyddwn i'n ddigon da i symud ymlaen at hynny. Felly, yna es i ac ennill cymhwyster therapi harddwch ac ewinedd. Ac yna meddyliais lawer am y peth, ac roeddwn i fel, rydw i'n mynd i fynd i'r brifysgol, ceisio cael cymwysterau ar gyfer gyrfa. A chefais le ar gwrs plismona. Fe wnes i adael y cwrs wedyn oherwydd fy mod yn cael llawer o drafferthion gyda fy iechyd meddwl.

Rôl achubwyr bywyd wrth gefnogi'r rhai rhwng 19 a 24 oed

- 9.39. Fel oedolion, bydd disgwyl i'r rhai rhwng 19 a 24 oed arfer mwy o annibyniaeth a galluedd. Yn anochel, bydd rhai pobl ifanc yn cael trafferth ar y pwynt hwn, i bontio o addysg neu hyfforddiant i gyflogaeth oherwydd eu bod yn:
- cael trafferth dewis pa sianel i'w chymryd;
 - dewis, ond canfod eu hunain yn y sianel anghywir ac ymdrechu i nofio yn erbyn y cerrynt; a/neu
 - drifftio allan o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant a dod yn NEET.
- 9.40. Fel yr amlinellir yn Adran 5, mae achubwyr bywyd i helpu'r rhai sy'n mynd i drafferthion, fel gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr a gwasanaethau cymorth fel TSC+, ac mae'r Warrant yn ceisio cryfhau'r rhwydwaith cymorth hwn.
- 9.41. Croesawodd rhai pobl ifanc a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth hon gynigion gweithredol o gymorth. Er enghraifft, fel yr esboniodd Daniel:

Un o'r pethau gwyf am y brifysgol pan ddaw at y cyfnod hwnnw, nid oes angen i chi hyd yn oed chwilio am gymorth. Byddant yn dod atoch chi gan roi cymorth i chi heb i chi hyd yn oed orfod mynd atynt. Ie. Pan ddaw i

gyflogadwyedd ac ati, fel ychydig cyn i chi raddio, byddant yn anfon neges e-bost atoch neu byddant yn gofyn. Byddant yn gofyn i chi ddod am gyfarfod i weld a hoffech ddod o hyd i swydd neu os ydych yn iawn gyda dod o hyd i swydd eich hun.

- 9.42. Fodd bynnag, gyda phobl ifanc 19 oed a throsodd, yn gyffredinol mae mwy o ddisgwyliad y bydd y bobl ifanc yn gofyn am gymorth os oes ei angen arnynt, ac mae rhai pobl ifanc yn cael trafferth gwneud hynny. Er enghraifft, fel yr esboniodd Omar:

Nid wyf yn meddwl bod yr annibyniaeth hon yn well oherwydd mae bod llawer o bobl sy'n casáu'r syniad o fynd at rywun am help. Ac mae hynny'n fwy na ..., mae hynny'n eithaf rhesymol. Wyddoch chi, mae gan bobl eu pryderon eu hunain a phob math o bethau, ond nid yw'n deg i bobl sydd yn y math hwnnw o sefyllfa lle maent yn teimlo dan bwysau i ofyn am help. (...) Byddai'n gweithio llawer gwell pe bai'r athrawon yn dod allan o'u ffordd i wirio eu myfyrwyr a bod fel, edrychwch, wyddoch chi, pam nad ydym yn trefnu cyfarfod? Gallem gael sgwrs fach, trafodaeth fel oedolion, nid fel myfyriwr i athro, ond fel oedolion. A gallem siarad am eich dyfodol a'ch amser yma, wyddoch chi.

- 9.43. Disgrifiodd Sian sut oherwydd eu bod wedi bod yn amharod i ddatgelu eu trafferthion i ddechrau, nid oeddent wedi cael cymorth - a dim ond pan wnaethon nhw hynny, y cawsant y cymorth yr oedd ei angen arnynt i lwyddo. Fel y disgrifiwyd ganddynt:

Roedd y coleg yn dda iawn pan wnaethon nhw ddarganfod, oherwydd roeddwn yn ceisio cuddio fy mhroblemau yn y dechrau oherwydd roeddwn i fel, 'O, nid yw'n ddim byd'. Ac ers hynny rydw i wedi dysgu fy mod yn dda iawn am ddweud, 'O, mae'n iawn' pan mae'r byd ar dân mewn gwirionedd, ac fe gyrhaeddodd y pwynt lle nad oeddwn yn gallu ei guddio mwyach a daeth yn glir iawn, ac roedd y brifysgol a'r coleg yn wych. (...) Roeddent yn gefnogol iawn (...) [a] chefais gymorth dysgu, os, er enghraifft, nad oeddwn yn gallu bod yno oherwydd bod gen i apwyntiad

meddygol, roeddent yn hyblyg o gwmpas hynny, ac roedd y coleg yn wych. Pan oeddwn yn agored gyda nhw, mae'r brifysgol yn un wahanol oherwydd yn y brifysgol rwy'n gymwys i gael lwfans myfyrwyr anabl, felly mae hynny'n lleddfu llawer o'r pethau i mi. Fodd bynnag, yn y brifysgol rydych yn cael cymaint o gymorth ag sydd ei angen arnoch, ond rhaid i chi eirioli drosto. Ni allwch orwedd yno a disgwyl iddynt ei roi i chi.¹³⁶

Profiadau o gymorth

- 9.44. Roedd y rhan fwyaf o bobl ifanc sy'n derbyn cymorth cyflogaeth ôl-16 a ddarparwyd fel rhan o'r Warant yn gadarnhaol amdano (fel yr amlinellir, roedd profiadau o ddarpariaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau yn fwy cymysg). Er enghraifft, disgrifiodd Ffion gymorth drwy'r Fframwaith ac yna CfW+:

Dechreuais gyda [enw'r Mentor Cyflogadwyedd Cymunedol wedi'i hepgor], yna Cymunedau am Waith[+]. Ie. Rydym wedi gwneud cwrs addysgu (...) [ond] es i i ysgol am un diwrnod, a sylweddolais nad wyf yn gallu dibynnu ar y swydd hon oherwydd mai dim ond (...) [contract dim oriau ydoedd]. Gwnaeth ddweud wrthyf pryd byddai fy angen arnynt. Ie, efallai na fyddai fy angen arnynt am wythnos gyfan ac yna ni fyddwn yn cael unrhyw beth am yr wythnos gyfan. (...) Felly, pan wnaethom chwilio am rywbeth arall ac edrychwyd ar y GIG. Gweithiais yn y GIG am 12 wythnos heb gael fy nhalu, dim ond profiad. Ac yna ar ôl hynny, sylweddolais nad oedd yn addas i mi oherwydd, nid wyf yn gwybod, yn bennaf roedd yn ymwneud â chodi'r ffôn, ateb, cymryd apwyntiadau. Ac nid wyf yn teimlo bod gennyf yr hyder i wneud hynny, er fy mod yn gwybod y gallwn fod wedi ei wneud... Ie, ond yna fe wnaethon ni roi'r gorau i hynny ac yna es i weld [enw'r Mentor Cyflogadwyedd Cymunedol wedi' hepgor]. Gwnaethom gais am leoedd fel Tesco, Home Bargains, Iceland. A dyna pryd y cefais y swydd, bythefnos yn ddiweddarach yn Home Bargains a dyna lle rydw i nawr.

¹³⁶ Esboniodd hyn oherwydd mai'r person ifanc ac nid y brifysgol sy'n gyfrifol am lwfansau myfyrwyr anabl, a hefyd y costau sy'n gysylltiedig â gwneud cais amdanynt.

9.45. Fel y dywedodd Ffion, roedd ei Mentor Cyflogadwyedd Cymunedol

‘Wir wedi fy helpu (...) ac nid wyf yn credu y byddwn i lle rydw i nawr heb [enw'r Mentor Cyflogadwyedd Cymunedol wedi'i hepgor]. Fe wnaethon ni baratoi fy CV. Fi a [Mentor Cyflogadwyedd Cymunedol] gyda'n gilydd. Es i fyny i [canolfan gyflogaeth] tua 4 neu 5 gwaith, gan wneud cais am wahanol swyddi i wneud yn siŵr fy mod yn gwneud y cais yn iawn. Roedd yn gwneud i mi deimlo'n dda oherwydd roeddwn yn gwybod bod gen i rywun y gallwn ei ffonio a bod yno. (...) Oherwydd fy mod i'n arfer casáu, fel, cyfweliadau, roeddwn i'n arfer casáu, fel, y cyfnod o amser cyn y cyfweliad am swydd. Roeddwn yn arfer casáu hynny i gyd. Ond roeddwn yn teimlo'n iawn yn siarad â [Mentor Cyflogadwyedd Cymunedol] am y peth’.

- 9.46. Mae'r positifrwydd hwn ynglŷn â'r cymorth a gynigir yn gyson â'r adborth gan bobl ifanc a gasglwyd drwy werthusiadau o raglenni fel TSC+ a CfW+ (gweler, er enghraifft, Llywodraeth Cymru 2025e, 2024i). Serch hynny, fel y mae'r gwerthusiadau o'r rhaglenni hyn hefyd yn nodi, nid yw hyn yn rhoi sicrwydd y gallai pobl ifanc ailymgysylltu. Er enghraifft, fel y dywedodd Steven, ‘Mae'n gymorth da ond y broblem yw'r ardal rydw i'n byw ynddi, oherwydd nid oes swyddi ar gael’.

Profiadau'r rhai nad ydynt yn manteisio ar gymorth

- 9.47. Efallai mai'r her fwyaf sylfaenol, fel yr ydym yn trafod isod, oedd nad oedd rhai pobl ifanc yn gwybod at bwy i fynd am gymorth, ac roedd eraill yn ofnus neu'n amheus o'r gwasanaethau cymorth. O ganlyniad, roedd rhai yn drifftio allan o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ac yn mynd adref, gan gilio i'w hystafelloedd gwely (a dod yn NEET). Er y gallent gael cymorth ariannol gan eu rhieni, fel y nododd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru, 'ar ryw bwynt bydd angen iddynt ymuno â'r byd gwaith – a pho hynaf y byddant, yr anoddaf fydd pethau’.

Rhwystrau gwybodaeth

- 9.48. I rai pobl ifanc, roedd yn ymddangos mai eu prif rwystyr oedd peidio â gwybod pa gymorth oedd ar gael (fel yr hyn a gynigir gan Cymru'n Gweithio) a/neu sut i gael mynediad ato. Fel y disgrifiodd Gwen:

Rwy'n credu y dylai fod, dwi ddim yn gwybod os oes yna, yn union fel cynghorwyr gyrfaoedd allan yna, ond byddai'n braf. Hyd yn oed i oedolion ifanc, i gael y cynghorydd gyrfaoedd hwnnw, hyd yn oed os nad ydych yn y brifysgol neu'r coleg neu'r ysgol, byddai'n braf gallu estyn allan at rywun neu rywbeth, hyd yn oed os ydych yn gweithio. Oherwydd rwy'n 20 oed ac nid wyf yn gwybod beth rydw i eisiau bod pan fyddaf yn hŷn.

Diffyg ymddiriedaeth, stigma ac ofn

- 9.49. Roedd diffyg ymddiriedaeth mewn gwasanaethau yn rhwystyr allweddol i rai pobl ifanc. Er enghraifft, pan ofynnwyd, 'a ydych yn gwybod ble fydddech yn dechrau estyn allan am y cymorth hwnnw?' atebodd Lydia, 'CAMHS neu rywbeth mae'n debyg, ac rydw i'n rhan o CAMHS ond nid yn rheolaidd ac nid iechyd meddwl oherwydd nad wyf yn ymddiried ynddynt'.
- 9.50. Roedd diffyg ymddiriedaeth felly yn thema mewn perthynas â chymorth iechyd meddwl ac yn tanseilio hyder rhai pobl ifanc wrth estyn allan am help. Er enghraifft, fel y disgrifiodd Jessica a oedd wedi profi problemau iechyd meddwl:

Cefais amser caled iawn...

[Cyfwelydd yn ymateb, 'ac a oeddech wedi gallu cael help gyda hynny o gwbl?']

Do, cefais gynnig gweld cwnselydd ond, nid oeddwn yn teimlo y gallwn ymddiried ynddi.

- 9.51. Pan ofynnwyd iddi, 'Beth fyddai'n gwella mynediad at gymorth?' awgrymodd person ifanc arall, Sophie, a oedd hefyd wedi profi problemau iechyd meddwl: 'Gwnewch hyn yn fwy personol ac rwy'n credu y byddai hynny wir yn ei wella

oherwydd ei fod yn ymddangos yn eithaf brawychus'. Yn yr un modd, er mewn ffordd fwy llym, esboniodd Lauren:

Rydw i bob amser yn ddihyder iawn beth bynnag. Fel yr wythnos diwethaf, ddydd lau pan oeddwn yn dod yma, nad wyf fel arfer yn ei wneud, cefais fy ngwneud yn fentor ganddynt [cefnogi eraill] oherwydd fy mod yn siaradus iawn. Roeddwn yn [gair rheg am hynod bryderus wedi'i hepgor], er fy mod wedi bod yma yn gyson ers tua blwyddyn bellach. Ie. Roeddwn i dal eisiau chwydu. Os oes unrhyw beth yn newid rydw i eisiau taflu i fyny. Ie. Nid wyf yn gwybod a oes angen i mi fynd i gael therapi neu rywbeth. Mae angen cymorth iechyd meddwl arnaf cyn i mi fynd i unrhyw le.

9.52. Fel y disgrifiodd Sian, er ei bod yn anabl, a bod ganddi hawl i gymorth, roedd yn amharod i fynd i'r Ganolfan Waith am help, gan fod 'rhai aelodau o fy rheulu (...) bob amser yn dweud mai dim ond pobl sy'n segur ac nad ydynt yn poeni ac nad ydynt eisiau gweithio sy'n mynd i'r ganolfan waith'. Eglurodd mai dim ond pan waethygodd ei phroblemau iechyd meddwl y cysylltodd â'r Ganolfan Waith ac yna cafodd ei chofrestru ar gyfer y rhaglen Gwaith ac iechyd, a roddodd help a chymorth ariannol iddi.

9.53. Felly, nid oedd stigma canfyddedig ynghylch chwilio am gymorth, wedi'i gyfyngu i'r bobl ifanc hynny a ddatgelodd anawsterau iechyd meddwl. Nid oedd yn ymddangos bod amharodrwydd i geisio cymorth dim ond yn cael ei ysgogi gan ganfyddiadau o'r stigma a allai fod yn gysylltiedig â hawlio budd-daliadau lles. Er enghraifft, disgrifiodd Sophie sut roedd ei chanfyddiad o'r Ganolfan Byd Gwaith, a oedd yn ymddangos fel pe bai'n cael ei lunio gan drafodaethau cymdeithasol a'i phrofiadau ei hun, yn tanseilio ei chymhellant i gael mynediad at gymorth:

Wel, nid wyf wedi cael llawer o brofiad ohoni, ond, o'r hyn a glywais gan y bobl o'm cwmpas sydd wedi siarad amdani, mae'n ymddangos yn frawychus iawn ceisio dod o hyd i rywun. Ie. Yn enwedig, fel mynd i'r ganolfan waith. Rydw i bob amser wedi bod yn nerfus iawn pryd bynnag rydw i wedi mynd yn gwmni i rywun yno. Mae bob amser wedi bod yn

frawychus iawn. Oherwydd mae'n ymddangos ei fod yn seiliedig ar lawer o waith bapur a busnes yn hytrach na dweud rydym yma ac rydym am eich helpu. Mae'n ymddangos yn llawer mwy fel bod rhywun yn gwneud ei waith yn unig. Maen nhw'n gwrando arnoch oherwydd bod yn rhaid iddyn nhw, nid oherwydd eu bod eisiau.

- 9.54. Mae adroddiad Sophie yn dangos pwysigrwydd, a amlinellir yn Adran 4, deall galluoedd fel 'hunanhyder' mewn cyd-destun a'r ffyrdd y gall fod rhwystrau sefydliadol a chanfyddiadol i gael mynediad at wasanaethau, yn enwedig i rai grwpiau fel menywod o gefndiroedd dosbarth gweithiol: roedd yn teimlo wedi'i dychryn gan amgylchedd busnes y Ganolfan Waith, nad oedd yn gyfarwydd ag ef nac yn gyfforddus ynddo.

Profiadau pobl ifanc niwrowahanol

- 9.55. Roedd rhai o'r bobl ifanc a gyfwelwyd gennym yn nodi eu bod yn niwrowahanol. Mae nifer y bobl ifanc sy'n cael diagnosis o gyflyrau niwroddatblygiadol fel anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd (ADHD) ac awtistiaeth wedi bod yn cynyddu dros y deg i bymtheg mlynedd diwethaf (Llywodraeth Cymru, 2022i, 2019d). Gall y cyflyrau niwroddatblygiadol hyn gyfyngu ar sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu pobl, a gallant, er enghraifft, olygu eu bod yn ei chael yn anoddach llywio newid a chyfnodau pontio. Mae hyn yn debygol o gyfrannu at y cyfraddau uchel o ddiweithdra ymhlith oedolion awtistig, sydd ymhlith yr uchaf o'r holl grwpiau anabl (Llywodraeth y DU, 2024b). Er y gall 'addasiadau rhesymol' helpu i leihau effaith yr amhariadau hyn (a lefel yr anabledd a brofir), mae oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr yn aml yn mynegi ychydig o hyder y byddant yn cael eu gwneud (Llywodraeth Cymru, i ddod). Adroddwyd y diffyg cymorth a/neu addasiadau rhesymol hyn hefyd gan rai o'r bobl ifanc niwrowahanol y buom yn siarad â nhw. Er enghraifft, wrth siarad am geisio dod o hyd i gymorth mewn lleoliad gwaith ar gyfer ei gwrs coleg, dywed Jack:

Rydw i bendant yn meddwl y byddai rhywun â mwy o ddealltwriaeth [yn fy helpu], oherwydd rwy'n teimlo fel petai, wyddoch chi, llawer o'r pethau rydw i'n eu dweud yn syrthio ar glustiau byddar. Felly, byddaf yn dweud

bod angen y cymorth hwn arnaf. Ac yna, byddaf yn mynd ymlaen ac yna yn [y coleg] byddant yn anwybyddu hynny oherwydd nad ydynt yn gallu gwneud unrhyw beth eu hunain yn gorfforol. Mae'n diflannu.

9.56. Mae cyflyrau niwroddatblygiadol yn aml yn cyd-ddigwydd â phroblemau iechyd meddwl a/neu anableddau dysgu (Llywodraeth Cymru, 2022i), gan waethygu'r anawsterau y gall y bobl ifanc hyn eu hwynebu drwy gyfyngu ymhellach ar eu galluogrwydd i bontio. Mae hyn yn cael ei ddangos gan hanes Tyler: 'Mae gen i anabledd meddyliol, rydw i [ar] y sbectrwm ASD ac rydw i wedi cael diagnosis o iselder a phryder, sydd wedi fy atal rhag gwneud cais am rai swyddi'.

9.57. Roedd rhai pobl ifanc mewn lleoliadau lle roedd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud, ond gallai gadael lleoliadau cefnogol fod yn frawychus. Fel y disgrifiodd un person ifanc niwrowahanol, Lauren:

Ar hyn o bryd mae gen i ddiagnosis deuol o ADHD ac awtistiaeth, ac maent yn ymladd ei gilydd cymaint, mae mor anodd cyrraedd pwynt lle rwy'n teimlo fel y gallaf ddysgu ac yna cael yr adnoddau, ac mae'n cymryd llawer mwy allan ohonof nag yr oeddwn yn ei ddisgwyl. Ond rydw i'n gwneud yn well nag yr oeddwn yn yr ysgol. Ac yna yn amlwg rwy'n dod at [enw'r rhaglen ddysgu trydydd sector wedi'i hepgor], a oedd ar gyfer, ar gyfer cymdeithasu a, fel, hyder gwael, fwy neu lai. Ie. Felly, ni chefais ddewis mewn gwirionedd, ond roedd yn fater o rydych chi'n mynd i fynd yma ac mae'n mynd i helpu, gobeithio. Ac os nad yw'n helpu, gallwch adael. Ac fe helpodd. Ac roeddwn yn ei hoffi ormod. A nawr ni allaf adael.

9.58. Yn yr un modd, fel yr esboniodd Sian, person ifanc niwrowahanol arall: 'Roedd cymorth ar gyfer y math yna o beth [cymorth i bobl niwrowahanol yn y brifysgol], ond cyn gynted ag y bydd eich cwrs yn dod i ben, mae'r cymorth yn dod i ben'.

Profiadau pobl ifanc sy'n chwilio am gyflogaeth

- 9.59. Er bod y rhan fwyaf o'r bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed yn canolbwyntio ar addysg neu hyfforddiant, ymhlith y rhai 19 oed a throsodd, roedd llawer mwy yn chwilio am gyflogaeth. Trafodir profiadau'r rhai a ddaeth o hyd i waith isod, ond i'r mwyafrif, roedd yn cael ei ystyried yn anodd, yn enwedig i'r rhai sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Er enghraifft, fel yr esboniodd Steven a Max:

Ni allaf gael unrhyw swyddi y tu allan i'r dref hon oherwydd nid oes gennyf drafnidiaeth i gyrraedd yno, a byddai trafnidiaeth gyhoeddus yn rhy ddrud i mi bob dydd.

Gallwch gael bws, ond ni fydd yn mynd â chi lle rydych am fynd. Mae trenau'n stopio ar amser penodol, mae bysiau'n stopio ar amser penodol. (...) Yn fy marn i, os nad oes gennych gar nid ydych yn mynd i deithio o gwmpas yma.

- 9.60. Canolbwyntiodd pobl ifanc eraill y gwnaethom eu cyfweld ar wendid marchnadoedd llafur lleol fel y rhwystr allweddol. Er enghraifft, fel yr esboniodd Lauren pan ofynnodd y Cyfwelydd a oedd 'unrhyw opsiynau ar gyfer cyflogaeth yn fwy lleol o gwmpas yma':

Mae'n dibynnu. A ydych am weithio shift nos yn Mackies? [McDonalds] Yn bersonol, nid wyf eisiau gwneud hynny (...). Mae'n anodd iawn dod o hyd i swydd o gwmpas yma. Pe bawn yn mynd yn ôl i lle roeddwn yn arfer byw, fel [enw'r lle wedi'i hepgor], yna mae gennych gynifer o swyddi. Ond yma, oherwydd ei fod fesul tipyn i ddarn arall, prin yw'r swyddi yma.

- 9.61. Yn yr un modd, esboniodd Max, person ifanc sy'n byw mewn ardal wledig:

Mae'n mynd i swnio'n wael iawn ond mae llawer o'r bechgyn ifanc sydd eisiau mynd i ffermio a phethau felly, yn gyntaf oll os nad ydych yn cael eich geni i fferm neu os nad oes gennych sawl miliwn, nid oes ffordd realistig o ddechrau ffermio. Nid ydych am ddweud hynny wrth blentyn.

Ond hefyd, gyda llawer o'r ffermwyr o gwmpas yma, os nad oes gennych acen Gymreig neu nad ydych o Gymru nid ydynt eisiau chi. Felly mae angen mwy o lefydd fel [sefydliad trydydd sector wedi'i hepgor] neu rywbeth tebyg, sy'n gallu cael pobl ifanc i mewn i ffermio, rhoi'r profiad hwnnw iddynt. Oherwydd rydych yn cael llawer iawn o fechgyn ifanc o Ganolbarth Lloegr neu'r Amwythig ac nid oes neb eisiau nhw.

- 9.62. Disgrifiodd Sian, person ifanc niwrowahanol, ei phrofiad o'r hyn a oedd yn ymddangos fel gwahaniaethu anghyfreithlon:

Os ydw i'n datgan bod gen i anabledd fel y gallaf gael amser ychwanegol yn yr asesiadau ar gyfer rhai o'r swyddi roeddwn yn mynd amdanynt. Gwahaniaethir yn fy erbyn oherwydd hynny, ond os na fyddaf yn eu datgan ni allaf gyflawni o reidrwydd hyd eithaf fy ngallu, a'r sefyllfa hon lle mae'n amhosibl ennill oedd yr un a wynebwyd. Rwy'n drist iawn dweud bod hyd yn oed rhai canghennau o [sefydliad sector cyhoeddus] yr wyf wedi gwneud cais amdanynt, pan ofynnais am adborth, roeddwn wedi mynd yn eithaf pell yn y broses recriwtio, ac yna dywedwyd wrthyf na. Ac fe wnes i wir wthio iddyn nhw roi hyn i mi yn ysgrifenedig, a'r union linell a roddwyd oedd "mae'n well gennym gael person nad yw'n anabl na chi".

- 9.63. Yn ogystal, fel yr amlinellwyd uchod, roedd nifer o bobl ifanc yn teimlo bod eu problemau iechyd meddwl yn eu dal yn ôl. Gadawodd yr heriau hyn rai pobl ifanc yn teimlo'n ddigalon, ond roedd eraill yn fwy hyderus yn eu galluedd, er gwaethaf yr heriau fel y cyfleoedd cyfyngedig a oedd yn eu hwynebu. Roedd hyn yn golygu bod ganddynt fwy o gymhellant. Er enghraifft, fel yr esboniodd Omar:

Rhaid i chi fynd i chwilio amdano. Er fy mod wrth fy modd â'r syniad y gallai ddod atom ni, nid dyna sut mae'r byd yn gweithio, yn anffodus. Ond mae'n gysur o ryw fath er eich bod ar adeg ddifreintiedig iawn yn eich bywyd, mae ffyrdd o ddod drwyddi o hyd. Gyda digon o ddychwch a digon o foeseg weithio, gallwch ddod drwyddi.

Profiadau o gyflogaeth

- 9.64. Roedd llawer o bobl ifanc a oedd wedi pontio i gyflogaeth yn cyferbynnu eu profiadau o gyflogaeth ag addysg neu hyfforddiant (a oedd iddynt yn brofiad diweddar). Er enghraifft, fel y disgrifiodd Malik:

Pan fyddwch yn symud o amgylchedd, amgylchedd fel ysgol i amgylchedd llawer mwy proffesiynol fel gweithle, rydych yn cwrdd â llawer o wahanol bobl ac efallai na fyddant, yn amlwg, ni fyddant yn gweithredu fel athrawon i chi. Rydych yn un o gyflogeion y gweithle hwnnw, ac mae'n berthynas hollol wahanol.

Ac fel y disgrifiodd Gwen:

[Gyda'r] brifysgol, nid oes rhaid i chi fynd i'r darlithoedd. Nid yw'r darlithwyr wir yn poeni os ydych yno ai peidio. Ond gyda gwaith, os na fyddwch yn dod i'r gwaith byddwch yn cael eich diswyddo. Felly ie, rhaid i chi fynd.

- 9.65. Roedd profiadau pobl ifanc a oedd wedi pontio i gyflogaeth hefyd yn gymysg; roedd rhai yn gadarnhaol iawn, ac eraill yn llai cadarnhaol. Mae hyn yn adlewyrchu cwestiynau ynghylch pa mor effeithiol mae'r Warant wedi bod wrth hyrwyddo strategaeth Gwaith Teg Llywodraeth Cymru, a drafodir yn Adran 7. Er enghraifft, fel yr esboniodd Ffion:

Dechreuais weithio yn McDonald's yn syth ar ôl gadael yr ysgol. Ac yna fe wnes i weithio yno am flwyddyn, ac fe wnes i gyrraedd y pwynt lle nad oeddwn yn fi fy hun ac roeddwn i wedi gwanhau cymaint yn feddyliol. Roedd yn rhaid i mi fynd ar absenoldeb oherwydd salwch am tua dau fis oherwydd bod gen i friwiau dros fy ngheg a phopeth. Fe wnes i ddifetha fy hun mewn gwirionedd.


- 9.66. Serch hynny, fel y nodwyd yn Adran 7, mae gan Lywodraeth Cymru bŵer cyfyngedig mewn perthynas â gwaith teg, o ran cyfarwyddo busnesau i newid eu harfer ac, yn hytrach, mae'n fwy dibynnol ar hyrwyddo, anogaeth a chodi ymwybyddiaeth.

9.67. Roedd rhai pobl ifanc hefyd yn myfyrio ar deimlo nad oeddent wedi'u paratoi ar gyfer pontio i gyflogaeth a bywyd annibynnol. Er enghraifft, fel yr esboniodd un person ifanc, yn yr ysgol 'roeddent yn eu galw'n wersi PAL: paratoi ar gyfer bywyd fel oedolyn. Rwy'n dal i ddadlau y dylwn gael ad-daliad am yr oriau hynny oherwydd eu bod yn ddiwerth'. Fel y mae Adran 7 yn amlinellu, rhannwyd y pryder hwn, sef bod gormod o bobl ifanc nad oeddent yn 'barod am waith', gan lawer o'r gwneuthurwyr polisi a'r ymarferwyr sy'n cyflawni'r Warant neu'r Fframwaith, a gyfrannodd at y gwerthusiad hwn drwy gyfweliadau neu weithdai.

Delweddu'r afon ôl-16

9.68. Cyflwynir y daith drosiadol hon i lawr yr afon ôl-16 yn Ffigur 9.1. Yn y ffigur, cynrychiolir cyflymder a chryfder cynyddol y cerrynt, sy'n cynyddu'r risg y bydd pobl ifanc yn cael trafferthion, gan dywyllu'r lliw glas. Mae maint y saethau yn ceisio awgrymu'n fras y cyfrannau sy'n gwneud gwahanol fathau o bontio ar bob cam, ond nid ydynt wedi'u llunio i raddfa. Amlinellir rhagor o fanylion am gyfran y bobl ifanc sy'n gwneud gwahanol fathau o bontio yn 16 a 18 oed yn Adran 4.

Ffigur 9.1. Y cwrs afon ôl-16



Profiadau pobl ifanc a'r model COM-B

- 9.69. Fel y mae'r adran hon yn amlinellu, rydym yn defnyddio'r trosiad o bobl ifanc i ddechrau yn drifftio i lawr yr 'afon ddiog' cyn dod ar draws dyfroedd a sianeli cyflymach, sy'n gofyn iddynt arfer mwy o alluogedd, i ddangos y model COM-B. Wrth i'r cerrynt yn ein hafon drosiadol fynd yn gryfach a rhannu'n wahanol sianeli, mae angen i bobl ifanc allu nofio yn erbyn y cerrynt a chael y cyfle a'r cymhelliant i ddewis rhwng gwahanol sianeli. Mae'r trosiad o achubwyr bywyd hefyd yn dangos natur berthynol galluoedd, a drafodir yn Adran 4, drwy ddangos sut y gellir cefnogi pobl ifanc, a allai gael trafferth nofio yn erbyn y cerrynt ar eu pennau eu hunain, oherwydd galluoedd cyfyngedig, fel y gallant lywio'r dyfroedd gwyllt yn llwyddiannus a dewis sianel sy'n eu galluogi i symud ymlaen i'r cam nesaf.¹³⁷

¹³⁷ Er, dylid nodi hefyd y gall y trosiad achubwr bywyd fod yn gamarweiniol, gan y gall guddio'r amser sydd ei angen i berthnasoedd ddatblygu. Fel y mae Adran 9 yn amlinellu, gall perthnasoedd gymryd amser i ddatblygu ac efallai y bydd angen amser i annog pobl ifanc i estyn allan am gymorth gan oedolion y gellir ymddiried ynddynt. Gall hefyd gymryd amser i'r cymorth a, lle y bo'n briodol, yr her, y mae oedolion y gellir ymddiried ynddynt yn eu cynnig gael eu derbyn gan bobl ifanc.

10. Trafodaeth: cynnig cymorth i bob person ifanc?

10.1. Fel y mae Adran 1 yn amlinellu, un o ddau nod datganedig y Warrant yw 'darparu cymorth i bobl ifanc 16 i 24 oed yng Nghymru i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, neu gymorth i fynd i waith neu hunangyflogaeth' (Llywodraeth Cymru, 2022a, t. 3). Fel yr amlinellir yn Adran 5 ac Atodiad A, mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc (tua 90% o bobl ifanc 16 i 18 oed a thua 85% o bobl ifanc 19 i 24 oed) yn pontio'n llwyddiannus ac mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. At hynny:

- ni fydd angen cymorth ar bob person ifanc neu ni fydd eisiau cymorth arnynt; ac
- mae gwerthusiadau o raglenni fel TSC+ (Llywodraeth Cymru, 2025e) a CfW a CfW+ (Llywodraeth Cymru, 2024i) yn nodi bod nifer fawr o bobl ifanc wedi manteisio ar gymorth, a bod y rhan fwyaf o bobl ifanc sy'n gwneud hynny, yn gwerthfawrogi'n fawr y cymorth y maent yn ei gael.


10.2. Serch hynny, fel y mae Adran 7 yn amlinellu, ymddengys mai dim ond lleiafrif o bobl ifanc, yn enwedig y rhai 19 i 24 oed, sy'n manteisio ar y cynnig cymorth gan y Warrant. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, mae'r data a drafodwyd yn Atodiadau A a B hefyd yn awgrymu er bod nifer fawr o bobl ifanc yn cael mynediad at wahanol fathau o gymorth sy'n ffurfio'r Warrant (gweler Atodiad B), mae'r niferoedd yn dal yn is na'r amcangyfrifon o nifer y bobl ifanc sy'n NEET yng Nghymru (gweler Atodiad A).¹³⁸ O ystyried yr effeithiau creithio sy'n gysylltiedig â diweithdra ymhlith pobl ifanc a drafodwyd yn Adran 6, mae nifer y bobl ifanc 19 i 24 oed sy'n NEET yn bryder allweddol. Ceisiodd y Warrant fynd i'r afael â hyn drwy gynyddu mynediad at gymorth EET a chynyddu nifer y bobl ifanc sy'n manteisio ar y cymorth hwn.

¹³⁸ Mae'r gymhariaeth rhwng nifer y bobl ifanc NEET a nifer y bobl ifanc sy'n cael eu cynorthwyo gan raglenni, yn aml yn cael ei gwneud (gweler e.e. Llywodraeth Cymru 2025e) ond nid yw o reidrwydd yn syml. Er y byddai'r rhan fwyaf o bobl ifanc NEET sy'n ymgysylltu â rhaglenni EET ôl-16 yn dal i gael eu cofnodi fel rhai di-waith (os oeddent wrthi'n chwilio am waith), byddai nifer fach a oedd, er enghraifft, yn gwneud gwaith am dâl fel rhan o llyn Cyflogaeth TSC+ yn cael eu cyfrif fel rhai cyflogedig yn ystadegau'r farchnad lafur.

10.3. Yn rhannol, ymddengys fod y bwlch hwn rhwng nifer y bobl ifanc NEET a nifer y bobl ifanc sy'n manteisio ar gymorth yn gysylltiedig â lefelau isel o ymwybyddiaeth, er gwaethaf ymgyrchoedd fel Bydd Bositif. Er enghraifft, fel y mae Ffigur 10.1 yn dangos, mae data o arolwg Omnibws Sgwrs Genedlaethol¹³⁹ yn nodi bod, yn 2023, tua dau o bob pump o bobl ifanc a holwyd wedi clywed am Cymru'n Gweithio. Mae hyn yn bwysig oherwydd, fel yr amlinellir yn Adran 6, rhagwelwyd y byddai Cymru'n Gweithio yn 'borth' i'r Warant. Er nad oedd Cymru'n Gweithio ei hun yn rhaglen newydd (fel yr amlinellwyd yn Adran 6, cafodd ei sefydlu yn 2019), nododd hysbysydd o Gyrfa Cymru bod ymgyrch farchnata Bydd Bositif, a drafodwyd yn Adran 7, yn un newydd, ac felly roedd yn debygol y byddai'n cymryd amser i ymwybyddiaeth o rôl Cymru'n Gweithio fel y porth i'r Warant adeiladu ymhlith ymhlith pobl ifanc. Roedd ymwybyddiaeth o'r rhaglenni craidd eraill sy'n cynnwys y Warant, fel TSC+ a CfW+, yn is fyth, ac fel y mae Adran 9 yn amlinellu, mae gwahanol lefelau o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gymorth ymhlith pobl ifanc.

¹³⁹ 'Mae Omnibws Cymru wedi'i ddylunio i fod yn gynrychioliadol o'r boblogaeth o oedolion sy'n byw yng Nghymru sy'n 16 oed ac yn hŷn, ac mae'n cynnwys sampl o 1000 o ymatebwyr. Gofynnwyd cwestiynau ar gyfer adroddiad Sgwrs Genedlaethol y Warant i Bobl Ifanc fel rhan o'r Omnibws ym mis Ionawr 2023 a mis Mehefin 2023, a chawsant eu hateb gan 154 a 107 o unigolion rhwng 16 a 24 oed yn y drefn honno. Ar gyfer ton mis Mehefin 2023, cafodd rhai cwestiynau eu hateb hefyd gan 160 o rieni pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed' (Llywodraeth Cymru, 2024l, t. 5).

Ffigur 10.1. Ymatebion Arolwg Omnibws Sgwrs Genedlaethol 2023 i'r cwestiwn 'a pha rai o'r rhaglenni/ ymyriadau canlynol, os o gwbl, sy'n gallu helpu i gefnogi pobl ifanc gyda'u haddysg, eu hyfforddiant neu eu cyflogaeth ydych chi wedi clywed amdanynt?'




Ffynhonnell: [Llywodraeth Cymru, 2023a](#)

Ymgysylltu â phobl ifanc 19 i 24 oed

- 10.4. Fel yr amlinellir yn Adran 7, er y bernir bod y Fframwaith wedi bod yn gymharol effeithiol o ran nodi a chyrraedd pobl ifanc 16 i 18 oed sydd wedi ymddieithrio neu sydd mewn perygl o ymddieithrio, mae llawer llai o hyder bod hyn yn digwydd i'r rhai 19 i 24 oed. Mae'r pryder hwn yn gyson yn fras â'r cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n NEET wrth iddynt fynd yn hŷn, a ddangosir gan Ffigur 10.2, sy'n dangos amcangyfrif o nifer y bobl ifanc NEET yn ôl grŵp oedran.

Ffigur 10.2. Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru yn ôl oedran, cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ym mis Medi 2024



Ffynhonnell: [Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant \(NEET\): Hydref 2023 i Fedi 2024 \(Ystadegau, Dogfennu\), Llywodraeth Cymru](#)

‘Nodyn [u1]: Mae'r eitem ddata ar gyfer y rhai 16 oed yn seiliedig ar rhwng 10 a 24 ymateb ac wedi'i dosbarthu fel ei bod o ansawdd isel’ (Llywodraeth Cymru, 2024q, t. 8).

‘Nodyn [u2]: Mae'r eitemau data ar gyfer y rhai 17, 18, 19 a 20 oed yn seiliedig ar rhwng 25 a 39 ymateb ac wedi'i dosbarthu fel ei bod o ansawdd cyfyngedig’ (Llywodraeth Cymru, 2024q, t. 8).

10.5. Fel yr amlinellir yn Adran 7, nid yw llawer o bobl ifanc 18 i 24 sy'n NEET yn hawlio budd-daliadau ac felly nid ydynt yn derbyn cymorth nac yn cael eu monitro gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae gwelliannau mewn rhannu data wedi'u nodi gan gynnwys, er enghraifft, y rhai sy'n cael eu galluogi gan y bartneriaeth rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru a ddarparodd CfW (Llywodraeth Cymru, 2023b) a chan y berthynas waith agos rhwng Gyrfa Cymru a Cymru'n Gweithio a'r Adran Gwaith a Phensiynau, a drafodir yn Adran 8. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru wedi

buddsoddi mewn 'prototeip hyb data' i wneud defnydd gwell o ddata addysg drydyddol a chyflogaeth ac i helpu i lywio gwerthusiadau o bolisi a rhaglenni i gynorthwyo pobl ifanc (Huxley, 2024).

- 10.6. Serch hynny, nododd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru ac o raglenni eraill sy'n ffurfio'r Warrant fod rhannu gwybodaeth rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a gwasanaethau cymorth eraill yn aml wedi bod yn anodd. Nododd un hysbysydd o Gyrfa Cymru hefyd 'efallai y bydd angen deddfwriaeth newydd i ganiatáu rhannu rhywfaint o'r data hyn'. Mae'r heriau hyn wedi ei gwneud yn fwy anodd nodi pobl ifanc 19 i 24 oed sydd wedi ymddieithrio o EET. Serch hynny, gan fod llawer o bobl ifanc NEET nad ydynt yn ymgysylltu â'r Ganolfan Byd Waith ychwaith, ni fyddai mynd i'r afael â rhannu data rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a Gyrfa Cymru o reidrwydd yn ateb i bob problem sy'n gysylltiedig â nodi pobl ifanc 19 i 24 oed sy'n NEET.

Dulliau'r Fframwaith a'r Warrant

- 10.7. Fel y mae Adran 6 yn amlinellu, er eu bod yn rhannu nodau tebyg, mae'r Fframwaith a'r Warrant yn cynrychioli modelau a dulliau eithaf gwahanol. Er enghraifft, mae'r Fframwaith yn gweithredu model 'optio allan' i bob pwrpas, gydag allgymorth gweithredol a chynnig cymorth y mae'n rhaid i bobl ifanc ei wrthod. Mewn cyferbyniad, mae'r Warrant yn llawer mwy o fodel 'optio i mewn', sy'n ei gwneud yn ofynnol i bobl ifanc geisio cymorth.¹⁴⁰
- 10.8. Mae'r profiad o fersiwn gyntaf y Fframwaith, a drafodir yn Adran 6, yn dangos yr anawsterau, fel olrhain a rhannu data, o ran ceisio gweithredu model 'optio allan' gyda'r rhai 18 i 24 oed. Gall hon fod yn her systemig. Fel y nododd un o adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru yn 2014, mae Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa dda i leihau nifer y bobl ifanc 16 i 18 oed sy'n NEET, ond nid ydynt mewn sefyllfa cystal i leihau nifer y bobl ifanc 19 i 24 oed sy'n NEET,

¹⁴⁰ Mae eithriadau i hyn; er enghraifft, mae rhai darparwyr TSC+ yn nodi eu bod yn estyn allan yn weithredol at bobl ifanc.

oherwydd nad oes ganddi reolaeth dros lawer o'r dulliau, fel darpariaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau (Swyddfa Archwilio Cymru, 2014). Felly, fel yr amlinellwn yn y casgliadau (Adran 12), mae'n debygol y bydd cryfhau gweithio mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn rhan bwysig o ddatblygiadau yn y dyfodol yn y maes hwn.

10.9. Mewn cyferbyniad, mae model optio i mewn, fel y Warrant, yn osgoi'r anawsterau o geisio olrhain pobl ifanc 18 i 24 oed, ond mae'n dibynnu ar bobl ifanc yn dewis chwilio am y cymorth a gynigir drwy'r Warrant ac ymgysylltu â hynny. Er bod nifer fawr iawn o bobl ifanc yn dewis cael mynediad at gymorth – ac mae'r ffigurau diweddaraf yn awgrymu bod dros 50,000 wedi manteisio ar y cynnig cymorth drwy'r Warrant – fel yr amlinellir uchod, mae lleiafrif sylweddol o bobl ifanc, yn enwedig y rhai 19 i 24 oed, nad ydynt yn manteisio ar y cynnig cymorth gan y Warrant ac maent yn economaidd anweithgar, ac nid ydynt yn chwilio am waith.

10.10. Mae'r her hon yn cael ei hamlygu mewn llawer o'r gwerthusiadau o'r rhaglenni (a drafodir yn Adran 7) a daeth i'r amlwg fel pryder allweddol mewn gweithdai rhanddeiliaid. Er enghraifft, fel y dywedodd un cyfrannwr at y gweithdy a gynhaliwyd gyda staff o Lywodraeth Cymru a sefydliadau partner:

Yr her fwyaf yw'r rhai sydd wedi tynnu allan o'r system, os ydynt ar y trothwy gallwn eu cyrraedd, ond mae'n anodd pan fyddant wedi mynd. Po hiraf y maent allan o'r system, yr anoddaf fydd pethau ac mae systemau gwahanol ar waith pan fyddant yn oedolion.

10.11. Y broblem, fel y nododd cyfrannwr arall, oedd 'oni bai ein bod yn ymgysylltu â phobl ifanc, nid oes gennym unrhyw beth i'w ddarparu' (hynny yw, oni bai bod pobl ifanc yn ymgysylltu â chynnig cymorth y Warrant, ni fyddant yn cael eu cynorthwyo). Nododd cyfwelai arall o Lywodraeth Cymru nad yw cynnig cymorth yn ddigon; yn eu geiriau nhw, 'gallwch fynd â cheffyl at ddŵr, ond ni allwch wneud iddo yfed'. Mae'r pryderon hyn hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn

hanesion y bobl ifanc a gyflwynir yn Adran 9. Mae'r heriau hyn yn eu tro yn codi cwestiynau ynghylch:

- ailganolbwyntio'r Fframwaith ar y rhai 11 i 18 oed (yn hytrach na'r rhai 11 i 24 oed), o ystyried yr anawsterau wrth olrhain a nodi pobl ifanc 18 oed a throsodd sydd wedi ymddieithrio (a drafodir yn Adran 6 ac uchod hefyd); a
- y niferoedd cymharol isel o bobl ifanc NEET sy'n ymgysylltu â Cymru'n Gweithio (a drafodir yn Adran 7 ac uchod hefyd), gan fod Cymru'n Gweithio wedi'i leoli fel y prif borth, er nad yr unig borth, i'r Warant.

10.12. Daeth lleoli Cymru'n Gweithio fel y 'porth' i'r Warant yn drywydd ymholi allweddol yn y gwerthusiad a nododd yr astudiaeth bod gan hyn fanteision clir. Er enghraifft, er y gall pobl ifanc gael mynediad at ddarpariaeth y Warant fel TSC+ a CfW+ yn uniongyrchol,¹⁴¹ roedd achos cryf dros leoli Cymru'n Gweithio fel y porth i'r Warant oherwydd, fel yr amlinellwn yn:

- Adrannau 6 a 7, a'i drafod ymhellach yn yr Adran nesaf (11), mae cymhlethdod cynnig y Warant yn golygu bod capasiti Cymru'n Gweithio i ddarparu cyngor ac arweiniad diduedd a phroffesiynol i bobl ifanc yn werthfawr o ran galluogi pobl ifanc i wneud dewisiadau gwybodus gydag ymwybyddiaeth o'u holl opsiynau;
- Adran 7, nodwyd yn gyson bod lleoli Cymru'n Gweithio fel y porth i'r Warant yn ymgyrch Bydd Bositif yn un o gryfderau allweddol yr ymgyrch; ac
- Adran 6, datblygwyd y Warant yn gyflym, mewn ymateb i angen brys am weithredu, ac roedd yn rhesymegol defnyddio rhaglenni presennol fel Cymru'n Gweithio. Yn wir, fel y mae'r gwerthusiad o Cymru'n Gweithio (a drafodir yn Adran 7) yn nodi, mae Cymru'n Gweithio yn 'borth effeithiol ar gyfer cymorth cyflogadwyedd ledled Cymru' (Llywodraeth Cymru, 2024e, t. 71).

¹⁴¹ Yn ogystal, fel y mae paragraff 7.41 yn amlinellu, pan gafodd ei lansio'n wreiddiol ym mis Ebrill 2022, roedd y llwybr atgyfeirio i TSC+ drwy Cymru'n Gweithio, a dim ond yn ddiweddarach y cyflwynwyd recriwtio uniongyrchol i TSC+, yn rhannol oherwydd bod nifer yr atgyfeiriadau gan Cymru'n Gweithio yn is na'r disgwyl.

10.13. Fodd bynnag, fel y mae Adran 7 yn amlinellu, mae'r gwerthusiad o Cymru'n Gweithio hefyd yn nodi bod staff Cymru'n Gweithio wedi nodi pobl ifanc fel un o'r grwpiau yr oedd yn anodd iddynt ymgysylltu â nhw, yn enwedig pobl ifanc a oedd wedi gadael addysg ffurfiol a/neu gymorth arall (Llywodraeth Cymru, 2024e). Yn yr un modd, nododd rhanddeiliaid anawsterau Cymru'n Gweithio wrth ymgysylltu â phobl ifanc NEET 'am nad ydynt fel arfer yn ymgysylltu ag allgymorth Cymru'n Gweithio a'u bod wedi'u hynysu'n fwy yn gymdeithasol na grwpiau eraill' (ibid, t. 52). Mae hyn yn amlwg yn codi cwestiynau am leoli Cymru'n Gweithio fel y porth i'r Warant ac nid oes ateb syml i hyn. Fel yr amlinellwn yn Adrannau 5 a 6, mewn perthynas â phobl ifanc 16 i 18 oed, o dan y Fframwaith (yn hytrach na'r Warant ynddi ei hun) nid oes gan Gyrfa Cymru/Cymru'n Gweithio gyfrifoldeb am ymgysylltu â phobl ifanc NEET nad ydynt yn barod am EET. Yn hytrach, EPC a gweithwyr arweiniol sy'n gyfrifol am hyn, ac mae canllawiau'r Fframwaith yn awgrymu y gallent wedyn atgyfeirio pobl ifanc i Cymru'n Gweithio pan fyddant yn barod i ymgysylltu ag EET (Llywodraeth Cymru, 2024r). Felly, mewn sawl ffordd mae'r model o'r Fframwaith ynghyd â'r Warant yn ateb y cwestiwn hwn mewn perthynas â'r rhai 16 i 18 oed. Fodd bynnag, o ystyried ailganolbwyntio'r Fframwaith a'r anawsterau a nodwyd ynghylch olrhain, mae hyn yn dal i adael cwestiwn ynghylch pa wasanaethau sy'n gallu cyrraedd a chynnwys pobl ifanc 19 i 24 oed nad ydynt yn ymgysylltu â darpariaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau,¹⁴² os nad ydynt yn barod i ymgysylltu ag EET (neu Cymru'n Gweithio) – a sut y byddant yn cael mynediad at y Warant.

A yw cynnig y Warant yn ddigonol i bobl ifanc sydd bellaf o EET?

10.14. Ochr yn ochr â phryder am wasanaethau cymorth EET yn ymgysylltu â phobl ifanc, roedd pryder hefyd mewn gweithdai rhanddeiliaid efallai na fyddai cynnig cymorth y Warant fod yn ddigonol i rai grwpiau hyd yn oed os oeddent yn ymgysylltu. Fel y dywedodd un cyfrannwr gweithdy, 'nid yw cynnig cymorth

¹⁴² Os ydym yn defnyddio nifer y rhai sy'n manteisio ar fudd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth fel mesur procsi ar gyfer ymgysylltu â darpariaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau, yr amcangyfrifon a gynhwyswyd yn yr [Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth ar syniadau ac ymddygiad pobl ifanc](#) (Llywodraeth Cymru, 2024t) oedd mai dim ond tua hanner y bobl ifanc 18 i 24 oed sy'n NEET ac yn gymwys i gael budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth sy'n manteisio ar y rhain.

y Warant yn dod yn agos' at fynd i'r afael ag anghenion rhai pobl ifanc.

Ymhlith y grwpiau y cyfeiriwyd atynt roedd:

- pobl ifanc a oedd wedi ymddieithrio a dod yn economaidd anweithgar, ac a oedd, yn ystod y pandemig, wedi encilio i'w hystafelloedd gwely, ac a oedd yn aml heb y cymhelliant a'r capasiti, o ran hyder a sgiliau, i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET neu gyfleoedd EET;
- pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) heb eu diwallu a/neu a oedd yn niwrowahanol, a allai gyfyngu ar eu galluoedd a'u mynediad at gyfleoedd hefyd os oeddent yn profi gwahaniaethu sy'n gysylltiedig â chyflyrau iechyd meddwl;
- pobl ifanc ag anghenion cymhleth,¹⁴³ fel problemau cydgysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau a sylweddau a phroblemau iechyd meddwl, sy'n cyfyngu'n ddifrifol ar eu gallu a'u cymhelliant i ymgysylltu¹⁴⁴; ac
- pobl ifanc a oedd yn cael trafferth cael mynediad at wasanaethau cymorth EET a/neu gyfleoedd EET, oherwydd problemau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd gwledig,¹⁴⁵ trafnidiaeth gyhoeddus neu ofal plant.

10.15. Roedd yr anawsterau hyn yn amlwg yn hanesion llawer o'r bobl ifanc a gafodd eu cyfweld ar gyfer yr astudiaeth hon (a drafodir yn Adran 9).

A yw'r cynnig cymorth yn dod yn rhy hwyr ym mywydau pobl ifanc?

10.16. Roedd y pryder ynghylch cyrraedd y bobl ifanc a oedd wedi ymddieithrio fwyaf yn gysylltiedig â phryder ehangach ymhlith nifer o gyfranwyr mewn gweithdai a chyfweleion o Lywodraeth Cymru a sefydliadau partner bod pwyslais y Warant ar y rhai 16 oed a throsodd yn golygu bod cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynharach yn cael eu colli. Fel y nododd un cyfwelai 'nid yw pobl ifanc yn sydyn yn dod yn NEET yn 16 oed'. Yn hytrach, gwnaethant awgrymu ei fod fel arfer yn benllanw proses o ymddieithrio cynyddol o addysg. Mae deall ymddieithrio fel proses yn hytrach na digwyddiad yn cael ei gefnogi gan

¹⁴³ Yn 2005, diffiniodd yr Uned Allgáu Cymdeithasol 'anghenion cymhleth' fel problemau cydgysylltiedig lle mae'r cyfanswm yn cynrychioli mwy na swm y rhannau ([ODPM, 2005](#), t. 8).

¹⁴⁴ Er, fel yr amlinellir yn Adran 7, dylai fod gan y Gwasanaeth Di-waith rôl allweddol yma.

¹⁴⁵ Nododd un cyfrannwr, yn ei farn ef, fod 'pobl ifanc sy'n byw yng Nghymru wledig wedi cael eu hanghofio'.

yr [Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant](#). Mae hyn yn trafod y dystiolaeth sy'n dangos, er enghraifft, sut y gall cynyddu ymddieithrio greu cylchoedd dieflig sydd dros amser yn creu effeithiau 'creithio' ar bobl ifanc, sy'n ei gwneud yn fwy anodd iddynt ailymgysylltu ag EET (Llywodraeth Cymru, 2024o).

10.17. Fodd bynnag, dylid nodi bod adnabod pobl ifanc yn gynnar yn rhesymeg allweddol ar gyfer y Fframwaith sydd wedi'i fwriadu i ategu'r Warant. Fel yr amlinellir yn Adran 4, mae'r Fframwaith yn canolbwyntio ar nodi pobl ifanc 11 i 18 oed sydd mewn perygl o ymddieithrio, ac mae canllawiau newydd ar hyn wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar (Llywodraeth Cymru, 2024p).

Casgliad

10.18. Fel yr amlinellir yn Adrannau 7 ac 8, cyfrannodd y Warant at newidiadau yn natur a graddau cymorth EET i bobl ifanc. Mewn ymateb, mae nifer y bobl ifanc 16 i 18 oed sy'n manteisio ar gymorth gan raglenni fel TSC+ wedi bod yn gryf iawn ac efallai fod hyn wedi cyfrannu at y gostyngiadau yng nghyfran y bobl ifanc 16 i 18 oed sy'n NEET (Llywodraeth Cymru 2025e). Fodd bynnag, fel y mae'r adran hon yn trafod, mae'n llai clir a yw'r newidiadau yn y cynnig cymorth wedi cyfrannu at newid mor fawr ag y dymunir o ran ymddygiad pobl ifanc 19 i 24 oed mewn perthynas â:

- manteisio ar y cynnig o gymorth EET; ac
- o ganlyniad, eu cyfranogiad mewn EET.

10.19. Mae'r data a drafodir yn yr adran hon hefyd yn awgrymu bod yr effaith ar ymddygiad pobl ifanc wedi bod yn anghyson. Er enghraifft, er gwaethaf cynrychiolaeth gryfach mewn rhaglenni fel TSC+, ar y cyfan, ceir tystiolaeth nad oes cynrychiolaeth ddigonol o grwpiau allweddol o bobl ifanc, fel pobl ifanc anabl, mewn rhaglenni cymorth EET ac mewn EET.

11. Trafodaeth: system syml i gael mynediad at gymorth a chyfleoedd i bobl ifanc?

Cyflwyniad

- 11.1. Fel y mae Adran 1 yn amlinellu, yr ail o ddau nod datganedig y Warant yw 'sicrhau system fwy cydlynol, syml a hygyrch i (...) bobl ifanc gael mynediad i'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael iddynt' (Llywodraeth Cymru, 2022a, t. 3). Yn yr adran hon, rydym yn trafod i ba raddau y cyflawnwyd y bwriad hwn.

Llywio tirwedd gymhleth

- 11.2. Fel y mae Adran 6 yn amlinellu, mewn sawl ffordd cynyddodd y dirwedd cymorth mewn cymhlethdod ar ôl 2020, gyda datblygu rhaglenni yn gyntaf mewn ymateb i'r pandemig, ac yna'r trawsnewid o ffrydiau cyllido Cronfa Gymdeithasol Ewrop i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Fel y nododd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru, yn 2021, pan gafodd y Warant ei lansio, roedd y ddarpariaeth yn 'dameidiog – nid oedd yn gydgysylltiedig' ac roedd 'cystadleuaeth [rhwng rhaglenni] o ran cyflawni a grwpiau targed'. Mewn ymateb, fel y mae Adran 8 yn amlinellu, nododd timau polisi'r Fframwaith a'r Warant mai rhan bwysig o'u rôl yw helpu i gydgysylltu cymorth yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

- 11.3. Fel y mae Adran 8 yn amlinellu, mae'r Warant wedi annog canolbwyntio ar y system gymorth i bobl ifanc 16 i 24 oed yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, a oedd yn arbennig o bwysig o ystyried ailganolbwyntio'r Fframwaith ar bobl ifanc 11 i 18 oed, a fyddai wedi gadael bwlch i'r rhai 19 i 24 oed. Fodd bynnag, nododd cyfweldigion o Lywodraeth Cymru a chyfranwyr at weithdai fod y Warant wedi tueddu i ganolbwyntio ar:
- lenwi bylchau mewn darpariaeth mewn meysydd fel lleoliadau gwaith;
 - cynnal ac, mewn rhai achosion, ehangu rhaglenni fel gwasanaeth Syniadau Mawr Cymru Busnes Cymru, a oedd yn dibynnu ar Gronfa Gymdeithasol Ewrop neu Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, ac y byddai eu maint wedi cael ei leihau heb gyllid y Warant;
 - neu gyllido ehangu rhaglenni fel CfW+ a oedd wedi ategu rhaglenni a gyllidir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn flaenorol, fel CfW, a ddaeth i ben yn 2023.
- 11.4. Yn yr un modd, nodwyd mewn cyfweiliadau â staff mewn rhaglenni lleol a rhanbarthol fod rhaglenni a phrosiectau a gynorthwyir gan Gronfa Ffyniant Gyffredin ALI hefyd yn tueddu i ganolbwyntio ar lenwi bylchau yn y ddarpariaeth drwy, er enghraifft, gryfhau gwaith cyn-ymgysylltu, yn hytrach na symleiddio'r ddarpariaeth drwy, er enghraifft, uno neu ddatgomisiynu cymorth.¹⁴⁶ O ganlyniad, fel y crynhodd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru, 'Mae'n dirwedd gymhleth (...) a phan fyddwch yn dechrau mapio pwy sy'n gweithio yn y gofod hwn mae'n dod yn eithaf beichus a thrwsgl – rydych yn mynd ar goll yn y goedwig'.

¹⁴⁶ Mae'r toriad mewn cyllid ar gyfer CfW+ a arweiniodd at godi'r oedran y daw pobl ifanc yn gymwys i 20 yn enghraifft o symleiddio. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn archwilio dichonoldeb un model gweithredu ar gyfer rhaglenni cymorth cyflogadwyedd, a allai symleiddio'r system gymorth mewn perthynas â darpariaeth Llywodraeth Cymru.

- 11.5. Felly, fel y mae Adran 6 yn amlinellu, yn hytrach na cheisio symleiddio'r system, mae'r sylw wedi tueddu i ganolbwyntio ar helpu pobl ifanc i lywio'r system o gymorth a chyfleoedd. Mae hyn yn cynnwys:
- y rôl y mae gweithwyr arweiniol y Fframwaith yn ei chwarae wrth gynorthwyo pobl ifanc 16 i 18 oed; a
 - rôl Cymru'n Gweithio fel y 'porth' i gynnig cymorth a chyfleoedd y Warant a'i gynnig o wybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd am yrfaeod.
- 11.6. Fel y mae Adran 7 yn amlinellu, mae'r rhai a gafodd eu cyfweld ar gyfer y gwerthusiad hwn o'r barn bod y ddwy rôl yn effeithiol, ac mae hyn yn cael ei gefnogi gan werthusiadau o raglenni. Mae'r hanesion am bobl ifanc a drafodir yn Adran 9 yn awgrymu, i'r bobl ifanc hynny sy'n manteisio ar y cynnig cymorth naill ai gan weithwyr arweiniol y Fframwaith, ar gyfer y rhai 16 i 18 oed, neu gan Cymru'n Gweithio, ar gyfer y rhai 16 i 24 oed, bod mynediad at gymorth a chyfleoedd yn dod yn fwy syml. Mae hyn oherwydd bod gan bobl ifanc arweinydd i'w helpu i lywio'r amrywiaeth cymhleth o gymorth a chyfleoedd sydd ar gael iddynt.
- 11.7. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn Adran 7, mae'r model hwn yn dibynnu ar wybodaeth a dealltwriaeth gweithwyr arweiniol y Fframwaith neu gynghorwyr Cymru'n Gweithio ynghylch y cymorth a'r cyfleoedd, a allai fod yn fwy cyfyngedig mewn rhai meysydd. Fel y mae Adran 8 yn amlinellu, mae sicrhau bod staff gweithredol mewn gwasanaethau porth fel y Ganolfan Byd Gwaith a Cymru'n Gweithio yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am dirwedd cymorth ddynamig a chymhleth yn her allweddol. At hynny, mae'r cymorth hwn hefyd yn tueddu i ddod i ben pan fydd pontio wedi'i wneud (er enghraifft, o'r ysgol i'r coleg). Felly, bydd angen i berson ifanc ailymgysylltu os oes angen cymorth arno i lywio pontio pellach (er enghraifft, o'r coleg i'r brifysgol).

11.8. Yn olaf, ac yn fwyaf sylfaenol, fel yr amlinellir yn Adran 5, mae'r Fframwaith fel arfer dim ond yn darparu strwythur i gynorthwyo pobl ifanc 11 i 18 oed¹⁴⁷ a dim ond lleiafrif o bobl ifanc, yn enwedig pobl ifanc 19 i 24 oed, sy'n manteisio ar gymorth gan Cymru'n Gweithio. Fel y mae'r hanesion am bobl ifanc yn Adran 9 yn dangos, i'r rhai nad ydynt yn manteisio ar y cynnig cymorth, gall y system fod yn ddryslyd ac yn anodd ei llywio heb arweinydd. Gall hyn fod yn arbennig o wir i'r rhai sy'n ansicr ynghylch beth maent am ei wneud, a/neu sydd ag anghenion cymhleth. Felly, er gwaethaf bwriad y Warrant, i bobl ifanc nad ydynt yn manteisio ar y cynnig cymorth gan Cymru'n Gweithio, mae'n annhebygol o deimlo bod 'system gydlynol, syml a hygyrch' iddynt 'gael mynediad i'r ystod o gyfleoedd' a gynnigir gan y Warrant (ibid., t. 9).

A yw pobl ifanc yn gwneud dewisiadau gwybodus?

11.9. Mae cyfweiliadau â phobl ifanc, a drafodwyd yn Adran 9, cyfweiliadau a thrafodaethau mewn gweithdai ar gyfer yr astudiaeth hon a'r Sgwrs Genedlaethol i gyd yn dangos y gallai diffyg cyfeiriad waethygu anawsterau pobl ifanc wrth benderfynu pa lwybrau i'w dilyn. Fel y dywedodd un person a ddyfynnwyd yn y Sgwrs Genedlaethol: '... 'mae pawb fel petai'n teimlo y dylech wybod beth rydych chi eisiau ei wneud', gan ei gwneud yn anodd i'r rhai nad ydynt yn gwybod beth maent eisiau ei wneud (Llywodraeth Cymru, 2024l, t. 23). Fodd bynnag, fel y nododd un hysbysydd o Gyrfa Cymru, mae hwn yn faes cymhleth: Mae'n normal i 'beidio â gwybod' beth rydych am ei wneud am gyfnod penodol o amser, a diben cyngor ac arweiniad gyrfaedd ywcefnogi pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau rheoli gyrfa ac mae hyn yn digwydd dros amser. Felly, gall 'peidio â gwybod' ddod yn broblem dim ond pan fydd yn cyd-fynd â chyfnodau pontio, pan fydd pobl ifanc yn gorfod gwneud dewis.

11.10. Fel y mae Adran 9 yn dangos, mae'n ymddangos bod dewisiadau llawer o bobl ifanc yn 16 oed yn cynrychioli'r opsiwn diofyn, yn hytrach na chanlyniad dewis gweithredol. Mewn rhai achosion, adroddodd pobl ifanc a ddyfynnwyd


¹⁴⁷ Adroddir bod gweithwyr arweiniol y Fframwaith weithiau'n cefnogi pobl ifanc 18 oed a throsodd pan, er enghraifft, maent yn parhau i ymgysylltu â darpariaeth gwasanaeth ieuencid.

yn y Sgwrs Genedlaethol eu bod yn cael eu 'gwthio' i lwybrau nad oeddent yn eu dewis (ibid.). Mae'r mater hwn hefyd wedi'i amlygu gan Estyn sy'n adrodd:

....mae angen o hyd i ddatblygu'r ffordd y mae ystod eang y ddarpariaeth sydd ar gael ar draws y sectorau ôl-16 yng Nghymru yn gweddu i ddysgwyr unigol. Gall fod yn anodd i ddysgwyr weld a deall ystod lawn yr opsiynau sydd ar gael iddynt. Nid yw'r wybodaeth a'r arweiniad a gaiff darpar ddysgwyr bob amser yn glir ac yn gyson ddefnyddiol. (Estyn, 2024c, t. 3.)

11.11. Dangosir y gwahanol ffynonellau gwybodaeth y mae pobl ifanc yn troi atynt gan Ffigur 11.1 sy'n cyflwyno'r data a gasglwyd drwy Arolwg Omnibws Cymru a gynhwyswyd yn y Sgwrs Genedlaethol.

Ffigur 11.1. Ymatebion arolwg omnibws cenedlaethol 2023 i'r cwestiwn: 'Gan feddwl am addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, o ble rydych chi'n cael gwybodaeth a/neu gyngor ar hyn o bryd?'



Ffynhonnell: [Llywodraeth Cymru, 2023a](#)

11.12. Bydd y wybodaeth a ddarperir gan y gwahanol ffynonellau hyn yn wahanol ac mae data y Sgwrs Genedlaethol yn ddadlennol yma. Fel y mae un o'r adroddiadau cysylltiedig yn nodi:


Roedd y bobl ifanc a holwyd yn tueddu i fod yn fwyaf ymwybodol o'r cymwysterau mwy 'traddodiadol' fel Safon Uwch, ac eto roedd gwahaniaeth sylweddol o ran ymwybyddiaeth o gymwysterau galwedigaethol rhwng pobl ifanc a'u rhieni. (...) Roedd 74% o'r rhieni a holwyd wedi dweud eu bod yn ymwybodol o gymwysterau o'r fath, ond dim ond 46% o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed oedd wedi clywed amdanynt. (Llywodraeth Cymru, 2024l, t. 9.)

11.13. Yn ogystal ag ymwybyddiaeth o opsiynau, mae'n bwysig nodi bod yr ymgynghoriad i lywio adnewyddu'r Fframwaith (LWI, 2021a) a'r cyfweldigion ar gyfer y gwerthusiad hwn wedi nodi bod yr amrywiaeth o opsiynau ar gyfer y rhai 16 oed a throsodd yng Nghymru nad ydynt am ddilyn yr opsiwn academiaidd o Safon Uwch yn aml yn gyfyngedig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, mae asesu'r amrywiaeth o opsiynau addysg a hyfforddiant sydd ar gael i bobl ifanc y tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad hwn.

Profiadau pobl ifanc o bontio

11.14. Fel y mae Ffigur 11.2 yn dangos, adroddwyd yn eang am bryder ac ansicrwydd am y dyfodol gan bobl ifanc a holwyd ar gyfer y Sgwrs Genedlaethol. Fel y mae Adran 9 yn amlinellu, roedd hyn hefyd yn gyffredin ymhlith llawer o'r bobl ifanc a gyfwelwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn.


Ffigur 11.2. Ymatebion Arolwg Omnibws Cenedlaethol 2023 i'r cwestiwn: Pa rai, os o gwbl, o'r datganiadau isod sy'n berthnasol i chi?



Ffynhonnell: [Llywodraeth Cymru, 2023a](#)

- 11.15. Mae Ffigur 11.3 isod yn amlinellu pa mor hawdd y mae gwahanol opsiynau yn debygol o deimlo i'r person ifanc 'prif ffrwd' sydd wedi gwneud yn dda yn yr ysgol ac sy'n cael ei annog gan ei ysgol a'i rieni i barhau i'r chweched dosbarth yn yr ysgol. Mae'r gwahanol raddau o anhawster yn Ffigur 11.3 yn cael eu nodi gan y lliwiau sy'n newid a hefyd y newid yn y llinell o amgylch pob blwch o linell solet, i linell ddotiog.
- 11.16. Mae pontio fel hynny o'r ysgol i'r chweched dosbarth wedi cael ei ddisgrifio fel pontio 'llwybr araf'. Yma, mae person ifanc yn parhau mewn addysg, yn aml yn yr un lleoliad sefydliadol, ac yn parhau i fod yn ddibynnol ar eu rhieni am gyfnod hirach ac yn profi cyfnod pontio arafach – ond un sydd fel arfer yn fwy llwyddiannus (ODPM, 2005). Er enghraifft, adroddodd un cyfwelai o Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol:
- Rydym yn dod o hyd i nifer o bobl ifanc sy'n mynd i'w swyddi cyntaf yn 16 oed, yna yn dod allan yn mynd i ddiweithdra ac nid oeddent yn barod i weithio ac yn diflannu oddi ar y radar ac yn dweud nid allaf ei wneud, ac roeddent yn diflannu.
- 11.17. Mae Estyn hefyd wedi nodi pryderon am yr hyn sy'n digwydd i bobl ifanc sy'n pontio i ddysgu seiliedig ar waith, lle yn wahanol i ysgolion a cholegau, mae gan ddarparwyr hyfforddiant wybodaeth ac ymgysylltiad cyfyngedig â'r Fframwaith a gweithwyr arweiniol (Estyn, 2024b).
- 11.18. Serch hynny, fel yr amlinellir yn Adran 6, diben y Fframwaith yw sicrhau nad yw pobl ifanc yn 'diflannu oddi ar y radar' ar ôl gadael yr ysgol, a chwestiynodd hysbysydd o Gyrfa Cymru a oedd pobl ifanc yn cael eu colli, gan nodi (fel yr amlinellir gan Adran 6) bod pobl ifanc (16 i 18 oed) yn dal i fod yn destun monitro ac olrhain gan y Fframwaith.

Ffigur 11.3. Enghraifft o sut y gallai person ifanc weld gwahanol lwybrau ar ddiwedd blwyddyn 11



11.19. Fodd bynnag, fel yr amlinellir gan hanesion y bobl ifanc a drafodwyd yn Adran 8, mae gwahanol grwpiau o bobl ifanc â gwahanol alluoedd, cymhellion a mynediad at gyfleoedd yn gweld symrlwydd neu gymhlethdod gwahanol lwybrau mewn gwahanol ffyrdd. Fel y nododd un cyfwelai o'r sector gwirfoddol, 'nid yw ysgol [y chweched dosbarth] i bawb'. Mae rhai pobl ifanc yn awyddus i adael yr ysgol yn 16 oed ac yn gwerthfawrogi'r mwy o ryddid, annibyniaeth a chymorth a gynigir gan barhau â'u

haddysg yn y coleg.¹⁴⁸ Efallai y bydd gan eraill, er enghraifft, gysylltiadau sy'n eu hannog i dderbyn prentisiaeth gydag aelod o'r teulu, tra, yn enwedig yn ystod y pandemig, roedd 'optio allan' ac encilio i gysur eu hystafelloedd gwely yn ymddangos i rai pobl ifanc fel yr opsiwn symlaf. Fel y nododd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru, os oedd dewis rhwng 'dal y bws am 6.30am' a'ch bod yn teimlo'n 'sigledig' ar ôl y pandemig, 'efallai y byddai aros yn y gwely yn teimlo'n llawer haws'. Gwelwyd hefyd y gallai rhai grwpiau, fel pobl ifanc niwrowahanol, wynebu rhwystrau ychwanegol o ran cael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a manteisio ar gyfleoedd EET.


11.20. Mae'n debygol y bydd canfyddiadau o ba mor hawdd neu anodd yw llwybrau gwahanol hefyd yn debygol o gael eu dylanwadu gan wybodaeth pobl ifanc eu hunain am y gwahanol lwybrau hynny a gwybodaeth y bobl hynny y maent yn troi atynt am wybodaeth, cyngor ac arweiniad, boed yn ffynonellau ar-lein fel cyfryngau cymdeithasol, oedolion y gellir ymddiried ynddynt neu Cymru'n Gweithio.

11.21. Fel y mae Adrannau 5 a 9 yn amlinellu a Ffigur 11.4 yn dangos, y pontio i'r ysgol neu'r coleg yw'r pontio y mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn ei wneud yn 16 oed ac mae'n gohirio'r pontio mwy heriol o'r chweched dosbarth neu'r coleg nes eu bod yn hŷn ac yn gyffredinol yn fwy aeddfed ac yn gallu gwneud y pontio. Mewn cyferbyniad, gall y rhai sy'n gadael addysg yn gynharach ar bontio 'llwybr carlam' wynebu dyfodol mwy ansicr (ODPM, 2005, t. 10).¹⁴⁹ Serch hynny, fel y mae Adran 9 yn amlinellu, nid yw gohirio'r pontio tan 18 oed o reidrwydd yn golygu bod pobl ifanc wedi meithrin y galluoedd angenrheidiol ar gyfer y pontio.

¹⁴⁸ Er enghraifft, adroddodd pobl ifanc yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o adnewyddu'r Fframwaith fod cymorth mewn addysg wedi cynyddu'n sylweddol ar ôl iddynt adael addysg orfodol a symud ymlaen i naill ai'r coleg, chweched dosbarth yn yr ysgol neu raglen hyfforddi sy'n gysylltiedig â gwaith fel hyfforddeiaethau. Canmolodd y mwyafrif o bobl ifanc a oedd yn mynychu hyfforddiant coleg neu waith y cymorth yr oeddent wedi'i gael, gan nodi'n benodol y berthynas â'u tiwtoriaid a/neu staff cymorth eraill. Nododd sawl unigolyn, oherwydd bod y tiwtoriaid a'r staff cymorth yn y coleg neu ar hyfforddeiaethau yn 'haws mynd atynt' na staff mewn ysgolion, eu bod yn teimlo'n llawer mwy hyderus wrth ofyn am gymorth pan fo angen, o'i gymharu â'u profiad yn yr ysgol (LWI, 2021a).

¹⁴⁹ Mae newid diwydiannol yn golygu bod llawer o'r llwybrau mwy traddodiadol i gyflogaeth yn 16 oed wedi'u colli (gweler, er enghraifft, Lloyd-Jones, 2005; McDonald a Marsh, 2005).

Ffigur 11.4. Cyfranogiad pobl ifanc yng Nghymru mewn addysg amser llawn yn ôl lefel astudio ac oedran, 2018 a 2023



Ffynhonnell: [Llywodraeth Cymru, 2023e](#)

Casgliad

11.22. Mae'r newidiadau yn natur a maint y cymorth a gynigir i bobl ifanc y cyfrannodd y Warant atynt, ynghyd â'r camau a gymerwyd i chwalu seilos (a drafodwyd yn Adran 8), wedi gwneud y system yn fwy 'cydlynol'. Fodd bynnag, mae'r newidiadau, ynghyd â newidiadau mewn cyllid, yn dilyn diwedd Cronfa Gymdeithasol Ewrop a dechrau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Nghymru, hefyd wedi tueddu i gynyddu, yn hytrach na lleihau cymhlethdod y system gymorth. Felly, yn hytrach na cheisio symleiddio'r system, mae'r sylw wedi tueddu i ganolbwyntio ar helpu pobl ifanc i lywio'r system gymorth. Mae'r dulliau yma wedi cynnwys mynediad at weithwyr arweiniol y Fframwaith i'r rhai rhwng 16 a 18 oed sydd wedi ymddieithrio, neu y bernir eu bod mewn perygl o ymddieithrio, a Cymru'n Gweithio, sef gwasanaeth sy'n cynnig cyngor ac arweiniad diduedd i bobl ifanc i'w helpu i lywio'r dirwedd cymorth gymhleth hon. Fel y mae Adran 9 yn amlinellu, i'r rhai sy'n manteisio ar y cymorth hwn, gall y system deimlo'n 'syml ac yn hygyrch'. Fodd bynnag, fel y mae Adran 9 hefyd yn amlinellu, i'r rhai nad ydynt yn manteisio ar y cymorth hwn, er enghraifft gan un o weithiwr arweiniol y Fframwaith neu Cymru'n Gweithio, gall y system gymorth deimlo'n gymhleth a/neu'n anhygyrch.

12. Casgliadau a myfyrdodau ar y Warant a'r Fframwaith

Cynllun y Fframwaith a'r Warant

- 12.1. Fel y mae Adrannau 4, 5 a 6 yn amlinellu, bu pryderon hirsefydlog am bobl ifanc sy'n cael trafferth pontio i EET, ac mewn ymateb, cyflwynwyd y Fframwaith yn 2013 i leihau nifer y bobl ifanc NEET. Cafodd y pryderon hyn eu cynyddu'n gyflym gan bryderon bod y pandemig, ac roedd ymatebion polisi fel cyfyngiadau symud yn sbarduno argyfwng yn y farchnad lafur a oedd yn taro pobl ifanc yn arbennig o galed. Yn 2021, datblygwyd y Warant yn gyflym o ystyried ofnau yr oedd sail gadarn iddynt y gallai cenhedlaeth o bobl ifanc fod wedi cael eu colli oherwydd effeithiau creithio hirdymor diweithdra ymhlith pobl ifanc.
- 12.2. Fel y mae Adran 6 yn amlinellu, mae'r Fframwaith a'r Warant yn ceisio sicrhau bod y bobl ifanc hynny y mae angen cymorth arnynt i gynnal cyfranogiad mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant ac i wneud cynnydd ynddynt a phontio drwyddynt, yn gallu cael mynediad at gymorth mewn ffordd amserol. Mae'r ddau yn defnyddio dull cydweithredol ar draws systemau sy'n anelu at chwalu rhwystrau rhwng cymorth a darpariaeth addysg a hyfforddiant, sy'n aml yn cael ei nodweddu fel system 'seilo', ac sydd weithiau'n gweithredu, i bob pwrpas, mewn cystadleuaeth â darpariaeth arall. Roedd cytundeb eang ymhlith cyfweldigion o Lywodraeth Cymru a rhaglenni sy'n ffurfio'r Warant bod angen gweithredu a bod dull ar draws systemau yn angenrheidiol. Nod y Fframwaith yw gwneud hyn ar gyfer y rhai 11 i 18 oed drwy gydweithio ar lefel ALL, ac mae'r Warant yn ceisio gwneud hyn ar gyfer pobl ifanc¹⁶ i 24 oed drwy gydweithio yn genedlaethol ac yn rhanbarthol.
- 12.3. Fodd bynnag, fel y mae Adran 6 hefyd yn amlinellu, er eu bod yn rhannu nodau tebyg, mae cynllun y Warant a'r Fframwaith yn wahanol iawn. Rydym yn nodweddu'r Fframwaith fel model 'optio allan' (lle mae'n rhaid i bobl ifanc wrthod y cynnig cymorth yn weithredol)¹⁵⁰, ac mae'r Warant yn fodel 'optio i mewn' (lle mae'n rhaid i bobl ifanc

¹⁵⁰ Fel y mae Adran 5 yn amlinellu, mae'r model hwn yn seiliedig ar olrhain unigolion sydd wedi ymddieithrio neu sydd mewn perygl o ymddieithrio, er mwyn targedu ymdrechion allgymorth gweithredol. Fel y mae Adran 8 yn amlinellu, pan, er enghraifft, mae gweithiwr ieuencid yn gwneud cyswllt, gall pobl ifanc ddewis peidio â manteisio ar y cynnig cymorth – ond mewn gwirionedd maent yn cael eu rhoi mewn sefyllfa lle mae'n rhaid iddynt wneud y dewis hwn.

ddewis manteisio ar gymorth yn weithredol)¹⁵¹. Mae'r gwahaniaeth hwn yn adlewyrchu'r anawsterau wrth olrhain pobl ifanc 18 oed a throsodd (a ddangosir gan fersiwn gyntaf y Fframwaith) a'r disgwyliad bod pobl ifanc 18 oed a throsodd, fel oedolion, yn arfer mwy o alluogedd. Mae'r model optio i mewn yn gweithio'n dda i'r bobl ifanc hynny sy'n ceisio parhau mewn EET neu ailymgysylltu ag EET – ac mae rhwng 85 a 90% o bobl ifanc yn pontio'n llwyddiannus. Mae'n bwysig nad yw'r llwyddiant hwn yn cael ei gymryd yn ganiataol. Serch hynny, mae'r model optio i mewn yn llai addas i'r lleiafrif o bobl ifanc sy'n economaidd anweithgar ac nad ydynt yn mynd ati'n weithredol i ailymgysylltu ag EET (Llywodraeth Cymru, 2024o, 2024t).

Gweithredu'r Fframwaith a'r Warrant

- 12.4. Fel y mae Adrannau 7 ac 8 yn dangos, mae modelau cydweithredol o newid systemau, gweithredu, ac felly amlygiad y Fframwaith a'r Warrant yn ymarferol, yn dibynnu ar benderfyniadau rhanddeiliaid lluosog sy'n gweithredu ar wahanol lefelau mewn gwahanol sectorau.¹⁵² Mae hyn yn arbennig o amlwg mewn perthynas â'r Warrant, lle, mewn cyferbyniad â'r Fframwaith, mae absenoldeb canllawiau manwl wedi rhoi'r hyblygrwydd i'r Warrant ddatblygu dros amser. At hynny, mae nifer ac amrywiaeth y rhanddeiliaid sy'n ymwneud â chyflwyno, ac felly llunio cynnig cymorth y Warrant, yn fwy na nifer ac amrywiaeth y rhanddeiliaid sy'n ymwneud â chyflwyno cynnig cymorth y Fframwaith.

¹⁵¹ Mewn cyferbyniad â model y Fframwaith, yn y Warrant, yr opsiwn diodyn yn gyffredinol yw nad yw person ifanc yn cael cymorth EET gan wasanaethau, oni bai ei fod yn mynd ati i ddewis chwilio amdano a manteisio arno.

¹⁵² Hynny yw, mae'r Fframwaith a'r Warrant fel y maent yn cael eu profi gan bobl ifanc yn cael eu creu, neu'n cael eu hamlygu gan benderfyniadau rhanddeiliaid lluosog sy'n gweithredu ar wahanol lefelau mewn gwahanol sectorau.

12.5. Fel y mae Adran 7 yn dangos, mae cyfweiliadau â'r rhai sy'n ymwneud â chynllunio a/neu gyflwyno'r Fframwaith a'r Warant, a gwerthusiadau o'r gwahanol elfennau o bob un, yn awgrymu bod gweithredu wedi bod yn effeithiol ar y cyfan. Serch hynny, fel gydag unrhyw bolisi neu raglen, mae meysydd i'w gwella hefyd wedi'u nodi. Mae'r rhain yn cynnwys:

- darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad mwy cynhwysfawr a diduedd a gwell cyfathrebu gwybodaeth am lwybrau dysgwyr ôl-16 i'r holl bobl ifanc sy'n gwneud dewisiadau yn 16 oed (Estyn, 2022a, 2022b). Fel y mae Adran 7 yn amlinellu, bwriedir mynd i'r afael â hyn drwy ehangu cynnig Gyrfa Cymru o gyngor ac arweiniad diduedd i bob person ifanc ym mlwyddyn 11.¹⁵³
- cryfhau ymgysylltu â chyflogwyr gan ddefnyddio, er enghraifft, dylanwad Llywodraeth Cymru dros y sector cyhoeddus, dulliau ariannol a'i phŵer ymgynnull i hyrwyddo mwy o ymgysylltiad cyflogwyr a gwaith teg.

Effeithiolrwydd y Fframwaith a'r Warant

12.6. Fel y mae Adrannau 7 ac 8 yn amlinellu, mae'r amrywiaeth o gymorth a ddarperir drwy'r Fframwaith a chan raglenni fel Cymru'n Gweithio, TSC+, CFW+ a'r Gwasanaeth Di-waith, sy'n ffurfio'r Warant, yn effeithiol. Fel y mae Adrannau 7 yn amlinellu, mae tua 40 i 60% o bobl ifanc sy'n cael eu cynorthwyo gan raglenni sy'n ffurfio'r Warant yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol. Fel y mae Adran 9 yn dangos, mae'r Fframwaith a'r Warant yn gwella galluedd, cymhelliant a mynediad pobl ifanc at gyfleoedd, gan eu helpu i bontio. Er enghraifft:

- gall gwybodaeth, cyngor ac arweiniad helpu pobl ifanc i ddeall a llywio llwybrau ôl-16 yn well (cynyddu eu galluogrwydd i wneud hynny);
- gall anogaeth, adborth cadarnhaol, a'r wybodaeth bod rhywun, fel Gweithiwr Arweiniol y Fframwaith, yn gefn i chi helpu i gynyddu cymhelliant pobl ifanc; a
- gall cymorth ariannol neu ymarferol gyda theithio i'r coleg neu'r gwaith neu gyda gofal plant helpu i gynyddu mynediad pobl ifanc at gyfleoedd.

12.7. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd (a amlinellir yn Adran 4 a hefyd Adran 9) deall galluedd, cyfleoedd a chymhellion pobl ifanc ac felly eu hymddygiad mewn cyd-

¹⁵³ Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu mor effeithiol fydd hyn, ac yn ddiweddar mae pryderon wedi cael eu codi o hyd ynghylch i ba raddau y gall pob person ifanc gael mynediad at wybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd ynghylch gyrfaoedd mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc (Senedd, 2025).

destun, a'r ffyrdd y gall cymorth, er enghraifft, gan Weithiwr Arweiniol, wella galluoedd,¹⁵⁴ cyfleoedd a chymhellion pobl ifanc, ac felly annog a galluogi newid ymddygiadol. O ganlyniad, fel y mae Adran 5 yn amlinellu, mae perthnasoedd ag oedolion y gellir ymddiried ynddynt y mae pobl ifanc yn cael eu cymell i estyn allan atynt, ac y bydd pobl ifanc yn derbyn cymorth a, lle y bo'n briodol, her ganddynt yn rhan annatod o raglenni Llywodraeth Cymru fel TSC+, CfW+ a'r Gwasanaeth Di-waith a hefyd llawer o brosiectau'r sector gwirfoddol (a ddangosir gan hanesion pobl ifanc yn Adran 9). Fodd bynnag, mae'r perthnasoedd hyn rhwng pobl ifanc ac oedolion y gellir ymddiried ynddynt yn cymryd amser i'w datblygu a'u meithrin, sy'n amlygu pwysigrwydd cyllid hirdymor ar gyfer gwasanaethau.

- 12.8. Fel y mae Adran 4 yn amlinellu, a'r cyfweiliadau â phobl ifanc, a drafodwyd yn Adran 9 yn dangos, mae effaith y cyd-destun hefyd yn amlygu pwysigrwydd deall natur berthynol galluedd pobl ifanc a meddwl am hyn. Mae galluogrwydd pobl ifanc i lywio cyfnodau pontio yn llwyddiannus, yn dibynnu nid yn unig ar eu priodoleddau eu hunain, ond hefyd ar ffactorau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys y wybodaeth, y cymorth a'r arweiniad y gallant gael mynediad atynt, gan y rhai y maent yn eu hystyried yn oedolion y gellir ymddiried ynddynt fel eu rhieni, athrawon, cynghorwyr gyrfaoedd a gweithwyr ieuencid a/neu gan raglenni cymorth EET ôl-16 fel TSC+, CfW+ a'r Gwasanaeth Di-waith.
- 12.9. Mae'r dystiolaeth a ystyriwyd yn y gwerthusiad hwn a'r Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth (Llywodraeth Cymru 2024t) hefyd yn awgrymu ei bod yn debygol y bydd angen i gamau gweithredu i gynorthwyo pobl ifanc i ailymgysylltu ag EET fod yn seiliedig o leiaf yn rhannol ar gymorth gan oedolion y gellir ymddiried ynddynt a all helpu i estyn allan at bobl ifanc. Dylai hyn anelu at ategu gweithredu sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ysgogi pobl ifanc, fel yr ymgyrch Bydd Bositif ac amodoldeb lles. At hynny, gan y gall amrywiaeth o bobl chwarae rôl oedolyn y gellir ymddiried ynddo, mae'r dull hwn hefyd yn gofyn am berthynas o ymddiriedaeth rhwng oedolion

¹⁵⁴ Fel yr amlinellir yn Adran 4, rydym yn cysyniadu galluogrwydd fel priodoledd unigolion, ond hefyd fel rhywbeth sy'n dibynnu ar y cyd-destun. Mae hyn oherwydd mai'r cyd-destun sy'n pennu pa alluoedd sydd eu hangen, a'r graddau y gall pobl ifanc ategu eu galluoedd eu hunain gyda chymorth gan eraill.

y gellir ymddiried ynddynt a gwasanaethau cymorth EET, fel eu bod yn hyderus yn annog pobl ifanc i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET.¹⁵⁵

- 12.10. Nid syniadau newydd yw'r rhain, ac fel y nodwyd uchod maent yn rhan annatod o lawer o'r rhaglenni sy'n ffurfio'r Warant. Felly, gellir gwneud achos cryf mewn theori dros effeithiolrwydd model y Warant (sydd fel yr amlinellir yn Adran 5 yn unol â thystiolaeth o 'beth sy'n gweithio'), ac mae hyn yn cael ei ategu gan werthusiadau o'r rhaglenni sy'n ffurfio'r Warant. Serch hynny, dylid nodi hefyd bod y darnio o ran casglu data a'r diffyg cymhariaeth uniongyrchol rhwng data rhaglenni ac ystadegau cenedlaethol ar, er enghraifft, anabledd yn ei gwneud yn heriol gwerthuso pa mor effeithiol y bu'r Warant wrth gynorthwyo gwahanol grwpiau o bobl ifanc. Mae'n debygol y bydd mynd i'r afael â hyn yn gofyn am newidiadau i'r ffordd y mae ystadegau gwladol, fel yr Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth, a/neu ddata rhaglenni yn cael eu casglu.
- 12.11. At hynny, lle y maent ar gael, mae gwerthusiadau effaith o'r rhaglenni sy'n ffurfio'r Warant (fel CfW a CfW+) yn awgrymu bod graddau'r ychwanegedd (i ba raddau na fyddai canlyniadau cadarnhaol sy'n gysylltiedig â'r Warant wedi digwydd yn absenoldeb y Warant) yn aml yn isel. Mae'n nodedig hefyd, er bod y gwerthusiad o TSC+ yn gadarnhaol iawn, mae hefyd yn nodi bod graddau'r ychwanegedd yn ansicr (er nad oes gwerthusiad effaith wedi'i gynnal ar hyn o bryd) (Llywodraeth Cymru, 2025e). Mae gwerthusiadau o'r mathau o raglenni sy'n ffurfio'r Warant yn nodi bod lle i gryfhau a gwella'r cymorth y maent yn ei gynnig, a'i effaith ar alluoedd pobl ifanc, eu mynediad at gyfleoedd, eu cymhellion ac yn y pen draw eu hymddygiad (Llywodraeth Cymru, 2024t). Un tensiwn yma yw bod canlyniadau yn tueddu i fod yn well i bobl ifanc sy'n wynebu llai o rwystrau (sydd â galluoedd a chymhelliant cryfach a mynediad at gyfleoedd), ond lle gall graddau'r ychwanegedd fod yn is. Mewn cyferbyniad, fel y mae'r [Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant](#) yn nodi

¹⁵⁵ Fel y mae Adran 9 yn dangos, gall y rhesymau pam mae pobl ifanc yn dewis peidio â manteisio ar gymorth gynnwys natur gwasanaethau neu ganfyddiadau ohonynt a'r stigma canfyddedig sy'n gysylltiedig â chwilio am gymorth. Yn benodol, gall y stigma sy'n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau lles danseilio cymhelliant pobl ifanc i wneud hynny. Gall rwystrau fel problemau iechyd meddwl a diffyg trafnidiaeth hefyd gyfyngu ar eu galluoedd neu eu cyfleoedd (ac felly hefyd eu cymhelliant) i estyn allan am gymorth.

... y rhai â'r galluogrwydd [a'r] cymhelliant gwannaf a/neu'r cyfleoedd mwyaf cyfyngedig, sy'n llai tebygol o ailymgysylltu ag EET heb gymorth, yw'r anoddaf i ymgysylltu â nhw a'u cynorthwyo a'r lleiaf tebygol o gyflawni canlyniadau cadarnhaol os ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET. (ibid., tt. 93-94).

12.12. Felly, mae cyfweiliadau ar gyfer yr astudiaeth hon ac astudiaethau eraill (wedi'u cynnwys yn yr Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth) yn nodi bylchau a gwendidau mewn cymorth i grwpiau fel:

- pobl ifanc sy'n profi problemau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol;
- pobl ifanc niwrowahanol; a
- phobl ifanc mewn ardaloedd gwledig (ibid.).

12.13. At hynny, ac yn fwy sylfaenol, fel y mae'r Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth (ibid.) yn amlygu, mae'r cynnig o gymorth dim ond yn gweithio os yw pobl ifanc yn dewis manteisio arno. Fel y mae Adran 9 yn dangos, er nad yw'n bosibl cyfrifo'n fanwl faint o bobl ifanc nad ydynt yn manteisio ar y cynnig cymorth, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu ei fod yn lleiafrif sylweddol o bobl ifanc. Fel y mae Adrannau 4, 8 a 9 yn nodi, mae galluogrwydd, cymhelliant a chyfle pobl ifanc (yn yr ystyr o absenoldeb cyfyngiadau) i gael mynediad at gymorth yn wahanol. Ar hyn o bryd, mae gormod o bobl ifanc, gan gynnwys gormod o bobl ifanc anabl ac, i raddau llai, menywod, nad ydynt yn manteisio ar yr holl gymorth sydd ar gael ac felly nid ydynt yn cael budd o gynnig y Warrant (ibid.).

12.14. Fel y nododd nifer o gyfweleion o Lywodraeth Cymru, er gwaethaf y gostyngiad hirdymor yn nifer y bobl ifanc NEET ers y dirwasgiad mawr (2008 i 2010)¹⁵⁶ a drafodir yn Adrannau 4, 5 ac Atodiad A, mae'r cynnydd wedi arafu ac, ers y pandemig, mae'r cyfraddau wedi bod yn fwy cyfnewidiol.¹⁵⁷ Felly, fel y dengys Ffigur 12.1, er gwaethaf

¹⁵⁶ Er enghraifft, mae data'r Datganiad Ystadegol Cyntaf yn dangos bod cyfran y bobl ifanc rhwng 19 a 24 oed yng Nghymru sy'n NEET wedi gostwng dros pum pwynt canran dros y degawd diwethaf (gweler Llywodraeth Cymru, 2025h).


¹⁵⁷ Mae data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn awgrymu, ar gyfer pobl 16 i 18 oed yng Nghymru, bod y gyfradd NEET wedi gostwng 3.7 pwynt canran o'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2019 i'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2024 a 2.2 bwynt canran ar gyfer pobl 19 i 24 oed am yr un cyfnod o bum mlynedd (Llywodraeth Cymru, 2025f). Fodd bynnag, mae'r cyfraddau yn gyfnewidiol iawn ac mae ansicrwydd o hyd

y gostyngiadau, mae cyfran y bobl ifanc 19 i 24 oed sy'n NEET wedi parhau i fod yn ystyfnig o uchel. Mae'n bwysig cofio nad oedd y cynnydd mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc ar ôl y pandemig a ragwelwyd yn 2020 i 2021 wedi digwydd – roedd llawer o gyfweleion o Lywodraeth Cymru yn priodoli hyn yn arbennig i lwyddiant y Warant a'r Fframwaith.¹⁵⁸ Mae hefyd yn ddigon posibl y bydd y gostyngiad hirdymor yn nifer y bobl ifanc NEET yn parhau a bydd cerrig milltir 2050 yn cael eu cyflawni, ond mae'n rhy gynnar i farnu.

ynghylch y data a phryderon am, er enghraifft, y gwahaniaeth cynyddol rhwng data'r Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth a'r Datganiad Ystadegol Cyntaf. Mae rhagor o wybodaeth am ansicrwydd cynyddol amcangyfrifon yr Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth ar gael yn y cyhoeddiad [pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant \(NEET\)](#).

¹⁵⁸ Er enghraifft, fel y dywedodd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru: nid oedd y cynnydd mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc 'mor ddrwg ag y gallai fod wedi bod, roedd o leiaf yn cael ei ragweld. Felly mewn gwirionedd, mae hynny'n fesur o lwyddiant, byddwn i'n dweud'.

Ffigur 12.1. Cyfranogiad pobl ifanc 16 i 18 oed a 19 i 24 oed mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yng Nghymru, 2014 i 2023



Ffynhonnell: [Amcangyfrif o unigolion 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn ôl gweithgarwch economaidd a grwpiau oedran \(StatsCymru\), Llywodraeth Cymru](#) ¹⁵⁹

* Mae'r ffigurau ar gyfer 2023 yn rhai dros dro.

12.15. O ystyried yr heriau a'r ansicrwydd hyn, nododd nifer o gyfweleion o Lywodraeth Cymru a chyfranwyr mewn gweithdai, yn eu barn nhw, fod angen newid mwy radical er mwyn cyflawni cerrig milltir 2050. Er enghraifft, fel y dywedodd un cyfwelai o Lywodraeth Cymru, 'Ni allwn ddisgwyl canlyniadau gwell os byddwn yn parhau i weithredu yn yr un ffordd'. Yn yr un modd, fel y casglodd yr [Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant](#), 'mae'n annhebygol y bydd gwneud

¹⁵⁹ Mae hyn yn defnyddio dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r canlynol: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), Arolwg Ystadegau Cynnar Myfyrwyr Addysg Uwch (HESES), y Brifysgol Agored, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR), Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (ABB).

rhagor o'r un peth yn ddigonol'¹⁶⁰ (Llywodraeth Cymru 2024t, t. 100). Mae hyn yn bwysig oherwydd fel y mae Adran 5 yn amlinellu, mewn sawl ffordd roedd y Warrant yn barhad ac ehangu cymorth presennol, yn hytrach na newid radical yn natur y cymorth.

12.16. Os ydym yn tybio, yn seiliedig ar y tueddiadau presennol, efallai na fydd cerrig milltir 2050 bod 90% o bobl ifanc mewn EET erbyn 2050, a bod cyfranogiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cynyddu,¹⁶¹ yn cael eu cyflawni (sydd fel y nodwyd yn gredadwy, ond ymhell o fod yn sicr), yn seiliedig ar y tueddiadau presennol, mae'r Warrant a'r Fframwaith yn wynebu dwy her allweddol:

(1.) cynyddu ymgysylltiad pobl ifanc â gwasanaethau cymorth EET. Mae'r gwerthusiad hwn a hefyd yr Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth (Llywodraeth Cymru 2024t) yn awgrymu ei bod yn debygol y bydd angen strategaethau newydd i gyrraedd y bobl ifanc hynny ac ymgysylltu â nhw, yn enwedig y rhai 19 i 24 oed sydd wedi ymddieithrio'n fwyfwy o EET ac oddi wrth wasanaethau cymorth.

(2.) cynyddu effeithiolrwydd gwasanaethau cymorth EET, fel bod cyfran y bobl ifanc sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol yn cynyddu, ac yn benodol, gwella canlyniadau i'r rhai a oedd wedi ymddieithrio fwyaf o EET (cyn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth).

¹⁶⁰ Er bod yr adolygiad hefyd yn nodi 'nad dim ond yr hyn sy'n cael ei wneud sy'n gwneud gwahaniaeth, ond pa mor dda mae'n cael ei wneud' (Llywodraeth Cymru, 2024, t. 100), sy'n golygu y gallai fod lle i wella modelau presennol hefyd.

¹⁶¹ Y ddwy Garreg Filltir Genedlaethol yw: (1) 'bydd o leiaf 90% o bobl ifanc 16 i 24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050' a (2) 'dileu'r bwlch rhwng cyfradd gyflogaeth Cymru a chyfradd y DU erbyn 2050, gan ganolbwyntio ar waith teg a chynyddu nifer y bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n cyfranogi yn y farchnad lafur' (Llywodraeth Cymru, 2022a, t. 3).

12.17. Mewn ymateb, nododd y gwerthusiad hwn ddiddordeb gan randdeiliaid o bob rhan o Lywodraeth Cymru mewn archwilio newidiadau mwy radical. Fodd bynnag:

- fel yr amlinellwyd uchod, mae'r modelau presennol yn gweithio o leiaf yn weddol dda, ac 'mae'r hyn sy'n gweithio yn cael ei ddeall yn gymharol dda' (gweler y testun mewn blwch); ac
- nid oes 'bwled arian' (neu ateb i bob problem)' ac mae'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer opsiynau mwy radical yn gyfyngedig. (Llywodraeth Cymru 2024t, t. 97)

Felly, fel y noda'r [Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant](#), 'mae hyn yn codi cwestiynau anodd ynghylch y lle gorau i dargedu adnoddau prin' (Llywodraeth Cymru 2024t, t. 99). Er enghraifft, a ddylai adnoddau

- ganolbwyntio ar ymyriadau y mae eu heffeithiolrwydd wedi'i ddangos, ond dangoswyd eu bod yn cael effaith gymedrol yn unig ac nad ydynt yn cyrraedd rhai grwpiau targed; neu
- ganolbwyntio ar ymyriadau nad yw eu heffeithiolrwydd (eto) wedi'i ddangos (gwerthuso), ond a allai fod o fudd i grwpiau nad oes ymgysylltu effeithiol â nhw ar hyn o bryd a/neu nad ydynt yn cael eu cynorthwyo gan ymyriadau presennol (ibid).

12.18. Os yw opsiynau mwy radical yn cael eu ffafrio, mae cyfyngiadau'r sylfaen dystiolaeth yn awgrymu yn hytrach na chymryd yn ganiataol bod ateb wedi'i ffurfio'n llawn yn barod i'w weithredu, mae angen mabwysiadu dull mwy arbrofol (y Gynghrair Tystiolaeth Ddefnyddiol a Nesta, 2016, t. 19). Byddai angen y canlynol ar y dull hwn:

- profi ac addasu amser real; a
- ffocws cryf ar alluoedd a chymhellion pobl ifanc a'u mynediad at gyfleoedd, a'u hymatebion ymddygiadol i fentrau.

Pontio pobl ifanc

12.19. Fel y mae Adran 4 yn amlinellu, mae angen y gallu, y cyfle a'r cymhelliant ar bobl ifanc i bontio'n llwyddiannus ac mae'r Warant yn gweithio ar gyfer nifer fawr iawn o bobl ifanc. Mae dros 50,000 o bobl ifanc bellach wedi manteisio ar gymorth y Warant, gan eu helpu i lywio pontio cynyddol heriol. Serch hynny, fel y mae Adrannau 4, 5 a 9 yn amlinellu, mae heriau pwysig yn parhau. Yn benodol:

- nid oes gan ormod o bobl ifanc y galluogrwydd i bontio'n llwyddiannus, yn enwedig yn 18 oed (diwedd blwyddyn 13). Mae hyn yn tanseilio eu cymhelliant i roi cynnig arni, sy'n golygu bod nifer cynyddol bellach yn economaidd anweithgar, ac yn debygol o fod â llai o gymhelliant i ymgysylltu â chynnig gymorth y Warant¹⁶².
- Mae diffyg cyfle yn gyfyngiad. Mae gormod o bobl ifanc yn cyrraedd llwybrau is-optimaid oherwydd dewisiadau cyfyngedig a gwendidau o ran gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, sy'n golygu bod eu dewisiadau yn 16 oed yn fwy diofyn yn hytrach na dewis gweithredol. Yn 18 oed, mae gwendid mewn marchnadoedd llafur lleol ac, yn enwedig i'r rhai mewn ardaloedd gwledig, anawsterau teithio i gyfleoedd cyflogaeth yn dal rhai pobl ifanc yn ôl. Gall yr anawsterau hyn gael eu gwaethygu gan gyfyngiadau yng ngalluoedd pobl ifanc ac yn eu cymhelliant,¹⁶³ sy'n ei gwneud yn anoddach iddynt oresgyn y rhwystrau hyn.

12.20. O ganlyniad, fel yr amlinellwyd uchod, er bod cyfanswm nifer y bobl ifanc 19 i 24 oed, ac yn enwedig menywod ifanc, sy'n NEET yng Nghymru wedi gostwng ers y Dirwasgiad Mawr (2008 i 2010), roedd cyfran uwch o bobl ifanc

¹⁶² Fel y mae Adran 4 yn amlinellu, mae'n bwysig bod cymhelliant, a'r rhesymau pam mae rhai pobl ifanc, er enghraifft, wedi rhoi'r gorau i chwilio am waith, yn cael eu deall fel rhai sy'n cael eu llunio gan y cyd-destun a ffactorau fel galluogrwydd person ifanc i ddod o hyd i gyflogaeth a'i chynnal a'u mynediad at gyfleoedd cyflogaeth.

¹⁶³ Fel y mae'r hanesion am bobl ifanc a drafodir yn Adran 9 yn dangos, gall pobl ifanc wynebu rhwystrau sylweddol o ran ailymgysylltu ag EET. Gall goresgyn y rhwystrau hyn ofyn am ymdrech, dyfalbarhad ac aberth ar ran pobl ifanc, ac felly mae angen cymhelliant arnynt. Mae pobl ifanc, sy'n teimlo, er enghraifft, nad oes swyddi addas yn lleol neu nad ydynt yn hyderus y bydd cyflogwyr yn gwneud addasiadau rhesymol yn debygol o fod â llai o gymhelliant i geisio goresgyn rhwystrau eraill a allai eu dal yn ôl.

NEET yn economaidd anweithgar yn hytrach nag yn ddi-waith ac yn chwilio am waith yn 2023 o'i gymharu â 2008 (gweler Adran 5 ac Atodiad A). At hynny, mae gormod o bobl ifanc sydd mewn EET nad ydynt yn cyflawni eu potensial oherwydd, er enghraifft, eu bod yn cyrraedd llwybrau addysg neu hyfforddiant is-optimaidd a/neu wedi'u dal yn yr hyn y gellid ei ddisgrifio fel gwaith annheg, sydd â chyflog gwael, yn ansicr ac yn cynnig cyfleoedd cyfyngedig i wneud cynnydd. Fel yr amlinellwn isod, yn ogystal â'r newidiadau i'r Fframwaith a'r Warrant a awgrymwyd uchod, mae hyn yn amlygu'r angen am weithredu pellach, y tu hwnt i gwmpas y Warrant bresennol.

Yr achos dros weithredu y tu hwnt i'r Warrant

12.21. Fel y mae Adran 1, a hefyd Adran 4 yn amlinellu, bydd yr hyn sy'n digwydd y tu allan i'r Warrant, mewn meysydd fel y system addysg cyn 16 oed, system les y DU a'r economi, yn cael effaith fawr ar y Warrant a hefyd ar gyflawni'r cerrig milltir cenedlaethol. Er enghraifft, gellir deall bod addysg cyn-16 (yn fwyaf arbennig ysgolion a darpariaeth ADY) a chymorth gan Gyrfa Cymru, yn cael 'effeithiau i lawr yr afon'¹⁶⁴, sy'n llunio'r galluoedd a'r cymhellion sydd gan bobl ifanc yn 16 oed, ac felly'r mathau o gymorth y gallai fod eu hangen arnynt drwy'r Warrant. Yn ogystal:

- mae'r rhyngwyneb rhwng gwahanol systemau yn bwysig. Er enghraifft, fel y mae Adran 6 yn amlinellu, mae gan weithwyr arweiniol y Fframwaith rôl allweddol wrth helpu pobl ifanc y bernir eu bod mewn perygl o ymddieithrio i lywio'r pontio rhwng systemau addysg a hyfforddiant cyn ac ôl-16 yn llwyddiannus.
- Mae'r Warrant yn effeithio ar y systemau eraill hyn. Er enghraifft, os bydd mwy o bobl ifanc yn pontio'n llwyddiannus yn 16 ac 18 oed i EET, mae llai o bobl ifanc yn debygol o fod yn hawlio budd-daliadau lles sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, ac mae'r economi yn debygol o elwa, a dros amser gallai hyn greu mwy o gyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc.

¹⁶⁴Mae 'effeithiau i lawr yr afon' yn disgrifio effaith rhywbeth sy'n cael ei brofi yn ddiweddarach mewn amser. Er efallai braidd yn ddryslyd, mae 'ymyriadau i fyny'r afon' yn disgrifio ymyriadau i fynd i'r afael â'r mathau hyn o achosion sylfaenol – neu i ddefnyddio iaith yr adroddiad hwn, ffactorau eithaf.

Gweithredu i fynd i'r afael â ffactorau eithaf (yn ogystal â ffactorau agosaf)

12.22. Fel y mae Adran 4 yn amlinellu, un o'r risgiau gyda'r model COM-B yw y gall annog gormod o ffocws ar yr unigolyn a'i 'ddiffygion', a sut, er enghraifft, mae gwendid yng ngalluoedd neu gymhellion person ifanc ar adeg benodol yn ei ddal yn ôl ac yn ei atal rhag manteisio ar gyfleoedd. Er ei bod yn bwysig nad yw pobl ifanc yn cael eu patholegu, nid yw hyn yn golygu y dylid anwybyddu'r gwendidau hyn neu atal y drafodaeth amdanynt; yn wir, mae llawer o lwyddiant yr Warant wedi'i wreiddio yn y ffyrdd y gall rhaglenni cymorth EET ôl-16 wella'r canlynol i bobl ifanc:

- galluoedd, er enghraifft drwy gryfhau sgiliau galwedigaethol, cymdeithasol ac emosiynol;
- cymhelliant, er enghraifft drwy helpu i ysbrydoli pobl ifanc, egluro eu nodau gyrfa a rhoi'r hyder iddynt y gallant gyflawni eu nodau; a
- mynediad at gyfleoedd drwy, er enghraifft, fuddsoddi mewn prentisiaethau a rhaglenni fel TSC+, cyngor ariannol ac ymarferol, a chymorth i'w helpu i oresgyn rhwystrau posibl fel teithio a gofal plant.

12.23. Serch hynny, fel y mae Adran 8 yn amlinellu, gellir dadlau mai un o wendidau'r Warant yw ei bod wedi canolbwyntio mwy ar fynd i'r afael â diffygion unigol, drwy hyfforddiant a chymorth, yn hytrach na newid strwythur cyfleoedd, drwy, er enghraifft, ymgysylltu â chyflogwyr. Fel y mae Adran 4 yn amlinellu, gall dulliau fel y Model Cymdeithasol o Anabledd helpu i liniaru'r risgiau yma drwy ganolbwyntio sylw ar y ffyrdd y mae cymdeithas yn llunio'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc ac felly hefyd, er enghraifft, y galluoedd sydd eu hangen arnynt.

12.24. At hynny, fel y mae Adran 4 yn amlinellu, ac y mae'r hanesion am bobl ifanc yn Adran 9 yn aml yn awgrymu, mae hefyd yn hanfodol ystyried ffactorau eithaf: y rhesymau sylfaenol pam y gall pobl ifanc fod â gwendid yn eu galluoedd neu eu cymhellion ar adeg benodol, a chyfyngiadau a all eu dal yn ôl ac sy'n golygu, fel y mae Adran 9 yn dangos, y gallant gael trafferth wrth bontio. Er enghraifft, bydd profiadau yn y gorffennol wedi llunio datblygiad pobl ifanc (a'u galluoedd), eu meddwl (a'u cymhellion) ac felly hefyd eu

hymddygiad.¹⁶⁵ Bydd rhai o'r ffactorau eithaf hyn yn brofiadau hanesyddol, fel profiadau andwyol neu gadarnhaol yn ystod plentyndod. Bydd eraill yn fwy diweddar, fel profiadau o'r pandemig a'r argyfwng costau byw neu o wahaniaethu mewn lleoliadau addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae hyn yn golygu, fel yr amlinellwyd uchod, bod deall y cyd-destun yn hanfodol bwysig er mwyn deall yn well pam mae rhai pobl ifanc yn ffynnu, ac eraill yn cael trafferth,¹⁶⁶ a hefyd pam mae gan bobl ifanc set benodol o alluoedd, cymhellion, mynediad at gyfleoedd ac ymddygiad ar adeg benodol.

12.25. Mae ffocws ar sut y mae cyd-destunau (gan gynnwys y rhai sy'n ffurfio bywgraffiadau pobl ifanc) yn llunio galluoedd a chymhellion pobl ifanc a'u mynediad at gyfleoedd yn ein hannog i ehangu'r lens i ystyried mathau eraill o ymyriadau y tu hwnt i'r rhai yn y Warant. Mae hyn yn bwysig oherwydd, fel y mae Adrannau 4 ac 8 yn amlygu, mae'n debygol y bydd cyfyngiadau ar y graddau y gall cynnig y Warant o gymorth EET ôl-16 gynyddu galluoedd a chymhelliant pobl ifanc a'u mynediad at gyfleoedd. Felly, os yw cerrig milltir 2050 i'w cyflawni, mae'n debygol bod angen gweithredu (gan gynnwys parhau â'r gweithredu presennol) hefyd:

- mewn addysg a hyfforddiant cyn ac ôl-16 er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu hysbrydoli a'u cynorthwyo i gyflawni mwy a gwneud y mwyaf o'u galluoedd. Mae gweithredu yn y maes hwn yn cynnwys nodi ADY a mynd i'r afael â hynny. Mae hefyd yn cynnwys datblygu galluoedd academiaidd fel darllen, ysgrifennu a mathemateg, a sgiliau cymdeithasol ac emosiynol, fel hunaneffeithiolrwydd a'r gallu i reoli emosiynau;
- mewn addysg cyn-16 ac addysg a hyfforddiant ôl-16, gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau cymorth iechyd meddwl a llesiant ar draws sectorau, gan gynnwys y gwasanaeth ieuencid a'r sector gwirfoddol. Yn y cyd-destun hwn, mae [Fframwaith NYTH](#) a'r [Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol 2025 i 2035](#) yn awgrymu gwerth dull system gyfan o

¹⁶⁵ Gweler er enghraifft, Theori Systemau Ecolegol Bronfenbrenner (1979).

¹⁶⁶ Er enghraifft, mae'r cyd-destun yn llunio mynediad person ifanc at gymorth a all ategu ei alluoedd ei hun, ac mae hefyd yn llunio'r cyfleoedd sydd ar gael iddo.

atal, cymorth cynnar ac ymyrraeth, er mwyn helpu i wella iechyd meddwl pobl ifanc (ac felly eu galluoedd);

- mewn addysg cyn-16 ac addysg a hyfforddiant ôl-16 i wella mynediad at wybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd am lwybrau (o ystyried y gwendidau a nodwyd gan Estyn, 2022a, 2022b). Mae'r camau sy'n cael eu cymryd yma yn cynnwys cynnig Gyrfa Cymru o gyfweliad arweiniad i bawb ym mlwyddyn 11 a'r Hawl i Ddysgu 14 i 16 oed, er mwyn helpu i wella'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc; a
- gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, sydd, fel y mae Adrannau 7 ac 8 yn amlinellu, yn un o'r darparwyr pwysicaf o gymorth cyflogaeth i bobl ifanc (Wilson, 2021). Felly, mae sicrhau 'dull cydlynol a chyflenwol ar gyflogaeth a sgiliau' sy'n dod â darpariaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Llywodraeth Cymru at ei gilydd yn hanfodol bwysig (ibid.), yn enwedig yn dilyn y diwygiadau arfaethedig a amlinellir yn y Papur Gwyn [Get Britain Working](#)¹⁶⁷ gyda chyflogwyr, a hefyd lleoliadau addysg a hyfforddiant, i sicrhau, lle y bo'n briodol, bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud ac ystyried addasiadau pan fydd anawsterau person ifanc yn methu'r diffiniad o 'amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cyfyngu'n sylweddol ar allu person i wneud gweithgareddau bob dydd'¹⁶⁸ neu, er enghraifft, sy'n ymwneud ag anawsterau gyda thrafnidiaeth neu ofal plant.

12.26. Er bod canfyddiadau'r gwerthusiad yn awgrymu bod pob un o'r rhain yn bwysig, mae gwerthusiad i ganfod i ba raddau y mae camau digonol yn cael eu cymryd ym mhob maes ymhell y tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad hwn o'r Warrant a'r Fframwaith. Fodd bynnag, yr hyn sy'n amlwg yw y bydd angen gweithredu ar draws y llywodraeth a thu hwnt ar gyfer pob un, gan ymestyn ymhellach y gwaith llywodraeth traws-adrannol a ddatblygodd y Warrant (a

¹⁶⁷ Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, y Cynnig Ieuenctid estynedig, sy'n cynnwys mynediad i'r Rhaglen Cyflogadwydd Ieuenctid, Hyfforddwyr Cyflogadwydd Ieuenctid, a Hybiau Ieuenctid (Llywodraeth y DU, 2024a).

¹⁶⁸ Dyma'r [Diffiniad o anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010](#).

drafodwyd yn Adran 7) a hefyd gyda Medr,¹⁶⁹ yr Adran Gwaith a Phensiynau ac yn rhanbarthol ac yn lleol drwy waith awdurdodau lleol a phartneriaethau sgiliau rhanbarthol. Mae hyn yn debygol o fod yn heriol, o ystyried cymhlethdod y system cymorth ôl-16 ac EET yng Nghymru ac mae'n debygol y bydd gwersi pwysig o'r profiad o ddatblygu a gweithredu'r Warant fel model o weithio rhyng-adrannol uchelgeisiol sy'n anelu at lunio system gymhleth.

¹⁶⁹ Mae gan Medr ddyletswydd strategol i hyrwyddo cyfle cyfartal mewn addysg drydyddol. Er enghraifft, un o flaenoriaethau strategol y sefydliad yw 'Rhoi'r dysgwr wrth wraidd y system drwy ganolbwyntio ar brofiad dysgwyr yn y system drydyddol a'u llesiant' (Medr, 2025, t. 7).

13. Cyfeiriadau

Y Gynghrai Tystiolaeth Ddefnyddiol a Nesta (2016), [Using Research Evidence: a practical guide, gwefan Nesta](#)

Bourdieu, P (1986), 'The forms of capital' in Handbook of Theory and Research for the Sociology of Education, Golygydd J Richardson: Efrog Newydd, NY: Greenwood Press, tt. 241 i 258.

Bronfenbrenner, U (1979), 'The ecology of human development: Experiments by nature and design', Cambridge, MA: Harvard University Press.

Brown, G, Low, N, Franklyn, R, Drever, E, Mottram, C (2017), [What to consider when choosing between quota samples and probability-based designs, gwefan Llywodraeth y DU](#)

Busnes Cymru (2019), [Adolygiad Annibynnol o gynllunio seiliedig ar dystiolaeth Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Busnes Cymru (2025a), [Cyflogaeth Pobl Anabl, gwefan Busnes Cymru](#)

Busnes Cymru (2025b), [Biwroau Cyflogaeth a Menter | Porth Sgiliau Busnes Cymru, gwefan Busnes Cymru](#)

Gyrfa Cymru (2022), [Cynnig Gwasanaethau Dyfodol Disglair, Cytundeb Partneriaeth gydag Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion 2021 i 2022, gwefan Gyrfa Cymru](#)

Gyrfa Cymru (2024), [Adroddiad Blynnyddol Gyrfa Cymru 2023 i 2024, gwefan Gyrfa Cymru](#)

Gyrfa Cymru (2025), [Cyhoeddi Adroddiad am y Prosiect Profiad Gwaith wedi'i Deilwra. Gwefan Gyrfa Cymru](#)

Ymddiriedolaeth Gofalwyr (2024), [Caring and classes: the education gap for young carers, gwefan Ymddiriedolaeth Gofalwyr](#)

Carers Trust a NIACE (2015), [Supporting Students with Caring Responsibilities: A Resource for Colleges and Services to Help Young Adult Carers Succeed in Further Education, gwefan y Sefydliad Dysgu a Gwaith](#)

Y Ganolfan Strategaethau Economaidd Lleol (2014), '[Working with Community Researchers](#)', [Gwefan CLES](#)

Checkland, P (1981), 'Systems thinking, systems practice', argraffiad J Wiley.

Coleman, J S (1988), 'Social capital in the creation of human capital', American Journal of Sociology 94: tt. 1309 i 35.

Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (2015) [Youth transitions to and within the labour market: A literature review](#)

Desforges, C a Abouchaar, A (2003), 'The Impact of Parental Involvement, Parental Support and Family Education on Pupil Achievement and Adjustment: A Literature Review', Llundain: DfES, [gwefan yr Ymddiriedolaeth Rhifedd Genedlaethol](#)

Edwards, A a Mackenzie, L (2005), 'Steps towards participation: The social support of learning trajectories', International Journal of Lifelong Education, 24: 4, tt. 282 i 302.

Estyn (2022a) [Adolygiad o'r cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru, gwefan Estyn](#)

Estyn (2022b) [Cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd i bobl ifanc 14-16 oed a ddarperir gan gynghorwyr Gyrfa Cymru, gwefan Estyn](#)

Estyn (2023a), [Y system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd, gwefan Estyn](#)

Estyn (2023b), [Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Fawrhydi 2021-2022, gwefan Estyn](#)

Estyn (2024a), [Y system anghenion dysgu ychwanegol: Cynnydd ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol o ran cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gwefan Estyn](#)

Estyn (2024b), [Adolygiad Gweithiwr Arweiniol Ymgysylltu a Dilyniant Ieuenctid, gwefan Estyn](#)

Estyn (2024c), [Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Fawrhydi 2022-2023, gwefan Estyn](#)

Estyn (2025), [Adroddiad sector 2023 - 2024 Dysgu seiliedig ar waith: prentisiaethau, gwefan Estyn](#)

Giddens, A. (1984), 'The constitution of society: Outline of the theory of structuration', Cambridge: Polity Press.

Golley Slater (2023), 'The Principles, Passions and Pressures of Generation Z', adroddiad heb ei gyhoeddi.

Golley Slater (2024a), [Bwydo positifrwydd pobl ifanc, gwefan Golley Slater](#)

Golley Slater (2024b), 'Y Warrant i Bobl Ifanc 2023-2024: Adroddiad diwedd ymgyrch', adroddiad heb ei gyhoeddi.

Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth (2010), [Equality Act 2010: Duty on employers to make reasonable adjustments for their staff, gwefan Llywodraeth y DU](#)

GSR [Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth] (2021), [GSR Professional Guidance Ethical Assurance for Social and Behavioural Research in Government, gwefan Llywodraeth y DU](#)

Arolygiaeth Iechyd Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (2024), [Sut mae gwasanaethau gofal iechyd, gwasanaethau addysg a gwasanaethau plant yn cefnogi anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru? Gwefan AGIC](#)

Holmes, C, Murphy, E a Mayhew, K (2021), 'What accounts for changes in the chances of being NEET in the UK?', Journal of Education and Work, 34: 4.

Pwyllgor Gwaith a Phensiynau Tŷ'r Cyffredin (2024), [Plan for Jobs and employment support, gwefan Senedd y DU](#)

Huxley, K (2024), [Hyb Deallusrwydd Data Gyrfa Cymru: Evaluating Developments and Potential Trajectories in a Changing Environment: Prifysgol Caerdydd](#)

Huxley, K a Davies, R (2023), [How is careers guidance for school pupils prioritised? Gwefan YDG Cymru](#)

Huxley, K a Davies, R (2024), [Understanding inequity in tertiary education in Wales October 2024 Analysis of linked data, gwefan Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru](#)

Y Sefydliad Tegwch Iechyd (2020), [Health Equity in England: The Marmot Review 10 Years On, gwefan y Sefydliad Iechyd](#)

Y Sefydliad Dysgu a Gwaith (2021a), [Refresh of the Youth Engagement and Progression Framework Stakeholder and Youth Consultation Report, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Y Sefydliad Dysgu a Gwaith (2021b) [Facing the future - employment prospects for young people after Coronavirus, gwefan y Sefydliad Dysgu a Gwaith](#)

Lewis, L (2012), 'The capabilities approach, adult community learning and mental health', Community Development Journal, 47: 4: tt 522 i 537.

Lewis, L (2023), 'Interpreting the mental health and wellbeing agenda in adult community learning', Research Papers in Education, 38: 5, tt. 804 i 827.

Lipsky, M (1980), 'Street-level bureaucracy: dilemmas of the individual in public services', Efrog Newydd: Sefydliad Russell Sage.

Lloyd-Jones, S (2005), 'A Map of Transition in the South Wales Valleys', Thesis, PhD: Prifysgol Cymru, Caerdydd.

McDonald, R a Marsh, J (2005), 'Disconnected Youth? Growing Up in Britain's Poor Neighbourhoods': Palgrave Macmillan.

Medr (2025), [Cynllun Strategol 2025-2030, gwefan Medr](#)

McGuire, S (2022), [A difficult nut to crack? How the UK has tackled the youth employment challenge, gwefan Edge Foundation](#)

Michie, S, van Stralen, M a West, R (2011), A' behaviour change wheel: a new method for characterising and designing behaviour change methods, Implementation Science, 6: 42.

Moser, C (1998), The asset vulnerability framework: Reassessing urban poverty reduction strategies, 'World Development', 26: 1, tt. 1 i 19.

Murphy, L (2022a), [Leaving lockdown: Young people's employment in 2021: improvements and challenges in the second year of the Covid-19 pandemic, gwefan Resolution Foundation](#)

Murphy, L (2022b), [Not working Exploring changing trends in youth worklessness in the UK, from the 1990s to the Covid-19 pandemic, gwefan Resolution Foundation](#)

Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (2022), [British Social Attitudes 39 | Broken Britain? Public attitudes in an era of crisis, gwefan Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol](#)

NHS Digital (2023), [Mental Health of Children and Young People in England, 2023 - wave 4 follow up to the 2017 survey, gwefan NHS England Digital](#)

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023), [Disability by age, sex and deprivation, England and Wales: Census 2021, gwefan Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (2005), 'Transitions: young adults with complex needs: A Social Exclusion Unit Final report', [gwefan Digital Education Research](#)

Palys, T (2008), 'Purposive sampling', yn L M Given (Golygydd) The Sage Encyclopaedia of Qualitative Research Methods, Cyf. 2, Sage: Los Angeles, tt. 697 i 698.

Comisiwn Llwybrau at Waith (2024), [Pathways to Work Commission Report, gwefan Cyngor Bwrdeistref Fetropolitan Barnsley](#)

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021), [Llesiant meddyliol plant a phobl ifanc yn ystod pandemig COVID-19. Gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

Roberts, K (1995), 'Youth & Employment in Modern Britain', Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen.

Sen, A (1985), 'Commodities and Capabilities', Efrog Newydd: North-Holland.

Senedd (2018a), [Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Prentisiaethau yng Nghymru, Gwefan y Senedd](#)

Senedd (2018b) [Cadernid Meddwl. Adroddiad ar y newid mawr sydd ei angen o ran cefnogaeth ym maes iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru](#)

Senedd (2020) [Cadernid Meddwl: ddwy flynedd yn ddiweddarach, Gwefan y Senedd](#)

Senedd (2022), [Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Codi'r bar - Sicrhau dyfodol y sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu, gwefan y Senedd](#)

Senedd (2024), [Gweithredu diwygiadau addysg: Adroddiad interim, gwefan y Senedd](#)

Senedd (2025), [Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: canfyddiadau digwyddiad rhanddeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu, gwefan y Senedd](#)

Ymchwil y Senedd (2022a) [Nodi Anghenion Dysgu Ychwanegol: A yw'r bar wedi'i godi neu a oedd y bar yn rhy isel cyn hynny? Gwefan y Senedd](#)

Ymchwil y Senedd (2022b), [Plant a phobl ifanc: a oes argyfwng iechyd meddwl? Gwefan y Senedd](#)

Ymchwil y Senedd (2023), [Adeiladu'r economi: A yw Llywodraeth Cymru yn llwyddo i sicrhau gwaith teg, cynaliadwyedd ac economi'r dyfodol? Gwefan y Senedd](#)

Senedd (2024), [Gweithredu diwygiadau addysg: Pigion, gwefan y Senedd](#)

Speilhofer, T, Benton, T, Evans, K, Featherstone, G, Golden, S, Nelson, J a Smith, P (2009), [Increasing Participation Understanding Young People who do not Participate in Education or Training at 16 and 17, gwefan National Foundation for Education Research](#)

Stewart, A a Wright, S (2018), ['Final findings: Jobseekers', gwefan Welfare Conditionality](#)

Sutton, R (1999), [The Policy Process: An Overview, gwefan y Sefydliad Datblygu Tramor](#)

Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (2024), [Next Steps: What is the experience of young adult carers in education? gwefan UCAS](#)

Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2024a), [Papur Gwyn Get Britain Working, gwefan Llywodraeth y DU](#)

Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2024b), [The employment of disabled people 2024, gwefan Llywodraeth y DU](#)

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2001), Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, Busnes Pawb., Dogfen Strategaeth, Medi 2001.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002), [YMESTYN HAWLIAU: cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru, Cyfarwyddyd a Chanllawiau, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Swyddfa Archwilio Cymru (2014), [Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, gwefan Swyddfa Archwilio Cymru](#)

Swyddfa Archwilio Cymru (2019), [Llesiant Pobl Ifanc, Adroddiad Cryno, gwefan Swyddfa Archwilio Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2011), [Datganiad Ysgrifenedig - Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc 2011-2015, Gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2013), [Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid - Cynllun gweithredu, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2015), [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015, Yr hanfodion, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2016a), [Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru \[adolygiad Hazelkorn\], gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2016b), Special educational needs transition from school to further learning [The Digital Education Resource Archive](#)

Llywodraeth Cymru (2018), [Toward 2030: Final report Review of the oversight of post-compulsory education in Wales, with special reference to the future role and function of the Higher Education Funding Council for Wales \(HEFCW\)](#), gwefan [Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2019a), [Gwerthusiad ffurfiannol o'r fframwaith ymgysylltu a datblygu leuenctid:Adroddiad Terfynol](#), Gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2019b), [Datganiad Ysgrifenedig: Cymru'n Gweithio a Chyflogadwyedd ar draws Cymru](#), gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2019c), [Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu leuenctid: Astudiaeth ddilynol i'r gwerthusiad ffurfiannol](#), gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2019d) [Astudiaeth Gwmpasu ar gyfer Alinio a Datblygu Gwasanaethau Awtistiaeth a Niwroddatblygiadol](#), gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2020a) [Deall y gwahanol ffynonellau ystadegau ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant \(NEET\) yng Nghymru](#), gwefan [Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2020b), [Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur:2018 a 2019 \(dros dro\)](#), gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2020c), [Canllawiau technegol ar gyfer sefydliadau addysg bellach arbenigol Sicrhau darpariaeth ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu](#), gwefan [Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2021a) [“Bydd Gwarant i Bobl Ifanc yn helpu i sicrhau nad oes cenhedlaeth goll yng Nghymru”](#), Vaughan Gething, gwefan Llywodraeth Cymru

[Llywodraeth Cymru \(2021b\), Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021: canllawiau](#), gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2022a) [Y Warant i Bobl Ifanc: asesiad o effaith, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2022b) [Y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid: trosolwg, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2022c), MANYLEB AR GYFER Asesiad Gwerthusadwyedd Ffurfiannol a Gwerthusiad Proses o'r Warant i Bobl Ifanc, Tachwedd.

Llywodraeth Cymru (2022d), [Adolygiad o'r galw, capasiti a chynllun gwasanaethau niwroddatblygiadol, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2022e), [Y Warant i Bobl Ifanc: asesiad o effaith. Gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2022f), [Adolygiad o Raglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru 2016-2022 Adroddiad terfynol, Gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2022g), [Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant \(NEET\): Blwyddyn hyd 31 Rhagfyr 2022, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2022h), [Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd yng Nghymru \(Cyfrifiad 2021\), gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2022i), [Adolygiad o'r Galw, Capasiti a Chynllun Gwasanaethau Niwroddatblygiadol:Adroddiad Llawn, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2022j), [Astudiaeth ddichonoldeb cysylltu data Gyrfa Cymru, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2023a) [Y Warant i Bobl Ifanc: adroddiad sgwrs genedlaethol:Cam 1, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2023b) [Gwerthusiad o Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy: Rhan 1 \(gwerthusiad proses a theori newid\), gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2023c), [Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Di-waith:adroddiad terfynol, Gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2023d), [Rhaglen Adnewyddu a Diwygio – Mentrau Cymorth Prosiectau Ôl-16 a Phontio: asesiad effaith integredig, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2023e), [Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg ac yn y farchnad lafur: 2021 a 2023 \(dros dro\), gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2023f), [Dadansoddiad o faint y busnesau: 2023, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru, (2023g), [Gwerthusiad o'r prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth \(PaCE\): gwerthuso crynodol terfynol, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2023h), [Cyfrifon cyfunol blynyddol Llywodraeth Cymru 2022 i 2023, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2023i), [Y Model Cymdeithasol o Anabledd, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2023j), [Gwerthusiad o'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol: adroddiad cwmpasu, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2024a), [Cyfres Z cenhedlaeth Gwarant Person Ifanc: adroddiad blynyddol 2023, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2024b), [Adolygu cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2024c), [Cyfraddau anweithgarwch economaidd \(ac eithrio myfyrwyr\) yn ôl ardal leol a blwyddyn, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2024d), [Amcangyfrif o unigolion 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn ôl rhyw, gweithgarwch economaidd a grwpiau oedran, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2024e), [Gwerthusiad o Wasanaeth Cymru'n Gweithio: Adroddiad Terfynol, Gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2024f), [Twf Swyddi Cymru Plws, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2024g), [Gwerthusiad Ffurfiannol o Twf Swyddi Cymru+: adrodd interim, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Welsh Government (2024h), [Gwerthusiad proses, effaith ac economaidd Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy: crynodeb ac argymhellion, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2024i), [Gwerthusiad o Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy: nodweddion a phrofiadau'r cyfranogwyr, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2024j), [ReAct Plws, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2024k), [Syniadau Mawr Cymru: Grant Dechrau Busnes Pobl Ifanc, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2024l), [Y Warrant i Bobl Ifanc adroddiad sgwrs genedlaethol: cam 2 a 3, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2024m), [Beth yw Prentisiaeth? gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2024n), [Prentisiaethau: datganiad polisi, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2024o), [Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: Cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant i gyflawni eu nodau: syniadau ac ymddygiad pobl ifanc](#)

Llywodraeth Cymru (2024p), [Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid: adnabod yn gynnar, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2024q), [Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant \(NEET\): Gorffennaf 2023 i Fehefin 2024, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2024r), [Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid: Llawlyfr, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2024s), [Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd fesul chwarter, sector a'r math o raglen, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2024t), [Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: Cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant i gyflawni eu nodau: beth sy'n gweithio, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2024u), [Amcanestyniadau poblogaeth yn ôl blwyddyn ac oedran, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2024v), [Mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer prentisiaethau a dysgu oedolion: Awst 2022 i Orffennaf 2023, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2025a) [Gwarant i Bobl Ifanc\): asesiad gwerthusadwyedd a fframwaith gwerthuso arfaethedig, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2025b), [Y Warrant Pobl Ifanc, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2025c) [Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant \(NEET\): Hydref 2023 i Fedi 2024, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2025d), [Y Warrant i Bobl Ifanc: adroddiad ar brif bwyntiau Mawrth 2024 i Mawrth 2025, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2025e), [Gwerthusiad ffurfiannol o Twf Swyddi Cymru+: adroddiad terfynol, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2025f) [Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant \(NEET\): Hydref 2023 i Fedi 2024, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Llywodraeth Cymru (2025g). [Amcangyfrif o unigolion 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn ôl gweithgarwch economaidd a grwpiau oedran](#)

Llywodraeth Cymru (2025h). [Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur2022 a 2023 \(dros dro, gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Wilson, T (2021), 'Rapid review of employment policy and context: An independent assessment to inform the future refresh of the Wales Employability Strategy', papur heb ei gyhoeddi.

Zhao Y, Wang Z a Ren Z (2023), 'Research on the influence of family capital on academic achievement of first-generation college students in China', *Frontiers of Psychology* [ar-lein], 14: 1174345. doi: 10.3389/fpsyg.2023.1174345.